

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Ieuan Gethin

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Golygydd Ymgynghorol

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, DLITT, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Huw Meirion Edwards, BA, DPHIL

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Barry J. Lewis, MA, MPHIL, PHD

GWAITH IEUAN GETHIN

golygwyd gan

ANN PARRY OWEN



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
2013

□ Prifysgol Cymru ©, 2013.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 978-1-907029-12-7

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Dull y golygu

Lluniwyd testunau cyfansawdd o'r cerddi gan ddangos y darlleniadau amrywiol (ond nid rhai orgraffyddol pur) yn yr 'Amrywiadau' ar waelod y testun. Os yw'n sicr fod testun yn gopi o destun arall sydd wedi goroesi, ni nodir yr amrywiadau ohono. Os yw darlleniad amrywiol yn digwydd mewn grŵp o llawysgrifau, cofnodir ef yn orgraff y llawysgrif hynaf yn y grŵp hwnnw. Os oes llinell neu linellau yn eisiau mewn llawysgrif, nodir y rheini mewn bachau petryal wrth drafod trefn y llinellau. Os yw llinell yn anghyflawn, neu os yw gair neu eiriau'n annarllenadwy oherwydd staen, twll, &c., dynodir hynny â bachau petryal gwag.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Gwelir o'r drafodaeth ar iaith Ieuan Gethin ei fod yn barod i fanteisio ar ffurfiau llafar neu ansafonol, yn enwedig er mwyn ateb gofynion mydr neu gynghanedd (tt. 21–2), a dilynwyd arweiniad y llawysgrifau ynglŷn â'r ffurfiau hynny. Cadwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys heb eu diweddarau (*gwedy, ym, ymy, yd, &c.*) ac yn achos y ddeusain *-aw-*, *-aw / -o-*, *-o*, dilynwyd arweiniad y llawysgrifau, gan fod y bardd yn amlwg yn defnyddio'r ddwy ffurf. Diweddarwyd *-ei-*, *-ei* yn *ai*, gan nad oes dim i awgrymu nad nodwedd orgraffyddol bur oedd yr *ei*.

Y mae naws ystorïol i nifer o'r cerddi a cheisiwyd cyfleu ychydig o'r naws honno yn yr aralleiriad, gan aralleirio ar draws y cwpled yn hytrach na fesul llinell. Ni ddefnyddir bachau petryal ond pan ychwanegir yn sylweddol at yr ystyr.

Ceir mynegai cynhwysfawr i eirfa Ieuan Gethin ar ddiwedd y gyfrol (heb gynnwys y ddwy gerdd yn yr Atodiad). Dynodir y geiriau a drafodir yn y nodiadau ag 'n'. Yn y mynegeion i enwau priod, rhestrir pob un enw person a lle a geir yng ngherddi Ieuan Gethin.

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch o galon i Dr Iestyn Daniel am drosglwyddo gwaith Ieuan Gethin i'm gofal ar ei ymddeoliad o'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn haf 2012, ar ôl pedair blynedd ar bymtheg yn aelod gwerthfawr iawn o brosiect Beirdd yr Uchelwyr. Er i mi ailolygu'r cerddi o'r newydd, dibynnais yn drwm ar ei drawsysgrifiadau ef o nifer o'r testunau. Yr wyf yn ddiolchgar iawn am gymorth a chynghor y canlynol wrth baratoi'r gwaith: Bwrdd Golygyddol a Golygydd Ymgynghorol 'Cyfres Beirdd yr Uchelwyr', golygyddion a staff Geiriadur Prifysgol Cymru, staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, a hefyd Dr Bleddyn Owen Huws, Mr Daniel Huws a Mr Eurig Salisbury. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r golygydd copi, Dr Gwen Angharad Gruffudd, am ei gwaith gofalus ac am ei chefnogaeth wrth baratoi'r gyfrol ar gyfer ei hargraffu.

Ann Parry Owen

Cynnwys

DULL Y GOLYGU.....	v
DIOLCHIADAU	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol.....	ix
Termau a geiriau.....	xviii
GWAITH IEUAN GETHIN	
RHAGYMDRODD	1
TESTUN	
1. Cais i ryddhau Owain Tudur o'r carchar	27
2. Cwyn am ddifa bydafau	38
3. Y llwynog a'r wÿdd	43
4. Y ceiliog	48
5. Marwnad Ieuan y töwr.....	52
6. I'r ferch eurwallt.....	57
7. Helynt wrth garu	62
8. Marwnad Siôn ab Ieuan Gethin.....	67
9. Marwnad ei ferch.....	72
10. Marwnad Owain Tudur	80
Atodiad	
I. I Ieuan Gethin gan Ieuan Ddu ap Dafydd ab Owain	86
II. Marwnad Ieuan Gethin gan Iorwerth Fynglwyd	88
NODIADAU.....	91
MYNEGAI	157
Enwau personau.....	176
Enwau lleoedd	177
LLAWYSGRIFAU	179
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF.....	187
MYNEGAI I'R GWRTHRYCHAU	189

Byrfoddau

Llyfryddol

ArchifMR	‘Cronfa Ddata Enwau Lleoedd: Archif Melville Richards’ < http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/ >
ASCent	<i>Apocryffa Siôn Cent</i> , gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2004)
B	<i>Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd, 1921–93</i>
Bangor	Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Bangor
Bangor (Mos)	Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) ym Mhrifysgol Bangor
BaTh	<i>Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a’r Alban</i> , gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996)
BD	<i>Brut Dingestow</i> , gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
BL Add	Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
Bodewryd	Llawysgrif yng nghasgliad Bodewryd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Bodley	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen
ByCy Ar-lein	‘Y Bywgraffiadur Ar-lein’ < http://yba.llgc.org.uk/cy/index.html >
CAMBM	<i>Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum</i>
Card	Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
CLC ²	<i>Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru</i> , gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)

- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–93; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993–
- CMOC² *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*, gol. Dafydd Johnston (ail arg., Caerdydd, 1998)
- CMRWBM *A Catalogue of the Manuscripts relating to Wales in the British Museum*, ed. Edward Owen (4 vols, London, 1900–22) (Cymmrbyrodorion Record Series No. 4)
- CO³ *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans gyda chymorth D.H. Evans (ail arg., Caerdydd, 1997)
- CPR *Calendar of Patent Rolls preserved in the Public Record Office* (London, 1891–1986)
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- CyT *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol*, gol. Iestyn Daniel *et al.* (Caerdydd, 2003)
- D (Diar) Yr adran ar ddiarhebion yn *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632)
- DE *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- DGG² *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
- DG.net ‘Dafydd ap Gwilym.net’, gol. Dafydd Johnston *et al.* : <dafyddapgwilym.net>
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- DNB Online ‘Oxford Dictionary of National Biography’ <<http://www.oxforddnb.com/>>
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols, Aberystwyth, 1991–3)

- EL Henry Lewis, *Yr Elfen Ladin yn yr Iaith Gymraeg* (Caerdydd, 1943)
- EVW M.E. Griffiths, *Early Vaccination in Welsh with English Parallels* (Cardiff, 1937)
- EWGT *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Bartrum (Cardiff, 1966)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GC *Gwaith Casnodyn*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1999)
- GCH III *Glamorgan County History*, III, ed. T.B. Pugh (Cardiff, 1971)
- GDC *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2002)
- GDEp *Gwaith Dafydd Epynt*, gol. Owen Thomas (Aberystwyth, 2002)
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GDG³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDGor *Gwaith Dafydd Gorlech*, gol. Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GDID *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. A. Eleri Davies (Caerdydd, 1992)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- Genesis ‘Llyfr Genesis’ yn yr Hen Destament
- GGGr *Gwaith Gruffudd Gryg*, gol. Barry J. Lewis ac Eurig Salisbury (Aberystwyth, 2010)
- GGI² *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGLI *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)

- GGM *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill*, gol. Nerys Ann Howells (Aberystwyth, 2001)
- GGMD i *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, i, Canu i deulu Penmynydd*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2003)
- GGMD ii *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, ii, Canu Crefyddol*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2005)
- GGMD iii *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, iii, Canu Amrywiol*, gol. Ann Parry Owen (Aberystwyth, 2007)
- GG.net ‘Guto’r Glyn.net’, gol. A. Parry Owen *et al.* <gutorglyn.net>
- GHC *Gwaith Hywel Cilan*, gol. Islwyn Jones (Caerdydd, 1963)
- GHD *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GHS *Gwaith Hywel Swrddwal a’i Deulu*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000)
- GIF *Gwaith Iorwerth Fynglwyd*, gol. Howell Ll. Jones ac E.I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GILIF *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lewys Aled*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2003)
- GIRh *Gwaith Ieuan ap Rhydderch*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2003)
- Glam Bards J.M. Williams, ‘The Works of Some Fifteenth Century Glamorgan Bards’ (M.A. Wales [Aberystwyth], 1923)
- GLD *Gwaith Lewys Daron*, gol. A. Cynfael Lake (Caerdydd, 1994)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1994)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)

- GLMorg *Gwaith Lewys Morgannwg*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2004)
- GLI *Gwaith Llawdden*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2006)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GLIG *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)
- GLIGt *Gwaith Llywelyn ap Gutun*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2007)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GMBen *Gwaith Madog Benfras ac eraill o feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg*, gol. Barry J. Lewis a Twm Morys (Aberystwyth, 2007)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GO *L'oeuvre poétique de Gutun Owain*, ed. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–2002)
- GPC² *Geiriadur Prifysgol Cymru* (ail arg., Caerdydd, 2003–)
- GPhE *Gwaith Syr Phylip Emlyn, Syr Lewys Meudwy a Mastr Harri ap Hywel*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2001)
- R.A. Griffiths: PW i R.A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277–1536* (Cardiff, 1972)
- GRhB *Gwaith Rhys Brydydd a Rhisiart ap Rhys*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1976)
- GRhGE *Gwaith Rhys Goch Eryri*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2007)

- GSC *Gwaith Siôn Ceri*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)
- GSCMB ‘Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor’ (unpublished volume, University of Wales, Bangor, 1962)
- GSCyf *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd ‘Sypyn Cyfeiliog’ a Llywelyn ab y Moel*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998)
- GST *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (2 gyfrol, Caerdydd, 1980)
- GwalchCG ‘*Gwalch Cywyddau Gwŷr*’: *Ysgrifau ar Guto’r Glyn a Chymru’r Bymthegfed Ganrif*, gol. Dylan Foster Evans, Barry J. Lewis ac Ann Parry Owen (Aberystwyth, 2013)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwynedd Davies yn Llyfrgell Prifysgol Bangor
- GyB *Galar y Beirdd: Marwnadau’r Plant / Poets’ Grief: Medieval Welsh Elegies for Children*, gol. a chyf. Dafydd Johnston (Llandysul, 1993)
- GyN *Gwaith y Nant*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2013)
- HCLI *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- Huw Arwystl: Gw J. Afan Jones, ‘Gweithiau Barddonol Huw Arwystl’ (M.A. Cymru [Caerdydd], 1926)
- HVN D. Rhys Phillips, *The History of the Vale of Neath* (Swansea, 1925)
- ID *Casgliad o Waith Ieuan Deulwyn*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1909)
- Ieuan Gethin, &c.: Gw Nest Scourfield, ‘Gwaith Ieuan Gethin ab Ieuan ap Lleision, Llywelyn ap Hywel ab Ieuan ap Gronw, Ieuan Du’r Bilwg, Ieuan Rudd a Llywelyn Goch y Dant’ (M.Phil Cymru [Aber-tawe], 1993)

- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- Ioan ‘Yr Efengyl yn ôl Sant Ioan’ yn y Testament Newydd
- Iolo MSS *Iolo Manuscripts*, ed. Taliesin Williams (Ab Iolo), (Abergavenny, 1848)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- LBS S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols, London, 1907–13)
- LPMG George T. Clark, *Limbus patrum Morganiae et Glamorganiae* (London, 1886)
- LSEW *List of Sheriffs for England and Wales: From the Earliest Times to A.D. 1831*, Lists & Indexes No. IX (Public Record Office, London, 1898)
- Llanofer Llawysgrif yng nghasgliad Llanofer yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LIB *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd*, gol. Stephen J. Williams a J. Enoch Powell (Caerdydd, 1942)
- LIC *Llyfr Colan*, gol. Dafydd Jenkins (Caerdydd, 1963)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LIU Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd, 2005)
- MCF ‘Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth’, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
<<http://maldwyn.llgc.org.uk/>>
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)

- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- NBMM Eirian E. Edwards, 'Noddwyr y Beirdd yn Siroedd Morgannwg a Mynwy' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1970)
- NLWCM J.H. Davies, *The National Library of Wales Catalogue of Manuscripts*, i (Aberystwyth, 1921)
- ODCC³ *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed., Oxford, 1997)
- OED Online 'The Oxford English Dictionary'
<<http://www.oed.com>>
- OIG i *Orgraff yr Iaith Gymraeg*, i (Caerdydd, 1928)
- PBA *Proceedings of the British Academy*, 1903–
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Peniarth 57 *Peniarth 57*, transcribed by E. Stanton Roberts (Cardiff, 1921)
- Peniarth 67 *Peniarth 67*, transcribed and ed. by E. Stanton Roberts (Cardiff, 1918)
- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- R *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (2 vols, London, 1898–1910)
- SCWMBLO F. Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford* (Oxford, 1924)
- Stowe Llawysgrif yng nghasgliad Stowe yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- TLIM G.J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948)

TNA	Yr Archifdy Gwladol (The National Archives) yn Llundain
Traeth	<i>Y Traethodydd</i> , 1845–
Treigladau	T.J. Morgan, <i>Y Treigladau a'u Cystrawen</i> (Caerdydd, 1952)
TWS	Elissa R. Henken, <i>Traditions of the Welsh Saints</i> (Cambridge, 1987)
TYP ³	<i>Trioedd Ynys Prydein: The Triads of the Island of Britain</i> , ed. Rachel Bromwich (third ed., Cardiff, 2006)
WATU	Melville Richards, <i>Welsh Administrative and Territorial Units</i> (Cardiff, 1969)
WCD	P.C. Bartrum, <i>A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000</i> (Aberystwyth, 1993)
WG	J. Morris Jones, <i>A Welsh Grammar</i> (Oxford, 1913)
WG1	P.C. Bartrum, <i>Welsh Genealogies AD 300–1400</i> (Cardiff, 1974)
WG2	P.C. Bartrum, <i>Welsh Genealogies AD 1400–1500</i> (Aberystwyth, 1983)
I. Williams: ELI	Ifor Williams, <i>Enwau Lleoedd</i> (Lerpwl, 1945)
WM	<i>The White Book Mabinogion</i> , ed. J. Gwenogvryn Evans (Pwllheli, 1907; adarg., Caerdydd, 1973)
WWR ²	H.T. Evans, <i>Wales and the Wars of the Roses</i> (second ed., Stroud, 1995)
Wy	Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstey yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
YB	<i>Ysgrifau Beirniadol</i> , 1965–
YT	<i>Ystoria Taliesin</i> , ed. Patrick K. Ford (Cardiff, 1992)

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	<i>fl.</i>	<i>floruit</i>
<i>a.</i>	<i>ante</i>	<i>g.</i>	gwrywaidd
adf.	adferf	gn.	geiryn
adfl.	adferfol	goddr.	goddrych
amhff.	amherffaith	gol.	golygydd, golygwyd
amhrs.	amhersonol		gan
amr.	amrywiad, -iol	grb.	gorberffaith
anh.	anhysbys	grch.	gorchmynnol
ardd.	arddodiad, -iaid	grff.	gorffennol
arf.	arferiadol	gthg.	gwrthyferbynier, -iol
arg.	argra'ad	gw.	gweler
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	gwrth.	gwrthrych
At.	Atodiad	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
b.	benywaidd	<i>id.</i>	<i>idem</i>
ban.	bannod	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
be.	berfenw	ll.	lluosog; llinell
bf. (f.)	berf, -au	Llad.	Lladin
<i>c.</i>	<i>circa</i>	llau.	llinellau
<i>c. (g.)</i>	canrif	llsgr.	llawysgrif
C.	Canol	llsgrau.	llawysgrifau
cf.	cymharer	m.	marw; mewnol
cfrit.	gradd gyfartal	myn.	mynegol
cmhr.	gradd gymharol	n.	nodyn
cyf.	cyfieithiad	neg.	negydd, -ol
Cym.	Cymraeg	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
cys.	cysylltair, cysylltiad	pres.	presennol
d.g.	dan y gair	prff.	perffaith
dib.	dibynnol	prs.	person, -ol
dyf.	dyfodol	pth.	perthynol
e.	enw	r	<i>recto</i>
eb.	enw benywaidd	rh.	rhagenw, -ol
e.c.	enw cyffredin	S.	Saesneg
ed.	<i>edited by, edition</i>	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
e.e.	er enghraifft	<i>s.v.</i>	<i>sub verbum</i>
eg.	enw gwrywaidd	td. (d.)	tudalen
engh.	enghraifft	tr.	treigladd
enghrau.	enghreifftiau	tr.ml.	treigladd meddal
eith.	gradd eithaf	tt.	tudalennau
e.p.	enw priod	un.	unigol
f.	ffolio	v	<i>verso</i>
ff.	ffolios	vols	<i>volumes</i>

Rhagymadrodd

Ei enw, ei achau a'i fro

Bardd-uchelwr o Faglan yn ne-orllewin sir Forgannwg oedd Ieuan Gethin. Cyfeirir ato gan amlaf fel Ieuan Gethin ab Ieuan ap Lleision, gan enwi ei dad a'i daid,¹ boed hynny yn y priodoliadau ar ddiwedd y cerddi neu mewn dogfennau cyfoes.² Y mae'n bosibl i Ieuan ddefnyddio enw ei daid, nid yn unig er mwyn osgoi cymysgu ag Ieuan ab Ieuan arall yn yr ardal, ond er mwyn amlygu'r cysylltiad â'r enw 'Lleision', enw amlwg iawn yn achau'r teulu hwn a adwaenid yn ddiweddarach fel y Lleisioniaid neu'r 'Lysans'.³

Nid ymddengys o'r achau fod Gethin yn epithet cyffredin yn y teulu,⁴ a gall mai er mwyn gwahaniaethu rhyngddo a'i dad y rhoddwyd ef ar y bardd. Cyfeirio at liw coch tywyll ei wallt a wna yn ôl pob tebyg,⁵ a chyfeiria Ieuan ato'i hun ddwywaith fel *bardd cethin*, gan chwarae, o bosibl, ar ail ystyr *cethin*, sef 'gwyllt'.⁶

Ar ochr ei dad, gallai Ieuan Gethin olrhain ei linach yn ôl i Iestyn ap Gwrgan, un o dywysogion cynnar Morgannwg.⁷ Er bod peth ansicrwydd ynglŷn â phwy yn union oedd ei fam, ymddengys mai merch o Lyn-nedd ydoedd a'i bod yn disgyn o linach Einion ap Gollwyn, un arall o hen deuluoedd y sir ac un yr oedd sawl cangen ohono'n noddwyr pwysig i feirdd ym Morgannwg erbyn y bymthegfed ganrif.⁸ Yn ei farwnad i Ieuan Gethin,

¹ Gw., e.e., olnodion y cerddi isod.

² Cf. y modd y cyfeirir at Drahaearn ab Ieuan ap Meurig o Ben-rhos (y canodd Guto'r Glyn gywydd iddo yn gofyn am gael benthg Llyfr Greal ar ran yr Abad Dafydd o Lyn-y-groes) yn gyson â'i batronymig llawn mewn dogfennau a cherddi: gw. GG.net nodyn noddwr 'Trahaearn ab Ieuan o Ben-rhos, fl. 1454–1480au'.

³ Gw. WG1 'Iestyn' 1–6 am yr enw Lleision yn y teulu hwn, a cf. John Leland, *The Itinerary in Wales of John Leland in or about the Years 1536–1539*, ed. L.T. Smith (London, 1906), 30, wrth gyfeirio at y teulu hwn yng ngorllewin Morgannwg c.1535–9, *The Lysans say, that their familie was there in fame afore the Conquest of the Normans*.

⁴ WG1 'Iestyn' 1–6.

⁵ Am amrediad ystyron *cethin*, gw. GPC 471 'rhuddgoch, tywyll, melynddu, brych, gwineulwyd, gwineuddu, dwn, llwythgoch'; efallai fod y disgrifiad yn WM 152.11–12 o'r *tri gweis moel gethinyon yn gware gwydbwyll* yn awgrymu y gallai gyfeirio at liw croen hefyd (o bosibl croen sy'n tueddu i fynd yn dywyll yn haul yr haf).

⁶ GPC *l.c.* 'gwyllt, cas, milain, ffyrnig, caled, llym, gerwin; ofnadwy; hyll, hagr, erchyll'.

⁷ EWGT 105 ('Gwehelyth Morgannwg'), 122 ('Brenhinllwyth Morgannwg'); LPMG 79–80. Ymhellach ar y gangen hon o'r teulu, gw. E.E. Edwards, 'Cartrefi noddwyr y beirdd yn siroedd Morgannwg a Mynwy', LICy 13 (1980–1), 195–6.

⁸ Yn LPMG 80, dywedir i dad Ieuan Gethin, Ieuan ap Lleision, briodi Jenet ferch Gwilym ap Hywel Fychan ap Hywel Melyn o benrhyn Gwyr gan nodi 'others marry him to' Elen ferch ac aeres Rhys ap Llywelyn ap Goronwy ap Caradog o Lyn-nedd. Yn WG1, fodd bynnag, dywedir mai mam Ieuan Gethin oedd Efa ferch Llywelyn ap Rhys ap Goronwy ap Caradog, o'r un teulu o Lyn-nedd.

gwnaeth Iorwerth Fynglwyd yn fawr o gyswllt Ieuan â'r llinach hon: *Pan gwympawdd 'n y dyfnglawdd du— / Ieuan Gethin yn gwaethu— / cwympawdd holl lwyth y Gollwyn.*⁹ Disgynyddion o'r un llinach oedd y teulu diwylliedig a drigai yn Aberpergwm yng Nglyn-nedd, '[c]artref y noddwyr mwyaf nodedig oll a fu yn y sir'.¹⁰ Y mae'n ddigon posibl mai yno y cyflwynodd Ieuan ei gerdd ysgafn yn cwyno bod gweision Siôn Gwyn ap Rhys ap Siancyn o Aberpergwm wedi difa ei fydafau.¹¹

Yn ôl achau P.C. Bartrum, yr oedd gwraig Ieuan Gethin, Elsbeth, hithau'n hanfod o deulu diwylliedig, yn wyres i Ifor Hael o Wernyclepa,¹² noddwr Dafydd ap Gwilym ac un a ystyrid gan feirdd y bymthegfed ganrif yn batrwm o'r noddwr delfrydol.¹³ Nid yw Ieuan Gethin yn enwi ei wraig yn ei gerddi, er rhoi llais iddi yn ei farwnad i'w merch,¹⁴ ond y mae'r achau y dibynnodd P.C. Bartrum arnynt a'r cofnod yn y *Calendar of Patent Rolls* a drafodir isod yn gytûn mai Elsbeth oedd ei henw (er ei bod yn ddigon posibl iddo gael mwy nag un wraig yn ystod ei oes, wrth reswm¹⁵).

Rhestrir saith o blant i Ieuan ac Elsbeth yn achau P.C. Bartrum, a phlentyn arall anghyfreithlon i Ieuan.¹⁶ Gan mai tuedd yr achau yw diogelu enwau'r rhai sydd wedi goroesi eu plentyndod ac sydd, fel arfer, wedi priodi a chael plant eu hunain, nid yw'n syndod na chadwyd enw Siôn, ei fab ifanc a fu farw o'r pla du ac y canodd Ieuan farwnad iddo (cerdd 8).¹⁷ Nid yw Ieuan yn enwi ei ferch a fu farw o'r pla, ond ceir awgrym ei bod yn hŷn nag oedran plentyn pan fu farw;¹⁸ eto, os nad oedd hi'n briod, y mae'n annhebygol y byddai ei henw wedi ei ddiogelu yn yr achau. Yn y gerdd storïol 'Y llwynog

Ymhellach ar noddwyr beirdd Morgannwg a ddisgynnai o Einion ap Gollwyn, gw. E.E. Edwards, *art.cit.* 191–4.

⁹ GIF 29.9–11 (gw. At.II.9–11 isod).

¹⁰ E.E. Edwards, *l.c.* Gw. hefyd yr achres, td. 3 isod. Wrth drafod y nifer fawr o deuluoedd nawdd ym Morgannwg a ddisgynnai o Iestyn ap Gwrgan neu Einion ap Gollwyn, meddai C.W. Lewis, 'The bards of Morgannwg in the fourteenth and fifteenth centuries', GCH III, 496, 'Many of the families maintained their own household bards and took keen and intelligent interest in various facets of Welsh scholarship ... There can be no doubt that the most important of all these households was Aberpergwm in the Neath Valley.'

¹¹ Gw. nodyn cefndir cerdd 2 isod. Yn yr un modd awgryma H.M. Edwards mai yn Aberpergwm y canodd y Nant rai o'i gerddi achlysurol yntau, gw. GyN cerddi 15, 16.

¹² WG1 'Cydifor Fawr' 16, sy'n dilyn Gruffudd Hiraethog yn Pen 178, i, 43, gw. ByCy Ar-lein dan 'Ieuan Gethin ap Ieuan ap Lleision'; cf. GCH III, 498.

¹³ Cf., e.e., GG.net 47.47–50, 63.19–20, 87.3–4.

¹⁴ Isod 9.61–72.


¹⁵ Tybed pwy yw'r Alis Wgawn a folir yng nghywydd Ieuan Ddu ap Dafydd ab Owain i Ieuan Gethin? Ai gwraig Rhys, y noddwr o Frycheiniog yr ymosododd Ieuan Gethin arno (ar gerdd)? Gw. At.I.41–8 *Noddiwr mawl yn nyddiau'r mis / Yn deilwng ond i Alis; / Cyd bai, doeth, cydwybod iawn, / Loyw ei saig, Alis Wgawn; / A hael, gulael ymgeledd, / A mwyn am ei gwin a'i medd. / Nid â hon, waedlon adlaes / Er arch ar ei march i'r maes.*

¹⁶ Gw. WG1 'Cydifor Fawr' 16, 'Iestyn' 6.

¹⁷ *Ib.* 'Iestyn' 6.

¹⁸ Gw. 9.13–16n.

a'r wŷydd' (cerdd 3), cyfeiria Ieuan at Wenllïan sy'n aelod o'i deulu.¹⁹ Tybed ai hon yw'r Wenllïan a enwir yn ferch iddo yn yr achau?²⁰



¹⁹ Gw. 3.39.

²⁰ WG1 'Iestyn' 6.

²¹ Seilir yr achres ar wybodaeth a gafwyd yn *ib.* 'Iestyn' 1–6, 'Cydifor Fawr' 16, 'Einion ap Gollwyn' 1, 2, 7, 11 ac WG2 'Einion ap Gollwyn' 11F₂.

²² Yr oedd disgynyddion i frodyr Ieuan Gethin hwythau'n noddwyr beirdd, gw. E.E. Edwards, *art.cit.* 195, e.e. canodd Lewys Glyn Cothi gywydd marwnad i fab Lleision ei frawd, sef Wiliam ap Lleision ab Ieuan o Ynysmaerdy (GLGC cerdd 109). Priododd chwaer Ieuan Gethin, Efa, â Dafydd ap Hopgyn o'r Llysnewydd ym mhlwyf Llansamlet, a chadwyd cerddi gan Lewys Glyn Cothi ac Ieuan Deulwyn i'w mab Siôn ap Dafydd ap Hopgyn (*ib.* cerdd 95; ID cerdd XLIX) a chan Lewys eto i'w fab yntau, Dafydd ap Siôn (GLGC cerddi 96–101). Ar y canu i ddisgynyddion pellach y rhain, gw. E.E. Edwards, *art.cit.* 195–6.

²³ Rhys ap Siancyn yw'r cynharaf o deulu Aberpergwm y cadwyd cerddi iddo: canodd Guto'r Glyn gywydd iddo sy'n rhoi pwyslais ar ei ddysg neilltuol (GG.net cerdd 15 a'r nodyn noddwr 'Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd, *fl. c.* 1440'); cadwyd iddo gerddi hefyd gan Ieuan ap Hywel Swrdwal (GHS cerdd 27) a Hywel Dafî (gw. P. Lynch, 'Aberpergwm a'r Traddodiad Nawdd', *Nedd a Dulais*, gol. H.T. Edwards (Llandysul, 1994), 16–17).

²⁴ Fe'i henwir yn 2.3–4 *Siôn / Gwyn ap Rhys* ... Yr oedd Siôn a'i wraig Elsbeth yn noddwyr pwysig i feirdd, a barnu wrth nifer y beirdd a ganodd ar eu haelwyd, gw. E.E. Edwards, *art.cit.* 193. Canodd Hywel Dafî yn ogystal i'w ferch, Siwan Ddu, a'i gŵr Llywelyn ap Gwilym o Borthgogof, Ystradfellte (Peniarth 67 cerdd LXIX), a chan y Nant cadwyd cerddi i'w meibion hwythau, Siancyn (GyN cerdd 4) a Rhys (*ib.* cerddi 2 a 3). Gall mai merch i Siôn ap Rhys oedd Gwladus y ceisiodd Harri Gruffudd o'r Cwrtnewydd ac Ieuan Gethin ennill ei serch (gw. GG.net cerdd 34 a'r nodyn cefndir, ond barn M. Haycock, 'Dwsin o brydyddesau? Achos Gwladus "Hael" ac eraill', *Dwned*, 16 (2010), 111–12, yw mai merch oedd honno i Siancyn ap Rhys Fychan, o gyff gwahanol o'r un teulu (WG1 'Einion ap Gollwyn' 3).

²⁵ Am y canu i Rys ap Siôn, 'y penteulu enwocaf oll' o'r teulu hwn, gw. E.E. Edwards, *art.cit.* 194.

Cysylltir Ieuan Gethin â phlwyf Baglan, rhwng afonydd Nedd ac Afan yng ngorllewin cwmwd Afan ym Morgannwg.²⁶ Nid yw Ieuan yn enwi ei gartref yn ei gerddi, ond dichon mai yno, uwchlaw Môr Hafren, y lleolwyd ei farwnad i'w ferch.²⁷ Wrth ganu marwnad i Ieuan, disgrifiodd Iorwerth Fynglwyd ef fel *proffwyd bywiawglwyd Baglan*, gan ddisgrifio'r modd y pylodd disgleirdeb ei lys yn sgil ei farwolaeth:

Llys lân Faglan ddifyglyd
a ddug wyn, mae'n ddu i gyd.²⁸

Yn ôl Iolo Morganwg, trigai Ieuan ym Mlaen Baglan, a fuasai'n gartref am genedlaethau, meddai, i linach farddol a ddisgynnai o Iestyn ap Gwrgan:

Ieuan Gethin ap Ieuan Lleision oedd yn byw ym Mlaen Baglan a pherchen ar y lle yn wr bonheddig o waed uchel ac yn ysgolhaig mawr, efe oedd y prydydd gorau Nghymru ar len ac ysmalewch, a llawer a fuant yn ddisgyblion iddo.²⁹

Honnodd ymhellach fod eisteddfod wedi ei chynnal yno yn 1170 dan nawdd Morgan ap Caradog, wŷr Iestyn ap Gwrgan. Nid oes unrhyw sail i hynny nac ychwaith i'w honiad pellach mai mewn eisteddfod yno tua'r flwyddyn 1350 y cyflwynodd Rhys Meigen gerdd ddychan i Ddafydd ap Gwilym, cyn i Ddafydd ateb ymhen blwyddyn â cherdd ddeifiol yn dychanu Rhys yng nghartref Llywelyn ap Gwilym yn Emlyn, gan achosi marwolaeth ddisymwth Rhys.³⁰ Mewn ffynonellau eraill, fodd bynnag, cysylltir Ieuan â Phlas Baglan, castell Cymreig a godwyd yn y ddeuddegfed ganrif yn ôl pob tebyg.³¹

²⁶ WATU 303, map rhif 83. Cf. disgrifiad Rhys Amheurg o'r Cotel o blwyf Baglan, *Within it stands an ancient house ... where Ieuangethyn ap Jeuan ap lyson dwelt* (dyfynnir yn TLIM 24).

²⁷ Cf. 9.63 lle y sonia am Fôr Hafren ac *ib.* llau. 59–60 lle y disgrifia'i hun a'i wraig yn *Sarrug mewn cuddug yn coddî—gar môr*.

²⁸ GIF 29.25–6, 40 (gw. At.II isod).

²⁹ Gw. Llanofor 62, 330. Gw. Coflein <<http://www.coflein.gov.uk>> dan 'Blaen Baglan' lle y'i disgrifir fel 'Substantial farmhouse rebuilt by William Williams circa 1600, described in 2000 by Cadw as being derelict'.

³⁰ Iolo MSS 92 a gw. TLIM 26 lle yr awgrymir mai gweld y cyfeiriad yng nghywydd Ieuan Ddu ap Dafydd ab Owain at Ieuan yn ymosod ar ryw wŷr o'r enw Rhys a ysgogodd Iolo i lunio'r stori hon am Rys Meigen; am y cyfeiriadau hynny, gw. isod At.I.15–24.

³¹ Coflein <<http://www.coflein.gov.uk>> dan 'Plas Baglan'; hefyd *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire: Glamorgan iii, Part 1a, Medieval Secular Monuments: Early Castles* (1991), 149, 'Plas Baglan, despite its name, "Palace", or "Mansion of Baglan", and its genteel literary associations of the 15th and 16th centuries, is a strongly fortified site, a castle rather than a moated site. Its vestiges and location indicate a Welsh masonry castle that certainly existed by the 13th century, and was probably founded in the previous century', a gw. *ib.* 152 lle y cysylltir Ieuan Gethin yn benodol â'r plas.

Dyddiadau a gyrfa

Prin yw'r deunydd sydd gennym i lunio disgrifiad o yrfa Ieuan Gethin. Bardd-uchelwr yn 'canu ar ei fwyd ei hun' ydoedd, ac ni chadwyd ganddo gorff o gerddi mawl a marwnad traddodiadol i noddwyr a fyddai'n gymorth i ni roi ambell ddyddiad a lleoliad i'w ganu. Ymateb personol i ddigwyddiadau yn ei fywyd yw'r ysbrydoliaeth i'r rhan fwyaf o'i gerddi. Er hynny, gellir lloffa rhai manylion bywgraffyddol ohonynt ac o ambell ffynhonnell arall.³²

O'r deg cerdd a dderbynnir yn waith dilys i Ieuan, dwy yn unig y gellir eu dyddio'n weddol hyderus. Cerdd yn gofyn am ryddhau Owain Tudur o garchar Newgate yw'r naill, a ganwyd yn y cyfnod byr rhwng carcharu Owain yn fuan ar ôl marwolaeth ei wraig, Catherine o Valois, ar 3 Ionawr 1437, a'i ddihangfa o'r carchar ar ddechrau Chwefror 1438.³³ Cerdd farwnad i Owain yw'r llall, a ganwyd yn fuan wedi ei ddiennyddio yn Henffordd ar 7 Chwefror 1461, ychydig ddyddiau ar ôl ei gipio'n garcharor ar faes brwydr Mortimer's Cross.³⁴ Nid oes unrhyw awgrym yn y naill gerdd na'r llall ym mha le y canwyd hwy. Ymddengys mai i'r cyfnod rhwng canu'r ddwy gerdd hyn y perthyn y gerdd 'Cwyn am ddifa bydafau' (cerdd 2). Apelir ynddi am gymorth y siryf Syr Wiliam i ddal y drwgweithredwyr,³⁵ a gellir ei uniaethu ef un ai â Syr Wiliam ap Tomas, siryf Morgannwg rhwng 1440 a'i farwolaeth c.1445, neu â Syr Wiliam Herbert a ddaliodd yr un swydd yn 1453, 1455 ac 1460.³⁶ Nid oes dim yn nhestun y cerddi eraill a allai fod o gymorth i'w dyddio, er ei bod hi'n debygol ddarfod canu 'Helynt wrth garu' (cerdd 7) cyn c.1440 gan iddi gael ei chopio i lawysgrif Pen 57 yn Ystrad-fflur oddeutu'r flwyddyn honno.³⁷

Un o Gaereinion oedd Ieuan y tŵr y canodd Ieuan Gethin ffugfarwnad iddo, ac y mae'n ddigon posibl mai yn yr ardal honno y canwyd y gerdd, gan na cheir copi ohoni yn yr un o lawysgrifau Morgannwg.³⁸ Gall mai adnabyddiaeth Ieuan Gethin o'r bardd Gwilym ab Ieuan Hen, sef mab Ieuan y tŵr yn ôl pob tebyg, a'i tynnodd i'r ardal honno.

Beth ynteu am dystiolaeth allanol? Ystyriwn i ddechrau dystiolaeth dogfennau cyfoes cyn troi at dystiolaeth y beirdd a gydoesai ag ef.

³² Rhoddir y flwyddyn 1450 ar gyfer ei ganu gan John Davies, Mallwyd, yn ei restr o feirdd a'u dyddiadau yn *Dictionary Duplex* (Londinium, 1632); cf. ByCy Ar-lein 'fl. c. 1450' a gw. ymhellach B.O. Huws, 'Dyddiadau Ieuan Gethin', *LICy* 20 (1997), 49n20.

³³ Gw. nodyn cefndir cerdd 1 isod. Tybed ai gwall argraffu yw'r dyddiad '1437-48' a rydd G.J. Williams i'r cywydd yn TLIM 25?

³⁴ Gw. nodyn cefndir cerdd 10 isod.

³⁵ 2.59-60 *Y siryf, ruddiau sirian*, / *Syr Wiliam, gledd dinam glân*.

³⁶ Gw. ymhellach nodyn cefndir cerdd 2.

³⁷ D. Johnston, 'Trosglwyddiad cerddi Guto'r Glyn' yn *GwalchCG* 45, 48 *et passim*; D. Huws, *Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes* (i ymddangos) dan Peniarth 57.

³⁸ Fel y gwelir isod, td. 23, yr oedd G.J. Williams, TLIM 28, yn amheus o ddilysrwydd y gerdd hon oherwydd y diffyg copïau o Forgannwg.

Cadwyd dau gyfeiriad sicr at Ieuan Gethin mewn cofnodion cyfoes. Y mae'r naill yn digwydd mewn dogfen sy'n cadarnhau trosglwyddo tir gan *Ieuan Gethyn ap Ieuan ap Leison* i *David ap Ieuan Kilwert*; arwyddwyd hon yng Nghynffig, nid nepell o gartref Ieuan ym Maglan, ar 21 Medi 1441.³⁹ Ond y cyfeiriad pwysicaf yw'r un y tynnodd Bleddyn Owen Huws sylw ato wrth drafod dyddiadau Ieuan Gethin (a dibynnwyd yn drwm yma ar ei drafodaeth fanwl ef).⁴⁰ Yn y *Calendar of Patent Rolls* o dan y dyddiad 26 Gorffennaf 1410, ceir y cofnod canlynol yn esbonio fel y bu i Ieuan Gethin ab Ieuan ap Lleision a'i wraig dderbyn pardwn gan y brenin am droseddau'r gorffennol:

Pardon to Jevan Gethyn ap Jevan ap Leyson of South Wales and Elizabeth his wife for all treasons, issurrections, rebellion, felonies, extortions, oppressions, misprisions, trespasses and offences committed by them. By K. on the information of Henry, prince of Wales.

Fel y noda Huws, y mae'r rhestr o droseddau'n dilyn fformiwla arferol pardynau a roddwyd i gefnogwyr Owain Glyndŵr yn y cyfnod hwn.⁴¹ Dyma awgrym cryf, felly, fod Ieuan wedi cymryd rhan yn y gwrthryfel ym Morgannwg, a fu ar ei anterth yno rhwng 1403 ac 1406. Gan ei fod ef a'i wraig wedi derbyn pardwn ar yr un pryd, gallwn dybio eu bod wedi priodi erbyn canol degawd cyntaf y bymthegfed ganrif, a chan fod yn rhaid i ddyn fod o leiaf 14 oed i briodi yn y cyfnod hwnnw,⁴² rhaid gosod dyddiad geni Ieuan oddeutu'r flwyddyn 1390, os nad ynghynt. Felly hen fardd, wedi cyrraedd, os nad wedi mynd heibio i oedran yr addewid, a ganodd farwnad i Owain Tudur yn 1461.

Ceir gan Iolo Morganwg hanes am Ieuan Gethin yn gorfod ffoi i Fôn yn y cyfnod yn dilyn methiant y gwrthryfel ym Morgannwg:

Ieuan ap Ieuan Lleison a fu gydag Owain Glyndyfrdwy yn torri Cestyll y Twyllbendefigion ym Morgannwg, a phan aeth y dydd yn erbyn Owain a gorfod arno fyned dan gel a Chudd, gorfu hefyd ar Ieuan ap Lleison fyned yn wr cel a chudd hyd Fôn at hen gyfaill câd iddaw...⁴³

Ni roddwyd fawr o goel ar y stori yn y gorffennol, gan gredu ei bod yn nodweddiadol o ffugiadau Iolo.⁴⁴ Ond gan ei bod yn eithaf sicr bellach fod

³⁹ *Cartae et Alia Munimenta quae ad Dominium Glamorgancia pertinent*, IV (Talygarn, 1910), 1579–80.

⁴⁰ Gw. B.O. Huws, *art.cit.* 46–55; dyfynnir y cofnod ar d. 47, wedi ei godi o CPR 1408–13, 216.

⁴¹ B.O. Huws, *art.cit.* 47 (a hoffwn ddiolch iddo am gael gweld copi o lythyr R. Rees Davies ato, dyddiedig 18 Gorffennaf 1997, yn cytuno â'i awgrym, 'Rwy'n siwr eich bod yn llygad eich lle fod cysylltiad dilys rhwng Ieuan Gethin a'r gwrthryfel').

⁴² *Ib.* 49.

⁴³ Trafodir yr hanesyn yn llawn *ib.* 46. Am yr hanes gan Iolo Morganwg, gw. Iolo MSS 199.

⁴⁴ Cf. Glam Bards x 'nid oes pwys brwynen i'w roddi ar y fath haeriad oherwydd mympwy Iolo ei hun ydyw. Ni cheir yr un sôn amdano mewn unrhyw lawysgrif, ac ni chyfeirir ato yn un o'i

Ieuan Gethin wedi cymryd rhan yn y gwrthryfel, y mae'n dilyn, fel y nota Huws, y gall fod elfen o wirionedd yn stori Iolo: ni allwn brofi na gwrthbrofi hynny. Ond os yw'n wir, y mae'n taflu goleuni pellach ar ganu Ieuan i Owain Tudur a gwybodaeth y bardd am ei linach a'i gartref ym Môn.⁴⁵

Gan nad yw *Gethin* yn epithet anarferol yn yr Oesoedd Canol, nid yw'n syndod fod yr enw 'Ieuan Gethin' i'w ganfod mewn dogfennau yn y cyfnod ar hyd a lled Cymru, ond heb enw'r tad a'r taid, nid oes modd gwybod ai at y bardd o Faglan y cyfeirir, ac felly afraid eu crybwyll i gyd yma.⁴⁶ Fodd bynnag, y mae'n ddigon posibl mai ein bardd ni yw'r Ieuan Gethin a enwir gyda William Branketre yn feili yng Nghaerfyrddin yn 1447–8.⁴⁷

Beth ynteu a ddysgwn o gyfeiriadau beirdd eraill ato? Ceir tystiolaeth fod ymryson farddol wedi ei chynnal rhwng y Prol, Ieuan Gethin ac Ieuan ap Rhydderch, a hynny ym Maglan, ym marn G.J. Williams.⁴⁸ Ymddengys mai'r Prol a gychwynnodd drwy ddychanu Ieuan Gethin, ac iddo yntau ateb. Ni chadwyd yr un o'r ddwy gerdd hynny, ond cadwyd awdl a gyfansoddodd Ieuan ap Rhydderch i ddychanu'r Prol am iddo ymosod ar Ieuan Gethin.⁴⁹ *Profaist ymryson, meddai Ieuan ap Rhydderch wrtho, â Ieuan prif ganuau, / Prifardd dellt baladr a gwaladr golau.*⁵⁰ Cydoesai Ieuan Gethin, felly, â'r Prol ac Ieuan ap Rhydderch. Yn ei olygiad o waith Ieuan ap Rhydderch, dywed R. Iestyn Daniel, 'efallai na fyddem ymhell o'n lle yn dyddio blynyddoedd einioes Ieuan ap Rhydderch o c. 1390 hyd c. 1470'.⁵¹ O ran y Prol, credir yn gyffredinol mai'r un dyn ydoedd â'r Proll a ganodd awdl foliant i Domas ap Hopgyn o Ynysforan⁵² a gofnodwyd c.1400 yn Llyfr Coch Hergest, a'i chanu, yn ôl pob tebyg, rywbryd yn negawd olaf y bedwaredd ganrif ar ddeg.⁵³ Ni chadwyd unrhyw gerddi eraill ganddo. Gan fod G.J. Williams yn credu bod Ieuan Gethin wedi cychwyn ei yrfa farddol tuag adeg canu'r gerdd i ryddhau Owain Tudur o'r carchar yn 1437, awgrymodd y gallai'r Prol/Proll fod wedi canu 'gryn ddeugain mlynedd' wedi 1400.⁵⁴ Ond gan ei bod yn weddol sicr fod Ieuan Gethin wedi dechrau

gywyddau. Hefyd gwelir olion Iolo mewn ymadrodd fel "gŵr cel a chudd", canys dyma ei hoff ddull ef o ysgrifennu; cymharu ei lef "yn wyneb haul a llygad goleuni". Cf. hefyd TLIM 24–5, 'Diamau mai Iolo ei hun a luniodd yr hanes hwn ...'.

⁴⁵ Cf., e.e., 1.5n, 26n, 66n.

⁴⁶ Tynnir sylw at rai ohonynt gan B.O. Huws, *art.cit.* 48, a gellir canfod rhagor drwy archwilio gwefan ISYS Llyfrgell Genedlaethol Cymru: <<http://isys.llgc.org.uk/>>.

⁴⁷ R.A. Griffiths: PW i, 340.

⁴⁸ TLIM 26.

⁴⁹ GIRh cerdd 10.

⁵⁰ *Ib.* 10.32–4.

⁵¹ *Ib.* 17.

⁵² Cyflwynir y dadleuon dros uniaethu'r Prol a'r Proll yn gyflawn gan R. Iestyn Daniel yn *ib.* 190–1.

⁵³ Gw. *ib.* 190n9 ar ddyddiad y llaw; gthg. GDC 142 lle dilynir barn RWM ii, 20 mai yn chwarter olaf y 15g. y cofnodwyd y gerdd yn Llyfr Coch Hergest.

⁵⁴ TLIM 26n25.

canu hyd at ddeng mlynedd ar hugain cyn canu'r gerdd i Owain Tudur yn 1437, gall yr ymryson fod yn perthyn i gyfnod cynharach yn y ganrif.

Y mae'n amlwg fod gan Ieuan ap Rhydderch feddwl uchel iawn o Ieuan Gethin, gan ei fod yn neilltuo cryn dipyn o linellau i'w foli yn ei gerdd ddychan i'r Prol. Fe'i disgrifir fel bardd *tirion ei rwyddiaith*, fel arglwydd dewr ei amddiffyn i Forgannwg, fel un hael ei roddion a'i groeso yn ei lys, yn enwedig i [r]awd o glêr a rhawd o feirddion, ac arwyddocaol iawn, yng ngoleuni ei ran debygol yng ngwrthryfel Glyndŵr, yw'r cyfeiriadau at ei filwriaeth:

Pam yr ymwychaist (oeraist eirau)
 Â Ieuan Gethin, haelwin heiliau?
 Pert farchog rhwyog, hil rhiau—clotchwyrn,
 Traglew i'r cedyrn, treiglwr cadau,
 Tarian Morgannwg, diwg dehau,
 Tirion ei rwyddiaith, terwyn reiddiau,
 Treisfaedd anwar dewr tros fyddinau,
 Trawsior cywirddoeth, trwsiw'r cerddau,
 Teŷrnwalch gloywfalch gleifau,—aruthr raith,
 Tŵr ymerodraeth, taer ym mrwydrau.

Rhuddaur Ieuan, eirian orau,
 Rhydd ar eirfydr, rhwyddiwr arfau,
 Rhyydd yn aros, rhaidd yn aerau,
 Rhan gyneddfawr, rhin gyneddfau,
 Rhawd o feirddion, rhed o fyrddau,
 Rhagorodd clod rhi g;raidd clau.

Braisg walch, ŵyr Lleisawn, loywwdawn wleddau,
 Brwysgai rawd o glêr, braisg wirodau,
 Brwydr waedled a bair brawdwr odlau,
 Breiniol a gweddol ei gywyddau.⁵⁵

Cyfeirir ymhellach at Ieuan Gethin mewn cywydd gan Guto'r Glyn sy'n adrodd am yr ymgiprys a fu rhwng Ieuan a Harri Gruffudd am serch Gwladus, merch o Lyn-nedd.⁵⁶ Y mae'n debygol mai yng nghartref Harri Gruffudd, sef y Cwrtnewydd, ym mhlwyf Bacton, swydd Henffordd, y canwyd y gerdd.⁵⁷ Cafodd Harri oes hir, a barnu wrth ddyddiadau ei flodeuo, c.1425–67, ac ymddengys iddo farw tua'r flwyddyn 1478.⁵⁸ Dysgwn gan Guto fod Harri dipyn yn iau nag Ieuan Gethin, ac yn wir, cyngor y bardd i

⁵⁵ GIRh 10.44–63.

⁵⁶ GG.net cerdd 34.

⁵⁷ Cf. *ib.* nodyn esboniadol, lle yr awgrymir y dylem '... ddeall y gerdd fel adloniant rhwng dynion a berfformiwyd yn llys Harri ei hun ac yn bell o Lyn-nedd'.

⁵⁸ Gw. *ib.* nodyn noddwr 'Harri Gruffudd o'r Cwrtnewydd, *fl.* c.1425–67'.

Wladus yw ei bod yn well iddi gymryd Harri yn garwr na chael ei swyno gan *awen henwr* yr un a ddisgrifir fel *meistr* ac *athro* iddi:

Os caru hon, nis cair hi,
 Cared dyn ieuanc Harri.
 Chwannog yw'r ferch wen a gân
 I gywydd serchog Ieuan;
 Er caru awen henwr,
 Ni châr gwen chwarae â'r gŵr.
 Ai nid edwyn y dyn da
 Anniweirdeb hen wrda?⁵⁹

Dyddir y gerdd hon yn betrus gan ei golygydd diweddaraf, Barry J. Lewis, i'r 1440au neu'r 1450au, ac y mae'n sicr y byddai Ieuan Gethin ar dir i'w ystyried yn hen ŵr erbyn hynny (a derbyn iddo gael ei eni c.1390).⁶⁰ Byddai Harri, yntau, yn ei dridegau hwyr o leiaf, os ganwyd ef yn negawd cyntaf y bymthegfed ganrif: yn wir, ni ddywed Guto ei fod yn ŵr ifanc fel y cyfryw, dim ond awgrymu ei fod yn iau nag Ieuan Gethin.⁶¹

Canodd Ieuan Ddu ap Dafydd ab Owain o Frycheiniog gywydd i Ieuan Gethin,⁶² ac er nad oes unrhyw wybodaeth ynddo a allai fod o gymorth i'w ddyddio, y mae'n awgrymu bod Ieuan Gethin wedi canu ym Mrycheiniog. Cerddi moeswersol yn null Siôn Cent yw gweddill canu Ieuan Ddu, ac nid oes modd cynnig dyddiad ar eu cyfer hwythau ychwaith.⁶³ Cerdd o foliant yw hon yn ei hanfod, ond ymddengys fod Ieuan Gethin wedi defnyddio ei awen yn y gorffennol i ymosod ar noddwr o'r enw Rhys a drigai ym mro Ieuan Ddu ei hun, Brycheiniog.

Mawrdeg ŵr, mae ar dy gân
 Dy wawd, a'i dyrnawd arnan,

⁵⁹ Gw. *ib.* 34.44, 47–54.

⁶⁰ Cf. B.O. Huws, *art.cit.* 52, sy'n awgrymu i'r gerdd gael ei chyfansoddi 'oddeutu 1445–7'; fe'i gosodir 'rywbryd wedi canol y bymthegfed ganrif' yn TLIM 26 a c.1441 gan S. Lewis, 'Gyrfa filwrol Guto'r Glyn', YB IX (1976), 82–2.

⁶¹ Gw. GG.net, nodyn noddwr 'Harri Gruffudd o'r Cwrtnewydd, *fl.* c.1425–67'; A. Chapman, '“He took me to the duke of York”: Henry Griffith, a “man of war”' yn GwalchCG 106 *et passim*.

⁶² Atgynhyrchir golygiad N. Scourfield o'r gerdd yn At.I isod.

⁶³ Ymhellach ar Ieuan Ddu ap Dafydd ab Owain, gw. TLIM 26n24; hefyd, gw. LIU 257 lle y priodola D. Johnston iddo gywydd ymddiddan â phenglog ('Y benglog ddierynglod'), a briodolir yn y llsgrau. hefyd i Siôn Cent, Gwilym ap Sefyn a Llywelyn Goch ap Meurig Hen. Cyhoeddwyd y cywydd hwnnw fel gwaith Llywelyn Goch yn DGG² cerdd LXXXVII, ond yn ei olygiad o waith Llywelyn Goch daeth D. Johnston i'r casgliad, 'y tebyg yw ei fod yn waith y lleiaf adnabyddus o'r pedwar bardd, sef Ieuan Ddu ap Dafydd ab Owain, bardd o Frycheiniog a ganodd nifer o gerddi moeswersol', GLIG 10. Priodolir i Ieuan Ddu hefyd gerddi eraill yn null Siôn Cent, megis 'Dilys gan anfedrus gau' (a briodolir hefyd i Ieuan ap Rhydderch ond i Siôn Cent yn y mwyafrif o'r llsgrau., gw. GIRh 35, ASCent 15 ac fe'i golygir yn *Gwaith Siôn Cent*, gol. T. Matthews (Llanuwchllyn, 1914), 21–4); a chywydd 'I'r bywyd ofer' (*Llanstephan 6*, ed. E.S. Roberts (Cardiff, 1916), 153).

meddai Ieuan wrtho, ac ymhellach:

Saethaist i'n gwlad, had hudweilch,
 Saethau o barablau beilch.
 Brys dy hwyl, bwriaist i hon
 Brathau gywyddau brithion;
 Peth yn glod, nid pwyth enw glân,
 Llwyr nâg, llawer yn ogan.⁶⁴

Cymherir Ieuan Gethin yn y gerdd â Gruffudd Gryg, oherwydd natur gynhennus y bardd hwnnw a fu'n ymryson â Dafydd ap Gwilym: *Gruffudd, bencerdd goreuffawd / Gryg wych, da y gorug wawd. / ... / Tithau, Ieuan, un annwyd; / Gruffydd o newydd ynn wyd.*⁶⁵ Apelia Ieuan Ddu ar i Ieuan Gethin sicrhau na fydd y drwg a fu rhyngddo a Rhys yn effeithio ar ei agwedd tuag at Frycheiniog ei hun:

Os am wybod bod bonedd
 Rhys i'n gwlad, rhoes enwog wledd.
 Na dddwg i'n gwlad fad fedrus
 Anghlod, er bod rhod â Rhys;
 Testungar, mewn tost angerdd
 Y ceni, cywely cerdd.
 Cyd bych digrif a phrifardd
 A gŵr hy â geiriau hardd,
 Nid digrif, rif ryfelbarth,
 Gwawd a wnêl gogan a gwarth.⁶⁶

Ymddengys, felly, fod Ieuan Gethin wedi bod yn ymryson ar aelwyd y Rhys hwn ym Mrycheiniog, er nad oes unrhyw dystiolaeth yn ei gerddi iddo ganu yn yr ardal honno.

Down yn olaf at farwnad Iorwerth Fynglwyd i Ieuan Gethin, yr unig farwnad iddo sydd wedi goroesi.⁶⁷ Er mai confensiwn y canu marwnad yw'r cwyno ynddi fod Ieuan wedi marw *ddoe*,⁶⁸ nid oes dim ynddi i awgrymu nad yn fuan wedi marwolaeth y bardd y canwyd hi a go brin y gellid ei dehongli'n gerdd a ganwyd flynyddoedd yn ddiweddarach, er enghraifft fel teyrnged ar gais y teulu. Ond o dderbyn hynny, cyfyd anhawster oherwydd dyddiadau tybiedig Iorwerth Fynglwyd. Yn ei olygiad o'i waith, dangosodd E.I. Rowlands fod Iorwerth wedi marw 'yn fuan wedi Lewys Môn, a phrofwyd ewyllys hwnnw, yn ôl pob tebyg, 28ain Mehefin 1527'.⁶⁹ Ni ellir dyddio'r un o gerddi Iorwerth ar ôl 1526, ac ym marn Rowlands, 'I chwarter

⁶⁴ At.I.7–14.

⁶⁵ *Ib.* llau. 25–6, 31–2.

⁶⁶ *Ib.* llau. 15–24.

⁶⁷ Gw. GIF cerdd 29 (atgynhyrchwyd y testun isod, At.II)

⁶⁸ Cf. At.II.15–16 *Torres Duw ddoe—trist o ddydd—/ llinyn yr holl awenydd.*

⁶⁹ GIF 3.

cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg y mae'r rhan fwyaf o lawer o'i gerddi yn perthyn' er bod ambell un, meddai, yn hŷn na hynny.⁷⁰ O ran y cerddi eraill hynny y mae'n gallu cynnig dyddiad iddynt, ni chred fod yr un i'w dyddio cyn 1485,⁷¹ ac ar sail hynny, meddai, 'anodd credu bod Iorwerth Fynglwyd yn canu cyn gynhared â 1480 o ystyried tystiolaeth ei gerddi eraill', ac meddai ymhellach (heb wybod am y ddogfen yn y *Calendar*), 'Pe na byddai Ieuan Gethin ond rhyw ugain oed yn 1437–8 byddai'n 72 neu 73 yn 1490. Y mae'n bosibl, felly, fod marwnad Ieuan Gethin mor ddiweddar â thua 1490.' A derbyn yr awgrym fod Iorwerth Fynglwyd wedi cychwyn ei yrfa farddol oddeutu 1485, dyna gyfnod o tua 42 mlynedd fel bardd, ac os oedd yn 20 oed, dyweder, ychydig ar ôl 1485 (fe'i gelwir yn *Iorwerth ieuanc* gan Risiart ap Rhys rywdro ar ôl 1485⁷²), yna byddai tua 62 oed yn marw c.1527. Dyna oes hir felly, ond nid eithriadol o hir hyd yn oed yn y cyfnod hwnnw, o gofio bod beirdd fel Guto'r Glyn, Iolo Goch, Huw Cae Llwyd ac eraill wedi cyrraedd a mynd heibio i'w 80 oed.⁷³ Ond nid poeni am estyn oes Iorwerth Fynglwyd a wnâi Rowlands, ond yn hytrach nad oedd unrhyw gerdd ganddo y gallai ei dyddio cyn 1485, ac y mae'n defnyddio'r ffaith fod Rhisiart ap Rhys yn cyfeirio at Iorwerth fel *Iorwerth ieuanc* 'rywdro ar ôl 1485' i awgrymu mai 'llencyn yn dechrau prydyddu' ydoedd bryd hynny; ond gan mai sôn am berthynas athro a disgybl a wneir yma, gellid dadlau, wrth gwrs, y byddai Iorwerth Fynglwyd wastad yn *ieuanc* o safbwynt ei athro!⁷⁴

Dychwelwn at Ieuan Gethin. Fel y gwelwyd uchod, y mae'r cerddi o'i eiddo y gellir pennu dyddiad iddynt yn perthyn i'r cyfnod c.1437–61. Nid oes unrhyw dystiolaeth fod Ieuan Gethin wedi canu cyn c.1437, ac eto y mae'r ddogfen yn y *Calendar* yn mynnu ein bod yn gosod ei ddyddiad geni c.1390, os nad ynghynt, sydd yn golygu nad oes unrhyw dystiolaeth iddo fod wedi canu nes ei fod bron yn hanner cant oed. Y mae hynny'n annhebygol, wrth gwrs, a'r tebyg yw bod nifer o'i gerddi wedi eu colli a bod rhai o'r cerddi na ellir rhoi dyddiad wrthynt yn perthyn i'r cyfnod cyn 1437. Gall yr un peth fod yn wir yn achos Iorwerth Fynglwyd.⁷⁵ Byddai dyddiad einioes o c.1450 tan c.1527 yn ddigon posibl ar ei gyfer o gofio y byddai'n iau yn marw nag yr oedd Guto'r Glyn ac Iolo Goch yn canu eu cerddi

⁷⁰ *Ib.* 3–4.

⁷¹ *Ib.* 4–6.

⁷² *Ib.* 5: cyfeiria Rhisiart ap Rhys Brydydd at Iorwerth fel *Iorwerth ieuanc*, *ib.* 34.54, mewn cywydd sy'n ateb cywydd gan Iorwerth Fynglwyd sy'n enwi *Syr Rhys* (*ib.* 33.28), a ganwyd yn 1485 neu'n ddiweddarach gan mai ar faes Bosworth yn 1485 yr urddwyd Rhys yn farchog.

⁷³ Gw. hefyd B.O. Huws, *art.cit.* 51 ac *id.*, 'Ieuan Gethin, Owain Glyndŵr a stori Iolo Morganwg', *Traeth*, Gorfennaf 2000, 141. Ni welaf fod rhaid derbyn casgliad G.J. Williams, *TLIM* 25, '... gan fod y bardd hwnnw [hynny yw, Iorwerth Fynglwyd] wedi byw hyd tua 1527, ni eill y farwnad fod yn gynharach na thua 1480.'

⁷⁴ GIF 5.

⁷⁵ Ceir cyfeiriad posibl at Iorwerth Fynglwyd gan y Nant, GyN 9.38, mewn cerdd a gofnodwyd cyn neu oddeutu 1480 (sef dyddiad llsgr. Pen 54).

diweddaraf.⁷⁶ Pa ffordd bynnag y dadleuir, nid yw'n ddiogel pennu dyddiadau bardd ar sail tystiolaeth y cerddi sydd wedi goroesi, a chymaint, y mae'n rhaid, wedi ei golli. Felly cytunaf â barn G.J. Williams mai 'tua 1470–80 (yn ôl pob tebyg)' y bu Ieuan Gethin farw, ac yn ochelgar cynigiad f. c.1390–c.1470, er nad amhosibl c.1390–c.1480, fel yr awgryma Huws.⁷⁷

Y cerddi

Derbynnir deg o gerddi yn waith dilys Ieuan Gethin yn y golygiad hwn.⁷⁸ Y mae amrediad eang y pynciau y canodd arnynt yn gwbl nodweddiadol o ganu'r bardd-uchelwr:⁷⁹ ni cheir ganddo'r arlwy arferol o fawl a marwnad traddodiadol y dibynnai'r beirdd proffesiynol arno ar gyfer eu bywoliaeth. Yn hytrach, câi ryddid i ganu ar bynciau a apeliai ato, ac y mae ei gerddi oll yn dwyn stamp ei bersonoliaeth hwyliog, ddeallus ac unigolyddol ef. '[Y]r hyn sy'n nodedig am ei ganu', meddai Nest Scourfield, 'ydyw ei uniongyrchedd ffres ynghyd â'r gallu i fynegi ei deimpladau dwys ac angerddol mewn modd crefftus a chofiadwy.'⁸⁰ Ac meddai C.W. Lewis ymhellach, 'His work provides the literary historian with an interesting example of a cultured, literary-minded gentleman who had mastered most of the intricacies of the bardic craft.'⁸¹ Defnyddiwyd y gair 'personol' gan feirniaid ar fwy nag un achlysur i ddisgrifio natur ei ganu: er enghraifft, meddai Dafydd Johnston, 'Mae ei gerddi'n wahanol iawn i ganu mawl y beirdd proffesiynol, yn fwy personol ac â naws gellweirus iddynt yn aml.'⁸² Ar y cyfan canai beirdd y cyfnod o fewn fframwaith meddwl go gadarn a chyfyng a oedd i raddau helaeth yn nodweddiadol o'r meddylfryd canoloesol: prin

⁷⁶ Ond yn sicr byddai oedran mor fawr yn anarferol ac yn eithriadol yn yr Oesoedd Canol; cf. M.P. Carrieri and D. Serrano, 'Longevity of popes and artists between the 13th and the 19th century', *International Journal of Epidemiology*, 34 (2005), 1435, 'In the Middle Ages, the average life span of males born in landholding families in England was 31.3 years and the biggest danger was surviving childhood. Once children reached the age of 10, their life expectancy was 32.2 years, and for those who survived to 25, the remaining life expectancy was 23.3 years. Such estimates reflected the life expectancy of adult males from the higher ranks of English society in the Middle Ages, and were similar to that computed for monks of the Christ Church in Canterbury during the 15th century.' Gw. hefyd J. Hatcher, 'Mortality in the fifteenth century: some new evidence', *Economic Historical Review*, 39 (1986), 19–38.

⁷⁷ Cf. B.O. Huws, *art.cit.* 52.

⁷⁸ Am drafodaeth fanwl ar gefndir a chyd-destun pob un o'r cerddi, gw. y nodiadau cefndir isod.

⁷⁹ Cf. amrediad eang tebyg y pynciau y canodd Ieuan ap Rhyderch arnynt yn yr 11 cerdd a gadwyd o'i waith, gw. GIRh. Perthnasol o safbwynt Ieuan Gethin a'i ganu yw'r sylwadau ar natur canu'r bardd-uchelwr neu'r bardd amatur yn D. Johnston, '*Canu ar ei fwyd ei hun*': *Golwg ar y Bardd Amatur yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Abertawe, 1997); cf. hefyd C.W. Lewis yn GCH III, 497, 'gentlemen bards... a talented, literary-minded class of gentry to whom the composition of poetry, notwithstanding their manifest expertise in the art, was essentially a pleasurable pastime and not an indispensable means of acquiring a livelihood'.

⁸⁰ Ieuan Gethin, &c.: Gw vi.

⁸¹ Gw. GCH III, 499.

⁸² GyB 70; cf. M. Haycock, 'Dwsin o brydyddesau? Achos Gwladus "Hael" ac eraill', *Dwned*, 16 (2010), 106, 'bardd-uchelwr y nodweddir rhai o'i gerddi gan naws bersonol neu gellweirus'.

yw'r adegau hynny y cawn ein synnu gan eu hagwedd neu gan eu hathroniaeth. Ond fe'n synnir gan Ieuan Gethin ar fwy nag un achlysur, fel y'n synnir yn aml gan Ddafydd ap Gwilym: dyma un elfen sy'n gwneud eu cerddi yn fwy personol ac sy'n apelio atom ni heddiw. Er enghraifft, yn y gerdd lle y mae'n sôn am ei drafferthion wrth geisio caru merch hardd euraid ei gwallt, delwedda Ieuan ei ymgais i'w hennill fel gornest ymaflyd codwm yn erbyn serch. Ond y mae'n hapus i ddioddef, a deniadol a chwbl nodweddiadol ohono yw'r agwedd hedonistaidd tuag at fywyd a leisia wrth i serch fygwth cael y llaw drechaf arno: *Byrroes sy well heb eiriach / No'r einioes hir heb nos iach*:⁸³ gwell yw ganddo fentro a mwynhau bywyd byr i'r eithaf na byw bywyd diogel a hir yn llawn gofidiau am bleserau sydd y tu hwnt i'w gyrraedd! Y mae'n sicr y byddai Ieuan Gethin wedi llwyr uniaethu â chymeriad y bardd yng ngherdd Dafydd ap Gwilym 'Cyngor y bioden', lle y mae'r aderyn diflas yn ei gynghori i aros gartref yn ddiogel o flaen y tân yn lle mentro allan yn nhywydd gwlyb ac oer mis Ebrill i geisio ennill y ferch.⁸⁴

Y mae dwy gerdd yn y casgliad wedi eu seilio ar ddigwyddiadau hanesyddol, sef carcharu Owain Tudur yn 1437–8 (cerdd 1) ac yna'i ddiennyddiad yn 1461 (cerdd 10), ac yn y ddwy dengys Ieuan wybodaeth fanwl o'r hyn a ddigwyddodd. Nid oes unrhyw awgrym yn y naill gerdd na'r llall fod Ieuan wedi adnabod Owain, nac ychwaith ei fod wedi canu'r cerddi yng ngŵydd ei deulu. Yn hytrach, cerddi ydynt i un y buasai Cymry'r cyfnod wedi bod yn cadw golwg arno fel mab darogan. Yn y naill gerdd ataliwyd y breuddwyd gan garchariad Owain ac yn yr ail drwy ei lofruddio: dwy weithred gwbl sarhaus ac annheg ym marn y bardd. Yn y gerdd gyntaf cyflwyna amddiffyniad cryf o blaid Owain yn erbyn y cyhuddiad o fod wedi cael cyfathrach â'r Frenhines Catherine cyn ei phriodi, sef y rheswm pam y'i carcharwyd ym marn y bardd. Cyflwyna Ieuan ei bwyntiau'n drefnus megis mewn llys barn, gan apelio at y ffaith fod Duw wedi bendithio eu huniad â phlant fel prawf fod eu priodas yn ddilys a bod Owain Tudur yn ddieuog. Triniaeth annheg Owain yw asgwrn y gynnen yn y farwnad hefyd: ar ôl ei gymryd yn garcharor ar faes Mortimer's Cross a'i ddwyn i Henffordd i'w gosbi, yn hytrach na rhoi cyfle i'w bobl dalu tâl neu bridwerth am ei einioes yn ôl arfer yr oes, fe'i dienyddiwyd yn ddisymwth. Honnir y byddai'r Brenin Harri VI hefyd wedi bod yn barod i dalu am ei einioes (ac yntau'n hanner brawd i'w feibion, Edmwnd a Siasbar Tudur), ond ni chafodd gyfle. Y mae'r ddwy gerdd hyn yn bwysig am eu bod yn cynnig dehongliad Cymro cyfoes o'r sefyllfa (pa beth bynnag oedd y gwirionedd, wrth gwrs).

Gwelir dawn diddanu Ieuan ar ei gorau yn y pedair cerdd storiol a gadwyd dan ei enw, y pedair yn seiliedig ar anffawd neu dro trwstan y mae'n honni iddynt ddod i'w ran: 'Cwyn am ddifa bydafau', 'Y llwynog a'r wÿdd', 'Y

⁸³ 6.67–8.

⁸⁴ DG.net cerdd 36.

ceiliog' a 'Helynt wrth garu'.⁸⁵ Ynddynt i gyd y mae'n chwarae rhan yr hen ddyn anffodus (y [c]leirch diriaid hen⁸⁶) y mae'r gynulleidfa yn chwertthin am ei ben, yn yr un modd ag y chwaraeodd Dafydd ap Gwilym ran y carwr anffodus yn ei gerddi yntau. Gwelir yma feistr ar greu sefyllfaoedd byw, llawn hiwmor, a dichon y byddai ef, neu ei ddatgeiniad, wedi ychwanegu at y doniolwch wrth berfformio. Gall greu delweddau byw iawn yn y meddwl, megis y darlun o'r tri lleidr yn mynd ati i ddwyn ei fêl, a'r disgrifiad awgrymog o wyneb chwyddedig un ohonynt, Gruffudd, a oedd wedi ei bigo mor aml gan wenyn yn y gorffennol fel mai prin y gallai weld dim;⁸⁷ neu ynteu'r darlun digrif o Wenllïan yn codi yn sydyn a'i theilfforch yn ei llaw er mwyn erlid y llwynog a ddygasai'r wÿydd, ond yna'n gorfod aros i grymu mewn craig a chodi ei phais i biso.⁸⁸ Gŵyr y bardd yn dda pa mor effeithiol yw eironi dramatig, a gall chwarae'n gelfydd â disgwyliadau ei gynulleidfa. Er enghraifft, ar ôl iddo gael ei heintio yn sgil cyfathrach rywiol â merch (a oedd yn ôl pob tebyg yn butain er ei bod hi'n ymddangos yn foneddigaidd), aeth tuag adref yn teimlo'n llawn hunandosturi. Ar ôl cyrraedd, cwynodd yn hallt wrth *ferch y tŷ* (ei wraig?) am ei sefyllfa, gan ddisgwyl derbyn ei chydymdeimlad. Ond, wrth gwrs, gŵyr y gynulleidfa'n iawn mai camgymeriad oedd hynny, ac fe'u profir yn gywir wrth iddi ei daflu allan o'r tŷ.⁸⁹

Yn y cywyddau storiol hyn gwelir meistrolaeth lwyr Ieuan ar ei gyfrwng. Y mae'n gynganeddwr rhwydd, a gall amrywio ei frawddegau yn gelfydd: fe gân yn syml weithiau, a thro arall gall estyn ei frawddegau'n gymhleth dros sawl llinell gan hau sangiadau yma a thraw (sangiadau sy'n aml yn cynnig rhyw sylw bachog neu eironig ar y sefyllfa). Gall amrywio'r tempo hefyd drwy ddefnyddio cyfres o ferfenwau yn lle berfau personol, techneg a ddefnyddir yn helaeth gan awduron y chwedlau yn ogystal, yn enwedig pan fo angen creu ymdeimlad o gyffro a brys.⁹⁰

Y mae'r ffugfarwnad a ganodd Ieuan Gethin i Ieuan y töwr o Gaereinion yn perthyn yn agos o ran arddull a naws i'r pedair cerdd hyn, a gwelir ynddi'r un ddawn i adrodd stori ar fydr. Credir mai tad y bardd Gwilym ab Ieuan Hen oedd y töwr, a chan ei fod yn 'cydymdeimlo' â Gwilym yn ei brofedigaeth—*Gwae Wilym nad gwiw wylo / Eisiau tad i osod to*⁹¹—y mae'n bosibl mai mewn gŵyl yng nghartref uchelwr yn ardal Caereinion y

⁸⁵ Gw. cerddi 2, 3, 4 a 7.

⁸⁶ Gw. 7.55.

⁸⁷ Gw. 2.19–48: e.e. *Gradd o hwydd mewn gruddiau hwn, / ... / Ac ael dew, braidd y gwyl dim* (llau. 44, 46).

⁸⁸ Gw. 3.39–50.

⁸⁹ Gw. 7.43–56.

⁹⁰ Cf., e.e., 3.51–2 *Cyfeirio, fal cyfarwydd, / Cael yr allt, cilio o'r wÿydd*; 7.6–16, 43–50, &c.

⁹¹ 5.43–4.

canwyd y gerdd hon, yng ngŵydd Gwilym a'i dad, a oedd hefyd yn fardd yn ôl pob tebyg.⁹²

Yr oedd cywyddau serch i ferched ifanc hardd yn boblogaidd iawn gan y beirdd yn gyffredinol erbyn y bymthegfed ganrif, a'r merched hynny'n aml yn ddienw neu'n 'Wen', eu gwallt yn llaes ac yn euraid a'u croen yn glaerwyn. Ond er mai nodweddiadol o'r math hwn o ganu yw disgrifiad Ieuan o harddwch y ferch a'i bruddglwyf yntau o fethu ei hennill yn 'Tr ferch eurwallt' (cerdd 6), nid cerdd serch gonfensiynol mo hon fel y gwelwyd uchod. Yn yr ail hanner â'r bardd ati i greu sefyllfa ddramatig, a chofiadwy yw'r modd y mae'n personoli serch fel gwrthwynebydd caled iddo mewn gornest ymaflyd codwm. Ceir tri chymeriad yn y ddrama y tro hwn: y ferch, y bardd-garwr a serch, a bron nad yw'r ferch yn cydymdeimlo â'r bardd o'i weld yn dioddef wrth i serch gael y llaw drechaf arno.

Efallai mai canu mwyaf nodedig y bardd yw'r ddwy farwnad a ganodd yn sgil marwolaeth dau o'i blant: cywydd i'w fab Siôn ac awdl faith i'w ferch nad yw'n ei henwi.⁹³ Nid yw'n syndod, wrth reswm, fod teimladau dwysaf Ieuan i'w canfod yma yn sgil colli ei blant ei hun, ond eto fe'n synnir gan y modd y mynegir y teimladau hynny ganddo. Y mae lleisio dicter tuag at Grist a Duw yn gyffredin yn y canu marwnad yn gyffredinol, ond y mae mynegiant cwbl syml a chignoeth Ieuan o'i ddicter—megis yn y llinell *Gŵr digon creulon yw Crist*⁹⁴—yn annisgwyl. Yn sicr, parodd y teimladau titanistaidd hyn syndod i G.J. Williams a deimlai, o bosibl, fod Ieuan wedi mentro'n rhy bell: '... gallai roi mynegiant effeithiol i deimladau tad hiraethus ... er na allai ymatal rhag ambell dro digon annisgwyl', meddai,⁹⁵ gan ddyfynnu:

Addewais ar weddïon
 Ei bwys o aur er byw Siôn.
 Ar Dduw er a weddïais,
 Ni chawn Siôn mwy no chan Sais.⁹⁶

Mydr, cynghanedd ac iaith

O'r deg cerdd a dderbynnir yn waith dilys Ieuan Gethin, canwyd naw ar fesur y cywydd ac un ar fesurau'r awdl.⁹⁷ Gwelir yn y cerddi hyn feistrolaeth lwyr Ieuan ar ei gyfrwng, ac y mae'n sicr mai canran fechan iawn o'i holl waith sydd wedi goroesi.

Hyd arferol ei gywyddau yw rhwng 58 a 68 llinell; y mae cerdd 6 ychydig yn hwy (76 ll.) a byr iawn yw cerdd 4 (42 ll.) sydd o bosibl yn anghyflawn.

⁹² Cf. 5.19n.

⁹³ Cerddi 8 a 9.

⁹⁴ 8.44.

⁹⁵ TLIM 29.

⁹⁶ 8.39–42.

⁹⁷ Am fanylion, gw. y nodyn 'Mesur a chynghanedd' a geir ar ddiwedd nodyn cefndir pob cerdd.

Ceir 90 llinell yn yr awdl (cerdd 9) sydd yn ymrannu'n ddwy ran: cyfres o chwe englyn (unodl union a phroest) wedi eu cysylltu gan gyrch-gymeriad geiriol, pob un ar brifodl wahanol; yna 65 llinell ar wawdodyn byr neu hir ar y brifodl *-i*, a'r llinell gyntaf yn cysylltu â diwedd yr englynion â chyrch-gymeriad, a llinell olaf yr awdl yn cyrchu'r dechrau. Gwna Ieuan ddefnydd helaeth ac effeithiol iawn o gymeriad yn ei gerddi yn gyffredinol, yn enwedig y cymeriad llythrennol, a gŵyr pa mor effeithiol yw cynnal ac yna dorri ar batrwm er mwyn tynnu sylw at frawddegau penodol:

Cwrwgl unfraint, carl glinfrwnt,
 Croenyn hen Caereinion hwnt,
 Gŵr a dôi, a gwyro'i din,
 O do brwyn ar dŷ brenin!
 Treiglwr a diffeithiwr ffos,
 Tad oedd i bob tŷ diddos.
 Tir nef a oedd ef iddo,
 Tref ei dad oedd, tra fai do.
 Pwyntiai dai, fal paentiad ôd,
 Powys megis lliw piod.⁹⁸

Ceir yn y llinellau hyn gymeriad cytseiniol amlwg ar ddechrau pob cwpled (a'r cytseiniaid hynny'n rhai caled, di-lais) ac eithrio yn y cwpled digrif, syml ei gystrawen, sydd yn disgrifio gorhoffter y tŵr o doi â brwyn.⁹⁹

Ieuan Gethin yw un o'r beirdd hysbys cynharaf i ganu ar fesur y cywydd ym Morgannwg, a chan na wyddom ddim am ei hyfforddiant fel bardd, y mae'n anodd rhoi cyd-destun teg i'w grefft. At hynny, cymharol brin mewn gwirionedd yw'r beirdd hysbys a ganai yn hanner cyntaf y bymthegfed ganrif o gymharu â'r ail hanner. Ond fel un ohonynt, nid yw'n syndod canfod yng ngwaith Ieuan rai elfennau sy'n ei gysylltu â beirdd ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg (megis Rhys Goch Eryri), ond eraill sydd yn ei leoli'n gadarn ymysg beirdd y ganrif ddilynol. Tynnir sylw yma ac yn y nodiadau testunol isod at rai o'r nodweddion hyn.

Yn y tabl canlynol rhoddir canrannau'r cynganeddion yn y deg cerdd a gadwyd (gan hepgor y gynghanedd yn ail linell yr englynion yn yr awdl):

⁹⁸ 5.7–16.

⁹⁹ Gellid disgrifio'r cymeriad yn y cwpled hwn un ai fel cymeriad llythrennol, lle y mae llafariad yn ateb cytsain (J. Morris-Jones: CD 292), neu fel cymeriad synhwyrol, lle 'nid rhaid cyfatebiaeth o gwbl os bydd y synnwyr yn anorffenedig yn y llinell gyntaf ac yn rhedeg i'r ail, megis bod berf yn y gyntaf a'i gwrthrych neu ei dibeniad yn yr ail', *ib.*

cerdd	croes (%)	traws (%)	sain (%)	llusg (%)	dim	llau.
1	48	14	29	9		66
2	34	32	25	9		64
3	37	32	24	7		68
4	56	16	23	5		42
5	38	29	23	10		58
6	42	28	25	5		76
7	34	29	27	10		62
8	58	21	19	2		58
9	17	25	49	8	1	90
10	63	16	11	10		62

Wrth drafod dilysrwydd cerddi Dafydd ap Gwilym cynigiodd T. Parry ganllawiau ar gyfer adnabod cerddi annyls a gambriodolwyd yn ddiweddarach i'r bardd hwnnw. Meddai, 'A siarad yn gyffredinol gellir dweud, os yw cyfartaledd y cynganeddion Sain mewn cywydd arbennig yn is na 25 y cant, yna nid i'r 14g. y mae'n perthyn.'¹⁰⁰ O gymryd canrannau'r groes a'r draws gyda'i gilydd,¹⁰¹ gwelir bod cryn gysondeb yn nosbarthiad cynganeddion Ieuan, a'r ganran sain yn cyfateb yn fras i'r hyn a ddisgwylid yng ngwaith bardd yn hanner cyntaf y bymthegfed ganrif.¹⁰² Eto i gyd, y mae dau gywydd yn sefyll ychydig ar wahân, sef y cywydd marwnad i'w fab Siôn (cerdd 8) a'r cywydd marwnad i Owain Tudur (cerdd 10): yn y ddau ceir cynganedd gytsain yn 79% o'r llinellau a'r sain yn y naill yn 19% ac yn y llall yn 11%. Gwyddom mai'r farwnad i Owain yw un o'r cerddi diweddaraf i Ieuan ei chyfansoddi (yn 1461), ac y mae hynny'n tueddu i gyd-fynd â'r patrwm cyffredinol a welir yng ngwaith beirdd y bymthegfed ganrif, sef bod canran y gynganedd sain yn mynd yn is wrth iddynt aeddfedu fel beirdd.¹⁰³

¹⁰⁰ GDG xcvi-xcviii. Trafodir y canllawiau hyn gan P.I. Lynch, 'Cynganedd cywyddau Dafydd ap Gwilym: tystiolaeth y llawysgrifau cynnar', yn CyT 122 a gw. hefyd ddadansoddiad A.C. Lake o gynganeddion Dafydd ap Gwilym yn DG.net 'Crefft y cerddi'. Cf. hefyd E. Rolant, 'Arddull y Cywydd', YB II (1966), 43, wrth gyfeirio at arferion beirdd y 15g. o'u cymharu ag Iolo Goch ac eraill yn y 14g., 'Y mae'r gostyngiad mawr yng nghyfartaledd y cynganeddion sain erbyn y cyfnod hwn, o gymharu ag ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg, yn awgrymu fod y beirdd wrth ymarfer y grefft o gynganeddu wedi dyfod i lunio cynganeddion cytsain yn llawer rhwyddach.'

¹⁰¹ Wrth ddadansoddi'r cynganeddion cytsain, dosbarthwyd pob ll. y ceir ynndi ddwy gytsain neu ragor yn y canol heb eu hateb yn gynganedd draws, ond mewn gwirionedd efallai y dylid ystyried llau. lle y ceir mân eiriau fel *fal* (2.50, 6.17, 7.32, 8.43), *mewn* (2.44, 3.31, 58, 62, 6.7) neu *myn* (2.7, 16, 41) yn y canol yn amrywiadur ar gynganedd groes yn hytrach nag yn gynganeddion traws.

¹⁰² Edrychodd E. Rolant, *art.cit.* 41-3, ar sampl o gywyddau gan Iolo Goch (14g.) a Lewys Glyn Cothi (tua chanol y 15g.) a chael bod y gynganedd sain yn 37.5% o linellau'r naill ac 20.7% o linellau'r llall.

¹⁰³ Gwelir y duedd hon yng nghanu Guto'r Glyn, e.e., lle y mae canran y gynganedd sain yn tueddu i fynd yn is ar hyd ei yrfa: e.e. ceir y gynganedd sain yn 45% o linellau GG.net cerdd 1 a ganwyd c.1437x1438, ond 8% yn unig yn *ib.* cerdd 107 a ganwyd yn fuan wedi 1485.

Gan mai cerdd yn marwnadu ei fab cymharol ifanc yw'r cywydd i Siôn, y duedd naturiol yw ei lleoli yn gynnar yng ngyrfa'r bardd, efallai'n fuan wedi iddo briodi. Ond y mae'n ddigon posibl mai cerdd ddiweddarach ydyw, fel yr awgryma dosbarthiad ei chynganeddion; yn wir, efallai fod y siom yn y Duwdod a fynegir mor hyderus o syml ynddi, fel y gwelwyd uchod, yn awgrymu mai bardd mwy aeddfed a'i canodd. Y mae canran y gynghanedd sain yn arbennig o uchel yn yr awdl (49%), ond nid yw hynny'n syndod, mewn gwirionedd, gan mai awdl draddodiadol yw hon o ran ei ffurf.

Y mae rhai agweddau ar gynghaneddion Ieuan yn ei gysylltu ag arferion beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg. Prin gan feirdd y bymthegfed ganrif yw'r gynghanedd bengoll, hyd yn oed cyn iddi gael ei deol yn Eisteddfod Caerfyrddin yng nghanol y ganrif, ond ceir ambell linell o'r fath gan Ieuan yn ei gywyddau:¹⁰⁴

Rhoed Duw i'r gwalch balch bylchlyn (1.61)
A'r glin wrth fin y fwyall (2.37)
Gwaeth yw taro, tro tramawr (6.57)
Ymddiriedawdd gawdd gywoed (7.57)

a cheir ambell enghraifft o gynghanedd lusk bengoll:

Pan gyfodais i'm eistedd (7.21).

Ceir sawl llinell bengoll yn yr awdl, fel sy'n gyffredin yn awdlau rhai o Ogyneirdd Diweddar y bedwaredd ganrif ar ddeg, megis Gruffudd ap Maredudd:¹⁰⁵

Rhusiwyd cleiriach llwyd am wedd lleuad—Fai (9.21)
Tri gwaeth no brath saeth yn soddi—dan fron (9.35)
Och am riain fain fanadl ddigri (9.41)
Am na welaf hon, liw ton Tywi (9.48)
Gwell yd ado'r byd no bod hebddi (9.68)
Oni weryd ym, mae'n lym loesi (9.87)
Hwy nid â f' einioes no hyn amdani (9.88)
Ceisiaw (byw rhag llaw'n llymsi—nis gallaf (9.89).

Ceir ganddo hefyd ambell linell o sain gadwynog sydd eto'n fwy cyffredin yn y bedwaredd ganrif ar ddeg:

Na thraetur llin Tudur Llwyd (1.26)
Syr Wiliam, gledd dinam glân (2.60)
Gan dybiaid, gloyw lifiaid gledd (3.9)
Gwae'i galon, braich henfon bres (5.31)
Yr oedd ym, ry gyflym rus (7.23).

¹⁰⁴ GP 119 *A'r gynghanedd benngoll a ddeholwyd ac a gaethiwyd yn y konffyrmiad diwaethaf a vv ar gynghaneddion a messvrv yn amsser yr awdvr ariandlyssawc, Davydd ap Edmwnt, eithr mewn paladr ynglyn vnawdl vniawn, ac yn y kyfle hwnnw y gadawyd y hi yn gymeradwy ac yn lwfiedic.*

¹⁰⁵ Gw. GGMD iii, 57–8.

Yn yr awdl hefyd ceir rhai llinellau digynghanedd yn ail hanner toddaid hir:

Nid rhaid yt feddig ond dy foddi (9.64)

Ac offrymu i saint a santesi (9.76)

ac yn llinell gyntaf toddaid hir:

Tyn fy nyn orwen (mae arni—garreg) (9.71)

onid ystyrir popeth ar ôl y bedwaredd sillaf yma yn bengoll.

Y mae'r llinellau canlynol o gynghanedd sain deirodl a phedair odl yn dwyn i gof batrymau astrus cynganeddion sain y Gogynfeirdd Diweddar:¹⁰⁶

Am hyn, fadyn, gannyn gwyn (3.63)

Ni bysai lai, meddai rhai rhwydd (3.27).

Prin iawn gan Ieuan Gethin yw'r gynghanedd groes o gyswllt a ddaeth yn fwyfwy poblogaidd yn y bymthegfed ganrif, ond ceir enghraifft ohoni yn ei gywydd diweddaraf un:

Doeth anffawd o waith Henffordd (10.7).

Prin hefyd yw'r llinellau gwallus yn ei waith, ond ceir un enghraifft o'r gynghanedd sain ac ynddi'r bai crych a llyfn:

Dy fod, am yr amod mau (2.5).

Y mae Ieuan yn gynganeddwr rhwydd a naturiol, ac yn ei gywyddau storïol yn arbennig gwelir nad yw gofynion y gynghanedd yn amharu ar lif ei frawddegau nac ar yr ystyr, megis yn y llinellau canlynol lle y mae'n ei ddisgrifio'i hun yn dychwelyd adref ar ôl cael ei heintio gan gyfathrach â merch a oedd, fwy na thebyg, yn butain:

Torri dryll, gwaith y tir draw,

O'r crys er eu careisiaw,

A'i didio wedy doddi

Mewn gwllân am fy mwnwgl i.

Bwrw i'm llawes, lawndres lef,

Fy llawdr, ac felly adref.

Achwyn, ni bu rym ymy,

Freiched deg, wrth ferch y tŷ.

Achubodd ym, drallym dro,

Â'r gogail fâl gwraig Iago,

A gosod, chwedl adgasach,

Ar geisio cribinio'r crach.

Ado'r tŷ, gleirch diriaid hen,

A'r byd am lygru'r biden.¹⁰⁷

¹⁰⁶ Cf. *ib.* 55.

¹⁰⁷ 7.43–56.

Y mae Ieuan yn barod i fanteisio ar oddefiadau yn y gynghanedd, er mai prin yw'r llinellau hynny ganddo y gellid eu disgrifio'n wallus fel y cyfryw.¹⁰⁸ Cyffredin ganddo, fel yng ngwaith ei gyfoeswyr yn gyffredinol, yw cynganeddion croes a thraws ac ynddynt *r* neu *n* wreiddgoll, canolgoll a pherfeddgoll,¹⁰⁹ ac at hynny ceir *d* ac *nd* heb eu hateb (twyll gynghanedd) ar ddechrau'r llinellau canlynol:

Dawn rhybraff, yn rhy ebrwydd (9.12)
Ond cerydd mwya' a'i caro (6.74);

ceir *l* heb ei hateb yn ail hanner y llinell hon:

Cwrwgl unfraint, carl glinfrwnt (5.7);

a cheir *n* yn ateb *m* yn

Am briddyn ydd wy'n bruddach (8.34).

Ni chaledir y cytseiniaid *b*, *d*, *g* bob tro:¹¹⁰

Y dug hael glandeg o hyd (1.57)
Abwyd dyn, a bod yno (2.25)
Dwyn ymaith, nid dan amod (9.7),

er mai caledu yw'r arfer ganddo:

Maglau tost, 'mogeled dyn! (6.18)
Meudwy cryg, Madog grogwr (3.50).

Ceir ambell linell ac ynddi gamosodiad cytseinol, a cheir hynny o gwmpas yr acen yn

Yr wyf innau, wirionferch (6.49).

Prin yw'r llinellau chwithig o ran eu cynghanedd, ond ceir pwyslais ar air annisgwyl ar brydiau, megis ar yr arddodiad *ar* yn y llinell hon:

Y ddufrech ar ddwyfraich hwn (8.12).

Ceir ganddo sawl llinell sy'n ymddangos yn rhy hir neu fyr o sillaf. Er hynny, y mae'r llinellau hir yn aml yn cywasgu'n hawdd ar lafar:

A gâi dario i gydorwedd! (6.42)
Ond cerydd mwya' a'i caro (6.74)

ac yn aml y mae'r llinellau byr yn cynnwys geiriau megis *cadw*, *eithr*, *marw*, *ofn*, *awdl*, y gellid eu trin yn ddeusill:¹¹¹

¹⁰⁸ Diddorol yw sylw A.C. Lake, 'Gwe gaeth y Gymraeg wen', LICy 27 (2004), 65, 'Eithriad yw'r bardd nad yw'n manteisio ar y goddefiadau ..., ond gellid dadlau bod y beirdd nad oeddynt yn canu ar eu bwyd eu hun yn barotach na'u cymheiriaid i elwa.'

¹⁰⁹ J. Morris-Jones: CD 151–2, 156–7; T. Parry, 'Pynciau'r gynghanedd', B x (1939–41), 3–4.

¹¹⁰ Ar galediad cytseiniaid, gw. J. Morris-Jones: CD 206–16.

¹¹¹ Gw. y nodiadau ar y llau. hyn ac ymhellach ar y nodwedd hon, gw. A.C. Lake, *art.cit.* 66–7. Y mae'r geiriau hyn yn aml yn ddeusill yng ngwaith y Nant, gw. GyN 8.20n. Yn aml gellid ennill sillaf

A'r ofn gwyllt ar fin gwâl (4.6)
 Ceidwad ieir, cadw d'oriau (4.32)
 Mawr wae fi, marw fy iôr (8.13)
 Eithr awdl ar ei thrydydd (9.3)
 Nid oes yd gyngor eithr torri (9.69).

Y mae'n ddigon parod hefyd i fanteisio ar ffurfiau ansafonol neu lafar ar eiriau er mwyn yr odl neu'r mydr, elfen sydd yn llai amlwg, ar y cyfan, yng ngwaith y beirdd proffesiynol.¹¹² Er enghraifft, y mae'r ffurf [*m*]agwrieth yma'n nodweddiadol o'r cyfnewid *ae > e* a geir yn nhafodiaith gorllewin Morgannwg:¹¹³

Mae'n gryfach bellach o beth,
 E fu gur ei fagwrieth (6.51–2)

ond yn yr un gerdd ceir

A'i dadmaeth ryw fariaeth fawr (6.54).

Yn yr un modd gall ddefnyddio'r terfyniad lluosog *-e* weithiau yn lle'r *-au* safonol:

Duw a roddes dy ruddie
 O radd i'm lladd ym mhob lle (6.19–20)

ond rhaid cadw'r *-au* yn

Tra hidlon ddagrau yw'r mau, i mi (9.34).

Y mae'n hyblyg iawn hefyd yn ei ddefnydd o'r terfyniad berfenwol *-aw*, a droesai ar lafar erbyn y cyfnod hwn yn *-o*,¹¹⁴ ac unwaith eto cymysgir y ffurfiau yn aml ganddo o fewn yr un gerdd, e.e.

Wylaw mal y glaw mae'r glêr (5.1)

ac yna:

Gwae Wilym, nad gwiw wylo,
 Eisiau tad i osod to (5.43–4).

hefyd drwy addasu ychydig ar ddarllenid y llsgr., e.e. yn 4.32 gellid darllen *Ceidwad ieir, cadw dy oriau*.

¹¹² Cf. A.C. Lake, *art.cit.* 67, 'Pan fyddai hynny o fudd, manteisiai'r beirdd ar yr ynganiad llafar, a hynny ran fynychaf er mwyn sicrhau odl, boed odl fewnol yn achos ll. o gynghanedd sain neu odl derfynol.' E.e., gan Guto'r Glyn ceir *bwrdeisied*, ffurf ansafonol *bwrdeisiaid*, yn cynnal odl fewnol yn GG.net 102.49, ond prin yw'r achosion hyn yn ei waith.

¹¹³ Ceir disgrifiad o nodweddion y dafodiaith hon heddiw yn C.B.H. Lewis, 'Tafodiaith Hen Blwyf Llangatwg (Castell Nedd)' (M.A. Cymru [Abertawe], 1932); cf. hefyd B. Thomas a P.W. Thomas, *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg ... Cyflwyno'r Tafodieithoedd* (Caerdydd, 1989), pennod 12 'Gorllewin Morgannwg', a cf. hefyd bennod 13 'Canol Morgannwg'.

¹¹⁴ Nid amrywiad tafodieithol yw hwn, fel y cyfryw, ond parodwydd i fanteisio ar ffurf gyfoes a ffurf fwy hynafol, ac y mae'r beirdd yn gyffredinol yn manteisio ar hyn (gyda'r ffurf yn *-aw* yn norm gan Ogyfeirdd y 12g. a'r 13g. ac *-o* yn norm erbyn y 15g., a'r dystiolaeth yn amrywiol yn y 14g., gan ddibynnu ar natur canu'r bardd dan sylw.

Ceir hyblygrwydd ganddo hefyd o ran ffurfiau personol berfau, ac y mae'n ddigon parod i ddefnyddio ffurf ansafonol at ddibenion y mydr: er enghraifft, ceir y ffurf trydydd unigol gorffennol mynegol *cafes* (2.32, 49) yn ogystal â'r ffurf gywasgedig lai safonol *cas* (6.22) a glywir heddiw yn nhafodiaith gorllewin Morgannwg;¹¹⁵ y terfyniad cyntaf unigol gorffennol *-es* (7.19 *profes*, yn odli ag *afles*, 8.35 [*rh*]*oes*) ochr yn ochr ag *-ais* (7.47–8 *Mi fegais*, *ddyn lednais lân*, / *Dy gariad ...*); y trydydd lluosog presennol mynegol *ynt*, a'r llafariad yn fer er mwyn odli â *hynt* (2.9 *Dwyn hynt (ffrom ynt!) i'm fferm i*); a'r ffurf cyntaf unigol gorffennol *aethof* yn lle'r *euthum* safonol (3.55, *Nad aethof, fy angof fu*).

Ceir ffurfiau amrywiol ar eiriau eraill hefyd. Cwbl nodweddiadol o dafodiaith y De yn gyffredinol heddiw yw hepgor y gytsain *ch-* pan fo *chw-* ar ddechrau gair,¹¹⁶ a dyna sy'n arferol gan Ieuan Gethin: *hwilio* (2.20 *Hwyl pryf, a wŷr hwilio'r pren*, 2.62 *Holi'r pryf am hwilio'r pren*), *hwilod* (2.28 *Gan hwilod bach, gan halwyn*), *hwech* (4.10 *A hwy'i chefn no hwech hafnos*) a *hwydd* (2.44 *Gradd o hwydd mewn gruddiau hwn*, 7.40 *Neu ffon hwrl ac 'n ei phen hwydd*); ond ceir ganddo'r ffurf safonol *chwilio* pan fo angen yr *ch* ar gyfer y gynghanedd: *O chlyw'r pryf wrth chwilio'r pren* (2.23). At y rhain gellir ychwanegu *breiched* (7.50) am *breichaid*; a *cywilidd* (1.27 *Nid oedd gywilidd iddaw*¹¹⁷) yn lle *cywilydd* (4.11, lle y mae'n odli â *dydd*).¹¹⁸ Ceir hefyd ffurfiau deheuol ar arddodiaid, megis *gantyn*' (2.64),¹¹⁹ *genti* (7.62), *erni* (7.61, ond hefyd y ffurf safonol *arni*, 9.71).

O edrych ar eirfa a chystrawen Ieuan Gethin, gwelir eto fod yma'r un parodrwydd i fanteisio ar yr hen a'r newydd, y safonol a'r llafar. Ceir ganddo nifer o eiriau benthg o'r Saesneg (sawl un yn enghraifft gynharaf yn y Gymraeg yn ôl cofnodion GPC a GPC²): *biliedwyd* (1.22, < S. *billet*), *rhest* (1.32, < S. (*ar*)*rest*), *gawnt* (1.54, < S. *gawnt* 'grant'), *picys* (2.31, *pic* < S. *pick*(axe)), *hawcwyr* (2.31, < S. *hawker*), *pend* (3.5, < S. *pend*), *pael* (3.14, < S. *pale*), *traetis* (3.66, < S. *treatise*) a *careisiaw* (7.44, < S. *carriage*).¹²⁰ Ar y llaw arall, syndod yw canfod yn ei ganu nifer o enghreifftiau o'r gystrawen 'hydref ddail' a oedd mor hoff gan y Gogynfeirdd, ond sydd braidd yn anarferol yng ngwaith beirdd y bymthegfed ganrif.¹²¹ Ceir gan Ieuan gyfuniadau yn cynnwys dwy elfen: *glwyf ofal* (9.27), *eiry gawad* (9.14), *henfon bres* (5.31); a phatrymau mwy cymhleth 'lle y rhagflaenir y brif elfen ... gan isgyfuniad lle y mae enw yn cael ei ragflaenu gan enw sy'n

¹¹⁵ C.B.H. Lewis, *op.cit.* 44.

¹¹⁶ *Ib.* 60 'Ni seinir CHW ar flaen gair ar unrhyw adeg'.

¹¹⁷ Cf. DG.net 137.11 *Nid oedd gywilydd iddi* a ddisgrifir, *ib.n.*, fel cynghanedd draws wreiddgoll, ond gall mai cynghanedd lusg sydd yno.

¹¹⁸ Tynnir sylw at nifer o achosion eraill yn y nodiadau ac yn y mynegai cyflawn i eirfa Ieuan Gethin ar ddiwedd y gyfrol hon.

¹¹⁹ P.W. Thomas, 'Middle Welsh dialects: problems and perspectives', B xl (1993), 29–30.

¹²⁰ Gw. ymhellach y nodiadau ar y geiriau hyn.

¹²¹ Ar y gystrawen hon a'i phatrymau, gw. A. Parry Owen, 'Cyfuniadau hydref ddail ym marddoniaeth Beirdd y Tywysogion', *CyT* 237–51.

ddibynnol arno'¹²²: *bywyd wŷd wedd* (3.25, 'dull (*gwedd*) drygioni (*gwŷd*) bywyd'), *tân lendyd lith* (4.33). Annisgwyl hefyd yw'r defnydd o'r rhagenw mewnol fel gwrthrych anuniongyrchol y ferf *rhoi* yn:

A'm rhoi dros fwth tinrhwth teg
Lys fein, laes ei faneg (3.17–18).

Gan mai Ieuan Gethin yw'r bardd cynharaf ar fesur y cywydd ym Morgannwg y cadwyd ei waith i ni, y mae'n anodd gwybod a ddylid priodoli'r elfennau mwy hynafol hyn yn ei ganu i natur draddodiadol canu'r ardal (a chymryd bod corff o gywyddau o'r ardal wedi ei goll),¹²³ neu ynteu i'w hyfforddiant. Ni wyddom pwy oedd ei athro barddol, ond yr oedd yn sicr yn troi yn yr un cylchoedd â beirdd traddodiadol eu canu megis Ieuan ap Rhydderch a'r Prol/Proll. Y mae moliant Ieuan ap Rhydderch iddo fel bardd gwych ac arweinydd effeithiol ym Morgannwg yn awgrymu cyswllt clòs rhyngddynt ac y mae'r ffaith fod testun cynharaf cerdd gan Ieuan Gethin wedi ei godi yn Ystrad-fflur, yn agos i gartref Ieuan ap Rhydderch yng Nglyn Aeron, yn ogleisiol.

Cerddi y mae ansicrwydd am eu hawduraeth

Rhestrir isod y cerddi sydd wedi eu priodoli i feirdd eraill yn ogystal ag i Ieuan Gethin. Yn ogystal, y mae peth amheuaeth ynglŷn â dilysrwydd y ddwy gerdd hyn sydd wedi eu priodoli yn unig i Ieuan Gethin:

1. 'Y ceiliog' (cerdd 4). Un copi llawysgrif yn unig a geir o'r gerdd hon, wedi ei godi i lawysgrif LIGC 3049D c.1636–50 gan Ifan Siôn yn Nyffryn Conwy. Fe'i priodolir yno i Ieuan Gethin, gyda'i batronymig llawn. Y mae'n gerdd braidd yn fyr (42 ll.), ac y mae'n anodd deall y diwedd, felly y mae'n ddigon posibl ei bod yn anghyflawn. Gan ei bod yn nodweddiadol o ganu achlysurol Ieuan Gethin, ni welir unrhyw reswm dros ei gwrthod.

2. 'Marwnad Ieuan y töwr' (cerdd 5). Y mae'r gerdd ddigrif hon yn gwbl nodweddiadol o waith Ieuan Gethin, ac iddo ef yn unig (gyda'i batronymig llawn) y priodolir hi yn y llawysgrifau. Yr oedd G.J. Williams, fodd bynnag, yn amheus am ei dilysrwydd a chynigiodd ei bod yn 'llawer tebycach mai gwaith un o feirdd Powys ydyw'.¹²⁴ Ei brif ofid oedd y ffaith nad oes yr un copi ohoni wedi goroesi yn llawysgrifau Morgannwg. Ond nid yw hynny'n syndod, mewn gwirionedd, oherwydd yn ardal Caereinion y canwyd hon yn ôl pob tebyg, a phrin yw'r llawysgrifau sydd wedi goroesi o ganolbarth

¹²² Gw. *ib.* 244, rhifau 39–54.

¹²³ Y mae'n ddi-ddorol nodi mai Casnodyn o Gilfái ger Abertawe, a ganai yn hanner cyntaf y 14g. (gw. GC 1–2), oedd un o'r beirdd mwyaf caeth a chymhleth ei fydr a'i arddull yn ei gyfnod, ond nid oes gennym gyfoeswyr iddo yntau o'r ardal er mwyn gallu cymharu ei grefft â'u crefft hwy (gw. *ib.* 9–13).

¹²⁴ TLIM 28.

Cymru.¹²⁵ Gan na roddir enw'r un bardd arall wrthi yn y llawysgrifau, a'i bod, o safbwynt ei hieithwedd, ei hiwmor, ei phwnc a'i chynghanedd rwydd, yn gerdd gwbl nodweddiadol o'r cerddi achlysurol eraill a gadwyd wrth enw Ieuan Gethin yn y llawysgrifau, fe'i derbyniwyd yn hyderus i'w ganon. Noda Siôn Dafydd Rhys ar bwys y gerdd yn Llst 118 iddo ei chodi o lyfr Simwnt Fychan. Y mae'r llyfr hwnnw bellach wedi ei golli, ond y mae'r ffaith fod Siôn Dafydd Rhys yn ei phriodoli i Ieuan Gethin yn awgrymu mai iddo ef y priodolodd Simwnt Fychan hi hefyd.¹²⁶

Dafydd, gŵr rhydd i gael rhodd

BL Add 14970, 10^r; BL Add 31080, 61^r; BL Add 31083; CM 12, 261; CM 200, 200; LIGC 566B, 61^r; LIGC 5931A, 78^r; LIGC 7191B, 75^v; LIGC 13127A, 119; LIGC 14964A, 119^r; LIGC 19904B, 77^r; Llst 55, 42; Pen 239, 383. Gan Iolo Morganwg yn unig yn BL Add 31083 a LIGC 13127A y priodolir y gerdd hon i Ieuan Gethin. Fe'i priodolir i Rys Goch Eryri mewn nifer o'r llawysgrifau (sy'n rhai diweddar ar y cyfan) a gwrthodir y priodoliad hwnnw yn GRhGE 34–5, oherwydd fod 'arddull y gerdd yn llafar ac yn ddiweddar ei naws o'i gymharu â chanu Rhys Goch'. Cyhoeddwyd y testun gan Dafydd Johnston gan ei ddisgrifio fel 'cywydd digrif, ansicr ei awduraeth, sy'n mynd ymlaen i ganmol merch am rinweddau negyddol, gan dynnu sylw at bob math o nodweddiad annymunol ar ferched yn gyffredinol'.¹²⁷

Duw erglyw, da fy Arglwydd (GMBen 157–60, Atodiad)

Cerdd yw hon yn disgrifio haint y nodau a laddodd blant y bardd. Ceir testun ohoni yn BL Add 14866, 263^v (Ieuan Gethin); BL Add 31083, 43^r; Bodley Welsh e 7, 32^v; CM 22, 111; CM 23, ii, 74 (Llywelyn Fychan); LIGC 3049D, 486; LIGC 21248D, 111^v (Ieuan Gethin); Llst 11, 51 (Llywelyn Fychan); Llst 122, 94 (Ieuan Gethin); Pen 104, 125 (Ieuan Gethin neu Lywelyn Fychan ap Llywelyn Foelrhon); Pen 112, 823; Pen 312, ii, 37 (Llywelyn Fychan). Fe'i golygwyd gan Barry J. Lewis yn atodiad i waith Llywelyn Fychan ap Llywelyn Foelrhon, ond gan gydnabod awgrym R. Geraint Gruffydd y gall mai Llywelyn Fychan ap Llywelyn Goch ap Llywelyn Gaplan o Geredigion a'i canodd (a hynny'n bennaf ar sail cyswllt enwau tri o'r plant â Dafydd ap Gwilym a'i gariadon).¹²⁸ Gwrthododd Lewis 'yn hyderus' y priodoliad i Ieuan Gethin,¹²⁹ gan dderbyn dadl

¹²⁵ Sylwer hefyd mai mewn un llsg. yn unig o Ddyffryn Conwy y cadwyd 'Y ceiliog' (cerdd 4), a bod un o brif destunau'r farwnad hon hefyd yn llaw Thomas Wiliems o Drefriw, Dyffryn Conwy.

¹²⁶ Am gerdd arall a godwyd 'o lyfr Simwn Fychan', gan David Jenkins y tro hwn, gw. A.C. Lake, 'Cywydd Gwenonwy', *Dwned*, 19 (2013), 63n24.

¹²⁷ LIU 339–40.

¹²⁸ GMBen 173–4.

¹²⁹ *Ib.* 173.

Dafydd Johnston, ar sail arddull yn bennaf, mai i'r bedwaredd ganrif ar ddeg y perthyn y cywydd.¹³⁰ Y mae Lewis yn ategu'r farn honno â dadansoddiad o'r gynghanedd,¹³¹ lle y gwelir bod 48% o'r llinellau yn gynganeddion sain, ac 14% yn sain gadwynog, a'r ganran o gynghanedd sain yn llawer uwch, felly, na'r hyn sydd yn arferol yng nghywyddau Ieuan Gethin, yn ôl y dadansoddiad uchod.¹³²

Gwresog win gras ag einioes (Huw Arwystl: Gw 366)

Ceir testun o'r gerdd hon yn Bangor 5946, 357; BL Add 14874, 277; BL Add 31061, 101r; BL Add 31095, 148; Brog I.5, 109; Card 1.33, 144; CM 125, 74; Gwyn 2, 170; LIGC 3047C, 137; LIGC 13127A, 135; Llst 133, 215. Fe'i priodolir ym mwyafrif y llawysgrifau i Huw Arwystl, ac fe'i cyhoeddwyd dan ei enw ef yn Huw Arwystl: Gw cerdd CXXIX gyda'r disgrifiad *kowydd Cynanedd heb reswm*; i Huw Arwystl hefyd y priodolir hi yn Glam Bards 366. Y mae'n wahanol iawn i gerddi Ieuan Gethin, yn gyfres o ddelweddau disynnwyr o fyd natur, e.e. llau. 5–6, 13–16 *Prynv wneithym gyflym ged / gebyst i rwymo gwybed / ... / kneva mewn brwyn knoi awel / naddy pys a nyddy pel / doddi ffrwyn ymhen llwynog / dysbaddv gwraint a daint ôg, &c.*

Gwyddom dewi a goddef (cerdd 1)

Ceir testun o'r cywydd hwn mewn 67 llawysgrif. Seiliwyd y golygiad ar y 41 llawysgrif sy'n perthyn yn fras i'r cyfnod cyn 1650 a restrir dan 'Ffynonellau A' yn dilyn y testun. Priodolir y gerdd i Ieuan Gethin yn y rhain i gyd ac eithrio BL 14880, Gwyn 4, LIGC 279D, LIGC 873B a Pen 184 lle y'i priodolir i Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd o Fathafarn. Ni dderbyniwyd y cywydd gan W. Leslie Richards i ganon Dafydd Llwyd a roddir yn ei flodau 1447–97.¹³³ Canwyd y cywydd hwn yn 1437 neu'n fuan wedyn. Y mae nifer o destunau o'r cyfnod ar ôl 1650 (a nodir dan 'Ffynonellau B' yn dilyn y testun) yn rhoi'r cywydd i Robin Ddu o Fôn: BL 14964; BL Add 31073; Bodley Welsh f.1; Card 1.51; Card 2.623; Esgair 1; LIGC 5474A. Y mae'r ffaith fod y farwnad i Owain Tudur dan enw Ieuan Gethin (ac nid oes amheuaeth am awduraeth y gerdd honno) yn ddadl dros dderbyn mai Ieuan Gethin biau'r gerdd hon hefyd, heb sôn am y ffaith fod mwyafrif mawr y llawysgrifau cynnar yn ei rhoi iddo, boed o'r de neu'r gogledd. Y mae'r ffaith fod y bardd Ieuan Brechfa o sir Gaerfyrddin yntau'n rhoi'r gerdd i Ieuan Gethin ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg yn ddadl gref dros roi'r gerdd iddo. Yr oedd cerddi brud yn aml yn cael eu cambriodoli i

¹³⁰ *Ib.* 172–3; fe'i golygwyd fel cerdd gan Lywelyn Fychan gan D. Johnston yn GyB 47–55, a gw. yn arbennig *ib.* 47, lle y dywedir 'Ceir ynddi nifer o bethau sy'n nodweddiadol o gywyddau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, megis brawddegau'n ymestyn dros sawl llinell, defnydd helaeth o sangiadau, geiriau cyfansawdd, a'r darn hir yn dyfalu'r nodau.'

¹³¹ GMBen 173.

¹³² Gw. uchod td. 17.

¹³³ GDLI 14.

Robin Ddu neu i Ddafydd Llwyd, fel y rhoddid cerddi serch i Ddafydd ap Gwilym, ac er nad cerdd ddarogan mo hon fel y cyfryw, hawdd gweld sut y gallai copïydd fod wedi credu hynny, yn enwedig yn llinellau olaf y gerdd lle yr uniaethir Owain â'r mab darogan.

Hwch a merch od wyd berchen

LIGC 13154A, 17. Pedair llinell o gywydd, wedi eu priodoli gan Iolo Morganwg i Ieuan Gethin. Y maent yn llawer symlach eu harddull na gwaith dilys Ieuan: Iolo, y mae'n siŵr, a'u lluniodd.

Mil a chant gwarant gwiriwn ond wyth

Mil a chant gwarant gwiriaith a thrugain

Dau englyn wedi eu priodoli i Ieuan Gethin gan Iolo Morganwg yn LIGC 13154A, 74. Nid oes unrhyw sail dros gredu eu bod yn ddilys (cf. y sylwadau ar *Hwch a merch od wyd berchen*).

Y gwŵr sy ar Groes irwaed (GRhB cerdd 2)

BL Add 10313, 24^r; BL Add 14882, 100^r; BL Add 31083, 47^r; Card 2.40, 484; Card 2.630, 152; Card 5.44, 223; Stowe 959, 45; CM 12, 399; CM 22, 104; LIGC 970E, 437; LIGC 13061, 287; LIGC 6511B, 217; Llst 53, 423; Llst 124, 207; Llst 164, 200; Pen 54, i, 342; Pen 83, 104; Pen 99, 614; Pen 198, 191; Pen 221, 155. I Rys Brydydd y priodolir y gerdd hon ym mwyafrif y llawysgrifau ac fe'i golygwyd fel ei waith ef yn GRhB cerdd 2.

1

Cais i ryddhau Owain Tudur o'r carchar

- Gwyddom dewi a goddef,
 Gweddïwn ni gwiwDduw nef,
 Gorau unDuw a'n gweryd,
 4 Gwae nyny Gymry i gyd!
 Yr un dyn o rieni,
 Blodeuyn oedd blaid i ni
 Sy 'ngharchar, gafar gofid,
 8 Yng Nghaer-ludd, anghywir lid,
 A'r tŵr drud, yn y tir draw,
 Cornir wedy cau arnaw.
 Gwae ni fod ym margod mur
 12 Yn eu tid Owain Tudur.
 Ba neges y bai 'n Niwgad
 Benadur o Dudur dad?
 Rhyd ystad, rhydost ydoedd
 16 Rhoi ar un (rhyarw oedd)
 O deŷrnwaed Edeirniawn
 Ddau efn oer ddifwyn iawn.
 Os gwir doddi yn ddiwed
 20 Gefyn trwm ar gefn y troed,
 Minnau â'm gwawd tafawd da
 Am ei esgair a'i mysga'
 Ac a'i torraf â'm tafawd,
 24 Yr ail gwyर्थ, o eiriol gwawd.
- Ni bu leidr, ni'i biliedwyd,
 Na thraetur llin Tudur Llwyd;
 Nid oedd gywilidd iddaw
 28 Ei atal ef 'n y dref draw.
 Nid am ddwyn march mewn ffrwyn ffraeth
 Yn lledrad anllywodraeth;
 Nid am ddyled, o'm credir,
 32 Y mae 'n y rhest meinwr hir.
 Nid cyfraith, ddisymlwaith sôn,
 Helbul gŵr hael abl gwirion.
 Athrod yw (uthr y diaine)
 36 Am ferch brenin ffrwythwin Ffrainc.

Er iddo gynt ar ddydd gŵyl
 Fwrw ei serch, frowys orchwyl,
 Ar ferch brenin y gwindir
 40 Oedd ddyn hardd wiw addwyn hir,
 O chyfarfu, wych eurfun,
 (O'i chennad fu), â'i chnawd, fun,
 Canmil a dwng, cyfrwng ced,
 44 Cynnig uthr, cyn eu gweithred,
 Brenhinawl ollawl allu,
 Ei briodas, Felwas, fu.

Y mae plant, meddant i mi,
 48 Heinif iddo ohoni,
 Yn frodyr, tarianwyr trin,
 O farwniaid i frenin,
 A hefyd, cyfrwyddyd call,
 52 Yn wyrion brenin arall.
 Duw a ro, rhag cyffro cur,
 Rawnt hoedl i wyrion Tudur!

Y mab, mae gennym obaith,
 56 A ddêl cynt o ddwylo caith.
 Y dug hael glandeg o hyd
 O lân Gaer Loyw a'n gweryd,
 Cymrodedd Cymro ydiw,
 60 Â'i gariad gwych, garw du gwiw.
 Rhoed Duw i'r gwalch balch bylchlyn
 Fywyd hir i fyw at hyn.
 Awch lid ei fwyall achlân
 64 Enilled Owain allan
 Yn rhwydd wrth yr arwyddion,
 Yn rhydd i Benmynydd Môn!

Ffynonellau A

A—Bangor (Mos) 5, 38^r B—Bangor (Mos) 9, 93^v C—BL Add 14875, 181^v
 D—BL Add 14880, 67^v E—BL Add 14906, 71^r F—BL Add 14966, 71^r G—
 BL Add 14977, 95^r H—BL Add 14978, 18^r I—Card 1.2, 268 J—Card 2.114,
 145 K—Card 2.616, 172 L—Card 2.619, 126 M—Card 3.37, 30 N—Card
 5.44, 186^r O—Gwyn 4, 97 P—J 137, 9 Q—LIGC 279D, 284 R—LIGC 552B,
 108^r S—LIGC 642B, 98^r T—LIGC 873B, 153 U—LIGC 970E, 381 V—
 LIGC 3057D, 175 W—LIGC 3049D, 30 X—LIGC 3051D, 143 Y—LIGC
 5283B, 76 Z—LIGC 6511B, 70^r a—LIGC 8330B, 21 b—LIGC 9048E, 68^r
 c—LIGC 9166B, 83 d—LIGC 21290E, 113^r e—Llst 7, 33 f—Llst 38, 94 g—

Llst 53, 172 h—Llst 55, 152 i—Llst 118, 187 j—Llst 134, 166^v k—Pen 97, 68 l—Pen 112, 109 m—Pen 114, 37 n—Pen 184, 85 o—Stowe 959, 48^r

Ffynonellau B

BL Add 14898, 86^r BL Add 14964, 29^r BL Add 14972, 38^r BL Add 15000, 101^v BL Add 31073, 31^r BL Add 31083, 63^r Bodley Welsh f.1, 77^v Bodley Welsh f.5, 12^v Card 1.51, 73 Card 2.40, 467 Card 2.623, 117^v Card 3.2, 7 Card 4.10, 592 Card 4.9, 131 CM 200, 186 CM 21, 183 CM 454, 37 Esgair 1, 50 LIGC 13062B, 309^r LIGC 170C, 148 LIGC 279D, 284 LIGC 3061D, 140 LIGC 5474A, 713 LIGC Mân Adnau 1206B, 314 Llst 133, 565 Pen 198, 69

Codwyd y testun o'r 67 copi llawysgrif, gan gofnodi isod amrywiadau o'r 41 llawysgrif a restrir dan 'Ffynonellau A', sydd yn dyddio'n fras cyn 1650. Ceir dirywiad yn y testun gyda threigl amser, yn aml oherwydd ceisio gwneud synnwyr o ffurfiau anghyfarwydd (gw., e.e., llau. 5, 22), neu oherwydd ceisio cywreinio'r gynghanedd. Y mae 16 o blith y 41 llawysgrif yn perthyn i'r 16g., a rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'w tystiolaeth hwy wrth lunio'r testun golygedig. Daw'r testun cynharaf un o ddegawd cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg, yn llaw'r bardd Ieuan Brechfa (llsgr. e) ac y mae'r ffaith iddo gofnodi hanner cyntaf nifer o'r llinellau yn awgrymu mai *aide memoire* iddo oedd y copi hwn. Y mae nifer o'i ddarlleniadau yn unigryw ac y mae'n esgeulus ar brydiau, e.e. ll. 47 y mae *platt meddant i mi*, sydd yn dinistrio'r gynghanedd sain amlwg. Ceir cyswllt agos rhwng rhai grwpiau o lawysgrifau (e.e. y llawysgrifau deheuol Lo sydd yn tarddu o'r un ffynhonnell â llawysgrifau Llywelyn Siôn, NUZdj, i bob golwg). Ambell linell yn unig a geir yn llawysgrif h.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 179–85.

Amrywiadau

1 *A* Gwyddam, *CJNUWYZehjo* Gwddom, *Fc* Da Gwyddom, *HLb* Gwddon, *e* gwddo; *k* weddi; *Ja* ac addef, *W* ag odde, *Ve* a godde, *Sl* ac adde. 2 *GIPRS TVWXAefgikn* gweddiwn i, *O* Gwedhiwn ni 'n, *c* gweddiwn ni /r/; *T* gwiw duw; *SVWL* ne. 3 *G* vu duw, *V* ond dyw, *W* onduw, *Yfyw* vn; *M* ai gwyrtd. 4 *B* yn ni. 5 *Beio* yr vn oedd, *G* ~~yr un~~ ore vu, *M* yr un pen, *NZj* yr vn ar, *b* or vn dyn; *G* ar rieni, *gn* oi rieni, *L* y rhieni, *M* or heini, *Nd* i rieni, *o* oray^y eni. 6 *Bi* blodevn avr, *F* blodevn a oedd, *L* blode yn oedd, *f* blode ir oedd; *a* oedd (*wedi ei gywiro yn aur gan law ddiweddarach*). 7 *BGRk* yng harchar, *C* yssyngharchar, *Ef* y sydd yngharchar, *IKSl* sydd yngharchar, *e* Maeng harcharr, *m* sy yng arch ar; *BGFHLWeilm* gyfar, *D* gafa, *Kl* galar, *V* gyver, *o* gavr; *Kl* golid. 8 *B* Gaer lud gan, *D* Yn Caer Lûdd; *FVe* lludd; *BCH* iangwyr o lid (*cywirwyd iangwyr o yn ang howart i gan law ddiweddarach yn C*), *e* iang lid. 9 *BEi* Antvr, *GMOXYk* yn y twr, *H* yn y tir, *PTgn* y twr, *a* Ir Twr a gywirwyd gan law ddiweddarach yn antur, *c* mewn twr, *e* Attur; *Bei* yn y twr

draw, *H* ar twr draw, *Mk* or tir draw, *O* in tir draw, *Y* antur draw, *X* oi tir draw, *o* yn u tir draw. 10 *Bei* kyrnic, *C* kornic, *a* kornir (*cywirwyd yn kyrnic gan law ddiweddarach*), *n* kvrnir, *f* kae mir; *HPcf* gwedi; *B* gau. 11 *B* Os gwir bod; *CEG-KMRSXYabfglmo* vi; *iZ* ymargo mvr, *a* y marchog antvr (*cywirwyd yn ymargod mur gan law ddiweddarach*). 12 *B* y tŷ it, *f* y tud. 13 *BL* by neges, *V* i neges, *Z* bv neges; *V* ni by yn ny[], *Y* o bai nuwgad. 14 *B* baun eglur; *i* daid. 15 *AY* rhod (*wedi ei gywiro'n rhoed gan law ddiweddar yn A*), *BFIVW* rhed, *K* rhedr, *M* eroed, *Xg* rhoed; *FGKk* i stad, *HMSXacgl* o stad (*wedi ei gywiro'n ystad yn a*); *M* rhydoest, *NZd* a Ry dost; *NUZd* oedd. 16 *G* i Roi; *BEac* wr (*cywiriad gan law ddiweddarach yn a*); *C* rry awrw oedd, *G* Ryoer oedd, *LNUZdj* Ryw o Rywoedd, *a* rhyw aerwy oedd (*cywiriad gan law ddiweddarach*), *i* rhiw aerwy oedd, *m* ry arw yr oedd. 17 *Bi* O deyrnedd, *C* Odyhevrnwaed, *E* o dehev^rrwaed, *F* o dehevrn waed, *H* o ddyhyrn waed, *I* odehern waed, *K* o dehevrniad, *a* o dy eirnwaed, *f* ar deyr o waed, *g* Rhoi ar devyrn gwaed, *o* o dy yrniaid; *LNUZdj* i dirniawn, *ac* y deirnawn. 18 *Bf* dau; *B* aur adfwyn, *CE-JKLNSUZbijlm* aur addfwyn, *R* awr addfwyn, *V* ayr ddivwyn, *a* waed ddevfwyn, *c* oedd ddifwyn, *f* aur aeddfwyn, *g* avr oedd fwy/n/, *Yo* ayr addwyn. 19 *G* os gwir oedd gwisgo, *M* [] gwr doddi, *o* os y doddi; *B* rodi, *Kcfcginm* ddodi, *k* rhoddi; *B* yn di-oed. 20 *e* gefn trwm; *Bia* am (*cywiriad yn a gan law ddiweddarach*); *CJLi* gefn troedd; *K* y roed; *c* troedd. 21 *M* []af, *W* minef; *JNUZj* om, *EGe* a; *EJMVWX* taf. 22 *Gf* oddiam iesgair, *c* o ddiam esgair; *EFHJVV* ai ymwisgaf, *G* ai diwisga, *K* a wisga, *MX* i masgaf, *R* ai ymysga, *c* ar ymddiosga, *g* aimwisga, *k* ai ymwsga. 23 *DP* minau i, *On* mi ae, *o* ag u, *m* ny ay, *T* minav ai, *e* ac a; *e* dorraf, *X* torrof; *NUZdj* om. 24 *C* o geirie gwyrth goreu gwawd (*cywiriad gan law ddiweddarach*), *f* or ailwaith o riolwawd; *R* yn ail, *b* y ail, *k* wrol; *EGIKie* gwaith, *H* waith, *P* gwrth, *a* gwth (*cywiriad gan law ddiweddarach*), *kn* gwerth, *o* gwr; *DPRSTagiln* er, *Hb* or, *k* ar, [M]; *ADEJLRWgn* eirial, *H* eiriawl, *M* arael, *OXYbem* arial. 25 *c* nid bradwr gwlad ir adwyd; *JLMagm* ni fv; *B* o biledwyd, *G* nid er lidiwyd, *H* a beiladwyd, *I* ni bylidiwyd, *JMWa* ni filedwyd (*ai gywiro'n o filiedwyd yn a*), *K* ni by diwyd, *LNUZj* ny biliav ydwyd, *R* na ðnifel wyd, *Tn* ni biliwyd, *V* ni ffleidiwyd, *Y* na baelidiwyd, *bm* ni biliadwyd, *f* ymbleidiwyd, *g* pann filiadwyd, *k* na bowliadwyd, *l* ni bileidwyd. 26 *b* Naf; *a* thratvr; *M* lin, *b* lhyn; *ACHOJRVTWYbgm* dvdvr, *e* tur. 27 *D* ni oedd, *Go* ac nidoedd, *RScln* Nid ydoedd, *b* Nyd oed; *E* o gwilidd, *T* yn gwillidd, *a* gwilidd hynu, *k* ddim kwilidd. 28 *Xa* ir dref, *CGO* *Tgl* yn dref, *P* yn y dre, *S* yn dre. 29 *G* nid am farch ai ddwyn, *c* nag am ddwyn march, *k* nid march by yw ddwyn; *B* o ddwyn; *PVo* maich; *L* minffwyn ffraeth, *NUZj* minffrwyd ffraeth. 30 *B* I ledrad wir, *EITXn* yn lladrad, *Ji* yn lladrad o, *Mf* yn lledrad o, *P* na lladrad, *Y* na lledrad, *a* nid am lledrad (*cywirwyd am yn ynn gan law ddiweddarach*); *e* wiw lawdreeth, *f* anllyodraeth, *k* an llefodraeth. 31 *MXl* Nac am; *D* [am]; *Bf* dlyed, *CPSTgiln* ddled, *N* ddelyed, *U* ddylyed, *X* ddyleed, *b* ddleyed, *o* ddlyed; *DRPTgln* ef

am, *EY* fom, *LSXZ* am, *c* fo. 32 *BDP* *Y* mae /n/ rest, *G* mae yn irhes, *J* y mae yn Resd, *L* mae e ny rhest, *NTUZdo* mae ny Rest; *BDRfo* y meinwr, *L* mainw. 33 *B* seingliaeth sôn, *EHf* ddisymliath son, *I* symylwaith son, *K* semlwaith son, *MX* ddisalwaith son, *i* seinglwaith son, *k* ddi semlwaith son. 34 *f* helbil gwyr hael Babbilon; *M* hel y, *R* hvlbvl, *V* hebbyl, *X* a hel, *g* elbvl; *J* hail abel, *G* fel abel, *H* heb aby, *M* hawl, *R* hael abel, *X* heb hawl, *k* hael by; *g* wirion, *k* galon. 35 *BLUZbgijm* Ethrod yw, *E* vy athro duw, *G* athro yw duw, *Mo* athro dyw, *V* athro dyw, *W* a thro duw, *a* athro /d/ y rest (*cywirwyd gan law ddiweddarach yn Affred yw*), *k* athro yw; *AEIKLNSUV WYZcdfgjlm* eithyr, *G* ethyr, *bk* ythr, *Mo* ythvr; *AEHNRTUgimno* or diaink, *DKbfi* o diaink, *L* ar diaink, *P* o diank, *W* idiank, *c* a diaingk. 36 *MX* a merch; *D* ffrwythwine, *K* ffraethwin, *N* ffrwyth, *f* ffrwythlaw; *Rk* ffrank. 37 *E* Am iddo, *e* ond iddo; *b* rhyw ddydd, *e* mewn dydd, *m* ryw ddydd. 38 *H* bwrw i serch, *C* vwri sserch *GLo* vwrw serch; *BHh* browys, *E* ffrowys, *f* rwyfys, *k* ar frys. 39 *o* am verch. 40 *AEGIMOVWXlabcgm* oedd vyn, *CJRT* oedd vn, *LNUZj* o ddyn, *DPf* oedd yn, *e* a oedd ddyn, *h* dyn bhwyn, *k* oedd feniw; *BLNUZij* vwyn hardd, *bm* harddfwyn, *e* hael, *h* bhwyn hael, *k* hardd; *BGIL-OUZgijkm* addfwyn, *KSaclh* addbhain (*a'r ain yn l wedi ei gywiro'n wyn*), *b* adwyn, *f* aeddfwyn. 41 *I* a; *B* chyhyrddawdd, *GK* chyffyrddawdd, *Elf* chyffyrddawdd, *J* chyfarfv ar, *a* chyfarfv 'n a *gywirwyd gan law ddiweddarach yn chyhyrddawdd*, *b* chyfarvu r, *e* chyrdodd; *Be* aur ddyn, *D* v'eurfun, *EG* evrddyn, *H* weirfvn, *IK* fevrddyn, *PY* fy evrfvn, *R* fv evrfvn, *a* fawrfvn (*cywirwyd gan law ddiweddarach yn eurddyn*), *f* fyrdyn. 42 *CDHJ MOPRTXkn* i chennad, *M* ei chynad; *JLNUZdjl* a chynawd, *P* a chawd; *Z* y vun. 43 *E* kanmil a ddwg (*cywiriwd ddwg yn dwng gan law ddiweddarach*), *a* kant a dwng (*cywirwyd kant yn mil gan law ddiweddarach*), *R* kanmil a ddvg, *S* mil a dwng, *f* kanmil y dyng; *FK* kyfwng, *LNUZdhj* cybhlwng, *M* kythlwng, *W* kygrwng, *X* kystlwng, *f* kyfyng. 44 *k* kyngig; *GLNUZadfijm* eithyr (*cywiriad gan law ddiweddarach yn a*); *AEG-JKMSVWYailn* kynn gweithred, *D* cyn i gweithredd, *c* kan gweithred. 45 *B* Branniawl, *I* breniawl, *Q* brenhinal, *e* gras mawr; *DGdk* allawl, *IE* oi allawl, *K* oi llaw, *e* wrth allawr, *f* oi allanol; *W* allav. 46 *EHLN-QSTUXYabgimno* a'i, *B* *Ce* y, *Gik* [A'i], *Jl* ail; *C* beiriadas, *l* beriodas, *H* ffeiriodas, *U* briodes, *V* biriodas, *Wc* beiriodas, *k* peiriodas; *G* beriodas ai felwas, *Ik* briodas ail felwas, *K* briodas o Felwas. 47 *ACEGJMPQSUVWkln* [Y]; *e* platt. 48 *ADEG-KMPQSTVWc* *iklmn* heini (*cywirwyd gan law ddiweddarach yn n*), *BZej* hainyf, *OYa* hynod (*wedi ei gywiro'n heinif gan law ddiweddarach yn a*), *g* henaidd; *a* a ddaw (*wedi ei gywiro gan law ddiweddarach yn iddaw*); *DLNT* *Ubdjo* o heni. 49 *D* yn vordyr; *A* trainwy hyr (*cywiriad gan law ddiweddarach*), *E* tramwywyr, *GOXfk* traeanwyr, *HK* trawn wyr, *li* trywynwyr, *a* trywynwyr (*cywiriad gan law ddiweddarach*), *e* trywanwyr. 50 *GO* yn; *G* farwynied, *JSVWla* varwnwayd (*wedi ei gywiro'n farwniaid gan law ddiweddarach yn Aa*), *K* farwnied. 51 *NZ* hefydd; *CP* kyfrwydd, *BGHLSUXYZa-dijlm*

kelyddyd, *N* kelfydd, *e* gelvyddyd, *o* klyfyddyd. 52 *P* yn wyr i frenin arall; *GVJk* wirion; *c* ifrenin. 53 *Co* dwv ai rro, *DLNUZdj* a duw Ro, *V* ddyw a ro, *W* duw ai Rof, *Y* duw rhoddo, *i* a duw a ro; *bmo* kyn kyffro. 54 *ADEGHIKP QTVYc* uddunt (*a gywirwyd yn i rent yn V*), *CJ* i rent, *M* ran at, *O* yn twy, *Sl* grawnt, *W* ir rrent, *X* ran at, *fg* arnynt, *j* Rawn, *m* i rain, *n* iddyn, *o* Rann u; *L* choedel, *X* hvedl, *o* tad; *ACEG-LMOPQU-Zgkmno* [i]; *Ao* wyron, *GVj* wirion, *n* [wyrion], *T* Owain, *X* wyrion Owain. 55 *CV* yn mab, *W* bu mab; *flm* y mae; *k* kenym, *o* genni; *GKc* obaeth (*cywiriad*), *k* obaeth. 56 *DGOPRTcn* y del; *b* [cynt], *MRn* gynt, *Y* kawn, *c* mal kynt; *EGHOPTYcn* oi dwylo, *J* i addaw, *R* ai ddwylo; *EGHKOPYck* kaeth, *M* kaeith, *R* o gaeth, *n* gaeth. 57 *Y* [Y]; *m* dwg; *EGHIKMxcf* hael mae n dec, *Bia* hael oedd deg (*gan law ddiweddarach wrth ymyl y ddalen yn a*), *Y* hael band oedd deg, *m* hwyl mayndeg; *X* o fryd, *BGIKia* i hyd (*gan law ddiweddarach wrth ymyl y ddalen yn a*). 58 *B* O lan gan gaer loew; *J* yw n gweryd, *M* an gweryd, *f* lan gweryd. 59 *E* gymrodaith, *Y* kymer odiaeth, *W* kymrodeth, *a* Cymroded (*llaw ddiweddarach wrth ymyl y ddalen*), *f* kymrodiaeaith, *g* kymrodaidd; *ABVW* kymry, *m* kyno []. 60 *ABJMVWXacgi* kariad (*gan law ddiweddarach wrth ymyl y ddalen yn a*), *G* agarid; *MXa* y gwyr; *MVWXac* karw du (*gan law ddiweddarach wrth ymyl y ddalen yn a*), *Bi* y karw dv, *J* kar; *K* garw da gwiw, *g* kyredig yw, *f* gariad dy gwiw. 61 *AJVWe* roid ttuw ym, *GHIMXf* dwv aro ir, *m* rhoed daw/r/; *X* gwalch balchwyn, *Y* gwalch difalchwyn; *B* bylchyn, *E* beilchlyn, *H-LNUZdgij* bylchwyn, *f* beilchwyn. 62 *Y* bowyd; *BEGHIKXacg* yfo ai tyn (*ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach yn a*), *Y* yn y byd hyn, *e* a vu oed hyn, *m* a fo []. 63 *G* awchllid, *M* o awch allid, *Y* awch lym; *E* o fwyall a chlan, *G* yfo eillach lan, *NUZj* y vwyall wych lan, *JV* i fwyail achlan, *Ld* y vwyalch awch lan, *Y* ai fwyall a chlan, *c* i bwill achlan, *g* a bwyall wych lan. 64 *f* eneilled Owani, *m* yn i llad Owain; *K* owchlan, *e* o hynn allan. 65 *m* yn arwydd; *ef* wrth vy arwydd, *o* wrth varwyddonn, *I* wrth iharwyddio[], *B-EHKMOPRSTXiln* wrth i arwyddion, *ac* wrth arwyddion.

Teitl¹

BVX k. i Owain Tudur pan oedd yngharchar, *D* garchar (*sic*) Owen Theodor, amgen owen ap Meredydd ap Tudur ap Gronwy ap Tudur ap Gronwy, *F* Cow: i Owain Tudur pan oedd yngharchar am briodi, *H* kowydd bar owain tvdr {o Benmynydd Hendaidd Harri 7d Brenhin Lloegr} {Cywydd marwnad Owain Tudur}, *I* Cwyno i owain tvdvr pan oedd yngharchar, *JW*o Owain tvdvr, *K* kowydd i owain Tvdvr yn i garchar, *LNZd* llyma gywydd y owain tvdvr, *M* kowydd i Owain Tvdvr o ben mynydd, *O* Cowydh i Owain Tudr a gant Dafydd llwyd ap llewelyn ap Gruff {I Owen Tudur pan oedd yng ngharchar} {{wedi marw ei wraig y Frenhines Gweddw Harri V}}, *P* kowydd kwynvanvs owen Tudvr, *Q* Cowydd ei (*sic*) Owen ap Mredith ap

¹ Dynoda {} / {{{}} lawiau diweddar.

Tudyr ap Gronw, ap Tudyr ap Gronw, ap Ednyfed Fychan o Benmynydd yn sîr Fôn pan oedd yngharchar o achos priodi merch Brenin Ffrainc Widw H. 5., *R* kowydd I owen tvdyr, *U* dyma gywydd owain tydyr, *Y* Cowydd i owain tudur o ben mynydd y mon pann oedd yng harchar o achos merch Brenin ffrainkg, *a* ko: owain Tvdvr, *b* kywydd y Owein tudyr hendar brenhin harri y seithved, *c* kowydd Owen []udur pen garcharwyd fo am biriodi /r/ frenhines, {gweddw Harri'r Pumed AD 1423}, *f* Cowydd y Owen Tudur pan oedd yn y twr gwyn yngharchar (gan law arall), *g* ko: i owen tvdvr pann oedd yn yntwr, *j* llyma gywydd o blegid doddi owain tydur yngharchar, *k* llyma gowydd i owen tydr o benn mynnydd mon, *l* kywydd moliant i Owain ap mredvdd ap Tvdvr ap Gronw ap Tvdvr ap Gronw ap Ednyfed fychan o Fôn pan oedd ef yngharchar, *m* kowydd i Owen ap mredydd ap Tudur ap gronw, *n* k: i Owain Tudur o Fôn pan garcharwyd ef am frenhines ffraink.

Olnod

ABCEHah Ienn gethin ap Ienn ap lleision, *D* David lloid ap llewelyn ap Gruff, *F* Ifan Gethin ap Ifan ap Lleision, *GJKVWemo* Ienn gethin ap Ienn ap lleission ai kant, *Ic* Ifan gethin ap Ifan ap lleision ai kant, *KMI* iefan gethin ap iefan a[], *LNRUZd* Ienn gethin ai kant, *OQTn* Dafydd llwyd ap Llen ap Gr' ai k:, *P* davydd ap llen ap gw' ai kant, *S* Ieuan gethin ap Ien., *X* Ienn gethin Ienn lleision, *Y* ywain Waeta ai kant, *b* Ievan gethin ap Ieuv ap lheysio ai kan[], Gwhelyth owain tydyr o dywyssogion k[], Owain ap Tudyr vab margared verch Nest ve[] angharad vz Gruffydd ap dd' goch ap dauydd ap Gruffyd. tywyssog kymry. Ar Gryffyd hwynnw [] vab llewelyn vab Ioroeth drwyndwn, *f* Iean gethin ap Iean ap Einion ai cant, *g* Ievan gethin ap Ievan ap lleision esgwier, *j* Ienn Gethin, *k* Ienn gethin am hadog ai kant.

Cwpledi ychwanegol

i

Down â dadlau, dawn didlaes,
Dan y mur i'w dynnu 'maes

ii

O'r rheini ynn y rhennir
Yn goedwydd frenhinwydd ir.

Y mae cwpled *i* yn dilyn llinell 12 yn llawysgrifau BF, a chwpled *ii* yn dilyn llinell 52 yn llawysgrifau FY. Ychwanegwyd y ddau gwpled ar ymyl y ddalen gan law ddiweddarach yn llawysgrif A.

Trefn y llinellau

- A* 1–12, [13–14], 15–30, 33–4, 31–2, (i.1–2, 13–14 *gan law arall ar ymyl chwith y ddalen*), (13–14, 25–6 *gan law arall ar ymyl dde'r ddalen*), 35–52, (ii.1–2 *gan law arall ar ymyl dde'r ddalen*), 53–66.
- B* [1–2], 3–10, 19–20, 15–18, 11–12, i.1–2, 13–14, [21–2], 25–32, 35–6, 33–4, 37–42, [43–4], 45–52, [53–6], 57–66.
- CRblo* 1–2, [3–4], 5–12, [13–14], 15–32, [33–4], 35–56, [57–64], 65–6.
- E* 1–12, [13–14], 15–32, 35–6, 33–4, 37–42, 45–6, 43–4, 47–66.
- F* 1–12, + i, 15–24, 13–14, 25–6, 33–4, 29–30, 27–8, 31–2, 35–52, + ii, 53–66.
- GMX* 1–12, [13–14], 15–24, 27–32, 25–6, 33–4, 37–42, 35–6, 43–66.
- HI* 1–12, [13–14], 15–26, 33–4, 29–30, 27–8, 31–2, 35–42, 45–6, 43–4, 47–66.
- Jg* 1–2, [3–4], 5–12, [13–14], 15–30, 33–4, 31–2, 35–66.
- K* 1–12, [13–14], 15–26, 33–4, 29–30, 27–8, 31–2, 35–42, 45–6, 43–4, 47–66.
- LNZdj* 1–2, [3–4], 5–14, 16, 15, 17–32, [33–4], 35–52, 61–2, 53–6, [57–60], 63–6.
- O* 1–2, [3–4], 5–12, [13–14], 15–16, 15 (*wedi eu dileu*), 17–30, 33–4, 31–2, 35–56, [57–64], 65–6.
- P* 1–2, [3–4], 5–12, [13–18], 43–6, [19–22], 23–32, [33–4], 35–42, [43–6], 47–56, [57–64], 65–6.
- Q* 1–2, [3–4], 5–12, [13–14], 15–30, 33–4, 31–2, 35–56, [57–64], 65–6.
- S* 1–2, [3–4], [13–14], 15–32, [33–4], 35–56, [57–64], 65–6.
- DTn* 1–2, [3–4], 5–12, [13–18], 43–6, 19–20, [21–2], 23–32, [33–4], 35–42, 47–56, [57–64], 65–6.
- U* 1–2, [3–4], 5–10, [11–12], 13–14, 16, 15, 17–28, 27–8 (sic), 29–32, 33–4, 35–52, 61–2, 53–6, 63–6.
- V* 1–12, [13–14], 15–26, 13–14 (*wedi eu hychwanegu ar ymyl y ddalen gan y brif law*), 27–30, 33–4, 31–2, 35–66.
- W* 1–12, [13–14], 15–30, 33–4, 31–2, 35–66.
- Y* 1–12, 15–24, 13–14, 25–32, [33–4], 35–42, 45–6, 43–4, 47–52, ii.1–2, 53–66.
- a* 1, (2–3 *gan law ddiweddar ar ymyl y ddalen*), 4–12, [13–14], 15–30, 35–56, (57–62 *gan law ddiweddar ar ymyl y ddalen*), 53–6, (63–4 *gan law ddiweddar ar ymyl y ddalen*), 65–6.
- c* 1–12, [13–14], 15–28, 31–2, [33–4], 29–30, 35–66.
- e* 1–2, [3–4], 5–10, [11–18], 19–26, [27–8], 29–30, 37–42, [43–4], 45–52, [53–60], 61–6.
- f* 1–12, [13–16], 17–32, 35–6, 33–4, 37–42, 45–6, 43–4, 47–56, 59–60, 57–8, 61–6.
- h* 1–2, 15, 48, 40, 46, 38, 43, 49.

- i* 1–12, [13–14], 15–26, [27–8], 29–32, 35–6, 33–4, 37–52, 61–2, 57–60, 53–6, 63–6.
- k* 1–2, [3–4], 5–12, [13–14], 15–16, [17–18], 19–30, 33–4, 31–2, 35–56, [57–64], 65–6.
- m* 1–2, [3–4], 5–12, [13–14], 15–32, [33–4], 35–66.

Cais i ryddhau Owain Tudur o'r carchar

- Cyfarwydd ydym â chadw'n dawel a dioddef,
 Gweddïwn ni ar Dduw gwych y nefoedd,
 Yr un Duw gorau a fydd yn ein hachub,
 4 Gwae ni Gymry ni i gyd!
 Yr un dyn o rieni,
 Yr un mwyaf rhagorol a oedd yn gefn i ni
 Sydd yng ngharchar, tristwch gofid,
 8 Yn Llundain, dicter anghyfiawn,
 A'r tŵr chwyn uchel ei gorn
 Wedi cau amdano yn y tir draw.
 Gwae i ni fod Owain Tudur
 12 Yn eu cadwyn dan fondo mur.
 Pa fath o neges yw hon ei fod yn Niwgad,
 Yr arglwydd y mae Tudur yn hynafiad iddo?
 Cyflwr o gyfyngder, poenus iawn ydoedd
 16 Rhoi ar ŵr (creulon iawn oedd hyn)
 O waed brenhinol Edeirnion
 Ddwy lyffethair oer annymunol iawn.
 Os yw'n wir bod gefyn trwm
 20 Wedi ei osod yn ddisymwth ar gefn y troed,
 Byddaf innau drwy gyfrwng fy marddoniaeth dda
 Yn ei ddatod o gwmpas ei goes
 A byddaf yn ei dorri â'm tafod,
 24 Yr ail wyrth, drwy eiriolaeth barddoniaeth.
- Ni fu un o linach Tudur Llwyd yn lleidr nac yn fradychwr,
 Ni chyhuddwyd mohono'n gyhoeddus;
 Nid cywilydd iddo
 28 Fu ei ddal ef yn y dref draw.
 Nid am iddo ddwyn march bywiog mewn ffrwyn
 Yn lladrad afreolaeth;
 Nid oherwydd dyled, os credir fi,
 32 Y mae'r gŵr tal a main yn y ddalfa.
 Nid cyfiawnder, gwaith doeth yw adrodd hyn,
 Yw helbul y gŵr hael, abl a diniwed.
 Cyhuddiad ar gam yw hyn (bydd ef yn dianc yn rhyfeddol)
 36 Ynglŷn â merch brenin Ffrainc y gwin ffrwythau.
 Er iddo gynt ar ddydd gŵyl
 Fwrw ei serch, gweithred nwyfus,
 Ar ferch brenin gwlad y gwin
 40 A oedd yn ferch hardd, wych, luniaidd a thal,

- Os bu iddo gyffwrdd, merch wych ac ysblennydd,
 Â'i chnawd hi, y ferch (trwy ei chydsyniad y bu hynny),
 Bydd can mil yn tyngu, yr un sydd yn gyfrwng rhodd,
 44 Cynnig rhyfeddol, mai cyn eu gweithred
 [A chyda] llwyr awdurdod brenhinol
 Y bu ei briodas ef, Felwas.
- Y mae ganddo, meddant i mi,
 48 Blant bywiog ohoni,
 Sydd yn frodyr, rhai sydd yn cludo tarian mewn brwydr,
 O farwniaid i frenin,
 Ac sydd hefyd, dyma wybodaeth graff,
 52 Yn wyrion i frenin arall.
 Boed i Duw roddi, rhag cynnwrf poen,
 Hawl einioes i wyrion Tudur!
- Y mae gobaith gennym y bydd y mab
 56 Yn dod yn fuan o ddwylo taeogion.
 Bydd y dug hael glandeg
 O Gaerloyw hardd yn ein hachub,
 Cyfryngwr ar gyfer Cymro ydyw,
 60 Trwy ei gariad gwych, y carw du ysblennydd.
 Boed i Dduw hefyd roi i'r hebog urddasol a'i ddiod yn goferu
 Fywyd hir i fyw.
 Bydded i lid miniog ei fwyall
 64 Lwyddo yn llwyr i gael Owain allan
 Yn rhwydd yn ôl yr argoelion,
 Yn rhydd i Benmynydd Môn!

Cwyn am ddifa bydafau

Ym yr oedd, Mair a wyddiad,
 Melin lem ym mlaen y wlad.
 Gwychlaw Siôn dirion, gwayw dur,
 4 Gwyn ap Rhys, gwnaf gŵyn prysur
 Dy fod, am yr amod mau,
 Yn difa fy mydafau.
 Dy weision, myn Duw, eisioes
 8 Â mi a ynt ddrwg eu moes,
 Dwyn hynt (ffrom ynt!) i'm fferm i
 O'r brynnau i'r ceubrenni.
 Myn Duw nef, myned a wnân',
 12 Mal wylliaid, â'r mêl allan;
 Dwyn o'r mêl, didrafel dro,
 Rhan yt, y maen', rhin eto.

Gwardd Lywelyn, y dyn du,
 16 Dy was, myn Duw a Iesu,
 Gŵr, heb gampau rhagorawl,
 Y ferch wen (faw ar ei chawl!),
 Helwr, pylgeinwr, gwenen,
 20 Hwyl pryf, a wŵr hwilio'r pren
 Â'i fwyall fach, felly fydd,
 A'i gyrfach hir, o gorfydd.
 O chlyw'r pryf wrth chwilio'r pren,
 24 Dryddew gwinau, dwrdd gwenen,
 Abwyd dyn, a bod yno
 O fêl, os cenfydd efô,
 I dor y ddâr wedy'r ddwyn
 28 Gan hwilod bach, gan halwyn,
 Iddew pyg, gogryg awgrim,
 Aed i ddiawl, ni edy ddim!
 Rhaw a phicys, rhaff hawcwyr,
 32 Rhyfedd pa wedd (pwy a wŵr?)
 Y ddi'r iangwr i dringaw
 O'r pâr un droed i'r pren draw.
 Dewi a wnêl dan y iau,
 36 Diriaid wŵr, y droed orau

A'r glin wrth fin y fwyall,
A'r glun yn un llun â'r llall.

- 40 Gruffudd, mi a'i cyhuddaf
Gyn y nos, ac iawn a wnaif.
Dy was, Siôn, myn Duw, y sydd
Un wyneb â gwenenydd:
44 Myn llar, minnau welwn
Gradd o hwydd mewn gruddiau hwn,
A thrwyn bras mal Iohasim,
Ac ael dew, braidd y gwyl dim.
Gormodd fêl tew a lewas,
48 Gwden dan fôn gên y gwas!

- 52 Lleidrach yw yntau, Ieuan,
Esgair gul fal ysgwîr gwan;
Ni ad bydaf ger adwy,
Nac yn fyw'r un 'hanyn' hwy.
A bod nyth y gwyddbedyd,
Milain gleirch, ym mlaen y glyn,
56 Grin war gam, graen ei ar goch,
Ieuan felyngan, flingoch,
Pei gwypai hwn, gwn ei gof,
Ei grogi, dygai rhogof.

- 60 Y siryf, ruddiau sirian,
Syr Wiliam, gledd dinam glân,
A wÿr â'i gyfraith aren
Holi'r pryf am hwilio'r pren.
Fy meistr gÿwl a'm hanwylyd,
64 Myn y iawn gantyn' i gyd!

Ffynonellau

A—Llst 6, 95 B¹—Llst 55, 39 B²—Llst 55, 107 C—Pen 60, 17 D—Pen 312 ii, 72

Seiliwyd y golygiad yn bennaf ar destunau A ac C. Ni ddangosir amrywiadau o D, sydd yn gopi o destun C. Ambell linell neu air yn unig a geir yn B¹ a B².

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 179–85.

Amrywiadau

3 A Gwych, B¹ gwchlew; C diurion waew. 4 A gna; A pysyr. 5 B¹ omod. 12 A williaid, B¹B² wylhod, (B²) hwilod, C wullad. 13 C ddi drafel. 14 C yti. 15

A llywelyn; *C* [y]. 16 *C* er dyw. 17 *B*¹ camhav, *B*² gamh. 18 *A* wen va. 19 *C* pyl gynnwr. 20 *C* hvlp rydd; *C* hwilio pren. 21 *A* vyall. 22 *A* gryfach; *A* agorvydd. 23 *A* wyr chwilior. 24 *A* gwine dwrdd y gwenen. 25 *A* abyw dyn, *C* Abwy dyn bwy *A* bwy dyn [*sic*]). 26 *A* nas kenfydd. 27 *A* wedy ddwyn. 28 *C* hwilot. 29 *A* iddew gogryc gwyw grim. 31 *C* raff fawkwyr. 35 dewi anel. 36 *A* dori yd wr. 37 *C* w vin. 40 *C* gan; *A* y naf. 41 *C* was s'ion sionn myn. 42 *B*¹ gwenynydh, *C* gwynn enydd. 45 *A* Iohasyn. 46 *A* braid; *A* dyn. 47 *CB*² mel; *B*¹ draw. 49 *A* lledrith. 50 *C* gvl ysgwier. 51 *A* vydaf; *B*² mad bydabh a gair. 52 *A* nac yn vynor; *B*² nag yw vn o honyn, *C* nac yw vn o honnvn. 54 *A* milain gloch. 55 *C* grin y war; *A* gran y iar, *C* graen iar goch. 56 *A* vlaen goch. 57 *A* bai; *C* hwinn gwn gwinn gof *a* gwn *uwchlaw a rhwng* hwinn *a* gwinn. 58 *B*¹ bhe dwg, *C* ay dwc. 59 *CD* sieryf ar grvddiev; *A* seirian. 60 *B*¹ clodh; *A* ddinam. 61 *C* oy. 63 *A* [Fy]; *C* anwlyd. 64 *C* a myn v iawnn ganntv gyd.

Teitl

A kywydd yr bydaf, *B*¹ Ifan gethin ap Ian lleison, *B*² Ienn Gethin.

Olnod

A Iefan Gethin ai Kant, *C* Avan gethin ay Kant.

Trefn y llinellau

A [1–2], 3–64.

*B*¹ 3, 5, 10, 12, 17, 19, 29, 33, 42, 49, 47, 53, 60, 57, 58, 51.

*B*² 3, 17, 11, 12, 47, 53, 48, 51, 54, 52.

C 1–54, 56, 55, 57–64.

Cwyn am ddifa bydafau

- Yr oedd gennyf, gwyddai Mair am hyn,
 Felin finiog ger blaen y wlad.
 Siôn Gwyn ap Rhys tirion, gwyech dy awdurdod,
 4 [Un a chennyf] waywffon ddu, cyflwynaf gŵyn ddirifol
 [Sef] dy fod, mewn perthynas â'm cytundeb i,
 Yn difa fy mydafau.
 Yn enw Duw, y mae dy weision eisoes
 8 Yn ddrwg eu moes tuag ataf,
 Yn mynd ar daith (rhai gwyllt ydynt!) i'm fferm i
 O'r bryniau i'r ceubrennau.
 Yn enw Duw o'r nef, mynd a wnânt
 12 Â'r mêl allan fel drychiolaethau;
 Dwyn cyfran o'r mêl i ti y maent,
 Digwyddiad diymdrech, eto'n ddirgel.
- Rhwystra Lywelyn, y dyn du ei wallt,
 16 Dy was, yn enw Duw a Iesu,
 Gŵr priod, heb unrhyw gampau rhagorol [i'w enw],
 I'r ferch wen (boed baw yn ei chawl!),
 Boregodwr, heliwr gwenyn,
 20 Un fel anifail, sydd yn gwybod sut i archwilio'r goeden
 Â'i fwyall fach, felly y bydd,
 A'i ffon fachog hir, os llwydda.
 Os bydd yr anifail, [yr] ebill cochlyd, wrth archwilio'r goeden
 24 Yn clywed sŵn gwenyn,
 Abwyd dyn, a bod
 Mêl yno, os bydd ef yn ei ddarganfod,
 Wedi ei gludo i fol y dderwen
 28 Gan chwilod bach, can galwyn [ohono],
 Yr Iddew pyglyd, cryglyd ei ddull,
 Aed i'r diawl, ni fydd yn gadael dim!
 Rhaw a phiciau, rhaff y pedlerwyr,
 32 Rhyfedd pa fodd (pwy sy'n gwybod am hyn?)
 Y deuai'r llanc i ddringo
 Os llwydda i gael un troed yn y goeden draw.
 Boed i Ddewi roi'r troed gorau
 36 O dan yr iau, y dyn anfad [= Llywelyn],
 A'r glin wrth fin y fwyall,
 A'r glun yn yr un wedd â'r llall.

Gruffudd, mi a'i cyhuddaf
 40 Cyn y nos, a byddaf yn gwneud cyfiawnder.
 Dy was, Siôn, yn enw Duw, sydd
 Â'r un wyneb â gwenynwr:
 Yn enw Ilar, gwelwn innau
 44 Gryn dipyn o chwydd yng ngruddiau hwn,
 A thrwyn mawr fel Sioachim,
 Ac ael drwchus, prin y mae'n gweld unrhyw beth.
 Llowciodd ormod o fêl trwchus,
 48 Boed rhaff grogi dan fôn gên y gwas!

Mwy chwannog yw yntau, Ieuan, i ladrata,
 [Un ac iddo] goes denau fel ysgwier gwan;
 Nid yw'n gadael llonydd i fydaf ger adwy,
 52 Nac yn gadael yr un ohonynt hwy yn fyw.
 A bod nyth y gwybedyn,
 Yr hen ddyn milain, yn eithaf y glyn,
 Un gwargam crebachlyd, erchyll ei goes goch,
 56 Ieuan melyn gwelw, gwalltgoch, blin,
 [Hyd yn oed] pe gwyddai hwn (gwn ei feddwl)
 Y câi ei grogi, dygai [y nyth] oddi arnaf.

Y mae'r siryf, â'r gruddiau o liw ceirios,
 60 Syr Wiliam, â'r cleddyf di-fai a glân,
 Yn gwybod drwy ei gyfraith ddoeth
 Sut i erlyn yr anifail am archwilio'r pren.
 Fy meistr gwylaidd a'm hanwylyd,
 64 Mynna'r iawndal ganddynt i gyd!

Y llwynog a'r wŷydd

- Lle blin, bardd cethin nis cêl,
 Yr wyf, waeth no pheî ryfel.
 Lluest oedd ym fal lluaig
 4 Ar lun cranc ar foly craig
 (Gwern ei ffyrch, o gyrn a phend,
 A glymwyd fal to Glemend,
 O do gwellt odidog iawn
 8 Yn dym fal tai Edeirniawn),
 Gan dybiaid, gloyw lifiaid gledd,
 Y dôî gun o dai Gwynedd
 (Nid rhaid deigr; on'd tra digrif?)
 12 A'r tân o'i flaen, ton ei flif,
 Ac ar ôl, reol oedd raid,
 Pawl eryr a'r pael euraid
 A'i deitl, a'i fwriad eto,
 16 Faner fraith, ar fynnu'r fro,
 A'm rhoi dros fwth tinrhwth teg
 Lys feinî, laes ei faneg.
- Cynnal yn ddiotal dda
 20 Ydd oeddwn, cyd bewn ddidda,
 Gwaedd folgryg, a gŵydd folgron
 Genny' ('n hast gwnaf gŵyn i hon),
 Yn erfynnaid y caid cig
 24 O deulu dduw Nadolig.
 Bei cath oedd, fywyd wŷd wedd,
 Hed yno 'n ei hadanedd,
 Ni bysai lai, meddai rhai rhwydd,
 28 'N ei chwblwysg no hwch chweblwydd.
 Medr gwiw yn ael rhiw yrhawg,
 Madyn, waetha' cymydawg,
 Caib llwydrew mewn cwbl lledrad,
 32 Gwiwfw brwnt, a gafas brad,
 Ym min y sir am nos Iau,
 Ar guddygl ieir a gwyddau.
 Dillwng gwaed dan draed a drig,
 36 Dewis gŵydd dew osgeiddig.

Llefain o gwbl o'r rheini
Onis cad, annos y ci.

40 Cyfodi o Wenllian,
Ni pharch ler, â'i theilfforch lân.
Calyn llef, cael yn ei llaw
Ei phais, mawr oedd ei phisaw!
44 Profi, hir oedi, rhedeg
A'i rhaw 'n ei dwrn, riain deg.
Ei bryd oedd ar y bradwr,
Dial ei gŵydd ar dâl gŵr.
48 Taer y cerddodd y faerwraig
Ond tra fu'n crymu mewn craig.
O gwnaeth cafas ogan, wr,
Meudwy cryg, Madog grogwr!

52 Cyfeirio, fal cyfarwydd,
Cael yr allt, cilio o'r ŵydd.
Bu 'n y ddaer, baw 'n ei ddeurudd;
Boni ŵyr hwn, glust banw rhudd,
56 Nad aethof, fy angof fu,
I ben craig i chwibanu?
Ni chenais, anwych hynwyf,
Gorn erioed, mewn gwern yr wyf.
Ni bu i'm tŷ fry 'n y fron
60 Dlysod o gŵn clustlaeson;
Gwas ni haeddodd digasedd,
Llwynog yw, mewn lliw na gwedd.

64 Am hyn, fadyn, gannyn gŵyn,
Od eilwaith, gwnaf adolwyn,
Gael 'n ei thwlc, gelyniaeth hir,
Draetis i'm brodwydd droetir,
68 Drwy faddau cam, drycam dro,
Cyn hyn: cŵn a'i cinhyrno!

Ffynonellau

A—BL Add 31083, 59^v B—Card 2.630, 79^f C—Card 5.44, 204^f D—LIGC 970E, 411^r E—LIGC 6511B, 121^r F—LIGC 13062B, 500 G—LIGC 13063B, 62 H—LIGC 21290E, 133^v I—Llst 55, 39 J—Llst 134, 189^v

Y mae'r testunau i gyd yn perthyn yn agos, ac y mae chwech ohonynt, B-EHJ, yn llaw Llywelyn Siôn, i gyd yn tarddu, yn ôl pob tebyg, o gopi meistr yn ei law ei hun, sydd bellach ar goll. O'r rheini y tardda testunau AFG, ac ni nodir yr amrywiadau ynddynt. Ceir ambell linell gan Siôn Dafydd Rhys yn I, a gallwn dybio bod y llinellau hynny a thestunau Llywelyn Siôn yn tarddu yn y pen draw o'r un ffynhonnell, sydd bellach ar goll. Y mae hanes llawysgrifol y gerdd yn debyg i eiddo cerdd 8 isod.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 179–85.

Amrywiadau

1 B-EH blin i vardd. 2 E gwaeth. 3 D ym ar voly; BEHJ llaig, CD llaig, I lhyaig. 4 J krag; EH krank yw ar; I ebin craig. 5 BCEH i gyrr ai, D i gyrr a. 7 D gwyllt. 8 BEJ o dirnawn, CDH o dirniawn. 9 B-EHJ gwledd. 12 CD y tan; J ar vlif. 14 B-EHJ paulav. 15 B ditl (*cywirwyd yn daith gan yr un llaw*), CDEH daith; C ar. 17 I tinrhwydh. 18 J las. 21 J vülgryg. 22 BE genyn, CH genny m, D genyn, J gennv yn; D hasg; CDHJ gwna; CHJ am honn. 23 CD meddylaid. 24 BCEHJ dwli. 27 H baisai. 28 B-EHJ chwblwsg; BCE chwch. 29 BE chwiw. 32 BDHJ gwivwys. 34 C geddegl. 35 J dollwng. 36 J ysgaüdig. 37 BCDHJ o vaini, E or vaini. 38 H annos ki. 39 BH kovodi. 40 D pherchler. 46 D i gwr. 47 CDHJ kerddoedd. 48 D kymrv. 52 J all; B-EHJ ar. 60 J gwnn. 64 B o dailwaith, CEH odailwaith, J dailwaith; I gwnaif bhy dolwyn. 66 H draetir. 67 CDIJ dryglam.

Teitl

CEH llyma gywydd ir kadno, D llyma gywydd ir llwynog, I Ibhan gethin ap ian ap lleisson, J llyma gywydd y kadno.

Olnod

B-HJ ienn Gethin ap ienn ap lleison ai kant.

Trefn y llinellau

B-HJ 1–68.

I 1, 6, 3, 4, 9, 17, 20, 36, 30, 32, 64, 67.

Y llwynog a'r wŷydd

- [Mewn] lle gwael yr wyf, ni chuddia fardd gwalltgoch,
 Gwaeth na phe bai rhyfel.
 Bwthyn oedd gennyf fel [i] fintai
- 4 Ar ffurf cranc ar wyneb craig
 (O simneiau a chanopi, clymwyd gwern ei nenffyrch
 Ynghyd fel to Clemend,
 O do gwellt godidog iawn
- 8 Yn orchest fel tai Edeirnion),
 Gan dybio, [yr un a chanddo] gleddyf disglair ac awchlym,
 Y deuai arglwydd o dai Gwynedd
 (Nid rhaid wrth ddagrau; onid yw'n dra hyfryd?)
- 12 A'r tân o'i flaen, ei gatapwlt wedi torri,
 Ac yna, rhaid fyddai wrth lywodraeth,
 Polyn eryr a'r band euraid
 A'i deitl, a'i fwriad drachefn
- 16 Ar hawlio'r fro, [ef â'i] faner fraith,
 A rhoi i mi yn lle bwthyn teg a'i dalcen yn agored
 Lys o gerrig, hir yw ei faneg.
- Preswyllo'n dda a dibryder
- 20 Yr oeddwn, er fy mod heb eiddo,
 Gwaedd gryg o fol, a gŵydd foldew
 Gennyf (ar frys lluniau gŵyn ar ran hon),
 Y teulu yn disgwyl
- 24 Y ceid cig ar ddydd Nadolig.
 Petai'n gath, dull drygioni bywyd,
 Heda yno yn ei hadenydd [= adenydd yr wŷydd],
 Ni fuasai'n llai, meddai rhai ffraeth,
- 28 Yn ei hymosodiad llwyr na hwch chweblwydd.
 Un a chanddo reolaeth lwyr ar ael rhiw erioed,
 Llwynog, y cymydog gwaethaf,
 Caib llwydrew ym mhopeth sydd wedi ei ladrata,
- 32 Drewllyd iawn a brwnt, a lwyddodd i fynd i mewn,
 Ar fin y wledd ar nos Iau,
 I loches ieir a gwyddau.
 Bu gollwng gwaed a fydd yn aros dan draed,
- 36 A dewis gŵydd dew osgeiddig.
 Dyma'r rheini i gyd yn gweiddi
 Hyd nes daliwyd hi, cymell y ci.

Dyma Gwenllïan yn codi
 40 Gyda'i theilfforch lân, nid yw'n arbed chwyn.
 Dilyn y floedd, gafael yn ei phais
 Yn ei llaw, mawr oedd ei phiso!
 Oedi'n hir, profi rhedeg
 44 A'i rhaw yn ei dwrn, y ferch hardd.
 Yr oedd ei bryd ar y bradwr,
 Dial ei gŵydd ar dalcen y gŵr [= y llwynog].
 Yn daer y cerddodd y wraig fferm
 48 Ac eithrio tra bu'n crymu mewn craig.
 Os gwnaeth [hynny] cafodd y gŵr ddirmyg,
 Y meudwy cryg, Madog sydd yn haeddu ei grogi!

Cyrchu, fel un medrus,
 52 Cyrraedd yr allt, a'r ŵydd yn cilio.
 Bu dan y ddaear, baw yn ei ddeurudd;
 Oni ŵyr hwn, [un a chanddo] glust porchell coch,
 Nad euthum, anghofiodd amdanaf,
 56 I ben craig i chwibanu?
 Un aflonydd gwael [wyf], ni chenais
 Gorn erioed, mewn gwern yr wyf.
 Ni fu yn fy nhŷ uchod ar y fron
 60 Gŵn â chlustiau llaesion yn rhyfeddodau;
 Gŵr ifanc [wyf] na haeddodd gasineb
 O fath yn y byd, llwynog yw [yntau].

Oherwydd hyn, y llwynog, [gwrthrych] cwyn cant o ddyinion,
 64 Os am yr eilwaith, gwnaf gais,
 Y ceir hi yn ei thwlc, gelyniaeth faith,
 [Trefnaf] gymod i'm gŵydd selog hir ei throed,
 Gan fwrw ymaith y cam a fu cyn hyn,
 68 Digwyddiad llawn drygioni: bydded i gŵn ei larpio ef!

Y ceiliog

Gwae a fo ac arno gur
 Ac yn dal gwŷn a dolur;
 Gwae finnau, o'm gofynnir,
 4 Adlo'r haint a'r dolur hir!
 Llymrig wyf lle mae'r gofal
 A'r ofn gwyllt ar fin gwâl
 A'r gaeaf du ar goed ir,
 8 Aros gaeafnos gefnir.
 Cadarn yw, cyhyd yw'r nos,
 A hwy'i chefn no hwech hafnos!

Y ceiliog, rhag cywilydd
 12 Y ceni di cyn y dydd.
 Cloch fyfyr eglwyswyr glân
 Ydwyd, felly y dywedan'.
 Cân ym mhryd (cwyno mae rhai
 16 A'th glyw, gwae fi na'th glywa'-i!),
 Cyfod rhyngom ar gromglwyd,
 Cân glwm er mwyn Cynog lwyd.
 Pryd y dêl, pêr yw dy dôn,
 20 Plygeinwr â'r plu gwynnon,
 Drycha dy ben o'th hennyth,
 Dod waedd fawr o daw dydd fyth.
 Dy dagell yw dy degan
 24 Oris y glust o ros glân;
 Durudd ydyw'r grudd a'r grib:
 Dod lawnllef, didawl enllib!
 Dy gathlau ar dy gythlwn
 28 A wn, was da, 'n y nos dwn.

Hely ymaith, gyweithydd,
 Nos, er Duw, nesaa'r dydd!
 Cawn ninnau glod, cân yn glau,
 32 Ceidwad ieir, cadw d'oriau.
 Cais ym mhryd, tân lendyd lith,
 Ganu, di a gai wenith,

36 A'th gywion gwirion g;raidd
 A'th wraig, o ffaig, a gaiff haidd.
 Browys dy ddilys ddolef,
 Byrha'r nos, borëwr nef!

40 'Bei rhôn bod amod imi
 Gael y tân i'w gwylad hi,
 Annod yw, hyn a glyw gwlad,
 Ym gael undyn i'm gwylad!'

Ffynhonnell
 LIGC 3049D, 349

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 183.

Darlleniadau'r llawysgrif
 10 chwech. 12 o keni. 18 gwlm. 20 gwinon. 30 nesar. 32 inav. 38 byra r.
 39 bai ran.

Teitl
 kowydd y keiliog.

Olnod
 Ienn gethin ap Ienn ap lleision ai kant.

Y ceiliog

- Gwae'r sawl ac arno gur
 Ac sydd yn dioddef gofid a phoen;
 Gwae finnau, os gofynnir i mi,
 4 Am achos yr haint a'r dolur hir!
 Truenus wyf yn y man lle y mae pryder
 Ac ofn garw wrth ymyl gwely
 A'r gaeaf du dros goed ir,
 8 Yn dioddef noson o aeaf faith ei chanol.
 Didostur yw, mor hir yw'r nos,
 A hwy yw ei chanol na chwe noson o haf!
- Y ceiliog, er mwyn osgoi cywilydd
 12 Y ceni di cyn y dydd.
 Cloch atgoffa eglwyswyr defosiynol
 Wyt ti, felly y maent yn dweud.
 Cana yn brydlon (cwyno y mae rhai
 16 Sydd yn dy glywed, gwae fi na'th glywaf!),
 Cod rhyngom ar gronglwyd,
 Cana gainc dros Gynog sanctaidd.
 Pêr yw dy dôn, pan ddêl
 20 Y boregodwr â'r plu gwyn,
 Cod dy ben o'th hen nyth,
 Dyro waedd fawr os bydd hi byth yn dyddio.
 Dy dagell yw dy addurn
 24 Islaw'r glust o [liw] rhosynnau hardd;
 Coch tywyll yw'r foch a'r grib:
 Dyro floedd uchel, rho heibio enllib!
 Was da, cyfarwydd wyf â'th ganeuon
 28 A thithau ar dy gythlwnng yn y nos dywyll.
- Boed i ti hel y nos i ffwrdd, fy nghyfaill,
 Er mwyn Duw, gwna i'r dydd nesáu!
 Cawn ninnau glod, cana'n fuan,
 32 Geidwad ieir, cadw at dy oriau.
 Ceisia ganu ar amser,
 [Dy] lith sydd o burdeb tân, [ac] fe gei di wenith,
 A haidd a gaiff dy gywion di-fai a dewr
 36 A'th wraig, os yw'n ymestyn amdano.
 Egniöl yw dy grochlef gadarn,
 Byrha'r nos, boregodwr nef!

40 'Gan gymryd bod cytundeb
I mi gael tân i'w gwyllo hi,
Cywilydd yw, hyn a glyw'r wlad,
I mi gael dyn i'm gwyllo i!'

Marwnad Ieuan y töwr

- 4 Wylaw mal y glaw mae'r glêr,
 Pwy nid wyl pan adeilier?
 Duw a ddug (nid oedd agos)
 Dyn a wnâi dai yn y nos,
 Gŵr anaml ei garennnydd,
 Ieuan hen ei ewyn hydd.
- 8 Cwrwgl unfraint, carl glinfrwnt,
 Croenyn hen Caereinion hwnt,
 Gŵr a dôl, a gwyro'i din,
 O do brwyn ar dŷ brenin!
 12 Treiglwr a diffeithiwr ffos,
 Tad oedd i bob tŷ diddos.
 Tir nef a oedd ef iddo,
 Tref ei dad oedd, tra fai do.
 Pwyntiai dai, fal paentiad ôd,
 16 Powys megis lliw piod.
- 20 Amdanaw udaw ydoedd,
 Ac o bai law wylaw oedd.
 Gwae'r gerdd am y gŵr geirddoeth,
 Beth a wnair o bydd bwth noeth?
 Nid rhaid lladd brwyn hwy no hyn,
 Nid rheidiach lladd to rhedyn.
 24 Llauer collwyn heb gwyno
 Llithrad hwn 'r hyd llethr y to.
 Llauer, hyd yn nhir Llëyn,
 Llwyn o hesg llawen o hyn.
 28 Syrthio'r cleiriach, bras orthwyn,
 Gaflir brith dan gofl o'r brwyn,
 A'i w'n sidan amdano
 A'i wregis, o'r dewis do.
- 32 Gwae'i galon, braich henfon bres,
 Gwilym o'r awr y gweles
 Y bratiau am glymau'r glin
 A'i ddwylaw a'i ddau elin,

- 36 A'i ysgub newydd wisgaw
Dan ei lin, a'i do 'n ei law,
A'i gribyn a dynn ei do
A'r ystol wedy restio,
A'r dug yn myned â'r da,
40 A Dacyn aeth â'i dwca!
Ar ei derfyn y darfu,
Darfod ar hen fythod fu!
- 44 Gwae Wilym nad gwiw wyllo
Eisiau tad i osod to.
Torres gïau ei freuant,
Ni thyr coed i wneuthur cant.
48 Ni thöed henwaith Owain,
Ni thöir mwy, eithr â main.
Ni chaiff cacynen hennyth,
Ni thau'r beirdd, ni thöir byth.
Triged y dryw, o gedir,
52 Draw a'i nyth mewn draenen ir;
Aed y llygod i rodio,
Aed o'r tir adar y to.
- 56 Aeth Ieuan, ddilan ddolef,
Â'i dobren o'r nen i'r nef.
Nid wylwn ond o alaeth,
I dŷ Dduw i doi ydd aeth!

Ffynonellau

A—BL Add 10313, 118^v B—BL Add 31083, 74^r C—Bodley Welsh e.2, 273
D—LIGC 1559B, 333 (llau. 23–6) E—LIGC 1579C, 37 (llau. 23–6) F—Llst
118, 371 G—Pen 159, 184 (llau. 23–6) H—Wy 1, 119

Y mae'r testunau yn debyg iawn i'w gilydd, ond lle y ceir mân amrywiadau mewn ffurfiau, tueddwyd i ddilyn darlleniadau Thomas Wiliems yn H: hwn sydd yn rhoi'r drefn llinellau fwyaf boddhaol, ac y mae'n gyflawn, ac eithrio un cwpled. Ni ddangosir amrywiadau o'r ddwy lawysgrif ddiweddar A a B (ail hanner y 18g. a'r 19g.) sydd yn perthyn yn agos i destunau C ac F. Yn nheitl y gerdd yn llawysgrif F, cyfeirir at gopi yn llawysgrif Simwnt Fychan (c.1530–1606); nid oes yr un o'r copïau uchod yn ei law ef, oni chyfeirir at lawysgrif a oedd yn ei feddiant ar y pryd.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 179–85.

Amrywiadau

1 *H* ar y glaw. 2 *C* pen y deiler, *H* pann ai deiler. 6 *C* gwan a hen fal gewin. 7 *CH* anvraint. 11 *C* dyfffeithwr. 14 *H* a oedd ef iddo. 15 *H* doir wal. 16 *C* fegis. 19 *C* beirdd; *H* geir[]th. 20 *C* bwth yn noeth. 23 *C* cownen heb grino. 25 *H* a llawer. 26 *CDEG* llwyn hesc yn llawen. 27 *C* syrthio or cleiriach grach; *CH* orddwyn. 28 *C* gafal. 29 *C* own byrhan. 30 *C* doplis. 31 *CH* gwae galon, *H* br[]s. 33 *C* ai freichiav am glymav'r. 35 *C* yscol. 37 *C* ai din ai. 38 *C* ai yscol; *C* wisco. 47 *C* thoed er henwaith, *H* thoed er yn iaith. 48 *D* thoer. 49 *C* chaff. 50 *C* thai'r, *F* thay'r, *H* thaw'r; *CFH* beirdd ag ni 54 *H* tir a dyrr y. 56 *H* a nenn y nef. 57 *F* oi. 58 *H* yddoeth.

Teitl

F Marwnad digri a gaed yn llyfr Simwnt vychan val hynn.

Olnod

CE Ienn Gethin ap Ienn ap Lleison, *F* Ienn gethin ap Ienn ap leisson ai kant.

Trefn y llinellau

C 1–12, [13–14], 15–20, 43–4, 21–30, 45–6, 31–42, 47–58.

DEG [1–23], 24–6, [27–58].

F [1–42], 43–50, [51–2], 53–8, 23–6.

H 1–22, [23–4], 25–58.

Marwnad Ieuan y töwr

- Wylo fel y glaw y mae'r beirdd,
 Pwy na fydd yn wylo pan fo gwaith adeiladu ar y gweill?
 Cymerodd Duw (nid oedd yn agos)
 4 Ddyn a wnâi dai yn y nos,
 Gŵr prin ei berthnasau,
 Ieuan hen ei ewyn hydd.
- Un ac iddo ragorfraint corwg, y taeog budr ei liniau,
 8 Hen groen o ddyn o Gaereinion draw,
 Gŵr a wnâi doi, gan blygu ei din,
 Â tho brwyn ar dŷ brenin!
 Crwydryn ac un sydd yn diffeithio ffos,
 12 Tad ydoedd i bob tŷ na ollyngai ddŵr.
 Tir y nef oedd ef iddo,
 Ei etifeddiaeth oedd hynny, tra bai to.
 Trefnai, fel paentiad eira,
 16 Dai Powys fel lliw piod.
- Yr oedd udo amdano,
 Ac os byddai'n bwrw glaw byddai wylo.
 Gwae'r grefft am y gŵr doeth ei air,
 20 Beth a wneir os bydd bwthyn yn noeth?
 Nid oes rhaid torri brwyn o hyn allan,
 Nid oes mwy o angen torri to rhedyn.
 Y mae llawer llwyn cyll heb fod yn galaru
 24 Yn dilyn llithriad hwn ar hyd llethr y to.
 Y mae llawer llwyn o hesg
 Hyd at dir Llŷn yn llawen oherwydd hyn.
 Syrthio a wnaeth yr hen ddyn brith â'r fforch hir,
 28 Yr ordd fawr, o dan goflaid o'r brwyn,
 A'i fantell sidan amdano
 A'i wregys, o'r to dethol.
- Gwae galon Gwilym, [llond] braich o fwyd ar gyfer hen fuwch,
 32 O'r adeg y gwelodd
 Y bratiau am glymau'r pengliniau
 A'i ddwylo a'i ddau benelin,
 A'i fwndel newydd ei wisgo [am y to]
 36 O dan ei ben-glin, a'i do yn ei law,
 A'i gribyn sydd yn tynnu ei do
 A'r ysgol yn gorwedd yn segur,

40 A'r dug yn mynd â'r eiddo ymaith,
 A Dacyn a aeth â'i dwca!
 Ar ei derfyn y darfu,
 Diwedd ar hen fythynnod a fu!

44 Gwae i Wilym nad oes diben iddo wyllo
 Bod arno angen tad i osod to.
 Torrodd [hwynnw] iau ei gorn gwddw,
 Ni fydd [bellach] yn torri coed i wneud plethwaith.
 48 Ni chafodd hen gaer Owain ei thoi â gwellt,
 Ni thöir â gwellt bellach eithr â meini.
 Ni chaiff cacynen hen nyth,
 Ni fydd y beirdd yn tewi, ni thöir â gwellt byth eto.
 52 Boed i'r dryw drigo, os gadewir iddo,
 Draw a'i nyth mewn draenen werdd;
 Boed i'r llygod fynd i rodio,
 Boed i adar y to adael y tir.

56 Aeth Ieuan, gwaedd erchyll,
 Â'i dobren o grib y to i'r nefoedd.
 Nid ydym yn wyllo ond o hiraeth,
 I dŷ Duw i doi yr aeth!

I'r ferch eurwallt

Y glaerwych ddyn eglurwen,
 Dy liw a wnaeth d'alw'n Wen.
 Gwae'r dyn a garo d'wyneb,
 4 Gwae'r un a wŷr garu neb!
 A'th garodd aeth i guriaw,
 F'Arglwydd, pa ddigwydd a ddaw:
 Ai ymaros mewn mawredd,
 8 Ai symud o'r byd i'r bedd?

Y winwydden wen weddus
 A wnaeth y ddwyfron yn us,
 Dy lun, ni bu dy lanach,
 12 A wnaeth nad oeddwn yn iach,
 Gwawr liwus ag aur lyweth
 Sy drwy blyg, gosod aur bleth.
 Dy dâl, grisial goreuserch,
 16 Dwy ael sidan, feingan ferch,
 Dy olwg fal dau elyn,
 Maglau tost, 'mogeled dyn!
 Duw a roddes dy ruddie
 20 O radd i'm lladd ym mhob lle;
 Dy wefus, ddyn fedrus fodd,
 Cas win hwn a'i cusanodd.
 Gwynnach, fe ddwedai gannyn,
 24 Ei phryd a'i lliw no ffrwd llyn.

Ni chaf innau'n iach, feinir,
 Na byd da na bywyd hir.
 Tristwch a ddygum trosti
 28 A chryd tost o'i chariad hi,
 A chrynu'r wy' ddechreunos,
 Mewn prudd-der yn nyfinder nos,
 A bore, fy nyn burwen,
 32 Mae pwys gan ddolur o'm pen,
 A chanol dydd, Gwenddydd gu,
 O iawn achos yn nychu.

36 Nid wy' rymus i dramwy,
 Darfu'r nerth a'r dirfawr nwy'.
 Od euthum i'w chymdeithas,
 Nid oedd ym na grym na gras.
 40 Melltith pob gwan i'r llannerch
 A'r fan lle gwelais i'r ferch,
 A gwyn ei fyd, gyn ei fedd,
 A gâi dario i gydorwedd!
 44 Ni ddaw mab mam i dramwy
 O serch a garodd ferch fwy.
 Nid posibl, nod a'i pasiodd,
 I garu merch, gwir yw'r modd.

48 Mi fegais, ddyn lednais lân,
 Dy gariad, wawr deg eirian.
 Yr wyf innau, wirionferch,
 Yn dadmaeth, 'sywaeth, i'th serch.
 Mae'n gryfach bellach o beth,
 52 E fu gur ei fagwrieth.
 E dynnodd yn nod unawr
 A'i dadmaeth ryw fariaeth fawr.

56 O lluniais ym mhob llannerch,
 Dyrys oedd, daro â serch,
 Gwaeth yw taro, tro tramawr,
 Â chur merch nog â chawr mawr.
 60 Cydiais i 'maelyd codwm,
 Yn drist mi a'i clywn yn drwm;
 Wrth geisio treisio traserch,
 Campus oedd, fo'm cwmpai serch!
 64 Nid wyf egwan ar lannerch,
 Nid wy' syn onid o'i serch.
 Ni bu 'ngwen heb ochenaid,
 Ni bydd 'y ngrudd brudd heb raid.
 68 Byrroes sy well heb eiriach
 No'r einioes hir heb nos iach.
 Mae a fynnych am f'enioes
 Ai rhoi ai dwyn, ddyn fwyn foes?

72 Fy ngweddi sydd, fy ngwedd sad,
 F'ymaros am fy mwriad:
 Na bytho i'r ferch, draserch dro,
 Ond cerydd mwya' a'i caro;

76

Dêl i minnau dâl, meinwen,
Doed i 'myd doedyd 'Amen'.

Ffynonellau

A—Bangor 1268, 66^v B—BL Add 14991, 291^v C—BL Add 31083, 71^r D—
Card 2.617, 1^v E—Llst 30, 135 F—Pen 195, 61^v

Agos iawn yw'r testunau i'w gilydd: gall D fod yn gopi o E a thebyg iawn iddynt yw A. Nid yw F yn gystal testun a cheir rhai darlenniadau aneglur oherwydd traul (ni nodir y rhain oni bai eu bod yn arwyddocaol). Nodir darlenniadau amrywiol llawysgrifau ADEF isod. Diweddar yw BC ac ni chynigiant ddim o werth i'r golygiad.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 179–85.

Amrywiadau

7 DE ym aros. 8 F er byd. 11 A y lvn. 23 AEF Gwnnach. 29 AE dechrevnos. 31 AF mvn. 34 D yn chv. 35 ADE dramwyf. 36 ADE nwyf. 37 AD o devthym. 40 D y ferch. ADE kyn. 47 ADE mi a fegais. 50 F soweth, D ysywaeth; F o serch. 52 F y fo. 54 F farieth. 56 D oedd i daro; F o serch. 57 F tara. 60 D yn drist am kalywn yn drwm, E yn drist [] klywn yn drwm (*a'r bwlch yn fwriadol*), F yn drist fi ai clown o ndrwm. 62 D kwymp[..]. 64 F ond. 70 F iw dwyn. 73 F drserch. 74 F cerydd y mwya. 76 F dweydv.

Teitl

A kowydd da i ferch, ED K: Ragorol i ferch.

Olnod

A Ienn Gethin ap Ienn ap lleissan ai kant, DE Ienn gethin ap Ienn ap lleission, F [] ab Evan [].

Trefn y llinellau

AEF 1–76.

D 1–53, 54–5 (*yng nghwr y ddalen*), 56–76.

I'r ferch eurwallt

- Y ferch loyw-wych ddisgleirwen,
 Dy liw a barodd dy alw'n Wen.
 Gwae'r dyn a fo'n caru dy wyneb,
 4 Gwae'r sawl sydd yn gyfarwydd â charu unrhyw un!
 Aeth y sawl a'th garodd i ddihoeni,
 Fy Arglwydd, beth a fydd yn digwydd:
 Ai parhau mewn mawredd,
 8 Ai symud o'r byd i'r bedd?
- Y ferch fonheddig hardd a lluniaidd
 A wnaeth fy nwyfron yn deilchion,
 Parodd dy lun, ni bu neb harddach na thi,
 12 I mi beidio â bod yn iach,
 Arglwyddes olygus â thorch o wallt euraid
 Sydd wedi ei blethu, gosodiad pleth aur.
 Dy dalcen, crisial y serch goruchaf,
 16 Dwy ael sidan, ferch fain a disglair,
 Dy lygaid fel dau elyn,
 Maglau chwerw, bydded i ddyn ochel rhagddynt!
 Parodd Duw fod dy fochau
 20 O'r fath urddas fel eu bod yn fy llethu ym mhob man;
 Dy wefus, y ferch foneddigaidd ei moesau,
 Gwin a gafodd y sawl a'i cusanodd.
 Gwynnach, can dyn a ddywedai hyn,
 24 Yw ei phryd a'i gwedd na ffrwd llyn.
- Ni chaf innau yn iach, feinir,
 Na byd da na bywyd hir.
 Tristwch a ddiodefais o'i phlegid
 28 A chlefyd llym oherwydd ei chariad hi,
 A chrynu a wnaaf fin nos,
 Mewn pruddglwyf yn nyfnder nos,
 Ac yn y bore, fy merch dra disglair,
 32 Y mae trymder oherwydd cur yn fy mhen,
 A chanol dydd, Gwenddydd annwyl,
 Yn nychu am reswm da.
 Nid wyf yn ddigon cryf i fynd a dod,
 36 Darfu'r nerth a'r dirfawr angerdd.
 Os euthum i'w chwmmi hi,
 Nid oedd i mi na nerth na gras.

40 Melltith i bob un gwan [a ddaw] i'r llannerch
 A'r fan lle y gwelais i'r ferch,
 A gwyn ei fyd, cyn ei fedd,
 Y sawl a gâi dario i gydorwedd â hi!
 44 Ni ddaw'r un enaid byw a garodd ferch yn fwy [na mi]
 I ymweld [â hi] oherwydd serch.
 Nid yw'n bosibl caru merch,
 Aeth [fy] mwriad heibio iddi, cywir yw'r dull.

48 Y ferch hynaws a phrydferth, megais
 Dy gariad, arglwyddes deg a hardd.
 Yr wyf innau, y ferch ddi-fai,
 Yn dad maeth, ysywaeth, i'th serch.
 Bellach y mae'n gryfach o beth,
 52 Poen fu ei fagwraeth.
 Mewn un awr enynnodd ynot ti
 Ac yn ei dad maeth ryw ddieter mawr.

56 Os cynlluniais ym mhob rhyw lannerch
 I daro ar serch, dyrys oedd,
 Gwaeth yw dod i wrthdrawiad, achlysur dirfawr,
 Â phoen oherwydd merch nag â chawr mawr.
 Cydiais [yn serch] i ymaflyd codwm,
 60 Yn drist fe'i teimlwn ef yn drwm;
 Wrth geisio trechu serch mawr,
 Gorchestol oedd, fe'm taflai serch i'r llawr!
 Nid wyf yn wan mewn llannerch,
 64 Nid wyf yn syn ond oherwydd ei serch.
 Ni bu fy merch dlos heb ochenaid,
 Ni bydd fy ngrudd yn drist heb angen.
 Y mae oes fer heb ymatal yn well
 68 Na bywyd hir heb noson iach.
 Beth a fynnit gyda'm heinioes
 Ai ei chaniatáu neu ei dwyn, y ferch fwyn ei moesau?

72 Y mae fy ngweddi, fy ngwedd sefydlog,
 A'm hir amynedd o achos fy mwriad:
 Na fyddo i'r ferch, achlysur traserch,
 Ond cerydd y sawl a fo'n ei charu fwyaf;
 Deled i minnau daliad, feinwen,
 76 Bydded i'm hanwylyd ddweud 'Amen'.

Helynt wrth garu

- Bûm yn oed, bai mwynedus,
 Â gwen â'r ddrem lawen lus,
 Dyn a lwyg dan elygoes
 4 A bedw mân, bu da ei moes.
 A rhoi deufraich, fy rhiain,
 Amdanaf i o'm dyn fain,
 Celennig Lundeinig lân,
 8 Celu cas, cael y cusan.
 Clyw 'nyn a'm pair calon iach
 Cael arall ar fin cleiriach.
 Cerdded, oreuged, ragof,
 12 Cyfod awch hynod o'i chof:
 Bu wae ar hynt, a bwrw hon
 I lawr yn y dail irion,
 Lle teg i fardd, hardd oedd hi,
 16 Arddyrnir, orwedd erni.
- Meithwae Ieuan o'r dannod:
 Ymythiaw byth, methu bod.
 20 Gwae a brofes, f'afles fu,
 Gwth o bell, gwaith eb allu.
 Pan gyfodais i'm eistedd
 I ar wen liw eiry o wedd,
 Yr oedd ym, ry gyflym rus,
 24 Gedor anniwygacus
 A chÿn gwedy'r wrychioni
 A chaill nid oedd lwyriach hi.
 Ai gwiwach (dyn ni'n gweheirdd)
 28 Bath no hon, beithynau heirdd?
 Nid oedd, meddai'r prydyddion,
 Fwyar ei hael, fai ar hon.
 O ben llost, eb ynnill had,
 32 Y llysg dyn fal llosg dynad.
 Clywid hyd nef fy llefain:
 Cymryd gan wyn fy myd main
 Fy nghaniad, drygfarchnad fu,
 36 Ac ymaith dan dingamu.

40 Celc flin ar fardd cethin coeth
 Clwy 'mrib a'm caly amryboeth
 Yn gam fal mwnwgl mamwydd
 Neu ffon hwrl ac 'n ei phen hwydd,
 Yn drymach, fawiach fyhwm,
 Mewn y blew no maen o blwm.

44 Torri dryll, gwaith y tir draw,
 O'r crys er eu careisiaw,
 A'i didio wedy doddi
 Mewn gwlan am fy mwnwgl i.
 48 Bwrw i'm llawes, lawndres lef,
 Fy llawdr, ac felly adref.
 Achwyn, ni bu rym ymy,
 Freiched deg, wrth ferch y tŷ.
 52 Achubodd ym, drallym dro,
 Â'r gogail fal gwraig Iago,
 A gosod, chwedl adgasach,
 Ar geisio cribinio'r crach.
 56 Ado'r tŷ, gleirch diriaid hen,
 A'r byd am lygru'r biden.

60 Ymddiriedawdd, gawdd gywoed,
 Gwae 'nt-hwy, rai i gont erioed.
 Ni ellir rhwyf ymddiried
 I hon anghron myn fy nghred;
 Na ellir, a hir yw hi,
 I gont ond tra feir genti.

Ffynhonnell
 Pen 57, 48

Copiwyd y testun c.1440 i'r llawysgrif hon, ac a barnu wrth ei safon, gall fod yn tarddu o gopi yn llaw Ieuan Gethin ei hun neu o destun wedi ei ddarparu ar lafar gan fardd arall, megis Guto'r Glyn (y mae'n dilyn casgliad bychan o gerddi gan Guto) neu Ieuan ap Rhydderch. Copiwyd y rhan o Pen 57 lle y ceir y gerdd hon gan ddwy law a weithiai mewn canolfan a oedd o bosibl yn gysylltiedig ag Ystrad-fflur; gw. Daniel Huws, *Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes* (i ymddangos) dan Peniarth 57.

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 184.

Darlleniadau'r llawysgrif

12 kyffot. 27 gweirdd. 28 buthanneu (*a'r u wedi ei newid o bosibl yn ei gan law ddiweddarach*); heird. 38 klyw. 39 yn gan. 47 lawndreis. 54 gribinyor grach.

Teitl

Dim.

Olnod

Ienn Gethin ay cant.

Helynt wrth garu

- Bûm mewn oed, camgymeriad proffidiol,
 Â merch brydferth â'r llygaid siriol [o liw] llus,
 Geneth sydd yn ymguddio dan gelli helyg
 4 A choed bedw mân, da fu ei hymddygiad.
 A rhoddodd fy ngeneth fain, fy merch fonheddig,
 Ddwy fraich amdanaf i,
 Rhodd hardd Lundeinig oedd hynny,
 8 Cuddio peth cas, derbyn y cusan.
 Teimla fy ngeneth sydd yn gwneud fy nghalon yn iach
 Dderbyn un arall ar wefus yr hen ddyn.
 Mynd yn fy mlaen a wneuthum, y rhodd orau,
 12 Codi a wnaeth chwant amlwg wrth feddwl amdani:
 Bu trybini yn syth, a bwrw hon
 I lawr [a wneuthum] yn y dail gwyrddion,
 Lle dymunol i fardd, hardd oedd hi,
 16 Hir ei harddymau, orwedd arni.
- Mawr oedd adfyd Ieuan yn sgil yr edliwiad:
 Ymwithio iddi yn barhaus, methu cyflawni.
 Gwae a brofais, ni bu o les i mi,
 20 Gweithred heb lwyddo, gwthio am amser maith.
 Pan godais i'm heistedd
 Oddi ar y ferch a'i gwedd o liw eira,
 Yr oedd i mi, panig rhy sydyn,
 24 Gedor afluniaidd
 A chÿn wedi ei ddeifio
 A chaill nad oedd yn gwbl iach.
 A oes un sydd yn rhagorach ei ffurf na hon,
 28 Geneth nad yw'n ein gwahardd, â'i phlethiadau hardd?
 Nid oedd, meddai'r prydyddion,
 Fai ar hon â'r aelïau o liw mwylar.
 O ben y pidyn, heb gael had,
 32 Y mae'r dyn [sef y bardd] yn llosgi fel llosgiad danadl poethion.
 Clywid fy llefain hyd y nefoedd:
 Ffarwelïais â'm gwynfyd main,
 Bargaen ddrwg fu hyn,
 36 Ac ymaith â fi dan blygu fy nhin.
 Twyll annymunol ar fardd gwalltgoch gwych
 Fu'r niwed i'm tamaid diwerth a'm pidyn chwilboeth
 A oedd yn gam fel gwddf hen wÿydd
 40 Neu ffon i'w thaflu a chwydd yn ei phen,

Yn drymach, llifeiriant o fudreddi,
Ymysg y blew na thalp o blwm.

- 44 Torri stribed, gorchwyl yn y tir draw,
O'r crys er mwyn eu cario,
A'i glymu wedi ei ddodi
Mewn gwllân o amgylch fy ngwddw.
48 Bwrw fy nhrowser yn fy llawes,
Gwaedd lawn pryder, ac felly adref.
Cwyno, nid oedd gennyf nerth,
Goflaid hardd, wrth ferch y tŷ.
Ymosododd arnaf, digwyddiad tra phoenus,
52 Â'r cogail fel gwraig Iago,
Ac ymroi, hanes mwy annymunol fyth,
I geisio cribinio'r crach.
Gadael y tŷ, hen ddyn anffodus,
56 A'r byd oherwydd heintio'r pidyn.

- Bu i rai erioed, cydymaith trallod,
Ymddiried mewn cont, gwae hwy.
Ar fy llw, ni ellir ymddiried yn ormodol
60 Yn hon nad yw [bellach] yn grwn;
Ni ellir, a hir yw hi,
[Ymddiried] mewn cont ond tra bydder gyda hi.

Marwnad Siôn ab Ieuan Gethin

Dyn wyf a'i frath dan ei fron
 Ac a'i weli 'n y galon;
 Merthyri, mor wyrth arab,
 4 Heb awen mwy, heb un mab.
 Yr oedd ym, arwydd amwynt,
 Fab difai be bai 'n ei bwynt,
 Yn aros, gloeson eirad,
 8 Yn deg i ddiddanu'i dad.
 Minnau, od yw, am nad iach,
 Fy mebyn oedd fy mwbach
 Am weled, mi a wylwn,
 12 Y ddufrech ar ddwyfraich hwn.
 Mawr wae fi, marw fy iôr
 A'm cywirddant a'm cerddor.
 Am hyn fe ddarfu 'mhoeni,
 16 Trist wyf, ef a'm treiswyd i
 Am gerddwr a'm gwiw urddas,
 Gwae 'nghalon weithon am was!
 Y mae hiraeth i'm hoeri,
 20 Y mae'n boen am fy mab i.
 Y mae clwy, mi a'i clywa',
 Mae'r galon wirion ar iâ;
 Mae'r corff heb nemor o'r cof,
 24 Mae'r enaid yn marw ynof,
 A'r golygon, gyson gawdd,
 O dra-wylo a dreulawdd.
 Nid oedd, was meinwar arab,
 28 Enaid i mi ond fy mab.
 Ni welad, gwae'i dad nad iach,
 Dwylo angel deilyngach.
 Gŵr oedd Siôn a garodd saint,
 32 Ac urddol ar gywirddaint.
 Minnau ei dad, am nad iach,
 Am briddyn ydd wy'n bruddach.

36 Gweddi roes i ar y saint
 A'r gloyw Iesu a'r gloywsaint.

- Gelwais ar Fair, air arab,
 Ni'm clyw Mair, ni'm clywai'i mab.
 Addewais ar weddïon
 40 Ei bwys o aur er byw Siôn.
 Ar Dduw er a weddïais,
 Ni chawn Siôn mwy no chan Sais.
 Gwn uthro fal gwan athrist,
 44 Gŵr digon creulon yw Crist.
 Gwell oedd, a gallu addef,
 W'r tlawd am gardawd nog ef:
 Ni chawn, drwg yw 'nawn, un nos
 48 Er da'r byd fywyd f'eos.
 Addawswn i Dduw Iesu
 Dros f'anrhaith, oferwaith fu,
 Myned â'm eos maenawr,
 52 Llawn gwyrth, i Gaerlleon Gawr.

 GwiwDduw saint, gweddïais i
 Er ei ddianc ar Ddewi.
 Gelwais a thorrais galon,
 56 Ni'm clyw saint, ni'm clywai Siôn.
 Diriaid na weryd eiriol,
 Doed i nef: gwae'i dad 'n ei ôl!

Ffynonellau

A—BL Add 31083, 57^r B—Card 2.630, 92^r C—Card 5.44, 135^r D—LIGC 970E, 212 E—LIGC 6511B, 132^v F—LIGC 13062B, 314^r G—LIGC 21290E, 137^v H—Llst 134, 193^v I—Stowe 959, 216^v

Y mae'r testunau i gyd yn perthyn yn agos iawn i'w gilydd. Y mae chwe chopi yn llaw Llywelyn Siôn, sef B—EGH, a'r tebyg yw ei fod yn codi'r testun o gopi meistr yn ei law ei hun. Gallwn dybio bod y copi meistr hwnnw'n tarddu o'r un gynsail â thestun I: y mae'r tebygrwydd yn orgraff nifer o eiriau unigol yn drawiadol iawn. Y mae rhai llinellau yn eisiau yn llawysgrif I, felly ni all hi fod yn ffynhonnell copïau Llywelyn Siôn. Anodd yn aml yw dewis rhwng testun I a thestun(au) Llywelyn Siôn lle y maent yn gwahaniaethu, ond ar y cyfan, o gofio tuedd Llywelyn Siôn i addasu a safoni ei destun, rhoddwyd blaenoriaeth i ddarlleniad I. Ni ddangoswyd amrywiadau o destunau AF gan eu bod yn ddiweddar ac yn ddibynnol ar y gweddill.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 179–85.

Amrywiadau

1 *B-EGH* wy. 3 *I* mor wrth. 7 *B-EGH* aros i loeson. 8 *I* yn diddanu. 9 *B-EGH* o duw, *I* o dyw. 15 *B-EGH* fe dderyw ymhoeni. 16 *I* em. 17 *B-EGH* gerddor; *G* gywirddas. 20 *CDH* a mwy boen; *B-H* y mab. 23 *I* heb ddim. 25 *B-EGH* am; *B-EGH* kyson kawdd. 26 *I* drylawdd. 27 *E* nydoes. 28 *B-EGH* y mab. 31 *BCH* garoedd. 32 *CH* gywairddaint. 35 *B-H* gweddi a roes. 36 *I* yr gloyw iessy. 39 *B-EGH* o. 41 *BE-H* wyr dduw. 46 *B-EGH* gwr. 47 *B-EGH* y nos. 48 *C* vywys; *I* veoes. 49 *BEG* addawson. 50 *I* o verwaith ü vy. 53 *DH* sant. 55 *I* athorres. 56 *H* nym klywai saint nym klyw Sion. 58 *C* aed; *G* gwaed dad; *E* yn ol.

Teitl

B-EGH llyma varwnod awnaeth gwr yddy vab, *I* Marwnod awnai Wr yddy vab.

Olnod

B-I Ienn gethin ap ienn ap llaison ai kant.

Trefn y llinellau

B-H 1–28, [29–30], 31–58.

I 1–20, [21–2], 23–30, [31–4], 35–50, [51–2], 53–8.

Marwnad Siôn ab Ieuan Gethin

- Dyn wyf a'i drywaniad dan ei fynwes
 Ac a'i glwyf yn y galon;
 Merthyrddod, mor rhinweddol a llawen oedd,
 4 Heb ysbrydoliaeth bellach, heb un mab.
 Byddai gennyf, argoel anhwylder,
 Fab di-fai pe bai mewn iechyd,
 Yn parhau, arteithiau dychrynlyd,
 8 Yn hyfryd i ddi-ddanu ei dad.
 Minnau, gan nad yw'n holliach, rhyfedd yw mai
 Fy mab bychan oedd fy mwgan
 Am [i mi] weld, wylo a wnawn i,
 12 Y frech ddu ar ddwy fraich hwn.
 Mawr fy ngwae i, marw fy arglwydd
 A'm bachyn cyweirio a'm cerddor.
 Am hyn cefais fy mhoenydio,
 16 Trist wyf, fe'm hysbeiliwyd i
 O'm cerddor a'm hurddas gwiw,
 Gwae fy nghalon bellach am y llanc!
 Y mae hiraeth yn fy oeri,
 20 Y mae'n ddolur am fy mab i.
 Y mae clwyf, yr wyf yn ei deimlo,
 Y mae'r galon ddiniwed ar iâ;
 Y mae'r corff heb nemor ddim synnwyr,
 24 Y mae'r enaid yn marw ynof,
 A'r llygaid, trallod cyson,
 Sydd wedi treulio oherwydd wylo gormod.
 Nid oedd, y llanc mwyn main a thirion,
 28 Fywyd i mi ar wahân i'm mab.
 Ni welwyd, gwae ei dad nad yw ef yn iach,
 Ddwylo angel a fyddai'n fwy cymwys.
 Gŵr oedd Siôn a garodd seintiau,
 32 Ac un wedi graddio yng nghreffft trin bachau cyweirio.
 Minnau, ei dad, am nad yw'n iach,
 Sydd yn fwy prudd oherwydd y priddyn.
- Gweddi a offrymais i'r seintiau
 36 A'r Iesu disglair a'r seintiau gwych.
 Gelwais ar Fair, gair tirion,
 Ni chlyw Mair mohonof, ni chlywai ei mab mohonof.
 Addewais mewn gweddiâu
 40 Roi ei bwysau mewn aur er mwyn i Siôn fyw.

Er cymaint a weddïais ar Dduw,
 Ni chawn Siôn mwy na chan Sais.
 44 Gwn [fy mod wedi fy] mrawychu fel dyn gwan trist iawn,
 Gŵr digon creulon yw Crist.
 Gwell fyddai, a medru cyfaddef [hyn],
 Gŵr tlawd am gardod nag ef:
 48 Drwg yw fy mendith, ni chawn am gyfoeth y byd
 Fywyd fy eos am un noson.
 Yr oeddwn wedi addo i Dduw Iesu
 Y byddwn, dros fy nhrysor, gorchwyl ofer fu hynny,
 Yn mynd â'm heos y fro
 52 I Gaerlleon Gawr sydd yn llawn gwyrthiau.

O Dduw rhagorol y seintiau, gweddïais i
 Ar Ddewi er mwyn ei ddianc.
 Gelwais a thorris fy nghalon,
 56 Ni chlyw'r seintiau mohonof, ni chlywai Siôn mohonof.
 Dyn anffodus yw hwnnw nad yw eiriolaeth yn dod â gwardigaeth
 iddo,
 Boed iddo [sef Siôn] ddod i'r nefoedd: gwae ei dad ar ei ôl!

Marwnad ei ferch

- Iddi hi canaf i, cwyn fydd—am hon,
 Fy mhen ni wna cywydd
 Eithr awdl ar ei thrydydd
 4 Ac englyn am dywyn dydd.
- Dydd rhy anwar am gariad
 Un Duwillun, pe dyelld:
 Dwyn ymaith, nid dan amod,
 8 Deune geirw, dyn a gerid.
- Cerid merch, cariad ym oedd,
 Cynfyl blwng, cwynaf fal blaidd;
 Dwyn hon, nid mi'r dyn a'i haedd,
 12 Dawn rhybraff, yn rhy ebrwydd.
- Rhy ebrwydd, hylwydd gynheiliad—gwinlllys
 Ac unlliw eiry gawad:
 Ni bu farw, cyd bwyf irad,
 16 Arglwyddes ar les y wlad!
- Y wlad am ddygiad, em ddiwygus—hael,
 Y sy'n hwyl alarus,
 A minnau'n glaf anafus
 20 I'm unlle'n rhwym yn llawn rhus.
- Rhusiwyd cleiriach llwyd am wedd lleuad—Fai
 A fu falch ei thrwsiad;
 Rhoi lle y mae mewn bedd caead
 24 Dyn gwyn: o'r gwaith hyn gwae'i thad!
- Gwae'i thad adwaeniad ei daioni,
 Gem o'm urddas, gwae ei mam erddi;
 Grwndwal, glwyf ofal, gwae fyfi—am hon,
 28 Dwyran y galon gwedy'r dorri!
- Trist gof sy ynof heb gysoni,
 A'r tristwch, nid hawdd myned trosti.

32 Trist fydd awenydd o weini—marwnad,
Gwae'i thad, gwan ynad, gwn, o'i eni!

36 Truan mae galar hon yn tröi,
Tra hidlon ddagrau yw'r mau, i mi,
Tri gwaeth no brath saeth yn soddi—dan fron
Treiglodd ym galon don amdani.

40 Golesg y'm darfu, myn Crist Geli,
Gwylan a gollais glân o gelli;
Galar anhalar (anheuli,—geinwen)
Am wen fawrwen a'm pair i ferwi.

44 Och am riain fain fanadl ddigrif,
Och am ddyn melyn ym i'w moli,
Och Fair wych ddiwair, och Ddewi—f'arglwydd,
Ym gelu tramgwydd am gael trengi!

48 Iechyd nid oes ym, onid ochi
A goddef tristwch mawr a gweiddi
O aflwydd afrwydd oeri—fy nghalon
Am na welaf hon, liw ton Tywi.

52 Perhôn, moes wirion, i mi sorri
A myned yn rhin rhof a meini,
Gwyddiad, nis diwad, distewi—cleiriach,
Diwair eneth bach, wrth dirioni.

56 Pe mau dda'r Brenin hoywrin Harri
Ac esgob Winsiestr, fun wallt gwisgi,
Mwy-fwy 'ngofal, pwy mwyaf fai—'nghyfoeth,
Fy rhiaïn eurddoeth, mi a'i rhown erddi.

60 Sorrais wrth Iesu, pe gwiw sorri,
Seren a gyrchodd o Lyn Seri;
Sarrug mewn cuddug yn coddi—gar môr
Syganai 'nghytsor i'm cynghori:

64 'Brwnt, Ieuan druan, yr ymdrewi,
Blin swydd, â'th ddrygddawn, blaen saeth rhagddi;
Brath Hafren â'th ben, i'th boeni—na thrig,
Nid rhaid yt feddig ond dy foddi.'

68 'Drwg fydd ar les bardd mewn gardd gorddi
A gwayw i'i galon, ddugoeg weli;
Gwaeth yd o'th gyllaeth golli—d'anwylyd,
Gwell yd ado'r byd no bod hebddi.'

72 'Nid oes yd gyngor eithr torri
Drws yr eglwys dwys a dos ati.
Tyn fy nyn orwen (mae arni—garreg
Er degymu teg) a dwg imi.'

76 'Taw, wraig, â'th ddrygfoes, cais ymgroesi,
Tripheth a weryd pob caledi:
Ympryd, pe gwyddyd, a gweddi—gywraint
Ac offrymu i saint a santesi.'

80 Mi af at Gynin, fy rhin a'm rhi,
Gyda'i weision ef i gydoesi.
Os Cynin ni phair, gwiw Fair, gwae fi,
Uwch hedydden falch, iechyd iddi,
Didyb y'i dygaf o'i dodi—deirawr
Ar ganol allawr ddwywawr Ddewi.

84 Yno y parant, enwant ynni,
O'u dyundeb hwynt, enaid yndi,
Croesteg, fal y gwnaeth Cristi—am Lasar,
O'r fudr dew ddaear, ei gyfodi.

88 Oni weryd ym, mae'n lym loesi,
Hwy nid â f'einioes no hyn amdani:
Ceisiaw (byw rhag llaw'n llymsi—nis gallaf,
Calon ni feddaf) cael nef iddi.

Ffynonellau

A—Bangor (Mos) 11, 5 B—BL Add 14966, 148^v C¹—BL Add 14971, 208^r
C²—BL Add 14971, 238^v D—BL Add 15003, 153^r E—BL Add 31059, 60^r
F—BL Add 31083, 50^r G—Card 2.114, 710 H—CM 12, 395 I—J 139, 219
J—LIGC 6209E, 242 K—Pen 99, 610 L—Pen 221, 207

Rhoddir isod ddarllenïadau amrywiadau o lawysgrifau C¹C²GK. Y mae testunau ABEI yn gopiâu uniongyrchol neu anuniongyrchol o G; y mae H yn gopi o K; a J yn gopi o C². Diweddar yw DF ac nid ydynt yn annibynnol ar y lleill. Dwy linell yn unig sydd yn L. Ceir amrywiadau neu gywiriadau i brif destun C² gan yr ysgrifydd ei hun, a nodir y rhain mewn cromfachau,

(C²). Y mae'r pedwar testun C¹C²GK yn perthyn yn agos i'w gilydd, ac o bosibl yn tarddu o'r un ffynhonnell, nad oedd yn un ddi-fai.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 179–85.

Amrywiadau

1 C¹C²K [hi]; C¹C²G kwyn a fydd. 2 C¹ fyn henn; C¹C²G a wna, K a ni wna. 6 C¹C² [Un]; G dduwllvn, K diellun; C¹C² pe im dyellyd. 8 C¹C² doniav, (C²) deunaw, K daunaw (*cywirwyd yn daune gan law ddiweddarach*); C¹ gairiav (*cywiriad gan law ddiweddarach*). 10 C¹C² kynfvl, (C²)GK Cynfil; K cwynfa. 11 (C²)GK hon yw r dyn; (C²)K haidd. 12 C¹C² iawn; K rhybraff duw yn (duw *mewn llaw ddiweddar*). 13 (C²)GK winllys. 14 (C²)GK [Ac]. 15 C¹C² o bv farw. 17 K ymddygiad; G ddiwgv. 18 C¹C² y sydd yn, G i bu, K sy yn. 20 C¹C² mewn llawn. 21 (C²)K Rusiad cleiriach, C² Rrvsswydd y modd. 22 C¹C² oi thrwssiad. 24 C¹C² dw gwyn. 25 K adwaenid. 26 C¹ gem ym o vrddas gwae, C² gem o vrddas; K vrddas oedd. 27 K Grownwal; G gwn ofal. 28 C² ddwyran; G wedi, K wedi'r. 29 GK sydd. 31 G i awenydd iddo i eni. 32 G uwch y geiriau gwan inad gwn oi eni *ychwanegodd llaw ddiweddar wrth oedi bevnydd*. 33 C¹C²GK trvan y mae. 35 C² a seithi. 36 K treiglad; K am deni. 37 G golesd; K y daruu; C²K Keli. 38 C¹G golles. 39 (C²)G an hevli gwen geni (ai gywiro yn geniwen *gan law ddiweddarach yn G*), K aneuli gwen gem. 41 C¹C² digri. 42 (C²)K oi moli. 45 C² Nid oes iechyd ym ond dwys ochi; C¹GK ond. 46 C² goddav. 47 C¹ arwydd. 48 C¹C² lliw; K teiui. 49 (C²)K rron ym yn oes wyrion, C¹ rhon yn oes wirion; C² wirion ym. 50 C²G yn drin. 51 K Gweddied. 52 (C²)K Diwarth. 53 C¹C² Pe i mav da/t/. 54 C² ddyn; GK wisci. 55 G mwy fwyn fyngofal; C¹(C²) pwy fwya fai fynghyfoeth, K pwy'n vuya vai ynghyvoeth, C²G myfi fynghyfoeth. 57 C² wrthyd; C¹ pe y gwiw, C² pe i gwiw. 59 C¹ [], C² kvdic, G kvddugl, K cadduc; C¹(C²)K kaer mor, G gaer mor. 60 K Seganai vynghydfor, G svganai fynghytsor. 61 K ath ymdroi. 62 C¹ ith; C¹K rhegddi (*gall mai rhogddi sydd yn C¹*). 63 C² oth benn; C¹C² mae dig. 66 K ei galon. 67 (C²)K o gyllaeth. 69 G yt obaith (*a llaw ddiweddar wedi dileu obaith*); C² onid, G neithyr (*ychwanegwyd onid gan law ddiweddar*). 71 (C²) vy nyn kynn barn. 72 C¹ er degymv deg, C² er dy gymen deg, G er dygyn em deg, (C²)K Er dygymau teg. 74 C¹C² wared (*a'i gywiro yn weryd yn C²*). 75 C¹ da y gwyddyd, C² o gwyddvd, (C²) pes gwyddvd, G pe gwyddwyd, K pes gwyddyd. 76 C¹ [Ac], C² a; C¹(C²)GK offrymv saint, C² gweddio saint. 77 C² yn rrin ym rri, G fynrrin fynrri. 78 C¹C² at i weission. 80 K hydydden; G iachaid. 81 C¹(C²)K Diddic; K doddi. 82 K ganawl; C² y llawr; (C²)K ddwyawr. 83 C²GK Ac yno (*dilewyd Ac yn C²*); K barant ennwant ynddi. 84 C² addvndeb, C¹ vndeb, G dyhvneb (*a'i gywiro'n addundeb gan law ddiweddarach*); C¹ hwnt; C¹C²G ynddi. 85 C¹ Kroes, C²G kroes duw, K Coys Tec; K mal; C¹ krist keli am, C² Krist eli am, G krisdi am, K Christ Am; G ladd (*a'i gywiro'n lassar gan law ddiweddarach*). 86 K daiar. 88 K nid yw veinioes; C¹ feinioes. 89 GK keissio; C²K nis galla.

Teitl

*C*¹ Marwnad am ferch, *C*² Owdl varwnad i verch Ieuan Gethin ap Iefan leison, *G* Markia r darllenwr llyma owdwl farnad a wnaeth gwr oi ferch i hvn a hono or gore, *K* Marwnad merch.

Olnod

*C*¹*G* Ienn gethin ap Ienn ap lleission ai kant, *C*² Ievan Gethin ap Ievan leison ai kant, *K* Ieuan Gethin ap Ieuan ap Lleision.

Trefn y llinellau

*C*¹*C*² 1–90.

G 1–5, 7, 6, 8–30, 32, 31, 33–90.

K 1–83, [84], 85–90.

Marwnad ei ferch

- Iddi hi y canaf i, cwyn fydd am hon,
 Nid cywydd a lunia fy ngenau
 Ond awdl ar dri mesur
 4 Ac englyn am un o ddisgleirdeb y dydd.
- Diwrnod rhy greulon o safbwynt cariad
 Fu un dydd Llun, pe deallet hynny:
 Dwyn ymaith, heb unrhyw gytundeb,
 8 Ferch a gerid a oedd yn ddwywaith disgleiriach nag ewyn ton.
- Cerid merch, fy nghariad oedd hi,
 Gofid chwerw, cwynaf fel blaidd;
 Dwyn hon, nid fi yw'r dyn sydd yn haeddu hyn,
 12 Yn rhy sydyn, dirfawr oedd ei gras.
- Yn rhy sydyn, gynheilwraig lwyddiannus llys lle y llifa'r gwin
 Ac sydd o'r un lliw â chawod eira:
 Ni bu farw, cyhyd ag y bwyf yn drist,
 16 Arglwyddes er lles y wlad!
- Y wlad oherwydd y cipiad, trysor lluniaidd a bonheddig,
 Sydd yn alarus ei hwyl,
 A minnau'n glaf ac yn anafus
 20 Yn gaeth yn f'unfan yn llawn dychryn.
- Dychrynwyd hen wŷr brith ei wallt o achos un a chanddi wynepryd
 lleuad Mai
 A fu'n urddasol ei gwisg;
 Rhoi merch annwyl lle y mae
 24 Mewn bedd caeedig: gwae ei thad o'r weithred hon!
- Gwae ei thad a oedd yn adnabod ei daioni,
 Trysor o urddas i mi, gwae ei mam amdani;
 Pryder dolurus, gwae fi am hon, sylfaen
 28 Dwy ran y galon sydd wedi ei thorri.
- Hiraeth trist sydd ynof heb ei liniaru,
 A'r tristwch, nid hawdd yw anghofio amdani.
 Trist fydd bardd o weini cerdd farwnad,
 32 Gwn mai gwae ei thad, yr ynad gwan, o'i eni!

Yn alaethus y mae galar am hon yn troi
 Ataf, dagrau tra llifeiriol sydd i mi,
 Yn deirgwaith gwaeth na brathiad saeth yn suddo dan fynwes
 36 Y treiglodd i mi galon doredig o'i herwydd hi.

Yn llesg y digwyddodd hyn i mi, yn enw Crist Arglwydd,
 Collais wylan hardd o'r llwyni;
 Galar chwerw (pylu y mae dy ddisgleirdeb, ferch ddisgleirwen)
 40 Am ferch fawr ei harddwch sydd yn peri i mi ferwi.

O am ferch luniaidd a llawen [a'i gwallt o liw'r] banadl,
 O am ferch felen i mi i'w moli,
 O Fair wych a phur, O Ddewi fy arglwydd
 44 Am gael marw i mi allu celu tramgwydd!

Nid oes i mi iechyd, dim ond ochneidio
 A dioddef tristwch mawr a gweiddi
 Oherwydd aflwydd anffodus oeri fy nghalon
 48 Am na welaf hon, yr un o liw ton ar afon Tywi (?Tawe).

Pe digwyddai i mi sorri, ymddygiad ynfyd,
 A mynd yn ddirgel i gwmmi beddfeini,
 Byddai'r hen ddyn yn profi ei ymdawelu, ni all wadu hyn,
 52 Yr eneth fach ddiwair, wrth [iddo] dirioni.

Pe bai cyfoeth y Brenin Harri siriol ei natur yn eiddo i mi
 A [chyfoeth] esgob Caer-wynt hefyd, y ferch â'r gwallt hardd,
 Mwyfwy fy mhryder, po fwyaf fyddai fy nghyfoeth,
 56 Fe'i rhoddwn ef drosti, fy merch euraidd a doeth.

Digiais wrth Iesu, os gweddus yw digio,
 Cyrchodd seren o Lyn Seri;
 Wrth geryddu'n sarrug mewn cell ger y môr,
 60 Sibrydai fy nghyfaill mewn dicter i'm cynghori:

'Ieuan druan, yn frwnt yr wyt ti'n ymrafael
 Â'th grefft wael, swyddogaeth flinderus, [gan ddioddef] blaen saeth
 o'i herwydd;
 Bratha afon Hafren â'th geg, paid ag aros i ymboeni,
 64 Nid oes angen meddyg arnat dim ond dy fodd.'

‘Drwg i les bardd fydd iddo ymlwybro’n ôl ac ymlaen yn
 gythryblus mewn gardd
 A gwayw yn ei galon, anaf du ac anfad;
 Gwaeth arnat ti oherwydd dy hiraeth yw colli d’anwylyd,
 68 Gwell i ti ymadael â’r byd na bod hebddi.’

‘Nid oes cyngor i ti ac eithrio torri
 Drws trwchus yr eglwys a cher ati.
 Tynna fy merch wych (y mae carreg arni
 72 Er talu’r degwm yn deg) a thyrd â hi i mi.’

‘Taw, wraig, â’th ddrygioni, ceisia ymgroesi,
 Tri pheth a gaiff wared ar bob caledi:
 Ympryd, os gwyddost, a gweddi gelfydd
 76 Ac offrymu i seintiau a santesau.’

Fe af at Gynin, fy nghyfrinach a’m harglwydd,
 Er mwyn cyd-fyw gyda’i weision ef.
 O Fair wych, gwae fi uwch yr ehedydden fonheddig,
 80 Os na wna Cynin beri iechyd iddi,
 Heb unrhyw betruster fe’i dygaf i’w rhoi am deirawr
 Ar ganol allor dau arglwydd [Ty]ddewi.

Yno fe barant, galwant ar nerth,
 84 Fod bywyd ynddi drwy eu cytgord hwynt,
 Yr un hardd ei groes, fel y gwnaeth Crist yn achos Lasarus,
 Ei gyfodi o’r ddaear fudr a dwys.

Os na ddaw hynny â gwaredigaeth i mi, dolurio llym yw hyn,
 88 Ni wna f’einioes barhau’n hwy na hyn o’i herwydd:
 Ceisio (ni allaf fyw yn ofer o hyn allan,
 Nid oes gennyf mo’r galon) sicrhau nefoedd iddi.

Marwnad Owain Tudur

- Y llu mawr ni allai mwy
 Yn Lloegr, yn Nyffryn Llugwy,
 A'r gwadd yn argyweddol
 4 A'i gwŷr ei hun ger ei hôl.
 Elyn caeth, wylo y'n caid
 O'r frad hon ar Frytaniaid.
 Doeth anffawd o waith Henffordd,
 8 Dêl ar naid dial i'r Nordd!
 Ar ddadl anwahardd ydwyf,
 Awn dros hyn, un dyrys wyf;
 Cwyno'n gall can ei golli,
 12 Owain, fy iôr, a wnaif i.
 Pe darffai (bai rai yn brudd)
 Ym mrwydr am fab Meredudd,
 Llawen fyth ni allwn fod,
 16 Llai fasai fy llef isod.
 Daliwyd (beth anwadalach?)
 Dad yr ieirll o Dudur iach.
 Doded ef yn ddiglefyd
 20 Drwy boen i fyned o'r byd.
 Rhy dynn y rhedai annerth,
 Rhwydd draw pe'i rhoddid ar werth.
 Er hwnnw y rhôi Wynedd
 24 O aur ei bwys ar y bedd;
 Di-ffael, a chaniadu ffin,
 Oedd i'w brynu dda brenin;
 Peth amau (nis maddeuwn)
 28 Fai ar Sais fyrhau oes hwn.

- Gau fu'r gerdd, ac ofer gynt
 O frudiau (pa ferw ydynt?)
 Am na chad, nid mynych hedd,
 32 Goroni'r gŵr o Wynedd.
 Rhugl wenwyn, rhoi galanas
 Ydd wyf o frud Adda Fras.
 O bu ragor ar bregeth
 36 Heinin Fardd, mae hynny'n feth.

- Ofer yw brud yr hudawl
 O ferw poen fu ar y pawl:
 Ni wnafl lai am fab lleian
 40 O'i frud ef no'i fwrw i dân.
 Canuau doeth, caniad iach,
 Taliesin nid dilysiach.
 Gwae ni'n darogan Owain,
 44 Annoeth rhwysg a wnaeth y rhain!
 Gwae Wynedd, ddaroganwyr,
 Gan Saeson, galon y gwŷr:
 Owain dywysawg Lawgoch,
 48 Owain y Glyn, onwayw gloch,
 Owain Tudur, fur ar Fôn,
 A hwn aeth â'r henw weithion.
 Felly'r âi'r rheiny i'r rhwyd:
 52 O'n tri Owain y'n treiwyd!

- Mae gobaith i'n iaith yn ôl
 A byw aeth yn obeithiol:
 Er clybod darfod â dur
 56 Newid hoedl Owain Tudur,
 Gwyllo Siasbar a Harri,
 Ei wŷr a'i fab, yr wyf i.
 Ni mynnaf, rhof a Mynwy,
 60 Os hyn yw 'nhasg, sôn yn hwy.
 Duw yrhawg a ado'r rhain
 Yn fyw, a nef i Owain!

Ffynonellau A

A—Bangor (Mos) 5, 118^v B—BL Add 14876, 72^r C—BL Add 14882, 101^v
 D—BL Add 14966, 97^v E—BL Add 14978, 256^v F—BL Add 24980, 218^r
 G—BL Add 31059, 29^r H—Bodewryd 2, 183 I¹—Card 4.10, 1285 I²—Card
 4.10, 597 J—Card 4.101, 178^v K—Card 5.30, 73 L—Card 5.167, 364^r M—
 LIGC 6499B, 314 N—LIGC 20574A, 319 O—Pen 80, 41 P—Pen 97, 284
 Q—Pen 221, 189 (*llau. 1–2*)

Ffynonellau B

Bangor 703, 35 BL Add 14940, 76^r BL Add 14964, 175^r BL Add 14991,
 251^v BL Add 15000, 103^v BL Add 31083, 54^v LIGC 170C, 150 LIGC
 1024D, 61 LIGC 2033B, 24^v

Seiliwyd y golygiad ar y llawysgrifau a gopiwyd cyn 1750 (sef Ffynonellau A); nid yw'r llawysgrifau diweddarach (Ffynonellau B) yn cynnig

tystiolaeth annibynnol ar y rhain. Daw mwyafrif y llawysgrifau o'r gogledd, a'r rhai hynaf (LO) o'r gogledd-ddwyrain. Tebyg iawn yw'r holl gopïau, a dichon eu bod i gyd yn tarddu o'r un gynsail yn y pen draw.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 179–85.

Amrywiadau

1 *L* eelli. 2 *K* [Yn]; *K* lloegr i ynyffryn. 3 *EHJP* ar i gwadd, *M* Ar i gwaedd; *B* a wna 'r Gywyddol; *DFGKLNO* ym; *CEHJMP* argweddol. 4 *M* ar. 5 *CDEGHJMP* gelyn; *E–JM–P* kaeth ac wylo; *D* ni, *E* i, *M* [y'n]. 6 *DFGLNO* o, *M* oer. 7 *ABI*¹ aeth, *M* Daeth; *K* hanffod. 8 *D* arnad, *GKLN* arr nad; *ABCEHJMP* or, *K* y; *L* mordd. 9 *DGI*¹*I*² ar y ddadl; *ABDEGHI*²*KM* anwardd, *JP* vn anwardd; *C* anwadd yn ydwyf. 10 *P* hwn; *C* yn; *L* diras. 11 *JP* kwynion; *C* kyn, *EHM* gan, *O* kawnn; *BEHJP* yn golli, *M* in golli. 12 *K* fū. 13 *B* darffai lle bu rai brudd. 14 *B* Bu ymrwydd am. 15 *JP* yn llawen. 16 *ACDEGHI*²*JKLN*P vuasai; *B* ein, *CK* [fy]; *C* i osod. 18 *C–FI*¹*M* iarll, *J* ierll; *M* âch. 19 *B* ef heb ddim clefyd. 20 *EM* dawn; *M* ei. 21 *EM* rrodded, *JP* roddid; *D* a nerth, *P* annerch. 22 *DI*² draw rhoddid, *I*¹ draw rhoddiad; *ALKNO* i, *G* o, *M* fei; *B* rhoid. 23 *B* hunaw. 25 *B* chennadu, *M* chaniadhau. 26 *AEHJM* oi, *P* i; *C* brvnnv. 27 *JP* beth; *D* aniaiv; *M* os. 28 *B* fu; *M* Sais am fyrhau. 29 (*K*) gaur; *K* fu; *L* ac ofer ac ofer. 30 *FLNO* i; (*K*) frudiaur; *AJP* vrvdiav a vwriedynt, *EHM* frvdiav ofer ydynt. 31 *BI*¹ ni chaed, *P* ni chad; *EJMP* ni, *K* un; *EJM* mynech. 32 *EHJKMP* [‘r]. 34 *C* yr ddwyf, *GLON* ydd wy; *F* i ddwylo frvd; *ADEG–JMP* ar. 36 *BJ* Heilyn, *H* hinin; *B* hyn o feth. 38 *A–EGHJKMP* [O]; *B* ferw y, *M* Ferw'r; *M* pen; *ACDEGHJKP* poen a vu. 39 *K* mi; *CDGJNP* wna; *EHJP* llai; *A* lai vab i leian, *B* llais Fab y lleian, *I*¹ lai am fab i leian; *JP* an y lleian; *CDFGKNO* leian, *L* laian. 40 *BC* [O'i]; *EHM* frvt; *C* vryrod ef nai, *DFGKLNO* frvd i doe; *EHM* fwrwn tan. 41 *M* Cannaw; *ADFGKLNO* kann nad, *C* kan nod, *EHM* kenad. 42 *L* tat taliessin; *B* nid tylsach. 43 *B* Drogain, *M* dyregan. 44 *C* a noeth, *M* Anfyth. 45 *L* Gwe; *B* Gwae i Wynedd droganwyr; *AC* daroganwyr, *EHM* y droganwyr. 46 *C* galymon, *EJMP* goylion, *H* gelynion; *K* i. 47 *AHM* dywysog loywgoch (*a gywirwyd yn dywysawg lawgoch yn A gan law ddiweddarach*), *D* dywysog llowgoch, *E* dywssog loywgoch, *JP* y twyssog glowgoch, *N* dwysog lawgoch. 48 *B* yn wiw, *K* ynwayw; *G* goch (*a gywirwyd yn gloch gan law ddiweddarach*). 49 *DI*²*KN* fv; *EHJMP* o. 50 *A–EGHJKMP* [A]; *B* aeth heb; *EHJMP* hwnnw, *F* hvn; *C* weithian. 51 *B* Felly er hynny i rwyd; *AEM* rhieni; *C* or. 52 *C* in; *M* fe'n; *FI*¹ trewyd. 53 *A* gobaith on. 54 *ACDEGHI*²*JKMP* [A]; *ADEGHI*²*JMP* byw a aeth; *K* yn anobeithiol. 55 *EM* klyfod, *H* clywfod; *C* klowed darvod (*a gywirwyd yn klybod darbod gan law ddiweddarach*); *D* ar, *G* ar (*a gywirwyd yn a gan yr un llaw*). 57 *B* gwiliad, *EM* gwilia; *M* Siasper. 59 *B* rhof o mynnwyf. 60 *E* vwn; *A* hask vnion hwy; *CE* sonien hwy, *DGI*¹*I*²*M* ssonio'n hwy, *H* seinien hwy, *K* sonio hwy. 61 *ACDEGHI*²*JKMP* i; *A–EHKMP* advr, *I*² ado.

Teitl

B Cywydd Marwnad i Sir Owain ap Mredydd ap Tudur ap Gronw, o Benmynydd ym Môn, *C* marwnad []ain Tudur Taid Harri 7^{ed} (*llaw ddiweddarach*), *D* Cow. Marw. Owain Tudvr, *E* []nad [] Tûdr (*llaw ddiweddarach*), *FI*¹ marwnad Owain Tudur, *G* Cowydd marwnad am Owain tudur, ac o vrud brenin harri sseithved: o waith Ievan gethin ap Ievan ap lleisson, *H* marnad owen ap mred ap tudr o penmynydd, *I*² Marwnad Owain Tudur ac o Frud Harri y Seithfed, *JP* mrwnad owen tudvr o fon, *K* kowydd barnad Owein Tydur ag o fryd am harry'r seithfed, *L* marwnad owain ap mred, *M* Cywydd marwnad Owain Tudur o Fon yr hwn a briododd y Frenhines Catherine mam y Brenin Harri y Chweched, *N* Marwnad Owain ap ~~Mredd~~ Tudur, *O* Marwnad Owain ap Mredd vdd (*llaw ddiweddarach*).

Olnod

*ACEHI*¹*I*²*JP* Ienn gethin ap Ienn ap lleision, *B* Ifan Gethin ap Ifan ap lleision o Forgannwg a'i Cant, 1461, *DK* Ieuan Gethin ap Ieuan ap Lleision ai Cant, *FO* Jenn Gethin ap Jenn ap seissvllt (*a ll. drwy seissvllt yn F*) lleission, *G* Tervyn, *H* Ifan gethin ap Ifan ap leision, *L* ienn gethin ap ienn ap seissvllt ai kant, *M* Ieuan Gethin ap Ieuan ap Lleision ai Cant 1450.

Trefn y llinellau

*ACDFGI*¹*I*²*JKLNOP* 1–62.

B 1–52, [53–4], 55–62.

EM 1–60, 62, 61.

H 1–61, 61, 62.

Q 1–2, [3–62].

Marwnad Owain Tudur

- Ni allai'r llu mawr wneud mwy
 Yn Lloegr, yn Nyffryn Llugwy,
 A'r wadd yn niweidiol
 4 Gyda'i milwyr ei hun ar ei hôl.
 Gelyn llym, yn wylo y'n ceid ni
 Oherwydd y brad hwn ar Frytaniaid.
 Daeth anffawd yn sgil brwydr Henffordd,
 8 Deled dial ar unwaith i ogledd Lloegr!
 Mewn ymryson yr wyf yn afreolus,
 Awn heibio i hyn, un ystrywgar wyf;
 Cwyno'n ddoeth oherwydd ei gollï,
 12 Fy arglwydd Owain, a wnaif i.
 Pe bai mab Maredudd wedi marw mewn brwydr
 (Trist fyddai rhai),
 Ni allwn fyth fod yn llawen,
 16 [Ond] byddai fy nghwyn acw yn llai.
 Daliwyd (beth sydd yn fwy ansefydlog?)
 Tad yr ieirll o linach Tudur.
 Gorfodwyd ef yn holliach
 20 I ymadael â'r byd drwy boen.
 Yn rhy gaethiwus yr ymledai anallu,
 Didrafferth y byddai draw pe gofynnid am dâl amdano.
 Dros hwnnw fe roddai gwŷr Gwynedd
 24 Ei bwys o aur ar y bedd;
 Di-feth, pe bai dirwy yn cael ei chaniatáu,
 Fyddai cyfoeth y brenin ar gyfer ei brynu;
 [Os felly] mae'n amheus a fyddai Sais
 28 (Ni fyddwn i'n maddau iddo) wedi byrhau oes hwn.

- Celwyddog fu'r gerdd, a seithug gynt
 O ran proffwydoliaethau (pa fath o fwrlwm ydynt?)
 Am na chafwyd coroni, nid cyffredin mo heddwch,
 32 Y gwŷr o Wynedd.
 Chwerwder diatal, creu helynt
 A wnaif oherwydd proffwydoliaeth Adda Fras.
 Os bu rhagoriaeth i araith
 36 Heinin Fardd, y mae hynny'n fethiant.
 Ofer yw proffwydoliaeth y dewin
 A fu ar y polyn trwy ferw poen:
 O ran mab y lleian, ni wnaif lai
 40 Na bwrw ei frud ef i'r tân.

Nid yw caneuon doeth, prydyddiaeth lewyrchus,
Taliesin yn fwy dilys.

- 44 Gwae ni ein darogan am Owain,
Annoeth fu'r rhwysg a fu gan y rhain!
Ddaroganwyr, gwae, oherwydd Sais, i Wynedd
Am un sy'n rhoi hyder i filwyr:
Y tywysog Owain Lawgoch,
48 Owain y Glyn, cloch [ac iddo] waywffon onn,
Owain Tudur, amddiffynnwr Môn,
A hwn bellach sydd â'r un enw.
Felly yr aeth y rhai hynny i'r fagl:
52 O'n tri Owain y'n hamddifadwyd.

- Y mae gobaith unwaith eto i'n cenedl
Ac aeth bywyd yn obeithlon:
Er clywed am ladd
56 Owain Tudur â dur,
Cadw golwg a wnaif i
Ar Siasbar a Harri, ei wŷr a'i fab.
Yn enw Tyddewi, ni ddymunaf
60 Sôn mwy am hyn, os dyma fy ngorchwyl.
Bydded i Dduw bellach adael y rhain
Yn fyw, a rhoi nef i Owain!

Atodiad I

I Ieuan Gethin gan Ieuan Ddu ap Dafydd ab Owain¹

4 Ieuan, llew un anian lluch,
Gethin, haelwin gynhalwych,
Fab Ieuan, ni bu anael,
Fab Lleision, gerdd union gael.
8 Macwy serchog, fwyfwy fâl,
Morgannwg, muriau gynnal.
Mawrdeg wŵr, mae ar dy gân
Dy wawd, a'i dyrnawd arnan.
12 Saethaist i'n gwlad, had hudweilch,
Saethau o barablau beilch.
Brys dy hwyl, bwriaist i hon
Brathau gywyddau brithion;
Peth yn glod, nid pwyth enw glân,
Llwyr nâg, llawer yn ogan.

16 Os am wybod bod bonedd
Rhys i'n gwlad, rhoes enwog wledd.
Na ddwg i'n gwlad fad fedrus
Anghlod, er bod rhod a Rhys;
20 Testungar, mewn tost angerdd
Y ceni, cywely cerdd.
Cyd bych digrif a phrifardd
A gŵr hy â geiriau hardd,
24 Nid digrif, rif ryfelbarth,
Gwawd² a wnêl gogan a gwarth.

28 Gruffudd, bencerdd goreuffawd
Gryg wych, da y gorug wawd.
Ei swydd sydd am orchwydd mawrchwant,
A fu ymddychanu â chant.
Ni adawdd, trafaelawdd trwch,
Nis haeddodd, unnos heddwch.
32 Tithau, Ieuan, un annwyd;
Gruffydd o newydd ynn wyd.

¹ Atgynhyrchir yma destun N. Scourfield yn Ieuan Gethin, &c.: Gw 120–1.

² *Ib.* 120 *Gwnawd.*

Ni edy'r hawg windy, rhydd,
 Arw o luniaeth, awr lonydd.
 Y ddihareb heb hiroed,
 36 A roes ei ysgwydd erioed.
 Amledd gael, ymladd galon,
 Ymhob rhiw daw'n friw i fron.
 Ni roddi, claer lety clod,
 40 Wad i neb wyd 'n wybod.
 Noddiwr mawl yn nyddiau'r mis
 Yn deilwng ond i Alis;
 44 Cyd bai, doeth, cydwybod iawn,
 Loyw ei saig, Alis Wgawn;
 A hael, gulael ymgeledd,
 A mwyn am ei gwin a'i medd.
 48 Nid â hon, waedlon adlaes
 Er arch ar ei march i'r maes.
 Ni medr buan ddychanu,
 Ni mennai llid ym min llu.
 52 Ni chyrchodd, iawnwych orchest
 Erioed lle bai frwydr o rest.
 Tâl gwn eirial gan euriaith
 Dy wad lle nad mwy dy waith.
 56 Gwybydd, Ieuan, a'm gwiwbost,
 Gethin, rhy gynefin fost.
 Nad aeth yng ngorchwyl dwylan
 Goleuder rhydd gwlad a'i rhan.
 60 O ciliwyd, myn Duw Celi,
 Â chlais hardd, ni chiliais i.
 O bydd un oed dydd 'n y tir,
 Meddant, eto ni'm maeddir.
 64 O'th gael, gorau ysgafael gwŷr,
 Goris hirwaun, gwrs herwyr.
 Eiriau drais er ei drwsiad,
 Yr ail cyrch i eiriol cad
 68 Mae'n eu bryd, gydogyfarch,
 Dy fwrniau a mignaw'r march.

Ieuan Ddu [ap] Dafydd ab Owain a'i cant

Atodiad II

Marwnad Ieuan Gethin gan Iorwerth Fynglwyd¹

- 4 Gwae herwr ddwyn gwayw hiraeth:
gloes drwy fy nau glust yr aeth.
Trist wyf o glwyf am ddyw glân,
myn Crist, o bu drist Drystan.
Cyn daered gwerth can dirwy
cefn mawr, ni bydd cyfan mwy.
- 8 Gwaethwyd am Ieuan Gethin
gwawd fyth pan gaewyd ei fin.
Pan gwypawdd 'n y dyfnglawdd du—
Ieuan Gethin yn gwaethu—
12 cwypawdd holl lwyth y Collwyn:
cleddyf cerdd, clyw addef cwyn.
Clywad dros y wlad o'i law
bwa'r awen yn briwaw.
16 Torres Duw ddoe—trist o ddydd—
llinyr yr holl awenydd.
Bid is dadl, bed astudiwn;
byddar fydd pob pâr heb hwn.
Mae'n wan cyngor Morgannwg:
20 mae'n llai'i nerth, mae'n llawn o wg.
- 24 Ddoe i'n gwlad ddoniog lydan;
ddoe'n wych a heddiw yn wan.
Mair a wyl—mawr yr wylwn—
môr hallt wedy marw o hwn.
Llys lân Faglan ddifyglyd
a ddug wyn, mae'n ddu i gyd.
28 Yr eos ar ir wiail
am Iefan deg mofyn dail.
Budr*liw* yr â haf budrlas,
peidio mae'r gog â'r clog glas:
ni fyn am Ieuan ganu,
32 ni fyn ddwyn ond a fo'n ddu.
A phond truan na chanai
acw i'n mysg acan Mai?
Anfalch bronfraith i'n iaith ni,
36 anfalchach ynt fwyelchi.

¹ Atgynhyrchir yma destun GIF cerdd 29.

Am glybod llyfr mwynglod Mai
 mawr yw cur,—marw a'i carai.
 40 Pan aeth o'i glos, pennaeth glân
 proffwyd bywiawglwyd Baglan,
 ymgwrdd ing am ei gerdd oedd
 gan nifer gwynion nefoedd;
 a rhoi ar Ieuan yr hawl
 44 Gethin, wawd dafawd dwyfawl.


Yn unair aeth i nawnef,
 i fyny'n wir o fewn nef;
 48 a gadu beirdd i gadw byd
 heb lanfardd yn bobl ynfyd.
 Aed yn nos dywell bellach;
 aed medd Castell-nedd yn iach.
 Ni chwardd dyn na cherdd dynant;
 52 ni chair rhodd d'air na cherdd dant.
 A chi da iechyd a wyl,
 a merch wen, a march annwyl.

Ba beth am Ieuan Gethin
 a wnair na chaf air o'i fin?
 56 Cadarn a oedd gloi ceudawd
 Sulgwyn a phrifai sêl gwawd.
 Syrthiawdd—dygnawdd â'u dogma—
 60 Salmon y prydyddion da.
 Sent i Dduw, sant oedd Ieuan:
 saint nef gydag ef a gân.

Nodiadau

1

Cywydd yn cwyno am garcharu Owain Tudur yng ngharchar Newgate yn Llundain yw hwn, ac yn mynegi gobaith am weld ei ryddhau'n fuan.¹ Esbonnir amgylchiadau'r carcharu (a oedd yn gwbl annheg ac anghyfiawn ym marn y bardd) cyn troi ar y diwedd i ofyn am gymorth dug Caerloyw i ryddhau Owain fel ei fod yn gallu dychwelyd i Benmynydd ym Môn.



¹ Ceir testun o'r gerdd ac ychydig sylwadau yn *Glam Bards* 13–18, 334–5 a HVN 473–4; fe'i golygwyd a'i phriodoli i Robin Ddu yn *Ceinion Llenyddiaeth Gymraeg*, gol. O. Jones (2 gyfrol, Llundain, 1876), I, 217–18; fe'i golygwyd a'i phriodoli i Ieuan Gethin yn *Y Flodeugerdd Newydd*, gol. W.J. Gruffydd (Caerdydd, 1909), 119–22 ac yn Ieuan Gethin, &c.: Gw cerdd 4. Perthyn y cywydd i ddsbarth bychan o gerddi yn dymuno gweld rhyddhau pobl o garchar; ymhellach ar y genre, gw. LIU 310–12.

² Gw. WG1 'Marchudd' 11, 12, 13; WG2 'Marchudd' 13(A).

Disgynnai Owain Tudur ap Maredudd ap Tudur o linach Tuduriaid Môn a gysylltir yn bennaf erbyn y cyfnod hwn â Phenmynydd a Threcastell. Ychydig a wyddys am hanes ei dad, Maredudd, ac am amgylchiadau geni Owain.³ Enwir pedwar brawd Maredudd gan Iolo Goch mewn cywydd i'w tad, Tudur Llwyd, ond am ryw reswm nid yw Maredudd yn cael ei enwi yno.⁴

Y mae'r gerdd hon yn bwysig gan ei bod yn rhoi barn gyfoes am yr hyn a ddiwyddodd yn fuan wedi marwolaeth gwraig Owain, Catherine o Valois, merch brenin Ffrainc a gweddw Harri V o Loegr, yn 1437.⁵ Ceir yr hanes mewn ffynonellau diweddarach, ond yn aml wedi ei liwio gan bropaganda o blaid neu yn erbyn y Tuduriaid. Fel y dywedodd R.A. Griffiths, 'The pot-pourri of myth, romanticism, tradition and later anti-Tudor propaganda surrounding this match can rarely be substantiated with historical fact.'⁶

Y mae agweddau ar yr hanes yn parhau'n ddirgelwch i haneswyr heddiw, ond y mae rhai ffeithiau y gallwn fod yn sicr ohonynt. Gŵr cyntaf Catherine oedd y Brenin Harri V a phriodwyd y ddau ar 2 Mehefin 1420, a ganwyd eu mab cyntaf, y Brenin Harri VI, yn 1421, ychydig fisoedd cyn marwolaeth ei dad yn 35 oed ar ymgyrch yn Ffrainc. Penodwyd dugiaid Bedford a Chaerloyw i amddiffyn Lloegr a'r baban Harri (yr oedd Humphrey, dug Caerloyw, yn frawd iau i Harri V) cyn coronni Harri yn Westminster yn 1429. Erbyn 1431 (ac yn fwy na thebyg erbyn 1428–9), yr oedd Catherine wedi priodi Owain Tudur yn ddirgel, *unwyting the comun peple tyl she were dede and beryed*, meddai un croniclydd ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg.⁷ Dim ond ar ôl ei marwolaeth hi yn 1437 y daeth y briodas hon yn hysbys yn gyffredinol, a hwythau erbyn hynny yn rhieni i bedwar o blant o leiaf. Tynnodd R.A. Griffiths sylw at ystatud sy'n esbonio paham y bu'n rhaid i'r ddau briodi yn ddirgel.⁸ Darganfuwyd yr ystatud ymysg archifau

³ Gw. G. Roberts, *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the late Glyn Roberts*, ed. A.H. Dodd and J.G. Williams (Cardiff, 1969), 199, 252–3.

⁴ Gw. GIG cerdd V a G. Roberts, *op.cit.* 199, lle y disgrifir Maredudd fel 'the most elusive of all the brothers', gan awgrymu efallai mai'r rheswm pam nas enwyd gan Iolo Goch oedd ei fod yn byw y tu allan i Fôn. Cyfeiria Roberts ymhellach at draddodiad a gofnodwyd yn y 18g. fod Maredudd wedi gorfod ffoi o'r wlad oherwydd llofruddiaeth a bod ei fab, Owain Tudur, wedi ei eni mewn alltudiaeth felly.

⁵ Am yr wybodaeth hanesyddol, dibynnwyd yn drwm yma ar T.A. Jones, 'Owain Tudor's marriage', B xi (1941–4), 102–9; R.S. Thomas, 'The Political Career, Estates and "Connection" of Jasper Tudor, Earl of Pembroke, and Duke of Bedford (d. 1495)' (Ph.D. Wales [Swansea], 1971); R.A. Griffiths, *The Reign of King Henry VI* (Stroud, 1982); WWR² 41–5 *et passim*; erthygl R.A. Griffiths *s.n.* *Tudor, Owen*, DNB Online ac *id.*, 'Queen Katherine of Valois and a missing statue', *id.*, *King and Country: England and Wales in the Fifteenth Century* (London, 1991), 103–13.

⁶ R.A. Griffiths, *The Reign of King Henry VI* (Stroud, 1982), 60.

⁷ *The Great Chronicle of London*, ed. A.H. Thomas and I.D. Thornley (London, 1938), 173.

⁸ R.A. Griffiths, *art.cit.* 103–113 (gw. tt. 112–13 am gopi o'r ystatud).

bwrdeistref Caerlŷr a bu ar goll ers yr ail ganrif ar bymtheg.⁹ Fe'i lluniwyd rhwng 13 Hydref 1427 a 25 Mawrth, 1428, ac ynddi gwaherddir neb rhag priodi brenhines weddw heb ganiatâd llawn y brenin (cyhyd ag y bo hwnnw mewn llawn oed):

Item ordine est et establiez par auctorite de cest parlement pur la saluacion del honour des tresnoblez estates des Roynes Dengleterre que nulle home de quiconque estate ou condicion qil soit ne fait contract dez espouselx ou mariage de soy marie a Roynne Dengleterre saunz especialle licence et assent du Roi mesmes celuy esteantz dez anz de discrecion ...¹⁰

Y gosb am wneud hynny fyddai gorfod fforffedu tir ac eiddo a chan mai'n fuan wedi cyhoeddi'r ystatud y bu i Owain a Catherine briodi, y mae'n ddealladwy pam y gwnaethant hynny'n ddirgel. Fel y dywed Griffiths, nid oes unrhyw awgrym fod eu priodas yn annyls oherwydd iddynt weithredu yn erbyn canllawiau'r ystatud.¹¹

Y mae'n debygol mai Humphrey, dug Caerloyw, i raddau helaeth a oedd yn gyfrifol am yr ystatud, yn sgil clywed sïon, yn fuan wedi marwolaeth Harri V, fod Catherine o bosibl yn mynd i briodi Edmund Beaufort, nai i'w elyn Henry Beaufort.¹² Poenai Humphrey y byddai'n colli ei ddylanwad dros y brenin ifanc. Y mae'n anodd credu na wyddai am briodas Owain a Catherine cyn ei marwolaeth hi yn 1437, ond os gwyddai, nid oes tystiolaeth iddo weithredu ar hynny. Ond pan fu hi farw, yr oedd yn benderfynol o atal y Cymro,¹³ a derbyniodd Owain wŷs i ymddangos o flaen y brenin i esbonio'i sefyllfa. Ond yr oedd yn ddrwgdybus, a chiliodd dan seintwar i abaty Westminster.¹⁴ Pan ymddangosodd o'r diwedd, a hynny ar ôl cael addewid y byddai'n ddiogel, rhyddhaodd Harri ef. Ond yn fuan wedyn, er caniatáu iddo ymadael â llys y brenin dan saffcwndid, fe'i harestiwyd a'i garcharu yng nwnjwn castell Wallingford cyn ei drosglwyddo i garchar Newgate. Yno y bu nes iddo ddianc ar ddechrau Chwefror 1438.¹⁵ Y mae'n weddol sicr mai dug Caerloyw, ac nid y brenin, a oedd yn gyfrifol am ei

⁹ Y mae nifer o ffynonellau hanesyddol yn crybwyll y ddeddf hon (e.e. Giles Chronicle, Hall's Chronicle a hefyd groniel Elis Gruffudd), ond gan nas cadwyd ymysg y rholiau swyddogol, amheuwyd ei bodolaeth gan rai: gw. T.A. Jones, *art.cit.* 114–15, ac yn arbennig, 103, 'The three sessional Rolls of Parliament were carefully examined ... The astonishing discovery was then made that no such statute was passed – no such enactment is engrossed on the membranes, either for the session of 1428 or for 1429 or for 1430.'

¹⁰ R.A. Griffiths, *art.cit.* 112.

¹¹ *Ib.* 108, 'there was no question of regarding such a union as treasonable or rendering it null and void'.

¹² *Ib.* 104–5.

¹³ *Ib.* 106; *id.*, *The Reign of King Henry VI* (Stroud, 1982), 61.

¹⁴ *Id.*, *art.cit.* 103.

¹⁵ Gw., e.e., R.S. Thomas, *op.cit.* 23; T.A. Jones, *art.cit.* 104–5; R.A. Griffiths *s.n.* *Tudor, Owen*, DNB Online. Efallai iddo gael ei ddal a'i garcharu eto, ond nid oes sicrwydd am hynny, gw. T.A. Jones, *art.cit.* 105 a hefyd isod 57–8n.

garcharu.¹⁶ Y mae'n bosibl fod priodas Owain a Catherine heb ei gydsyniad ef fel arweinydd Cyngor y Brenin wedi ei wylltio a'i droi yn erbyn y Cymro. Fel yr esboniodd T.A. Jones, 'In 1437 Gloucester was supreme in power as Regent and he could issue any summons he desired against any person he hated ... Within six months after Catherine's death he [Owain] was summoned, no doubt by the Regent, to attend the King's Council. The antipathy between Gloucester and Tudor seems to have been mutual, for the latter threw himself at once into sanctuary by making his way into Westminster Abbey.'

Yn gyffredinol, ni fynegir amheuaeth am ddilysrwydd priodas Owain a Catherine gan awduron diweddarach, nac amheuaeth ychwaith eu bod yn rhieni cyfreithlon i Edmwnd a Siasbar Tudur—petai unrhyw ansicrwydd wedi bod, byddai hynny wedi bod yn fêl ar fysedd yr awduron a wrthwynebai hawl y Tuduriaid i'r Goron. Craidd eu gwrthwynebiad, yn hytrach, oedd statws isel a thaeogaidd Maredudd, tad Owain, a'r dybiaeth, felly, nad oedd Harri Tudur yn ddigon uchel a brenhinol ei dras i wisgo Coron Lloegr.¹⁷

Yng ngoleuni'r cefndir hwn, beth a ddysgwn o gerdd Ieuan? Dywedir i Owain fod mewn carchar yn Llundain (ll. 8), ac yn benodol yng ngharchar Newgate (ll. 13), lle y clymwyd ef gerfydd ei ddau droed gan efn y wal (llau. 15–20). Mynegir syndod at y ffaith iddo gael ei arestio o gwbl: ni bu hynny oherwydd iddo fod yn lleidr nac yn draetur (llau. 25–6), nac am iddo ddwyn march (ll. 29) nac am iddo fod mewn dyled (ll. 31), yn wir nid am yr un rheswm cyfreithiol (ll. 33), ond yn hytrach oherwydd y ffaith iddo syrthio mewn cariad â [*m*]erch brenin ... *Ffrainc* (ll. 36). Ond nid oedd dim yn amhriodol yn y berthynas honno, medd Ieuan Gethin, ac nid yn unig yr oedd hi wedi cydsynio'n llwyr â'i serch ef, ond hefyd ni fu unrhyw gyfathrach rhyngddynt cyn i'w gŵr cyntaf farw ac iddynt hwythau briodi (llau. 44, 46 *cyn eu gweithred, / ... / Ei briodas ... fu*). At hynny, bendithiwyd y briodas â phlant (llau. 47–54), gan brofi, felly, fod Duw ei hun yn fodlon â'r uniad. Nid yw Ieuan yn unman yn awgrymu pwy a oedd yn gyfrifol am arestio Owain, ond apelia ar ddiwedd y cywydd ar i *dug ... [C]aer Loyw* (llau. 57–8) sicrhau ei ryddid. Y mae'n fawr ei ganmoliaeth i'r *dug* (llau. 57–62), ac anodd barnu a oedd yn sylweddoli mai'r *dug* a oedd yn gyfrifol am ei garcharu neu beidio.

Ni wyddys i sicrwydd sut y cyfarfu Owain a Catherine, ond y mae Elis Gruffudd ac eraill yn honni yn y ganrif ddilynol i'r Owain ifanc gael ei benodi'n *servant and sewer to the queen*.¹⁸ Mewn sawl ffynhonnell

¹⁶ T.A. Jones, *art.cit.* 103.

¹⁷ E.e., meddai Syr John Wynn o Wydir, *Queene Katherin beinge a French woman borne, knewe no difference betweene the Englishe and Welshe nation untill her marriage beinge published Owen Tuders kyndred and cuntryre were objected to disgrace him, as most vile and barbarous*, J. Ballinger, *The History of the Gwydir Family* (Cardiff, 1927), 26.

¹⁸ Am gofnod Elis Gruffudd, gw. yr adysgrifiad yn WWR² 52–3.

awgrymir mai mewn dawns y cyfarfu'r ddau, a bod Owain wedi disgyn yn ddamweiniol i gôl y frenhines wrth ddangos ei hun yn dawnsio, heb sylweddoli tan drannoeth mai dyna pwy oedd hi. Apeliodd yr hanes yn fawr at feirdd a dramodwyr yn ddiweddarach: er enghraifft, dyma ddisgrifiad Michael Drayton, cyfoeswr i Shakespeare, o'r achlysur mewn cerdd o'r enw 'Owen Tudor to Queen Katherine':

When in your presence I was call'd to dance,
In loftie Tricks whilst I my selfe advance,
And in a Turne, my footing fayl'd by hap,
Was't not my chance to light into your lap?
Who would not judge its fortunes greatest grace,
Sith he must fall, to fall in such a place?¹⁹

Tybed ai hanes tebyg i hwn yr oedd Ieuan Gethin ei hun yn gyfarwydd ag ef? Esbonia fod Owain Tudur wedi syrthio mewn cariad â [*m*]erch brenin ... *Ffrainc* ... / ... *ar ddydd gŵyl*, a bod hyn wedi bod yn *frowys orchwyl*, sef 'gweithred egniol' neu 'nwyfus' (gw. ll. 38n).

Ni wyddom ddim am ffynonellau gwybodaeth Ieuan Gethin nac ychwaith am achlysur canu'r gerdd hon. Ai cerdd a ganwyd yn ei lys ef ym Maglan ydoedd? A oedd Ieuan yn gobeithio y byddai ei apêl am ryddhau Owain yn cyrraedd clustiau'r Dug Humphrey, ac os felly, sut? Efallai na fyddai'n briodol dehongli'r gerdd yn dystiolaeth o gefnogaeth bleidiol Ieuan Gethin fel y cyfryw, ond yn hytrach fel cerdd a ganwyd i gefnogi un yr oedd y Cymry wedi gosod eu gobeithion ynddo.

Mesur a chynghanedd

Cywydd, 66 llinell.

Cynghanedd: croes 48% (32 ll.), traws 14% (9 ll.), sain 29% (19 ll.), llusg 9% (6 ll.). Ceir cynghanedd sain bengoll yn llinell 61, a sain gadwynog yn llinell 26.

2 **gweddiwn ni gwiwDduw** Deellir *gwiwDduw* yn wrth. y f. (a chan fod *gweddio* i yn gystrawen gyffredin mewn Cym.C., efallai fod yr ardd. *i* wedi ei gywasgu yma (*gweddiwn ni* (*i*)). Disgwyliid tr.ml. i'r gwrth., ond y mae cadw'r gysefin yn oddefiad yn dilyn yr orffwysfa. Dewis arall fyddai rhoi coma ar ôl *ni*, a deall y f. yn gyflawn.

4 **Gwae nyny Gymry i gyd!** Ar lun ffurfiau (diacen) megis *myfy, tydy*, derbynnir *nyny* y llsgrau. hynaf yma ar gyfer y cynghanedd. Ar y ffurfiau hyn, gw. WG 272 (ond sylwer na restrir *nyny* yn GPC 2604). Er hynny gall mai cynghanedd draws fantach sydd yma (*Gwae ... gyd*).

Y mae cystrawen y cwpled hwn yn amwys, a gellid darllen *Gorau unDuw a'n gweryd* / (*Gwae nyny Gymry!*) *i gyd*.

¹⁹ *The Works of Michael Drayton*, ed. J.W. Hebel (5 vols., Oxford, 1931–41), V, 116.

- 5 **un dyn o rieni** Yn ôl yr achau, Owain Tudur oedd unig fab ei rieni, Maredudd ap Tudur a Marged ferch Dafydd Fychan o Drehwfa a Threfeilir, Môn. Yr oedd ganddo chwaer, Annes, a briododd Syr Wiliam Norris o swydd Gaer (WG1 'Marchudd' 13). Cymerir *un*, felly, i olygu 'unig' yma; ond byddai ystyron megis 'arbennig, dihafal' (GPC 3702 d.g. *un* 1(a)), hefyd yn bosibl. (Dichon nad cyd-ddigwyddiad yw bod *unDuw* yn ll. 3 ac *un dyn* yma.) Y mae'n amlwg i rai o'r copïwyr gael trafferth gyda'r ll. hon, a rhaid gwrthod darlleniad llsgr. o, er cystal y synnwyr, *yr vn oedd oray y eni*, oherwydd diffyg tystiolaeth drosto.
- 7 **gafar** Ffurf amr. ar *afar* 'tristwch, galar', GPC² 96. Yr oedd yn air dieithr i sawl copïydd, a darllenodd ambell un *gyfer* (gan ddinistriô'r gynghanedd sain) neu *gyfar* (gan gredu, o bosibl, fod honno'n ffurf amr. ar *gyfer* a barchai'r gynghanedd).
- 8 **Caer-ludd** Llundain.
- 10 **cornir** Disgrifiad o'r carchar a oedd wedi ei leoli ar borth Newgate ar wal Rufeinig Llundain. Dinistriwyd y carchar gwreiddiol yn y Tân Mawr yn 1666. Gallai *cornir* un ai gyfeirio at dyrau uchel hen adeilad y porth neu at ei simneiau: gw. GPC 564.
- 11 **ni** Y mae'r dystiolaeth lawysgrifol dros *fi* yr un mor gryf yma, ac anodd torri'r ddadl gan nad yw'r gair yn rhan o gynghanedd y ll. Ceir y llais 1 ll. eto yn llau. 1–6, 55, 58.
- ym margod mur** Cf. GGL1 8.10 *Mwyalchod ym margod mur*. Ar ystyron *bargod*, gw. GPC² 587–8 d.g. *bargod*¹. Gallai olygu 'ymyl, ffin, goror, cyrion' yn ogystal â 'bondo'. Go brin fod gan y bardd wybodaeth fanwl am amgylchiadau carcharu Owain, ond y mae'n amlwg ei fod yn credu ei fod wedi ei glymu gerfydd ei ddau droed (ll. 18 *ddau efyn*) gan gadwyn (ll. 12 *tid*) i wal y carchar.
- 13 **ba** Fe'i dehonglir yn eiryn gofynnol; ni cheir cefnogaeth i ddarlleniad Llywelyn Siôn, llsgr. Z, *bv neges*.
- Niwgad** Gw. 10n ac ymhellach y nodyn cefndir uchod.
- 13–14 Ni ellir bod yn gwbl hyderus ynglŷn â dilysrwydd y cwpled hwn. Fe'i derbynnir yn ochelgar gan ei fod yn bresennol yn rhai o'r llsgrau. cynharaf nad oes lle i gredu eu bod yn gopïau o'i gilydd, a chan ei fod yn ystyrllon yn y cyd-destun. Ni chafwyd hyd iddo yng ngwaith unrhyw fardd arall.
- 14 **o Dudur dad** Gan mai taid, ac nid tad i Owain oedd Tudur, rhaid cymryd mai 'hynafiad' yw ystyr *tad* yma (gw. GPC 3407), er ei bod hi'n bosibl fod y bardd wedi camddechongli'r defnydd o Tudur fel cyfenw a'i ddechongli fel enw'r tad, ar lun enw'r bardd Hywel Dafî = Hywel ap Dafydd. Bu farw Tudur yn 1367 (gw. isod ll. 26n ar *Tudur*

Llwyd) a'i farwnadu gan Iolo Goch (GIG cerdd IV). Ar linach Owain Tudur, gw. yr achres uchod.

- 15 **rhyd ystad** Dyma ddarlleniad mwyafrif llsgrau. yr 16g. a'r 17g., a dyma'r darlleniad anos, ac nid hawdd mo'r ystyr. Am *rhyd* dyry GPC 'lle bas mewn afon, &c., ... ac yn ffig.' Yn betrus iawn, cynigir bod y gair yn cael ei ddefnyddio'n ffigurol yma am gyfyngder y cyflwr (*ystad*) yr oedd Owain ynddo, ac yntau wedi ei gadwyno wrth fur y carchar. Fodd bynnag, ni lwyddais i ddod o hyd i ddefnydd ffigurol cyffelyb i *rhyd*, ac erys y darlleniad a'r dehongliad yn betrus iawn. Yn llsgrau. Xg ceir *rhoed* a rydd well synnwyr, ond gyda chyn lleied o gefnogaeth gynnar iddo, ymddengys yn symleiddiad. Ni chynigia *rhed* y llsgrau. eraill ystyr amlwg ychwaith. Y dewis arall yw diwygio yn *Rhydd o stad* (gw. yr 'Amrywiadau' am y darlleniad *o stad*); ond er y byddai hyn yn rhoi ystyr dda (h.y. fod Owain yn ŵr rhydd o ran ei statws), ceid gwall yn y ll. nad yw'n nodweddiadol o gynganeddu Ieuan.
- 16 Chwe sillaf sydd yn y ll. oni chyfrifir *rhyarw* yn deirsill.
- 17 **O deŷrnwaed Edeirniawn** Ar ôl y goncwest delid barwniaeth Edeirniion gan ddisgynyddion Owain Brogyntyn o Bowys, disgynyddion Ednyfed Fychan a disgynyddion Owain ap Maredudd o linach frenhinol y Deheubarth, gw. A.D. Carr, 'Some Edeirniion and Dinmael documents', B xxi (1964–6), 242–5. Cyfeirir at blant Owain Tudur, isod ll. 50, fel [*b*]arwniaid, sydd yn atgoffa'r gynulleidfa o'r cyswllt hwn â gwaed brenhinol Edeirniion. Go brin fod Ieuan Gethin yma'n meddwl am y cwmwd daearyddol, ond yn hytrach am Edeirniion fel barwniaeth Gymreig a oedd wedi goroesi'r Goncwest.
- 18 **oer ddifwyn** Darlleniad mwyafrif y llsgrau. yma yw *aur addfwyn*, nad yw'n ystyrllon yng nghyswllt y ddwy lyffethair a roddwyd am draed Owain Tudur yn y carchar, cf. ll. 20 *Gefyn trwm ar gefn y troed*. Llsg. W yn unig o blith llsgrau. yr 16g. sydd yn darllen *oer ddifwyn*, a cheir cyfuniad o'r ddwy ffurf yn *V ayr ddivwyn* a *X oer addfwyn*.
- 20 **y troed** Eg. yw *troed* yma, ond eb. yn 2.34 *un droed*, 2.36 *y droed orau*. Cysylltir y cyntaf heddiw â thafodiaith ogleddol a'r ail â thafodiaith ddeheuol, ac ymddengys fod hynny'n wir hefyd yn achos beirdd yr Oesoedd Canol: prin gan feirdd y de yw enghrau. o *troed* yn eg. (er y'i ceir yn eg. gan Risiart ap Rhys o Dir Iarll, *duo Tir Iarll hyd y troed*, GRhB 30.16), ac eb. ydoedd gan amlaf ganddynt (fel yn GLMorg 101.49 *I'r ddwy droed yr oedd ddwy draw*). Fodd bynnag, ymddengys fod y beirdd yn gyffredinol yn ddigon parod i arddel elfen o hyblygrwydd ynglŷn â chenedl enwau, yn enwedig er mwyn gofynion y gynghanedd, gw. A.C. Lake, 'Gwe gaeth y Gymraeg wen', LICy 27 (2004), 67, a GLD 23.42n. Anos, er hynny, yw esbonio'r ddwy ffurf 7.5 *deufraich* a 8.12 *dwyfraich* gan Ieuan Gethin.

- 24 **yr ail gwyrth** Pan fo *ail* yn drefnol, nid yw eg. unigol yn treiglo ar ei ôl, gw. Treigladau 40–1.

gwyrth ... eiriol Methodd nifer o gopiŵyr ddeall y gyfeiriadaeth yn y ll. hon, gan newid felly'r geiriau *gwyrth* ac *eiriol* yn eiriau mwy ystyrion iddynt (gw. 'Amrywiadau'). Y mae'n bosibl mai'r *gwyrth* cyntaf ym meddwl y bardd yw'r hanes am Daliesin yn rhyddhau, drwy gyfrwng ei gerdd yntau, Elffin fab Gwyddno Garanhir yn wyrthiol o garchar yng Nghaer Degannwy: YT 79 (llau. 489–2) *A mine yw Taliesin, / ben beirdd y gorllewin, / a ollyngaf Elffin, / o'r huual goreurin*, a cf. yn arbennig (*ib.* llau. 498–9) *Yn [y] lle a'r amser J dywedir gannu ohonaw ef gerdd nees agori o'r geuynn oddi am i draed ef*. Yr oedd y beirdd yn gyfarwydd iawn â'r hanesyn hwn a chyfeiria Gwilym ab Ieuan Hen yntau at y chwedl mewn cywydd yn cwyno am garchariad Henri ap Gwilym ac Owain Llwyd yng nghastell Harlech. Fel Ieuan Gethin, y mae Gwilym yn gobeithio y bydd grym ei gerdd yntau'n rhyddhau ei noddwyr, GDID XVI.25–38:

Ill dau diau y deuynt
 Drwy fin gwal adref yn gynt.
 Os cyfing, ac ing yw'n gwaith
 O gwbl, bid dda ein gobaith;
 Mab glân Gwyddno Garanir
 I'w efyn hwnt a fu'n hir;
 O wawd Taliesin a'i waith
 [Y]'i tynnwyd o'i wart unwaith.
 Briwodd enwau'r bardd uniawn
 Y cloeau dur caled iawn;
 Yno gwnaeth â'i awenydd
 Elffin rhwym eurin yn rhydd.
 Drwy 'ngherdd, o gwna Duw erddi,
 Felly dêl fy llewod i.

- 25 **biliedwyd** Benthyciad yw'r f. o'r S. *billet*, yma yn yr ystyr 'rhoi ar restr (o ddrwgweithredwyr), cyhuddo'n gyhoeddus', GPC 279. (Ystyr fwy niwtral, 'to enter in a list; to enroll', &c., a roddir i'r S. *billet* yn OED Online *s.v. billet*, *v.*). Yng nghyswllt y cyfeiriad at [r]est ('arrest') Owain yn ll. 32, cf. GLM XLVII.49 *Dy rest â bil heb drwst bys*.
- 25–35 Y mae amrywiaeth mawr yn nhrefn y cwpledi hyn, a'r ansicrwydd o bosibl yn codi o'r ffaith mai rhestr sydd yma gyda nifer o'r cwpledi yn cychwyn â'r neg.: nid oes gwahaniaeth o ran ystyr, mewn gwirionedd, ym mha drefn bynnag y'u cenir. Ni cheir cwpled 33–4 mewn nifer o'r llsgrau., ond oherwydd ei gynnwys yn amryw o llsgrau. yr 16g. a chan nas cafwyd yng ngwaith unrhyw fardd arall, fe'i derbyniwyd.

- 26 **llin Tudur** Anodd dewis rhwng *llin Tudur* a *llin Dudur* y llsgrau. ac nid yw'r gynghanedd sain gadwynog o gymorth. Gan mai eg. yw *llin* gan amlaf (cf. GPC 2180), cedwir y ffurf gysefin yma. Deallir y cyfuniad yn enwol am Owain Tudur.
- Tudur Llwyd** Sef Tudur ap Goronwy (m. 1367), taid Owain Tudur, cf. Iolo Goch wrth sôn am feibion Tudur, GIG V.21 *Cenawon Tudur llon Llwyd*, ac *ib.* V.49–50 *Tÿ, gwelais gynt teg wiwle, / Tudur Llwyd, da ydyw'r lle.*
- 27 **Nid oedd gywilidd iddaw** Gellid dadlau bod yr ystyr yn galw naill ai am *Onid?* neu am *Neud* ... ar ddechrau'r ll., ond y mae'r llsgrau. yn unfryd ynglŷn â'r neg., a chymerir bod Ieuan yn dweud nad oedd arestio Ieuan 'n y *dref draw* (ll. 28) yn fater o gywilydd iddo, gan nad oedd wedi gwneud dim o'i le.
- 29 **mewn** Dyma'r ffurf a geir yma ym mwyafrif y llsgrau. ac eithrio llsgr. o (Stowe 959) *mywn*. (Y mae llsgrau. Llywelyn Siôn, sy'n tarddu o'r un ffynhonnell â llsgr. o, yn darllen *min.*) Sylwer hefyd mai *mewn* a geir gan y bardd Ieuan Brechfa o sir Gaerfyrddin yn llsgr. e. O edrych ar gopiâu llsgr. y cerddi eraill yn y casgliad, gwelir mai *mewn*, ac nid *mywn*, sydd yn arferol, e.e. yn yr unig gopi o gerdd 7 a geir yn llsgr. Pen 57 (o bosibl o Ystrad-fflur) *mewn* a geir yn 7.42, 46. Y mae tystiolaeth y llsgrau. felly'n gryfach dros *mewn* a dyna a dderbynnir yn y golygiad hwn, er ei bod yn debygol fod y ffurf ddeheuol *mywn* yn nes at ynganiad y bardd ei hun.
- 31 **dyled** Ceir nifer o ffurfiau ar y gair hwn fel y gwelir yn yr 'Amrywiadau', cf. GPC 1136 d.g. *dyled*, *dylêd*, *dled*, *dylyed*, *dlyed*. Y mae angen deusill yma, a cheir *dyled* mewn nifer o llsgrau. yr 16g.
- 32 **y rhest** Ar *rest*, *rhest*, benthyciad o'r S. *rest* (< *arrest*), gw. GPC 2982 d.g. *rest*² a cf. y ll. gan Lewys Môn a ddyfynnir yn ll. 25n. Ceir y ffurf *rest* hefyd mewn nifer o'r llsgrau., ond rhydd *rhest* (y ffurf fwyaf gyffredin yn llsgrau. yr 16g.) well cyfatebiaeth yn y gynghanedd. Dehonglir *i / y* y llsgrau. fel y fan., ond y mae'n bosibl mai'r rh. blaen 3 ll. ydyw (cf. ll. 12 *eu tid*).
- 33 **disymlwaith** Ar *disyml* 'doeth, deallus, craff', &c., gw. GPC 1052; lle y gwelir mai diweddarach yw'r ystyr 'syml, plaen' (a'r rhagddodiad felly'n gadarnhaol).
- 35 **athrod** '(Y weithred o wneud) datganiad llafar celwyddog neu faleisus am berson gyda'r bwriad o beri niwed iddo neu ei ddifenwi, ... camgyhuddiad', gw. GPC² 532 d.g. *athrod*¹.
- uthr** Yma mewn ystyr dda, 'rhyfedd(ol), syfrdanol, rhagorol', gw. GPC 3721 a cf. ll. 44n.

- y **diaine** Y mae'n ddigon posibl y dylid darllen o *diaink* gyda llsgr. b (1539–49), darlleniad a ddaw'n fwy poblogaidd erbyn yr 17g.
- 37–46 Ceir yma un frawddeg hir amlgymalog, lawn sangiadau, yn amddiffyn yr uniad rhwng Catherine ac Owain Tudur: er i Owain fwrw ei serch arni mewn gŵyl (llau. 37–40), ac os bu iddo gydorwedd â hi, yna drwy ei chydsyniad y bu hynny (llau. 41–2). Ac yn fwy na hynny, y mae can mil o bobl yn barod i dystio iddo ei phriodi hi cyn cydorwedd â hi, a dim ond ar ôl i'w gŵr farw y bu hynny: llau. 43–6 *Canmil a dwng ... / ... cyn eu gweithred, / ... / Ei briodas, Felwas, fu*. Felly ni wnaeth ddim o'i le i haeddu cael ei garcharu.
- 38 **browys orchwyl** Tybed a yw Ieuan Gethin yn cyfeirio at draddodiad a gofnodir mewn ffynonellau diweddarach fod Owain Tudur wedi cyfarfod â'r frenhines drwy ddisgyn i'w chôl yn ystod dawns yn y llys? Gw. y nodyn cefndir uchod. Byddai *browys* 'bywiol, egniol, ... chwareus, llon, nwyfus, trythyll' yn disgrifio'n dda y fath achlysur, er nad yw Ieuan yn cyfeirio'n benodol at ddawns.
- 40 Ceir nifer fawr o amrywiadau ar y ll. hon, yn deillio o gamglywed a chamrannu geiriau ac ansicrwydd ai cynghanedd sain neu gytseiniol sydd yma. Dilynir tystiolaeth mwyafrif llsgrau. yr 16g., ond gw. yr 'Amrywiadau'.
- 43 **cyfrwng ced** Rhaid gwrthod y ffurf *cyflwng* '?traflynciad, ysglyfiad' (GPC 701) a geir yn llsgrau. Llywelyn Siôn ac eraill o'r de. Disgrifio haelioni Owain a wneir yma.
- 44 **cynnig uthr** Deallir *uthr* yma'n a., yn disgrifio cynnig neu fwriad Owain i briodi'r frenhines weddw fel un syfrdanol neu fentrus, ac yntau, wrth gwrs, yn ŵr digon cyffredin o Fôn. (Ar ystod ystyron *uthr*, gw. GPC 3721.) Tybed a wyddai Ieuan Gethin am yr ystatud yn gwahardd neb rhag priodi brenhines weddw heb ganiatâd y brenin? Gw. y nodyn cefndir uchod.
- Posibilrwydd arall yw bod yma gyfeiriad at Uthr Bendragon, a bod Ieuan Gethin yn tynnu sylw at y tebygrwydd rhwng hanes Owain yn syrthio mewn cariad â'r Frenhines Catherine a'r hanes ym Mrut Sieffre o Fynwy (BD 136–40) am Uthr yn syrthio mewn cariad ag Eigr, gwraig Gwrlois, iarll Cernyw. Fel Owain a Catherine, cyfarfu'r ddau chwedlon-ol mewn gŵyl (yr oedd gŵr cyntaf Eigr yn dal i fod yn fyw, ond ni wyddom a oedd Harri V yn fyw pan gyfarfu Owain a Catherine). Er bod Uthr, yn ôl yr hanes fel y'i ceir yn y Brut, wedi cysgu gydag Eigr cyn marwolaeth Gwrlois, ac wedi esgor ar Arthur yn dilyn yr uniad cyntaf rhyngddynt, bu'r uniad hwnnw'n un twyllodrus mewn gwirionedd gan fod Uthr wedi ei rithio yn rhith Gwrlois (*ib.* 136–7). Lladdwyd Gwrlois yn fuan wedyn a bu'n rhaid i Uthr fwrw ymaith y rhith, a *myned yn ei drech ehun* (*ib.* 140), ac yna esbonnir *A guedy mynagi idav yn wir yr*

daroad, doluryav yn uavr a wnaeth o anghew Gorlois, ac eissyoes o'r parth arall llawen uu o achavs bot Eigyr yn ryd ellyngedig o rvym y briodas. Ac odynd ymchuelut a wnaeth y brenhin parth a chastell Tindagol y'v gymryt yn eidav ehun, ac y gymryt Eigyr heuyt yn wreic idav. Hynny yw, dim ond ar ôl i Wrlois farw y priododd Uthr ag Eigr. Yn yr un modd, gall fod y bardd yn awgrymu nad oedd Owain wedi cael cyfathrach â'r frenhines cyn bod ei gŵr wedi marw, felly yr oedd ei [g]ynnig (ll. 44) iddi ar yr un tir â chynnig Uthr i Eigr. Ac yr oedd Catherine, fel Eigr, *yn ryd ellyngedig o rvym y briodas* gan fod ei gŵr wedi marw.

- 45 **Brenhinawl ollawl allu** Gellid deall y ll. hon yn ddisgrifiad o Owain Tudur ei hun neu o Catherine, neu ynteu o'r ddau. Efallai fod Ieuan Gethin yn ceisio ateb y cyhuddiad fod Owain Tudur yn anghymwys i briodi Catherine, oherwydd y dybiaeth nad oedd ei statws yn ddigon uchel. Anodd gwybod o'r ffynonellau hanesyddol pa mor gynnar y daeth hyn yn fater o ofid, ond ymddengys fod Margaret, chwaer Edward IV, wedi bod yn gyfrifol am ledu 'the propagandist myth that Owen Tudor was the bastard son of an alehouse keeper of Wales' a thrwy hynny, felly, fod Edmwnd a Siasbar Tudur hefyd yn anghyfreithlon, R.S. Thomas, 'The Political Career, Estates and "Connection" of Jasper Tudor, Earl of Pembroke, and Duke of Bedford (d. 1495)' (Ph.D. Wales [Swansea], 1971), 1. Ond fel y nododd Ieuan Gethin eisoes, yr oedd Owain yn hanu o *deyrnwaed* Cymreig, ll. 17. Er hynny, y mae'n ddigon posibl mai tyngu i'r Duwdod, y *Brenhinawl ollawl allu*, a wna Ieuan Gethin yma.

Y mae'r llsgrau. bron yn unfryd am y ll. hon, ac eithrio Ieuan Brechfa (llsgr. e, yr hynaf) sydd yn darllen *gras mawr wrth allawr allu*.

- 46 **Melwas** Cyfeiriad anodd. Ceir enw Melwas yn gyffredin yn y canu mawl yn gyfystyr ag enw arwr neu filwr dewr; felly y cyfeirir ato, e.e., yng nghanu Tudur Aled, TA XLI.5–6 *Melwas a'i wisg mal y sêr, / Moes wrês am wayw Syr Rosier* (am Siôn Pilstwn Hen), a cf. *ib.* 154 (XXXV.41–2), 164 (XXXVIII.49–50), 195 (XLVII.24) a 359 (XC.65–6). Y mae'n ddigon posibl mai fel arwr yn syml y mae Ieuan Gethin hefyd yn cyfeirio ato yma (yn ffigurol am Owain Tudur), ac iddo ddewis yr enw am ei fod yn cynnig odl hwylus â *briodas*. Ond gan mai sôn yn benodol y mae Ieuan am uniad Owain Tudur a'r Frenhines Catherine, anodd osgoi meddwl am y chwedl am Felwas, brenin Ynys Wydrin yng Ngwlad yr Haf, yn cipio Gwenhwyfar, gwraig y Brenin Arthur. Cyfeirir at y chwedl honno gan Ddafydd ap Gwilym ac eraill, gw. DG.net 65.19n. Er mai gweithred odinebus oedd honno, gan fod Arthur yn dal i fod yn fyw, efallai yr ystyriai Ieuan Felwas yn syml fel gŵr a oedd wedi ennill merch yr oedd ei chalon wedi bod yn eiddo i un arall. Y mae'n amlwg fod llawer o ddeunydd am Felwas wedi ei goli,

- oherwydd anodd iawn yw deall beth sydd yn digwydd yn yr englynion ‘Ymddiddan Melwas a Gwenhwyfar’: gw. WCD 469–70; E.D. Jones, ‘Melwas, Gwenhwyfar, a Chai’, B viii (1935–7), 203–8; *The Arthur of the Welsh*, ed. R. Bromwich *et al.* (Cardiff, 1991), 18–19, 58–61; TYP³ 378–80.
- 47 **plant** Yn ôl R.S. Thomas, *op.cit.* 61, yr oedd pedwar plentyn, yn ôl pob tebyg, gan Owain a Catherine, tri brawd ac un chwaer. Byddai’r pedwar plentyn wedi bod yn ifanc iawn felly (ll. 48 *heinig*) ar farwolaeth eu mam yn 1437 a phan garcharwyd eu tad. Rhoddwyd y pedwar yng ngofal Katherine de la Pole, abades Barking yn swydd Essex a chwaer iarll Suffolk.
- 48 **heinig** Ceir y ffurfiau *heini* a *heinig* / *heinyf* yn y llsgrau., ac yn GPC 1840 rhoddir *heini* a *heinig* yn gipeiriau (gan gynnwys engh. o’r 16g. o *heinyf* yn odli â *cryf*). Y mae’n air cymharol brin yn y farddoniaeth, ac er mai *heini* yw’r ffurf a geir yn nhestunau DG.net 82.12 a GIG 11.93, y mae’n odli yno â *digri*, ac felly gellid adfer *f* yn y ddau air (hynny yw, *heinig* ... *digrif*). Yn betrus, felly, dilynir y tair llsgr. hynaf wrth ddarllen *heinig*: y mae hynny’n osgoi’r bai ‘gormodd odlau’ er ei bod yn ddigon posibl nad ystyrid hynny’n fai gan Ieuan Gethin yn enwedig gan nad yw *heinig* yn air acennog (gw. J. Morris-Jones: CD 300, ond cf. 6.58 *Â chur merch nog â chawr mawr*).
- ohoni** Efallai y dylid darllen *oheni* gyda rhai o’r llsgrau., sef ffurf Gym.C. yr ardd. *o*, gw. GMW 59 a cf. GyN 12.100 ac isod 9.36 *amdan* / *amdeni*.
- 49 **tarianwyr trin** Am y cyfuniad, cf. GST ii, 249 (61.21–2) *Glanaf gŵr, tarianwr trin, / Law a bron ar lu brenin*. Dyma’r darlenniad mwyaf cyffredin, ond digon posibl hefyd yw *trywanwyr* a geir yn llsgr. e. Disgrifiad stoc sydd yma, gan nad oedd yr un o’r brodyr yn hŷn na saith oed pan ganwyd y gerdd.
- 49–50 **Yn frodyr ... / O farwniaid i frenin** Yr oedd tri mab Owain Tudur a Catherine yn hanner brodyr i’r brenin, Harri VI. Ar ddisgrifiad o’r brodyr fel *barwniaid*, gw. ll. 17n.
- 51 **cyfrwyddyd** ‘Arweiniad, hyfforddiant; hysbysrwydd, gwybodaeth, dysg’, &c., GPC 686; cyfeiria Ieuan Gethin at yr wybodaeth sydd ganddo am achau Owain Tudur. Yn ôl ‘Gramadegau’r Penceirddiaid’, *kyfarwyddyt* oedd un o’r tri pheth a gyfoethogai gerdd dafod (GP 18).
- 52 **wyrion brenin arall** Trwy eu mam, yr oedd meibion Owain a Catherine hefyd yn wyrion i frenin Ffrainc, Siarls VI, a fuasai farw cyn eu geni yn 1422, yn fuan wedi marwolaeth Harri V. Cyfeirir ato weithiau fel Le Fou (‘y gwallgof’), ac y mae’n ddigon posibl mai ganddo ef yr etifeddodd Harri VI, mab Catherine drwy Harri V, ei wallgofrwydd yntau.

54 **grawnt** ‘Cennad, caniatâd, hawl’, o’r S.C. *grawnt* ‘grant’, GPC 1527 lle y ceir yr engh. gynharaf o’r 16g./17g. Dyma ddarllenriad llsgrau. Lb o’r 16g., a daw’n weddol gyffredin yn llsgrau. yr 17g. Posibilrwydd arall, sydd yn parchu’r gynghanedd gytseiniol ond yn peri bod y ll. yn rhy hir, yw *eu / y rhent hoedl*.

wyrion Tudur Meibion Owain Tudur, a oedd yn orwyrion i Dudur ap Goronwy (m. 1367), gw. yr achres uchod.

55 **mab** Owain Tudur. Go brin mai cyfeiriad at ei ieuencid sydd yma, gan fod Owain bron yn ddeugain oed pan oedd yn y carchar (ond a wyddai Ieuan hynny?). Y tebyg yw bod Ieuan Gethin yn synio am ryddhau Owain o’r carchar yn nhermau’r mab darogan yn dychwelyd o alltudiaeth.

56 **cynt** Nid yw’r ystyr adfl. ‘o’r blaen’ yn ll. 37 a 10.29 yn taro yma gyda’r f. *a ddêl*; felly estynnir peth ar yr ystyron ‘cyflymach, buanach’ a roddir i’r gair fel a. yn GPC 800 a’i ddeall yn adfl. ‘yn fuan’.

o ddwylo caith Deellir *caith* yn enwol yma, am y rhai a ddaliai Owain yn y carchar (gw. *ib.* 384–5 d.g. *caith*).

57 **o hyd** Gellid ei ddeall yma’n llythrennol yn cyfeirio at daldra’r dug (cf. GDEp 18.9 *Doctor o hyd Ector hen*) neu’n gyfuniad adfl. ‘yn wastadol, bob amser’ (cf. GHS 20.45 *Pob cwestiwn gan hwn o hyd*).

Ni cheir calediad yma, ac atebir *-g h-* gan g. *h*, gw. uchod td. 20.

57–8 **dug ... / ... Gaer Loyw** Sef Humphrey, dug Caerloyw, a benodwyd yn fuan wedi marwolaeth ei frawd hŷn, Harri V, yn 1422 yn warchodwr i’r baban Harri VI ac yn un o amddiffynwyr Lloegr, gw. ymhellach y nodyn cefndir. Fel yr esbonnir yno, yr oedd y dug yn ŵr pwerus iawn a cheir awgrym mai ef, ac nid Harri VI, a fu’n gyfrifol am roi’r gorchymyn i arestio a charcharu Owain Tudur yn 1437. Y mae’n anodd gwybod faint o’r manylion a oedd yn hysbys i Ieuan Gethin, ond y mae’r ffaith ei fod yn apelio am gymorth y dug yma i ryddhau Owain, gan ei alw’n [*g*]ymrodedd *Cymro* (ll. 59), yn awgrymu ei fod yn credu bod gan y dug y dylanwad angenrheidiol i’w ryddhau.

59 **cymrodedd** Ceir dau air yn ôl GPC 770: y naill (yn cynnwys yr e. *brawd* ‘barn’) ac iddo naws gyfreithiol, ‘cyflafaredd, ..., cytundeb; heddychiad; cytundeb drwy rannu’r ymrafael’, a’r llall (yn cynnwys yr e. *cymrawd*) yn golygu ‘hefelydd, cystedlydd, cymar’. Dichon mai’r cyntaf sydd orau yma: a’r bardd yn gobeithio y bydd y dug yn gweithredu fel cyfryngwr ar ran Owain i sicrhau ei ryddhad (ond gw. 57–8n.)

60 **carw du gwiw** Sef dug Caerloyw. Ceir ail fersiwn o’r ll. hon, *Cariad gwych carw du gwiw*, mewn nifer o’r llsgrau., gan gynnwys y pedair hynaf, ond y mae sillaf yn brin, oni bai y cyfrifir *carw* yn ddeusill, neu

yr ychwanegir y fan. fel y gwneir yn llsgrau. Bi y *karw*, neu y darllenir *Cariad y gwŷr*, fel y gwneir yn llsgrau. MX.

61 **bylchlyn** Unig engh. (nas ceir yn GPC) o air a ymddengys yn gyfuniad o *bwlch* + *llyn*. Ceir *bylchwin* yn GDC 17.4n a dilyna'r golygydd yno awgrym petrus J. Lloyd-Jones (G 84) am yr ystyr, ‘“?gwin yn torri (drosodd)” yn hytrach na “gwin a ballodd”’. Yn yr un modd dehonglir *bylchlyn* yma i olygu ‘a’i ddiod yn goferu’, yn ddisgrifiad canmoliaethus o’r dug. Fodd bynnag, os disgrifiad ydyw o Owain Tudur, yna byddai ‘un y mae bwlch yn ei ddarpariaeth o ddiod’ yn bosibl, o gofio mai topos yn y canu oedd y syniad fod colli arglwydd (un ai drwy garchariad neu farwolaeth) yn arwain at ddiffyg neu doriad mewn darpariaeth o ddiod. Ceir *bylchwyn* yn rhai o’r llsgrau., ac er ei fod yn osgoi’r *l* bengoll yn y gynghanedd, ni roddai’r darlleniad hwn gystal ystyr.

65 **arwyddion** Sef arwyddion darogan. Thema gyffredin yn y canu brud yw bod dyfodiad y mab darogan yn cael ei ragfynegi gan arwyddion penodol, megis rhai yn ymwneud â’r tywydd, y tymhorau, y tirwedd ac ati. Am restr o arwyddion o’r fath, gw. GDGor 99–100.

66 **Penmynydd** Un o brif gartrefi teulu’r Tuduriaid ym Môn, gw. G. Roberts, ‘Teulu Penmynydd’, *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the late Glyn Roberts*, ed. A.H. Dodd and J.G. Williams (Cardiff, 1969), 240–70.

2

Yn y cywydd hwn cyflwyna Ieuan gŵyn i un Siôn Gwyn ap Rhys gan fod gweision hwnnw, sef Llywelyn, Gruffudd ac Ieuan, wedi dinistrio ei fydafau a dwyn ei fêl i’w roi i’w meist.¹ Disgrifir gweithred y tri drwgweithredwr fesul un gan ddymuno gweld eu cosbi’n chwyn. Ar ddiwedd y gerdd, hydera Ieuan y bydd y siryf, Syr Wiliam, yn cynnal archwiliad manwl i’r achos, ac ar ôl iddo ddatgelu’r gwirionedd, yn sicrhau bod Siôn a’i weision yn cael eu gorfodi i unioni’r cam ac i’w ddiogledu.

Gallwn dybio bod y gerdd hon i’w lleoli heb fod ymhell o gartref y bardd ym Maglan, ac awgryma’r cyfeiriadau at [*b*]laen y wlad (ll. 2) a [*b*]laen y glyn (ll. 54) ei fod, o bosibl, yn ffermio tir (ar ystyr *fferm*, gw. ll. 9n) yn ardal Glyn-nedd, ym Mlaenau Morgannwg. Yno, yn Aberpergwm ym mhlwyf Llangatwg, yr oedd cartref Rhys ap Siancyn, a dichon mai ei fab ef yw’r Siôn Gwyn ap Rhys y mae Ieuan Gethin yn ei gyfarch yma.² Yr oedd

¹ Ceir testun ohoni ac ychydig nodiadau yn Glam Bards 4–7, 334. Yn HVN 475–6 atgynhychwyd testun LlSt 6 gyda rhai sylwadau. Golygwyd y gerdd yn Ieuan Gethin, &c.: Gw cerdd 7.

² Ar linach Siôn ap Rhys ap Siancyn, gw. WG2 ‘Einion ap Gollwyn’ 11F₂, 11F₄. Fel y gwelir o achres Ieuan Gethin (gw. td. 3 uchod), yr oedd ef yn perthyn i linach Aberpergwm drwy ei fam.

Siôn, fel ei dad, yn noddwr pwysig i feirdd,³ a chanodd Lewys Glyn Cothi awdl iddo ef a'i wraig Elsbeth, gan gyfeirio'n benodol at ei ddi-ddordebau llenyddol.⁴ Yn ôl G.J. Williams, yr oedd Rhys ap Siancyn yn benteulu yn Aberpergwm c.1430–50.⁵

Y mae'r cyfeiriad yn y gerdd at y siryf Syr Wiliam (llau. 59–60) yn cynnig posibilïadau o ran ei dyddio. Penodwyd Syr Wiliam ap Tomas, sylfaenydd teulu'r Herbertiaid yn Rhaglan,⁶ yn siryf Morgannwg yn 1440, a daliodd y swydd tan ei farwolaeth c.1445 pan olynwyd ef gan Syr John Beauchamp; yna daliodd Syr Wiliam Herbert y swydd yn 1453, 1455 ac 1460.⁷ Y mae'n debygol, felly, mai rywbryd yn ystod siryfiaeth un o'r ddau Syr Wiliam hyn y canwyd y gerdd, sef un ai rhwng 1440 ac 1445 neu yn y cyfnod 1453–60. Go brin y dylid dehongli'r cywydd hwn fel cwyn ddirifol nac fel adroddiad manwl gywir o'r hyn a ddigwyddodd, a'r tebyg yw mai cerdd yw hi a gyfansoddwyd er difyrwch i'w pherfformio yng ngŵydd y cymeriadau a enwir ynddi yn ystod gŵyl neu wledd yn Aberpergwm. Y mae'n ddigon posibl mai colli ei fydafau ar ei *fferm* nid nepell o Aberpergwm a ysbrydolodd Ieuan Gethin i'w chanu, ond ei fod wedi defnyddio'r anffawd honno yn sail i gerdd ddigrif. Y mae elfennau dramatig amlwg yn yr iaith a'r cynnwys, ac y mae Ieuan yn cyflwyno'i achos fel petai'n cyflwyno cwyn gyfreithiol mewn llys barn. Disgrifia weithred y lladron yn fanwl (fel y disgrifiad o Lywelyn yn mynd ati i ddwyn mêl o fol y dderwen gyda'i fwyall fechan a'i ffon hir, llau. 15–30), a chan anelu ambell sylw at y gynulleidfa, megis i ofyn iddynt a fu tystion yn eu plith i'r weithred (llau. 31–2). Y mae'r gerdd yn cloi drwy gyfarch y siryf (gw. ll. 64n), gan erfyn arno i wneud yn iawn am y cam a ddi-ddedfasai: *Fy meistr gŵyl a'm hanwylyd, / Myn y iawn gantyn' i gyd!*

Bydaf yw'r enw a rydd Ieuan Gethin ar ei wenyn, sef y gair yn y Cyfreithiau am wenyn a nythai'n wyllt mewn coeden.⁸ Gan fod gwenyn yn symudol, ceid rheolau manwl am eu perchnogaeth, yn enwedig mewn perthynas â pherchennog y goeden a'r tir lle y nythent. Yr oedd dwyn mêl yn broblem, a'r lladron yn aml yn mynd ati'n bwrpasol i chwilio am fydafau mewn coed derw. Ar ôl canfod bydaf, byddent yn mynd ati i wneud twll yn

³ Gw. hefyd P. Lynch, 'Aberpergwm a'r traddodiad nawdd', *Nedd a Dulais*, gol. H.T. Edwards (Llandysul, 1994), 16–17; NBMM 42–58.

⁴ Gw. GLGC 103.16–20.

⁵ TLIM 21.

⁶ Ceir crynodeb o'i yrfa yn GG.net nodyn noddwr 'Syr Wiliam ap Tomas o Raglan, c.1380au–m. 1445'.

⁷ GCH III, 691; G.T. Clark, *Cartae et Alia Munimenta quae ad Dominium de Glamorganica Pertinent* (second ed., Cardiff, 1910), 1559; *Glamorgan Sheriffs*, ed. Patricia Moore (Cardiff, 1995), 85–6.

⁸ E. Crane and P. Walker, 'Evidence on Welsh beekeeping in the past', *Folk Life: Journal of Ethnological Studies*, xxi (1984–5), 24, 'heit = swarm, in this context, a swarm that has clustered issuing from a colony, before it finds a new home; *bydaf* = colony of bees nesting wild in a tree cavity ... Either a *heit* or a *bydaf* was worth finding, although ownership rights had to be respected.' Ceir cywydd gan Hywel Daf i ofyn am fydafau gan Lywelyn Goch ab Ieuan o Rydlafar, gw. *Gwaith Hywel Daf*, gol. A. Cynfael Lake (i ymddangos), cerdd 74.

y goeden er mwyn dwyn y mêl a'r cwyr,⁹ fel y gwnaeth Llywelyn yn y gerdd hon gyda'i *fwyall fach* (ll. 21). Byddai tyllu'r goeden fel hyn a dwyn y mêl yn dinistrio'r nyth ac yn achosi i'r gwenyn fudo, ac o ganlyniad byddai gan y perchennog hawl, yn ôl Cyfraith Hywel, i gael ei ddigolledu: *Or dygir bydaf letrat, a thorri y pren y bo yndaw, gwerth y pren a gwerth y vydaf a telir y arghwyd y tir.*¹⁰

Mesur a chynghanedd

Cywydd, 64 llinell.

Cynghanedd: croes 34% (22 ll.), traws 32% (20 ll.), sain 25% (16 ll.), llusg 9% (6 ll.). Ceir cynghanedd sain gadwynog yn llinell 60 a sain bengoll yn llinell 37.

1 **gwyddiad** Ffurf 3 un.amhff.myn. y f. *gwybod*, cf. 9.51n.

1–2 Ceir y cwpled hwn yn llgr. C yn unig, ar frig y ddalen, a thri dot wrth ei ymyl yn arwydd fod John Jones, Gellilyfdy wedi ei ddarllen—ceir ei gopi ef yn llgr. D. Yn dilyn yr ail linell, ceir bwch mwy nag sydd yn arferol cyn y ll. nesaf a cheir arwydd megis y (ond nid dyna ydyw) yn y bwch. Ni cheir y cwpled agoriadol hwn yn llgr. A, ond gan nad oes perthynas amlwg rhwng y ddau gopi, tybed a oedd rhyw amwysedd yn eu cysail? Gallwn fod yn weddol hyderus mai yma y perthyn y cwpled, a'r bardd yn agor ei gerdd o gwyn drwy ddatgan perchnogaeth ar yr eiddo a ladratawyd.

2 **melin lem** Fe'i deallir yn ffigurol am fynd a dod prysur y gwenyn fel melin (byddai'r a. *llem* yn annisgwyl am felin go iawn, ond yn berthnasol am wenyn sydd yn pigo). Y mae'n bosibl fod y bardd hefyd yn meddwl am y tebygrwydd rhwng y geiriau *mêl a melin*.

blaen y wlad Cyfeirir, o bosibl, at ran fynyddig gogledd Morgannwg. Rhennid Morgannwg yn ddwy ran, sef y Fro (o Fôr Hafren i'r bryniau) a'r Blaenau: cf. G.M. Roberts, *Crwydro Blaenau Morgannwg* (Llandybie, 1962), 9, 'Y mae'r rhaniad rhwng y Fro a'r Blaenau'n hollol eglur. Yn fras tynner llinell gyda godre'r bryniau o Lys-faen i Fargam, a dyna'r Fro o dani rhyngoch a'r môr.' Cf. ll. 10 *O'r brynnau*.

3 **gwychlaw** Ar *llaw* yn golygu 'awdurdod, rheolaeth, llywodraeth', &c., gw. GPC 2104 d.g. *llaw*¹ (b).

⁹ E. Crane and P. Walker, *art.cit.* 24, 'Honey combs could be stolen from a *bydaf* by making a hole in the tree to reach the nest ...'.

¹⁰ LIB 55.19–21, ac *ib.* llau. 4–28 am y gyfraith parthed gwenyn. Gw. hefyd T.M. Charles-Edwards and F. Kelly, *Bechbretha: An Old Irish Law-tract on Bee-keeping* (Dublin, 1983).

- 3–4 **Siôn ... / Gwyn ap Rhys** Siôn fab Rhys ap Siancyn o Aberpergwm ym mhlwyf Llangatwg, Glyn-nedd, yn ôl pob tebyg; arno, gw. y nodyn cefndir.
- 5 **amod** Awgrymir bod rhyw ddealltwriaeth neu gytundeb rhwng Ieuan Gethin a Siôn ap Rhys, ond bod Siôn wedi torri'r cytundeb hwnnw drwy adael i'w weision ddinistrio bydafau'r bardd.
Dichon mai cynghanedd sain ac ynnddi'r bai crych a llyfn a geir yma; ond os eb. oedd *amod* i'r bardd (cf. GPC² 234), gellid darllen *amod fau*, a roddai gynghanedd draws reolaidd.
- 8 **ynt** Gw. y nodyn canlynol.
- 9 **ynt** Er mwyn yr odl fewnol â *hynt*, rhaid cymryd bod yr y yn fer yma, nid yn hir, *ýnt*, fel sydd yn safonol heddiw. (Gw. OIG i, 16 lle yr esbonnir mai drwy gydweddiad â *cânt*, &c. y troes *ynt* > *ýnt*.)
fferm Nid o reidrwydd fferm yn yr ystyr ddiweddar o anheddiad amaethyddol, ond yn ei ystyr hŷn, sef tir a ddeuai ag incwm, cf. OED Online s.v. *farm*, n.² 5. 'tract of land held on lease for the purpose of cultivation'. Efallai fod gan Ieuan Gethin dir a ffermiai yn y Blaenau (gw. ll. 2n), o bosibl ar les gan Siôn ap Rhys o Aberpergwm.
- 10 **ceubrenni** Cf. llau. 20, 23, 62, 34 ac yn arbennig ll. 27 *I dor y ddâr wedy'r ddwyn* sydd yn egluro mai mewn ceudodau mewn coed derw yr oedd gwenyn Ieuan Gethin, yn hytrach nag mewn cychod gwenyn. Gw. ymhellach y nodyn cefndir uchod.
- 12 **wylliaid** Ffurf l. *wýll* 'ellyll, drychiolaeth, hefyd yn ffig.; tylluan (wen)'.
14 **rhan yt** Cymerir mai'r gysefin *rhan* a gynrychiolir gan *ran* y llsgrau. (lle y ceir amwysedd o ran orgraff 'rh'); rhydd y gysefin well cyfatebiaeth â *rhin* yn y gynghanedd.
rhin Fe'i deellir yn a. yma (cf. GPC 3075 'cyfrinachol, preifat, dirgel', &c.), yn disgrifio gweithred ddirgel y sawl a ddug y mêl (cf. ll. 32 *pw y a wýr?*).
- 15 **wardd** Cywasgiad o *gwahardd*, ffurf 2 un.grch.
- 18 **baw ar ei chawl** Cf. GPC 2810 *viso yn ei gawl* 'to put a spoke in someone's wheel' neu 'spoil his sport'. Dymuno anffawd i wraig Llywelyn a wneir.
- 19 **pylgeinwr** Ar *pylgain(t)*, a roes *plygain* drwy drawsosod, gw. GPC 2832; *plygeinwr* yw'r ffurf yn 4.20. Rhywun sydd yn codi yn y bore glas, ar ganiad y ceiliog, yw'r ystyr yma.
gwenen Ffurf amr. ar *gwenyn*, gw. GPC 1641.
- 20 **pryf** Gair ac iddo ystod eang o ystyron mewn Cym.C., gw. GPC 2919–21 d.g. *pryf*¹. Anodd gwybod pa anifail sydd gan Ieuan mewn golwg (byddai trychfil, &c. yn bosibl, a hefyd 'ymlusgiad, sarff, neidr', &c.),

- ond byrdwn y cwpled yw bod Llywelyn yn gallu dod o hyd i'r mêl yn ddeheuig fel anifail gwyllt.
- hwilio** Amr. ar *chwilio*, gyda'r *chw-* > *h-* yn nodweddiad ar dafodiaith Morgannwg, cf. ll. 62 ond gthg. ll. 23 *chwilio*, lle y mae angen yr *ch-* ar gyfer y gynghanedd. Cf. llau. 28 *hwilod*, 44 *hwydd*.
- 22 **a'i gyrfach** Rhaid gwrthod llsg. A *ay gryfach* oherwydd y gynghanedd. Yn GPC 807 diffinnir *cyrfach* (o *cwr* a *bach* 'bachyn') fel 'gwargrwm' neu 'person gwargrwm', ond gan nodi y gall fod yn ffurf amr. ar *crybach*¹ 'ffon gam neu fachog i dynnu cnau, &c., peth cam ar lun bach, dolen; bach gwair; cwman' (a'r engh. gynharaf a restrir o 1547). Heb os, yr ail gynnig a rydd yr ystyr orau yma: arf i ddwyn mêl oedd hwn, cf. llau. 21 [*b*]wyall *fach*, 31 *Rhaw a phicys*.
- 24 **tryddew** Dyma'r ffurf (wedi ei threiglo) a geir yn llsg. AC, ac er nas nodir fel amr. yn GPC 3632 d.g. *trwyddew* 'taradr, gwimbill, ebill, dril', y mae'r ffaith fod *try-* yn ffurf fer ar *trwy* yn ddigon o reswm dros dderbyn ffurf y llsg. gw. hefyd *ib.* 3630 d.g. *trwy*¹, *ib.* 3634 d.g. *try-*².
- 25 **abwyd dyn** Llsg. A *abyw dyn*, C *Abwy dyn bwy* A *bwy dyn* [*sic*]. O dderbyn y diwygiad rhaid cymryd nad yw'r *-d d-* yma'n caledu (cf. 9.7 *Dwyn ymaith, nid dan amod*). Y posibilrwydd arall yw darllen *abwy dyn* a'i ddeall yn ddisgrifiad o Lywelyn (ar *abwy* 'corff anifail marw, carcass, burgyn, hefyd yn *ffig.*', gw. GPC² 12).
- 26 **os cenfydd efô** Cymerir mai *efô* yw'r goddr. ac *-s* yw'r gwrth.; ond gellid hefyd ddeall *os* yn gys. syml, ac *efô* yn wrth.
- 27 **wedy'r ddwyn** Cyffredin mewn Cym.C. oedd y geiryn cadarnhaol a pherffeithiol *rhy* o flaen berfau, a chywasgai'n aml â'r cys. *gwedy* i roi *gwedy'r*, gw. GMW 166, ac yn arbennig *ib.* 168 am ei ddefnydd gyda'r be. Gw. hefyd 7.25, 9.28.
- 28 **hwilod** Cf. ll. 20n ar *hwilio*.
gan halwyn Sef 'can galwyn'. Am yr *h-* a'r tr.ml. yma, cf. WM 136.30 *abwyt can hwr ac eu llyn*, a gw. Treigladau 137.
- 29–30 **awgrim / ... dim** Neu *awgrym / ... dym*, gw. yr 'Amrywiadau'. Ar odli *dim*, gw. D.J. Bowen, 'Pynciau cynghanedd: odli i, u ac y', LICy xx (1997), 139–40.
- 30 **ni edy** Fe'i deallir yn ffurf 3 un.pres.myn. *gadu*, er mai *gad* a ddisgwylyd, fel yn ll. 51 *Ni ad bydaf*. (O'i gysylltu â'r f. *adaw*, gw. G 7, disgwylyd *nid edy*.)
- 31 **picys** Ffurf l. *pic*, o'r S. *pick(axe)*, gw. GPC 2795 d.g. *pic*¹, lle y rhestrir yr engh. hon.

rhaff hawcwyr Dilynir llsg. A *raffawkwyr*; gthg. C *raff fawkwyr*. Deellir *hawcwyr* yn ffurf sydd yn tarddu o'r S. *hawker* 'A man who goes from place to place selling his goods', OED Online s.v. *hawker*, n².

- 31–4 Anodd gweld sut y mae'r llau. hyn yn cysylltu â'r hyn sy'n dilyn. Eu crogi fydd tynged y ddau leidr arall (neu dyna obaith Ieuan). Ai'r un dymuniad a fynegir yma? Ai cyfeirio at raff grogi a wneir yn ll. 31, un y deuai'r *iangwr* i ddringo ati (ll. 33) o roi'r naill droed o flaen y llall yn y *pren draw* (ll. 34)?
- 33 **i dringaw** Am *tringo*, ffurf amr. ar *dringo*, gw. GPC 1085 d.g. *dringaf* (er mai ar ôl 1585 yw dyddiad yr engh. gynharaf yno). Ceir sawl enghraifft yng ngwaith Lewys Morgannwg (e.e. GLMorg 56.32, 75.37) a dichon mai dyma'r ffurf gyffredin ym Morgannwg.
- 34 **pâr** Ffurf 3 un.pres.myn. *peri*, er mai *pair* yw'r ffurf arferol yn y cerddi, cf. 7.9, 9.40, 79.
un droed Cf. ll. 36 y *droed orau*; ond gthg. 1.20 y *troed* lle y mae *troed* yn eg., a gw. *ib.n.*
- 35–6 **Dewi a wnêl dan y iau / ... y droed orau** Dymuno gweld Dewi Sant yn rhwystro'r lleidr, Llywelyn, a wneir yma, drwy osod llyffethair neu rwystr tebyg (*iau*) am ei droed gorau. Yn llau. 37–8 sonnir am gosb bellach wrth fin bwyall.
- 37 **A'r glin wrth fin y fwyall** Cynghanedd sain afreolaidd (bengoll).
- 42 **gwenenydd** Fe'i rhestrir yn unig engh. yn GPC 1541 d.g. *gwenynydd*, *gwenenydd*. Y mae wyneb Siôn yn debyg i eiddo gwenynwr, gan fod cynifer o chwyddau arno, cf. ll. 44.
- 43 **llar** Ni wyddys pam yr apelir at Sant Ilar yn benodol yma, ond ceir eglwys wedi ei chysegru iddo ym mhentref Saint Hilari yng nghanol Morgannwg, ger y Bont-faen.
- 44 **gradd** Ar amr. ystyron *gradd*, gw. GPC 1518–19; cyfeirio at faint y chwydd ar wyneb y lleidr a wneir yma.
hwydd Cf. ll. 20n ar *hwilio*.
- 45 **lohasim** Sioachim oedd enw tad Mair, mam Iesu. Ni welwyd unrhyw ffynhonnell i awgrymu ei fod ef yn benodol yn enwog am ei drwyn mawr, a dichon fod Ieuan Gethin yn meddwl amdano fel yr Iddew ystrydebol.
- 49 **lleidrach** Gradd gmhr. *lleidr* mewn ystyr a. 'chwannog i ladrata', &c. gw. GPC 2145; cf. Lewys Glyn Cothi am ddinas Caer, GLGC 215.60 [*ni bu ...*] *na thir fwy o ladron, na thref leidrach*.
- 51 **adwy** Gallai fod yn ddisgrifiad daearyddol o leoliad yr haid gwenyn, ond y mae'n fwy tebygol mai cyfeirio at fwllch neu geudod yn y goeden a wneir, cf. ll. 10 *ceubrenni*.

- 53 **gwyddbedyn** Ffurf hŷn ar *gwybedyn*, gw. GPC 1744 d.g. *gwybed*¹; gwenynen yw'r ystyr yma.
- 54 **y glyn** Cyfeiriad tebygol at Lyn-nedd, lleoliad Aberpergwm, cartref Siôn ap Rhys.
- 55 **graen ei ar goch** Ar *graen* 'aruthr, ofnadwy, hyll, erchyll', &c., gw. GPC 1521 d.g. *graen*¹. Y mae'n siŵr fod ei goes yn goch am iddo fod yn dringo cymaint o goed yn chwilio am fydafau i'w dwyn.
- 57 **gwn** Cf. llsgr. C *gwnn*; ond dilyn llsgrau. AB¹ *gwn* a wneir yn Ieuan Gethin, &c.: Gw 28 *gŵn*. Rhaid gwrthod hynny gan ei fod yn rhoi'r bai trwm ac ysgafn yn y gynghanedd sain.
- 58 **rhogof** Gw. GPC 2999 lle y ceir *rhog* yn ffurf amr. ar yr ardd. *rhag*, gan nodi ei fod yn ffurf o dafodiaith de-ddwyrain Morgannwg; gw. C.B.H. Lewis, 'Tafodiaith Hen Blwyf Llangatwg (Castell Nedd)' (M.A. Cymru [Abertawe], 1932), 489. Dyma'r ffurf a geir hefyd gan y Nant, e.e. GyN 1.43, 2.96.
- 60 **Syr Wiliam** Un ai Syr Wiliam ap Tomas neu ei fab, Syr Wiliam Herbert; bu'r naill yn siryf ym Morgannwg yn 1440–5 a'r llall yn 1453, 1455 ac 1460. Gw. y nodyn cefndir uchod.
- 62 **holi** Fe'i deallir yma yn yr ystyr gyfreithiol 'erlyn, cyhuddo', &c., gw. GPC 1889 d.g. *holaf*¹ (b); cf. *iawn*, ll. 64n.
- hwilio** Gw. ll. 20n.
- 64 **myn** Deallir hwn yn ffurf 2 un.grch., a'r bardd yn cyfarch Syr Wiliam, y siryf. Ar ôl iddo archwilio'r achos a phrofi'r lladron a'u meist'r, Siôn ap Rhys, yn euog (llau. 59–62), y mae Ieuan Gethin am iddo sicrhau iawndal iddo yntau.
- iawn** Yn yr ystyr gyfreithiol o 'iawndal, ... ad-daliad i unioni cam', GPC 2003.
- gantyn**¹ Ffurf ddeheuol ar 3 ll. yr ardd. *gan*, gw. P.W. Thomas, 'Middle Welsh dialects: problems and perspectives', B xl (1993), 29–30; *id.*, '(-th-): tystiolaeth Beirdd y Tywysogion a'r Uchelwyr', *Dwned*, 15 (2009), 11–31.

3

Cywydd storïol llawn hiwmor yw hwn.¹ Ceir ynddo bedwar cymeriad: Ieuan, Gwenllïan, y llwynog a'r wŷydd. Y mae'r hanes wedi ei leoli yn *lluest* (ll. 3n) y bardd—tyddyn neu fwthyn wedi ei godi'n flêr ar graig ar lethr bron goediog (ll. 59). Yno y trigai Ieuan gyda'i deulu, ei ieir a'i wyddau gan

¹ Ceir testun o'r gerdd hon ac ychydig nodiadau yn Glam Bards 25–8, 336 ac fe'i golygwyd yn Ieuan Gethin, &c.: Gw cerdd 6.

edrych ymlaen at weld arglwydd o Wynedd yn dod yn fuan i hawlio'r fro (o bosibl Bro Morgannwg) ac i roi iddo lys cadarn o gerrig yn lle'r [b]wth *tinrhwth* diwerth (llau. 17–18). Yn y cyfamser, yr oedd Ieuan yn ddigon bodlon ei fyd: er nad oedd llawer o gyfoeth ganddo (ll. 20), yr oedd ganddo wŷydd dew yn barod at ddydd Nadolig ar gyfer ei deulu (llau. 19–24). Ond yna, ryw nos Iau, llwyddodd llwynog drewllyd i dorri i mewn i gwt y dofednod a dwyn yr wŷydd dew gan wylltio'r ieir, y gwyddau eraill a'r ci (llau. 29–38). Cododd Gwenllïan (merch Ieuan, o bosibl, gw. ll. 39n) ac erlid y llwynog gyda'i theilfforch yn ei llaw, ond oherwydd iddi godi mor sydyn bu'n rhaid iddi aros ychydig a chodi ei phais i biso (llau. 39–42), cyn ei ddilyn drachefn a cheisio'i fwrw â'i rhaw (llau. 43–50). Ond yr oedd yr hen llwynog yn gyfrwys, a chiliodd dan y ddaear gyda'r wŷydd. Byddai angen cŵn hela i gael y llwynog a'r wŷydd allan, ond yn anffodus ni feddai Ieuan ar rai (llau. 51–62). Diwedda drwy addo i'r llwynog (y [m]adyn, ll. 63) os bydd yr wŷydd yn llwyddo i ddychwelyd i'w chwt, yna y bydd ef, Ieuan, yn sicrhau ei fod yn unioni'r cam a wnaethpwyd â hi drwy weld y cŵn yn ei larpio.

Y mae'r gerdd hon a 'Cwyn am ddifa bydafau' (cerdd 2) ill dwy wedi eu lleoli ar dir a ffermiai Ieuan, o bosibl ym Mlaenau Morgannwg, yr ardal fynyddig yng ngogledd y sir (er na fanylir ar y lleoliad yn y gerdd hon, ac eithrio nodi bod y *tŷ fry 'n y fron*, ll. 59). Y mae'n ddigon posibl, fel yr awgrymwyd uchod,² i'r gerdd am y bydafau gael ei pherfformio yng nghartref Rhys ap Siancyn yn Aberpergwm; tybed ai yno hefyd y canwyd y gerdd hon, neu o bosibl yn llys Ieuan ei hun ym Maglan (yn enwedig gan fod ei deulu, hwythau, yn gymeriadau yn y stori)? Cerddi i ddiddanu ydynt, a dichon y byddai'r datgeiniad (o bosibl Ieuan ei hun) yn sicrhau bod y perfformiad yn un dramatig a hwyliog. Arbennig o ddigrif yw'r disgrifiad o Wenllïan yn codi'n sydyn i erlid y llwynog (llau. 39–50).

Yr ydym yn ddibynnol am y testun ar chwe chopi Llywelyn Siôn, llawysgrifau B–EHJ; ambell linell neu ran o linell yn unig a geir gan Siôn Dafydd Rhys yn llawysgrif I. Nid oedd Llywelyn Siôn yn gopiyydd gofalus iawn, ac efallai fod a wnelo hynny â'r ffaith fod rhannau o'r cywydd hwn braidd yn anodd i'w deall.

Mesur a chynghanedd

Cywydd, 68 llinell.

Cynghanedd: croes 37% (25 ll.), traws 32% (22 ll.), sain 24% (16 ll.), llusg 7% (5 ll.). Ceir cynghanedd sain gadwynog yn llinell 9 a chynghanedd sain ac iddi bedair odl yn llinell 27 (gw. y nodyn arni) a thair odl yn llinell 63.

- 1 **bardd cethin** Cf. 7.37 *Celc flin ar fardd cethin coeth*. Dichon fod Ieuan yn chwarae ar ei enw o gofio bod i *cethin* ystyron megis 'gwyllt, cas, milain' neu 'hyll, hagr, erchyll'. Cf. uchod td. 1.

² Gw. nodyn cefndir cerdd 2.

- 1–2 **Lle blin ... / Yr wyf, waeth no phef ryfel** Deallir *lle blin* yma'n adfl. Y *lle blin* yw'r *lluest* a ddisgrifir yn llau. 3–4. Dweud a wna'r bardd yma fod ei gartref dros dro yn waeth hyd yn oed na'r llefydd dros dro yr arosasai ynddynt ar ymgyrch filwrol. Y mae cystrawen y cwpled yn amwys, a gellid dileu'r coma yn ll. 2 ac aralleirio *Yr wyf waeth no phef ryfel* 'Yr wyf yn waeth [fy mynd] na phe bai'n rhyfel' (ond ni fyddai'r gynghanedd gystal o wneud hynny).
- 3 **lluest** Yr ystyr yma yw '[t]rigfan dros dro wedi ei chodi ar frys', GPC 2220, yn gyfeiriad at fwthyn neu gaban dros dro'r bardd (cf. ll. 17 [b]wth *tinrhwth*). Yr oedd ffrâm o goed gwern i'r lluest hon a tho gwellt (llau. 5–8).
- lluaig** Dilynir llsgr. I *lhyaig* a'i ddehongli'n gyfuniad o *llu* + *aig* (GPC² 164 d.g. *aig*¹), dau air cyfystyr yn golygu 'llu, mintai', &c. Am yr ystyr, cf. llau. 1–2n. Y mae'r llsgrau. eraill i gyd (sydd yn perthyn neu'n tarddu o llsgrau. Llywelyn Siôn) yn cynnig y ffurfiau anh. *llaaig* neu *llraig*. Rhaid gwrthod *llëyg*, darlenniad Ieuan Gethin, &c.: Gw 24, oherwydd y brifodl. Y mae Ieuan yn disgrifio'r llys mewn termau ffugfawreddog yn y llinellau canlynol (cf. ll. 6n ar *to Glemend*).
- 4 **Ar lun cranc ar foly craig** Ceir *n* heb ei hateb yn hanner cyntaf y ll., ac *f* heb ei hateb yn yr ail hanner.
- 5 **o gyryn a phend** Y mae'r darlenniad yn ansicr gan fod rhaid dibynnu ar dystiolaeth amrywiol y llsgrau. (y mwyafrif gan Lywelyn Siôn) sydd yn darllen *o gyryn a ffend*, *i gyryn ai phend*, *i gyryn a ffend* (gw. yr 'Amrywiadau'). Deallir y geiriau'n ddisgrifiad o do'r *lluest* (gw. y nodyn canlynol), cf. ll. 7 *o do gwellt*. Am *corn* 'corn mwg' neu 'simnai', gw. GPC 562 d.g. *corn* 3(b). Dichon mai benthycair yw *pend* o'r S. *pend* 'An arch, an archway; an arched or vaulted roof or canopy', OED Online s.v. *pend*, n.² Nis ceir yn GPC 2736.
- 5–6 **Gwern ei ffyrch ... / A glymwyd ...** Disgrifiad o fframwaith y *lluest*, ac yn benodol yr elfennau a glymwyd at ei gilydd i lunio'r to (ll. 6). Gan hynny, gellir deall *ffyrch* yn gyfeiriad at y nenffyrch (GPC 1303 d.g. *fforch* a 2570 d.g. *nenfforch*); y maent o bren gwernen, nid y pren mwyaf cadarn ar gyfer adeiladu.
- 6 **to Glemend** A chymryd mai *Clemend* (< *Clement*) yw ffurf gysefin yr e.prs., y mae'n bosibl fod y bardd yn ystyried *to* yma'n eb. (cf. GPC 3511 'eg.b.'), ond eg. ydyw yn ll. 24 *y to*, a hefyd 5.10, 22, 24, 30. (Ceir enghrau. gan Lewys Glyn Cothi o drin *to* yn eb., ond yn unig pan fo'n golygu 'cenhedlaeth', e.e. GLGC 10.3 *pob Cymro o'r do hyd Went*, gthg. *ib.* 43.33 *Tai swrn a'r to sy arnun*.) Ond erbyn diwedd cyfnod Cym.C., ceid y tr.ml. i e.p. yn dilyn eg. yn ogystal ag eb. mewn cyfuniadau genidol, gw. Treigladau 105–6.

Pwy oedd Clemend? Y mae'n enw anarferol, ond ceir abad enwog o'r enw Clement yng Nglyn-nedd ar ddechrau'r 13g. a ddisgrifiwyd gan Gerallt Gymro fel *venerabilis abbatis de Neth*, gw. *Giraldi Cambrensis Opera*, ed. J.F. Dimock (8 vols. London, 1868), VIII, 310. Y mae'n bosibl mai Cymro ydoedd, gw. M. Haycock, 'Dwsin o brydyddesau? Achos Gwladus "Hael" ac eraill', *Dwned*, 16 (2010), 110, lle y cyfeirir at ei frawd, Meurig, a oedd o bosibl yn fardd ac yn awdur cyfrol o epigramau Lladin a chyfrolau yn y Gymraeg. Os at y Clement hwn y cyfeiria Ieuan, y mae'n rhaid fod ei enwogrwydd fel pennaeth yr abat y wedi parhau yng nghof yr ardal hyd y 15g.

Y mae'n fwy tebygol, efallai, mai cyfeirio a wneir at basilica enwog San Clemente yn Rhufain: am hanes a lluniau o'r adeilad hwnnw, gw. <www.basilicasanclemente.com>, ac ymhellach E. Kane, 'Contribution to a history of the Basilica of Saint Clement in Rome', *An Irish Quarterly Review*, 73 (Summer 1984), 117–45. (Hoffwn ddiolch i Wyn Thomas, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, am yr awgrym hwn.) Byddai cymharu to'r lluest yn ffugfawreddog â tho'r basilica yn gweddu yma.

7 **odidog** Ffurf gysefin yn wreiddiol, ond tyfodd g- i roi *godidog* a cheid y ddwy ffurf yn y 15g., gw. GPC 1421.

8 **tyrn** Amr. ar *twrn* 'gorchest, camp', &c., gw. GPC 3662 d.g. *twrn* lle yr awgrymir mai sain y-dywyll sydd yn y gair. Diweddar ar y cyfan yw'r enghrau. o *tyrn* a roddir yno.

tai Edeirniawn Y mae'r amrywiadau a geir yn y llsgrau. yn awgrymu na fu i Lywelyn Siôn ddeall y cyfeiriad at y cwmwd hwn ym Meirionnydd (cf. darlenniadau amrywiol 1.17). Tybed a oedd tai Edeirnion yn enwog yn y cyfnod hwn am eu toeon gwellt? Ar arferion toi yng Nghymru, gw. yn arbennig, I.C. Peate, *The Welsh House: a Study in Folk Culture* (Liverpool, 1944), 175–82; E. Wiliam, *Y Bwthyn Cymreig: Arferion Adeiladu Tlodion y Gymru Wledig, 1750–1900* (Aberystwyth, 2010), 145–204. Gw. hefyd ll. 10n.

10 **cun o dai Gwynedd** Cyfeirir at y mab darogan fel 'y gŵr o Wynedd' yn aml yn y canu brud, heb gyfeirio o reidrwydd at neb yn benodol, gan mai o linach tywysogion Gwynedd yr hanai'r rhan fwyaf o'r meibion darogan. Gwyddom fod Ieuan Gethin wedi cymryd rhan yng ngwrthryfel Owain Glyndŵr ym Morgannwg (gw. uchod tt. 6–7), felly y mae'n bosibl mai gobeithio gweld dychwelyd yr Owain hwnnw a wna (ac yr oedd yntau, wrth gwrs, yn gysylltiedig ag Edeirnion, cf. ll. 8n). Posibilrwydd arall yw ei fod yn meddwl am Owain Tudur, o gofio iddo ganu dwy gerdd lle y cyfeirir ato fel mab darogan (cerddi 1 a 10).

11 **Nid rhaid deigr; on'd tra digrif?** Petrus iawn yw'r dehongliad o'r ll. hon, sydd yn taro braidd yn chwithig. Ai'r ystyr yw pan ddaw'r arglwydd o Wynedd, yna bydd pawb yn hapus ac ofer fydd dagrau?

- 12 **a'r tân o'i flaen** Hynny yw, a'i lwybr yn un dinistriol. Yr oedd llwybr o dân yn aml yn arwydd o ddyfodiad y mab darogan yn y canu brud.
- ton ei flif** Ar *blif* 'catapwlt' neu beiriant hyrddio cerrig, gw. GPC² 667, lle y'i rhestrir yn eg. yn unig. Gan nad hawdd gweld arwyddocâd *ton* fel e. yma (gw. GPC 3519–20 d.g. *ton*^{1,2}), mentrir mai eb. oedd *blif* i Ieuan Gethin, a bod *ton* (ffurf f. yr a. *twm* 'toredig') yn ei oleddfu. (Cyfeiria'r rh. *ei* yma at y mab darogan.) Yr oedd disgrifio arwr yn cario arfau toredig yn dpos yn yr hen farddoniaeth fawl, yn cyfleu dewrder eithaf yr arwr (gan ddangos ei fod yn ymladd yn galed ac yn ddi-ofn er ei fod dan anfantais).
- 14 **eryr** Term cyffredin yn y farddoniaeth fawl am arweinydd; neu gall gyfeirio at lun eryr ar y faner yma.
- pael euraid** Llsgrau. *B-EHJ paulav auraid / paelau euraid* (i gyd yn llaw Llywelyn Siôn). Gan fod y ll. yn hir o sillaf, tybir bod Llywelyn Siôn, neu gopïydd ei gynsail, wedi ysgrifennu *au* ddwywaith. Ni restrir *pael* yn GPC 2667, ond os sôn am faner ac arfbais y mab darogan a wneir yn y llau. hyn, byddai benthyciad o'r term herodrol S. *pale* yn bosibl: '*An ordinary consisting of a broad vertical band in the middle of a shield, extending from top to bottom and usually occupying one third of its breadth. Formerly also in pl.: †a number of vertical stripes on a shield (obs.)*', gw. OED Online *s.v. pale, n.*¹ II 6.b a cf. GPC 2670–1 d.g. *pâl*².
- Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf.
- 15 **teitl** Ai teitl y tywysog neu'r arweinydd (ll. 10 *cun*) a'r hawl a oedd iddo yn sgil y teitl hwnnw? Cf. ystyr y S. *entitlement* a gw. GPC 3470 ac OED Online *s.v. title, n.* Byrdwn y llau. hyn yw os adferir y mab darogan i'w deitl, yna bydd yn ailfeddiannu'r fro ac yn rhoi llys cadarn o gerrig i Ieuan fyw ynddo, yn lle ei *fwth tinrhwth* (ll. 17).
- 16 **[y] fro** Ai cyfeiriad penodol at y Fro, sef Bro Morgannwg, gw. GPC 330?
- 17 **a'm rhei** 'A rhei i mi', gyda'r rh.m. 'm yn wrth. anuniongyrchol y f.
- tinrhwth** GPC 3502 'a chando ben-ôl agored neu chwyddedig, hefyd yn *dros*'. Disgrifir lluest y bardd sydd yn agored, ar un pen, i'r elfennau; cf. DG.net 151.1 *Tydi, y bwth tinrhwth twm*.
- 23 **erfynnaid** Sylwer mai *erfyniaid* yn unig a restrir yn GPC 1232. Hon hefyd yw'r engh. gynharaf o'r f. yn yr ystyr 'disgwyl', sef ei hystyr ym Morgannwg (cf. *ib.*, lle y dyfynnir diffiniad y geiriadurwr Thomas Roberts, 1753, '*erfyn ... also, to expect, in Glamorganshire*'). *Meddylaid* a geir yn llsgrau. CD.
- 24 **o deulu** Diwygiad: efallai fod y ffurf [*t*]wli a geir ym mwyafrif y llsgrau. yn nes at ynganiad Morgannwg o *teulu*. *Teulu* yw goddr. y be. *erfynnaid* yn y ll. flaenorol, wedi ei fynegi o dan reolaeth yr ardd. *o* (cf. ll. 37).

- 25 **bywyd wŷd wedd** Disgrifiad o'r llwynog a ymosododd ar wŷdd y bardd. O ran y treigladau, cyfuniad cymhleth ar lun 'hydref ddail' sydd yma, a rhaid cymryd mai *gwedd* yw'r brif elfen: aralleirir yn llythrennol 'dull (*gwedd*) drygioni (*gwŷd*) bywyd'. Ar y math hwn o gystrawen, a geir yn achlysurol gan Ieuan Gethin, gw. tt. 22–3.
- 27 **bysai** Ffurf dafodieithol ar *buasai*, cf. 10.16n *fasai*. Tybed a fyddai diwygio *bysai* > *ysai* yn rhoi gwell ystyr i'r cwpled hwn? *Nid ysai lai ... / ... no hwch chweblwydd*, hynny yw, disgrifiad o drachwant eithafol y llwynog na fyddai'n *ysu* (traflycu neu ddifetha) lai na hwch chwe mlwydd oed.
- Y mae'r ll. hon sillaf yn hir, ac nid yw'n amlwg sut y gellid ei chywasgu'n seithsill. Y mae'r ffaith fod ynddi bedair odl yn anarferol.
- 28 **'n ei chwblwysg** Llsgrau. *ny chwblwsg*; derbynnir awgrym Ieuan Gethin, &c.: Gw 24 ynglŷn â'r diwygiad. Ar *wysg* 'llwybr, hynt, cwrs, cyfeiriad', gw. GPC 3745–6; fe'i ceir yn gyffredin am gyrch rhyfel yn yr hen farddoniaeth, a gall y bardd fod wedi ei ddewis er mwyn creu effaith ffugarwrol yma.
- 29 **medr** Ar *medr* 'rheolaeth, awdurdod', gw. GPC 2392 d.g. *medr*^l (sylwer mai diweddar yw'r ystyr 'medrusrwydd, gallu', &c.). Disgrifir yma'r llwynog fel un a chanddo awdurdod llwyr *yn ael rhiw* (hynny yw, nid oes gobaith i'w ddal).
- 31 **cwbl lledrad** Y mae'r diffyg tr.ml. (a brofir gan y gynghanedd) yn erbyn deall *cwbl* yn a. yn goleddfu *lledrad*, felly fe'i deallir yn e. a *lledrad* yn a.: 'popeth sydd wedi ei ladrata', gw. GPC 2078. Er hynny, gan fod *caib* yn eb.g. (gw. GPC 389), y mae'n bosibl y dylid darllen *Caib hwydrew cwbl ledrad*, yn groes i dystiolaeth y llsgrau.
- 32 **gwiwfw** A. cyfansawdd, gyda'r elfen *gwiw* yn gweithredu fel elf. gryfhaol. Ar *mws* 'drewllyd', &c., gw. GPC 2512 d.g. *mws*^l. Disgrifio'r *madyn* a wneir; cf. DG.net 68.46 *ci mws*.
- 32–4 **a gafas brad ... / ... / Ar guddygl ieir** Deallir *cael brad* yma i olygu 'llwyddo i fynd i mewn i', hynny yw, bu i'r llwynog ganfod gwendid yn y cwt ieir a llwyddo felly i fynd i mewn iddo. Cf. ll. 45 lle y cyfeirir at y llwynog fel *bradwr*.
- 33 **sir** Gw. GPC 3291 d.g. *sir*² 'sirioldeb, llawenydd, ... arlwy, gwledd'.
- 37 **o'r rheini** Diwygiad petrus iawn. Darlleniad llsgrau. Llywelyn Siôn yw *o vaini* (llsgr. E *or vaini*; nis ceir yn llsgr. I), ond ni rydd y ffurf dreigledig *feini* (ll. *maen*?) lawer o synnwyr yma. Dichon y cyfeirir at yr *ieir a gwyddau* (ll. 34). Y mae angen y terfyniad *-i* yma ar gyfer yr odl; gthg. *rheiny* yn 10.51, lle y mae'n odli yn y gynghanedd sain â *felly*.
- 38 **cad** Ffurf gywasgedig amhrs.grff.myn. y f. *cael*; cf. *cas* 'cafodd', 6.22n.

- 39 **Gwenllïan** Y casgliad naturiol fyddai cymryd mai gwraig Ieuan Gethin yw hon, ond ceir tystiolaeth ddigamsyniol mai Elsbeth oedd enw ei wraig (gw. td. 2), oni bai, wrth gwrs, iddo gael mwy nag un wraig yn ystod ei oes. Fodd bynnag, gwelir yn yr achau fod merch o'r enw Gwenllïan ganddo, felly gall mai ati hi y cyfeiria (gw. tt. 2–3).
- 40 **parch** Ffurf 3 un.pres.myn. *parchu* (er mai *peirch* yw'r ffurf safonol) yn yr ystyr hŷn 'arbed' yma, a chymryd nad oedd Gwenllïan yn un i adael i *ler* dyfu.
- Iler** GPC 2155 d.g. *Iler*¹ 'efrau, graban, bulwg, hefyd yn ffig.; heiddyd, pawrwellt'; ai 'chwyn' yw'r ystyr yma? Neu a yw'r bardd yn ei ddefnyddio fel trosiad i ddiifrïo'r llwynog?
- 41 **calyn** Ffurf amr. ar *canlyn*, gw. GPC 411 d.g. *canlynaf*.
- 42 **Ei phais ... ei phisaw** Ceir yr un cyd-drawiad yn *Rhy hwyr codi pais wedi piso*, ond ni wyddys pa mor hen yw'r dywediad hwnnw.
- 43 **Profi ... rhedeg** Rhedeg yn syml efallai (hynny yw, yn cael y profiad o redeg) yn hytrach na'i bod yn 'rhoi prawf ar' neu'n 'ceisio' rhedeg.
- 46 **ar dâl gŵr** Llsgrau. *ar dâl y gŵr*, sydd yn peri bod y ll. yn rhy hir o sillaf (neu gellid darllen *Dial gŵydd ...*). Y llwynog yw'r *gŵr*, cf. disgrifiad Dafydd ap Gwilym o'r llwynog, DG.net 60.25 *Gŵr yw ef a garai iâr*. Fe'i gelwir yn *Madog* yn ll. 50.
- 47 **cerddodd** Sylwer ar y ffurf *cerddoedd* a geir yn llsgrau. CDHJ (cf. 8.31n), lle y mae'r terfyniad *-oedd* yn amr. ar y terfyniad 3 un.grff.myn. *-odd /-awdd*. Gwelir y terfyniad hwn yn aml yn llsgrau. Morgannwg (yn enwedig rhai Llywelyn Siôn): gw. GLMorg 10.42n (lle y dyfynnir enghrau. hefyd o destunau rhyddiaith o'r ardal) a cf. TLIM 218n231, 'Cawn lu o enghreifftiau o droi'r terfyniad *-odd* yn *-oedd* yng ngweithiau beirdd Morgannwg yn hanner olaf yr unfed ganrif ar bymtheg, arwydd arall o'r modd yr oedd yr hen safonau'n dirywio.' Gan fod tuedd yn nhafodiaith yr ardal i symleiddio *oe > o* (cf. *oedd > ôdd*), y mae'n debygol mai gorgywiriad oedd yn gyfrifol am droi'r terfyniad *-odd* yn *-oedd*, o bosibl dan ddylanwad ffurfiau cwbl safonol megis *hanoedd* a *gwnaethoedd*. (Diolch i Dr Simon Rodway am drafod y terfyniad hwn gyda mi.)
- maerwraig** 'Gwraig ffermwr, ... gwraig sydd â gofal fferm; llaethwraig', GPC 2312. Disgrifir Gwenllïan (ll. 39n).
- 50 **Madog** Fe'i deallir yn e.prs. am y llwynog, cf. *madyn* llau. 30, 63 (neu o bosibl *Madyn*, fel y *Madyn* a ddychanodd Rhys Goch Eryri yn GRhGE cerdd 16); cf. hefyd GPC 2301 d.g. *madog*¹.
- crogwr** Cf. GPC 610 d.g. *crogwr* (2) 'Un a ddedfrydir i'r crocbren, un yn haeddu ei grogi, ... troseddwr cyson'.

- 52 **allt** Gallai olygu'n benodol 'coedwig, llechwedd coediog', gw. GPC² 186 d.g. *allt*. (Yr oedd *allt* a *gallt* yn ffurfiau cysefin posibl yn y cyfnod hwn, gw. GyN 5.76n.)
- 55 **aethof** Ffurf dafodieithol (*euthum* mewn Cym. safonol) a brofir gan yr odl fewnol ag *angof*. Y mae'n ffurf sydd yn parhau i fod yn nodwedd ar iaith Morgannwg.
- fy angof fu** Yn betrus cymerir mai'r bardd yw gwrthrych anghofrwydd y llwynog yma: 'anghofiodd amdanaf'.
- 58 **gwern** Y mae'n debyg mai 'cors' yw'r ystyr yma, ond o gofio mai fframwaith o bren gwern oedd i luest Ieuan (gw. ll. 5), y mae'n bosibl mai at y llust honno y cyfeirir yma; gw. GPC 1644–5.
- 60 **Dlysdod o gŵn clustlaeson** Ai cyfeirio a wneir at gŵn hela fel tlysau (GPC 3510 d.g. *thws* 'addurn, ... rhyfeddod', &c.); neu a yw Ieuan yn dweud nad oes *tlysdod* (fel cynn ceirw, &c.) yn addurno ei dŷ yn sgil gwaith cŵn hela? Hynny yw, am nad oes cŵn ganddo.
- 61 **ni haeddodd digasedd** Dilynir y llsgrau. drwy beidio â threiglo'r gwrth. yma, er mai treiglo fyddai'r arfer ar lafar erbyn y cyfnod hwn, yn ôl pob tebyg; cf. Treigladau 218, 'Os oedd y treiglad ar lafar, yr oedd hawl gan fardd i'w arfer pan oedd yn ateb ei ddiben i dreiglo, a chadw'r gysefin ar sail hen arfer os oedd hynny'n taro'n well.' (Ni fyddai'r tr. yn mennu dim ar y gynghanedd yma.)
- 62 **mewn lliw na gwedd** Ceir *lliw a gwedd* yn amr. ar *pryd a gwedd*, cf. DN XIV.58; 'mewn unrhyw fodd' yw'r ergyd yma (yn cyfeirio at *ni haeddodd digasedd* y ll. flaenorol). Ar y ffurf *mewn*, gw. 1.29n.
- 66 **traetis** Llsgrau. BCDHJ *draetys*; cymerir mai ffurf amr. ar *tretis* yw, o'r *S. treatise*, GPC 3588 (er na nodir yr amr. hwn yno).
- brodwydd** Cyfuniad o *brod* (ffurf f. *brwd*, GPC 334) + *gŵydd*; gwell hynny na'i ddehongli yn gyfuniad o *brawd* ('*câr*, ... *cyfaill*, GPC 311 d.g. *brawd*¹ 1(b)) + *gŵydd*
- 67 **maddau cam** Hynny yw, 'gollwng, ymadael â, bwrw ymaith' (GPC 2303) y cam a ddiodefasai'r ŵydd.

4

Gallwn fentro bod hon yn gerdd arall a ysbrydolwyd gan ryw brofiad a ddaeth i ran y bardd.¹ Y mae'n gefn trymedd nos yn y gaeaf (llau. 7–8), ac y mae Ieuan yn ofnus yn y tywyllwch maith ar bwys ei wely (llau. 5–6), yn ysu am weld y bore'n cyrraedd. Y mae'n cyfarch y ceiliog gan ei annog i

¹ Ceir testun o'r gerdd yn Glam Bards 23–4 (ll. 31 ymlaen) a cheir golygiad yn Ieuan Gethin, &c.: Gw cerdd 5.

ganu'n fuan o'i gronglwyd, nid yn unig i helpu'r gwŷr eglwysig i godi at y gwasanaeth boreol (llau. 13–14), ond er mwyn byrhau'r nos iddo yntau (e.e. llau. 22, 38). Os gwnaiff y ceiliog hynny, bydd Ieuan yn ei wobrwyo â gwenith (ll. 34) ac yn rhoi haidd i'w gywion a'i gymar (llau. 35–6). Y mae'r ergyd yn nau gwpled olaf y gerdd yn ansicr iawn, a chan fod y cywydd braidd yn fyr o'i gymharu â gweddill cywyddau Ieuan Gethin, y mae'n ddigon posibl fod llinellau wedi eu colli, a hynny, o bosibl, cyn llinell 39. Yn betrus iawn, rhoddaf y ddau gwpled yn llais y ceiliog ei hun: y mae'n gwylio dros ei *wraig* (ll. 36) yng ngolau'r tân (ll. 40 *tân i'w gwyliad hi*), ond y mae'r sefyllfa'n gywilyddus (ll. 41 *annod yw*) gan fod *undyn*, sef Ieuan Gethin, yn ei wyllo. Tybed a geir rhyw awgrym yn y gair *browys* (ll. 37, gair a ddefnyddir yn aml yn yr ystyr 'nwyfus, trythyll' mewn cyd-destun rhywiol) fod Ieuan yn gwylio dros anturiaethau carwriaethol y ceiliog a'i *wraig*? A yw'r ceiliog felly'n hwyrfrydig i ganu gan ei fod am estyn y nos a'i phleserau? A yw Ieuan Gethin, ar y llaw arall, ac yntau'n unig heb gymar wrth ei ochr, am weld y nos a'i unigrwydd yn dod i ben cyn gynted â phosibl? Byddai hyn yn ddigrif, wrth gwrs, ac yn groes i ddymuniad arferol y beirdd serch, sef eu bod am i'r nos barhau am byth ac i'r wawr beidio â thorri.² Gellir hefyd ddehongli *hyn a glyw gwlad* (ll. 41) fel bygythiad gan y ceiliog ei fod yn mynd i ddweud wrth bawb am ymddygiad cywilyddus Ieuan wrth iddo ganu ei gân. Eto i gyd, erys y cyfeiriad at *amod* yn llinell 39 braidd yn dywyll.

Mewn un llawysgrif yn unig o Ddyffryn Conwy y diogelwyd y gerdd hon, sef LIGC 3049D, yn llaw Ifan Siôn a'i cofnododd hi yno yn yr ail ganrif ar bymtheg, ar ôl 1636 (gw. isod td. 183). Ond nid oes unrhyw reswm dros amau'r priodoliad: y mae'r gerdd, o ran ei hieithwedd, ei harddull a'i phwnc, yn ddigon tebyg i'r cerddi achlysurol eraill a ganodd Ieuan Gethin.

Mesur a chynghanedd

Cywydd, 42 llinell.

Cynghanedd: croes 56% (23 ll.), traws 16% (7 ll.), sain 23% (10 ll.), llusg 5% (2 l.).

- 4 **adlo** Dilynir GPC² 53 a'i ddeall yn e. 'cyfrif, achos' (yn 'wrthrych' *Gwae finnau*, ll. 3).
- 6 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf, onid yngenir *ofn* yn ddeusill (*ofon*), fel y tueddir i wneud mewn tafodieithoedd deheuol heddiw, neu ddarllen *ar fin y gwâl*.
- 8 **Aros gaeafnos gefnir** Fe'i cysylltir â ll. 5 *Llymrig wyf*, gan ddeall *aros* yn yr ystyr 'goddef, dioddef' yma (GPC² 461). Gresyna'r bardd fod *cefn* y nos (sef y cyfod tywyll) mor hir ac yntau'n ofnus ac yn methu cysgu. Ar ddefnydd *cefn* yng nghyswllt dydd neu nos, gw. GPC 447.

² Cf. DG.net cerdd 69 'Y wawr', yn enwedig llau. 11–14.

- 10 **hwech** Llsgr. *chwech*. Y mae angen y ffurf *hwech* ar gyfer y gynghanedd (er y gellid dadlau bod yma ddwy gytsain yn ateb un, *ch = ch...ch*). Dichon i'r copïydd gogleddol, Ifan Siôn a weithiai yn ardal Llanrwst, safoni'r ffurf. Gw. ymhellach 2.20n ar *hwilio*.
- 11 **cywilydd** Llsgr. *kwilydd*, sydd yn peri bod y ll. yn rhy fyr; cf. y ffurf *gwilydd* yn narlleniadau amrywiol 1.27, lle y mae angen teirsill eto. Profir y terfyniad *-ydd* yma gan y brifodl â *dydd*; ond yn 1.27 y mae angen *-idd* er mwyn yr odl lusg ag *iddaw*. Gellir dehongli *rhag cywilydd* i olygu 'for shame!', gw. GPC 833 d.g. *cywilydd*, ac y mae'n bosibl fod gan Ieuan Gethin weithred y ceiliog yn bradychu Crist yn ei feddwl yma hefyd. Yn betrus, fodd bynnag, cymerir mai 'er mwyn osgoi cywilydd' yw'r ystyr, a bod caniad y ceiliog yn sicrhau bod y gwŷr eglwysig yn codi mewn pryd ar gyfer y gwasanaeth boreol.
- 12 y **cen** Llsgr. *o keni*. Diwygir er mwyn yr ystyr, a hefyd arfer Ieuan Gethin yw treiglo'n llaes ar ôl *o*, cf. 1.42 *O chyfarfu*, 2.23 *O chlyw'r pryf* (er nad yw'r treiglad hwn yn un rheolaidd erbyn y 15g. yn ôl Treigladau 374 a cf. GLMorg 14.55 *Mwy boen o cerddant mwy, bencerddiaid*).
- 13 **cloch fyfyr** Y mae'r tr.ml. i'r e. *myfyr* yma'n awgrymu ei fod yn goleddfu *cloch*, a mentrir cymryd mai cloch i atgoffa (megis cloc larwm) oedd y ceiliog i'r eglwyswyr.
- 14 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf, ond gellid cywasgu *felly* y neu *dywedan'* yn ddeusill.
- 15 **cân** Gall fod yn e., ond fe'i deallir yn 2 un.grch., fel ll. 17 *Cyfod*, ll. 18 *Cân*, ll. 21 *Drycha*, ll. 22 *Dod*.
- 16 **glywa'-i** Llsgr. *glywai*. Ni roddai'r ffurf 3 un.amhff. gystal synnwyr â dehongli'r ffurf yn gywasgiad o *glywa' i* (< *glywaf i*), a'r ddeusain derfynol yn cynnal y brifodl. Gresynu a wna'r bardd nad yw'n clywed cân y ceiliog a fyddai'n arwydd fod y nos faith wedi dod i ben.
- 17 **cromglwyd** Y ffurf a droes gydag amser yn *cronglwyd* (< *crom + chwyd*) 'clwyd neu ffrâm to', &c., gw. GPC 610.
- 18 **clwm** Llsgr. *gwhwm*; cymerir mai sain ymwithiol yw'r w gyntaf, gan fod y gynghanedd a'r mesur yn gofyn am air unsill ac *gl* o flaen yr acen. Am yr ystyr, gw. GPC 640 d.g. *cwlwm*¹, *clwm* (3) 'can, alaw, cainc, tôn'.

Cynog Cynog, sant a gysylltir yn arbennig â Merthyr Cynog ym Mrycheiniog, gw. LBS iii, 264; TWS 178; GDEp 88–91. Pam yr apelir ato yma? A oedd y gerdd wedi ei lleoli yn agos i un o eglwysi Cynog? Ceid Ffynnon Gynog yn Ystradgynlais (gw. ArchifMR d.g.), rhyw bum milltir i'r gogledd-orllewin o Lyn-nedd, ac er mai diweddar yw'r eglwys bresennol, yr oedd eglwys gynharach yno wedi ei chysegru i Gynog. Ar ddechrau'r 18g. cofnodwyd hefyd le o'r enw Gwaun Gynog ger Llangynwyd, rhyw bum milltir i'r de-ddwyrain o Faglan (gw. *ib.* d.g.).

- 20 **Plygeinwr â'r plu gwynnon** Tybed a yw Ieuan Gethin yn meddwl am un o'r mynachod gwyn, y Sistersiaid? Nid oes modd gwybod ym mha le y canwyd y cywydd hwn, ond yr oedd abaty Nedd ychydig filltiroedd i'r gogledd o gartref Ieuan Gethin ym Maglan. Dyma'r ffurf a geir yn y llsgr. yma; gthg. 2.19 *pylgeinwr*.
- 21 **drycha** Amr. ar *dyrcha*, 2 un.grch. y f. *dyrcha(f) / dyrchafu*, gw. GPC 1144.
- 27 **cythlwn** Amr. ar *cythlwng*, a brofir gan y brifodl, er mai 1688 yw dyddiad cynharaf y ffurf amr. hon yn ôl GPC 826.
- 28 **dwn** 'Gwineuddu, cochddu, dulwyd, ... tywyll', GPC 1105.
- 29 **hely** Y mae'r ll. yn fyr o sillaf oni chyfrifir y gair hwn yn ddeusill.
- 30 **nesaa** Llsgr. *nesa*. Fe'i dehonglir yn ffurf deirsill (2 un.grch.) er mwyn hyd y ll.
- 31 **cawn ninnau** Llsgr. *kawn inav*; yr un yw'r sain, ond camrannwyd y geiriau. Cf. yr ardd. 1 ll. *rhyngom*, ll. 17. Y mae'r f. bres. yn fwy ystyrion yma na'r 1 un.amhff.
- 32 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf, oni chyfrifir *cadw* yn ddeusill (fel y mae, e.e., gan Siôn Ceri yn GSC 24.33, 25.22), ond efallai y dylid estyn *d'oriau* > *dy oriau*, fel y gwnaethpwyd yn Ieuan Gethin, &c.: Gw 5.32.
- oriau** Ll. *awr*, yn yr ystyr 'amser penodol' yma, gw. GPC² 545. O'r ystyr hon y datblygodd yr ystyr 'amser penodol i weddio, gweddi ar amser penodol', a chan fod y bardd yn cyfeirio at grefyddwyr yn codi'n gynnar yn y gerdd, y mae'n ddigon posibl ei fod yn chwarae ar y ddwy ystyr hyn; cf. y defnydd o *llith* am gân y ceiliog yn y ll. nesaf a disgrifiad Dafydd ap Gwilym o ganu'r ceiliog bronfraith fel *llithion llathr*, DG.net 39.6; disgrifiodd Dafydd hefyd gân yr ehedydd fel *oriau hydr*, *ib.* 44.1.
- 33 **tân lendyd lith** Yn llythrennol, lith sydd o lendid tân. Am y gystrawen (sydd yn estyniad ar gystrawen 'hydref ddail'), gw. tt. 22–3.
- 36 **o ffaig** Ffurf 3 un.pres.myn. *ffeigio*, bf. o'r e. *ffaig* sy'n fenthyciad o'r Llad. *facies* 'wyneb', GPC 1280. Rhydd GPC yr ystyron canlynol i'r f., 'cuddio'n llwyr, gorchuddio; arddangos, ymestyn' a dichon mai cyfeirio ar yr îar yn ymestyn am y bwyd a wneir.
- 38 **borëwr nef** A oes yma adlais o ddisgrifiad Dafydd ap Gwilym o'r ehedydd fel *borëwr byd*, DG.net 44.3 (cf. ll. 32n *oriau*)?
- 39–42 Ar fy nehongliad petrus o'r ddau gwpled clo hyn, gw. y nodyn cefndir uchod. Y mae'n ddigon posibl fod llau. ar goll yma.
- 39 **bei rhôn** Llsgr. *bai ran*. Ar ffurfiau amr. ac ystyr yr hen ffurf *perhôn* (9.49), gw. GPC 2784–5 l a GMW 243.
- 40 **gwyliad hi** Ar *gwyliad*, amr. ar y be. *gwylio*, gw. GPC 1762–3; cf. ll. 42. Y mae'n bosibl mai'r nos y cyfeirir ati yn ll. 38 yw'r *hi* yma, ond

fe'i dehonglaf yn gyfeiriad at gymar y ceiliog. Y mae'n bosibl hefyd mai cyfeirio at ryw ferch anhysbys a wneir.

- 41 **annod** 'Cywilydd', gw. GPC² 341 d.g. *annod*¹ lle y gwelir bod yr ystyr 'gohiriad, oediad' yn bosibl hefyd, yn enwedig gan mai oedi â'i gân a wna'r ceiliog yn y gerdd hon.

hyn a glyw gwlad Hynny yw, 'bydd pawb yn clywed hyn' (sef cân y ceiliog); a dichon mai cyfeirio at wlad Morgannwg a wna *gwlad* yma.

- 42 **undyn** Ceir *dyn* am ferch neu ddyn gan Ieuan Gethin (gw. y mynegai isod d.g. *dyn*); yma fe'i deallir yn gyfeiriad at Ieuan ei hun. Gw. y nodyn cefndir uchod am y dehongliad o linellau olaf y cywydd.

5

Parodi ar y cywydd marwnad yw'r gerdd hon¹ a pherthyn i ddosbarth o ffugfarwnadau a ganai'r beirdd, yn aml iawn i'w gilydd, er difyrwch mewn gŵyl. Ar ôl mynegi tristwch eithafol y beirdd yn sgil cipio Ieuan gan Dduw yn y ddau gwpled cyntaf, cyfeirir at ddiffygion llinach Ieuan ac at ei henaint (llau. 5–6) gan osod y cywair difriol-chwareus a gynhelir am weddill y gerdd. Disgrifir gyda chryn hiwmor yr amgylchiadau a arweiniodd at farwolaeth honedig Ieuan, gan fanylu ar ei grefft fel töwr.² Diweddir â thopos arall a welir yn y canu marwnad, sef awgrymu bod Ieuan wedi mynd â'i grefft gydag ef i'r nefoedd, lle y mae bellach yn toi tai Duw.³

Y mae'r gerdd yn gwbl nodweddiadol o ffugfarwnadau'r beirdd i'w gilydd,⁴ ac y mae'n ddigon posibl fod Rhys Jones yn llygad ei le pan awgrymodd mai tad y bardd Gwilym ab Ieuan Hen yw'r gwrthrych.⁵ Enwir ei fab, Gwilym, ddwywaith (llau. 31, 43) a chysylltir Ieuan ei hun â Chaereinion (ll. 8 *Croeny*n *hen Caereinion hwnt*), sef yr ardal y cysylltir Gwilym ab Ieuan Hen â hi yn ôl tystiolaeth ei gerddi.⁶ Yr oedd E. Rowlands yn fawr

¹ Ceir testun o'r gerdd hon yn Glam Bards 40 ac fe'i golygwyd yn Ieuan Gethin, &c.: Gw cerdd 10. Trafodir dilysrwydd y gerdd yn y rhagymadrodd, td. 23.

² Gw. y nodiadau geiriol isod, ac ymhellach ymdriniaeth hynod gynhwysfawr E. Wiliam, *Y Bwthyn Cymreig: Arferion Adeiladu Tlodion y Gymru Wledig, 1750–1900* (Aberystwyth, 2010), 145–204.

³ Cf. diwedd glo marwnad Guto'r Glyn i Robert Trefor o Fryncunallt, gŵr a fu'n *rysyfwr* (S. 'receiver') a swyddog i'r *dug o Iorc* yn ystod ei yrfa ar y ddaear, ond sydd bellach yn risyfwr a swyddog i Iesu, GG.net cerdd 105.

⁴ Gw. H.M. Edwards, 'Murnio marwnadau: golwg ar y ffug-farwnad yng nghyfnod y cywydd', *Dwned*, 5 (1999), 47–70.

⁵ Rh. Jones, *Gorchestion Beirdd Cymru* (Amwythig, 1773), 126 (y testun yn dilyn llsgr. F gan ddechrau â ll. 43). Honnodd Iolo Morganwg fod traddodiad i Ieuan Gethin fod yn athro barddol i Wilym ab Ieuan Hen, gw. Glam Bards vii.

⁶ Gw. GDID xxii lle y cysylltir ef â Chyfeiliog, Caereinion a Mochmant, gan ychwanegu, 'Gallwn dybied iddo dreulio rhan helaeth o'i fywyd yn Heiliarth [yng Nghaereinion], yn fardd i deulu'r Neuadd Wen'; a cf. *ib.* XXIII.85–6 [*Gwr*]on o *Gaereinion rym*, / [*Da*] ac *elw ydyw Gwilym*.

ei ganmoliaeth i Wilym fel bardd, ac fe'i disgrifiodd fel 'un o feirdd gorau'r bymthegfed ganrif' gan awgrymu na chadwyd llawer o'i gerddi gan mai cymharol brin yw'r llawysgrifau a oroesodd o ganolbarth Cymru.⁷ Efallai fod y tad, Ieuan Hen, yntau'n fardd (cf. ll. 19 *Gwae'r gerdd am y gŵr geirddoeth*), a bod y gerdd hon wedi ei chanu ar aelwyd un o'u noddwyr yn yr ardal honno (yn Heiliarth?⁸), a'r ddau ohonynt yn bresennol.

Cerdd o ddiddanwch o flaen cynulleidfa fyddai hon, felly, a'r hiwmor yn tarddu nid yn unig o'i disgrifiadau doniol o'r amgylchiadau a arweiniodd at y farwolaeth, ond hefyd o'r modd y mae'r bardd yn chwarae â disgwyl-iaidau'r gynulleidfa wrth dynnu ar rai o themâu ac ystrydebau stoc y canu marwnad.⁹ Nid oes rhaid cymryd mai töwr oedd Ieuan Hen mewn gwirionedd—er bod hynny'n ddigon posibl—a gall mai rhyw ddamwain a ysbardunodd y gerdd. Byddai'r manylion cefndirol hyn yn gwbl hysbys i'r gynulleidfa, a chawn yr argraff fod y gerdd yn llawn o'r hyn a eilw'r Sais yn 'in-jokes', nad oes modd i ni bellach eu gwerthfawrogi a'u deall.

Mesur a chynghanedd

Cywydd, 58 llinell.

Cynghanedd: croes 38% (22 ll.), traws 29% (17 ll.), sain 23% (13 ll.), llusg 10% (6 ll.). Ceir cynghanedd sain gadwynog yn llinell 31.

- 1 **wylaw mal y glaw** Ystrydeb yn y canu marwnad yw agor cerdd drwy gyfeirio at gollod y bardd neu'r beirdd yn nhermau wylo llifeiriol fel afon neu law: GG.net 42.1–2 *Dwfr Alwen doe fu'r wylaw, / Dros y glêr Duw a roes glaw* (marwnad Einion ap Gruffudd o Lechwedd Ystrad), 72.1–4 *Wylofus wyf fal afon, / Wylais waed ar wely Siôn, / Ac wylo mwy no glaw mawr / Y mae mil yma 'm Maelawr* (marwnad Siôn ap Madog Pilstwn). Ar y thema hon, gw. E. Salisbury a H.M. Griffiths, '“Llif Noe yw'r llefain a wnawn”': *genre* ac afonydd ym marddoniaeth Guto'r Glyn', GwalchCG pennod 16.
- 3 **nid oedd agos** Ai ffordd o ddweud bod Ieuan wedi ei gymryd yn annisgwyl gan Dduw, cyn iddo gael cyfle i'w baratoi ei hun?
- 4 **yn y nos** Dichon mai'r ergyd yw bod Ieuan yn toi nos a dydd yn hytrach na bod yma gyfeiriad at yr arfer o godi tŷ dros nos. (Ar dai unnos, gw. E. Wiliam, *Y Bwthyn Cymreig: Arferion Adeiladu Tlodion y Gymru Wledig, 1750–1900* (Aberystwyth, 2010), 60–2.)
- 5 **Gŵr anaml ei garenydd** Engh. arall o wyrdroi un o ystrydebau'r canu mawl: moli noddwr am amllder ei berthnasau sy'n arferol yn y canu hwnnw.

⁷ E. Rowlands, 'Moliant Dafydd Llwyd o'r Drefnewydd a'i ddisgynyddion', LICy v (1958–9), 175.

⁸ Gw. troednodyn 6.

⁹ Gw., e.e., 1n, 5n isod.

- 6 **Ieuan hen ei ewyn hydd** Llsgrau. C *gwan a hen fal gewin hydd*, DE *Ieuan hen i ewyn hydd*. Cyfeiria'r beirdd yn aml at yr *hydd* i gyfleu hirhoedledd: ai chwarae ar y topos hwnnw a wneir yma gan awgrymu bod corff Ieuan (ei iau) yn debyg i eiddo hen hydd? Cymerir mai ffurf dreigledig *gewyn* a geir yma, ond byddai'r ffurf gysefin *ewin* hefyd yn bosibl (llsgr. C). Y mae'r ll. braidd yn chwithig, a byddai *a'i ewyn hydd* yn taro'n well; neu tybed a fethodd y copïwyr adnabod y ffurf *goiewin* 'beiddgar, dewr' (GPC 1445) yn eu cysnail? Posibilrwydd arall yw bod yma gyfeiriad at ryw fath o rwymyn, cf. WM 225 (llau. 19–21) *bwa ... yn llaw pob vn o nadunt a llinyneu o ieu hyd arnadunt*. Gellid deall *Hen* yn epithet, os cywir mai at Ieuan Hen y cyfeirir (gw. y nodyn cefndir uchod), ond y mae'r gystrawen yn gofyn am a. cyffredin ac felly dichon fod y bardd yn chwarae ar yr enw.
- 7 **cwrwgl** Cf. GPC 567 d.g. *corwg*, &c. 2 'dyn atgas, dihiryn, cnaf'.
unfrait Llsgrau. CD *anvraint*, a restrir yn GPC² 283 fel ffurf amr. ar *amraint* (< neg. *an-* + *braint*, *ib.* 237–8); ond sylwer mai 1793 yw dyddiad yr unig engh. o *anvraint* a nodir yno. Ceir gwell ystyr o ddiwygio yn *unvraint*: disgrifio croen Ieuan a wneir yn y cwpled hwn, y mae'n *unvraint* (o'r un natur) â chroen corwg, sef yn dywyll ac yn wydn. Am *unvraint*, cf. GDC 12.46 *Dyly foliant, filwr unfraint*.
 Ceir yma'r gyfatebiaeth *r..gl = rl gl*. O ddiwygio *carl* yn *car*, ceid cynghanedd reolaidd; ar *car* mewn cyswllt dychanol, gw. GPC 421 d.g. *car*¹ a cf. GC 11.139 *car tramawr trwm* (dychan i Drahaearn Brydydd Mawr).
- 8 **croenyn hen** Ar *croenyn* 'croen', gw. GPC 603 *croenen*; gellir deall y cyfuniad yn ddisgrifiad syml o hen ŵr (cf. ll. 6), neu efallai mai'r ergyd yw bod croen Ieuan yn edrych yn hŷn nag y dylai am iddo ddiodef effeithiau'r haul a'r tywydd wrth dreulio cymaint o amser ar doeau.
Caereinion Cwmwd ym Maldwyn, gw. WATU 25, 243; gw. y nodyn cefndir uchod am gysylltiadau Gwilym ab Ieuan Hen â Chaereinion.
- 10 **brwyn** Awgrymir mai dyma hoff ddefnydd toi Ieuan, a'i fod yn barod hyd yn oed i'w ddefnyddio i doi palas brenin. Y mae'n bosibl yr ystyrid brwyn yn ddeunydd toi israddol i wellt gan ei fod yn treulio ynghyt, ond gw. E. Wiliam, *op.cit.* 150, 170 *et passim*.
- 11 **diffeithiwr ffos** Hynny yw, casglai Ieuan y brwyn, ei ddeunydd crai ar gyfer toi, yn y ffosydd gan eu gwneud yn ddiffaith.
- 14 **Tref ei dad oedd, tra fai do** Gellid hefyd atalnodi fel a ganlyn: *Tref ei dad oedd, tra fai, do* (gan gymryd *to* yn oddr. *oedd*).
- 14 **tref ei dad oedd** A etifeddodd Ieuan y grefft o doi gan ei dad?
- 15 **pwyntiai** Cymerir mai 'gosod, trefnu' yw'r ystyr yma, gw. GPC 2952 d.g. *pwyntiaf*², ond byddai 'llanw'r tyllau mewn wal rhwng brics,

- cerrig, &c.', hefyd yn bosibl, *ib.* 2951–2 d.g. *pwytiaf*¹, ond nid efallai yng nghyswllt gwaith y töwr.
- 15–16 **dai, fal paentiad ôd, / ... megis lliw piod** Ceir yma gymhariaeth effeithiol iawn i gyflew lliw du a gwyn y tai sydd yn parhau i fod yn nodwedd ar bensaernïaeth yr ardal hon o Bowys: gw. ymhellach I.C. Peate, *The Welsh House* (Liverpool, 1944), 150–9, yn enwedig 154–5.
- 18 **wylaw oedd** Hynny yw, pe bai'n glawio, byddai pobl yn wylo gan nad yw Ieuan ar gael bellach i drwsio eu toeon.
- 19 **Gwae'r gerdd am y gŵr geirddoeth** Gallai *cerdd* olygu crefft yn gyffredinol yn y cyfnod hwn, ond y mae'r disgrifiad o Ieuan fel un *geirddoeth* yn awgrymu mai'r grefft farddol yn benodol a olygir.
- 22 **rhedyn** Defnydd crai arall ar gyfer toi, gw. E. Wiliam, *op.cit.* 149 *et passim*.
- 23 **collwyn** GPC 574 'llwyn o gyll' (*coll* + *llwyn*). Defnyddid gwaiail cyll i greu bangorwaith i orchuddio pren y to, ac i gynnal y gwellt yn ei le, gw. E. Wiliam, *op.cit.* 183–4.
- 24 **hyd llethr** Cf. Treigladau 393 'y mae lle i gredu mai'r gysefin a ddilynai *hyd* ar y dechrau os '*along*' a feddyliai'.
- 27 **gorthwyn** Llsgrau. CH *gorddwyn*; diwygir er mwyn y gynghanedd a dilyn GPC 1499 sy'n nodi *gorthwyn* fel amr. ar *gorddwyn* 'gordd, mwrthwl trwm gof', &c. Cyfeirir un ai at offer toi Ieuan (gw. E. Wiliam, *op.cit.* 159, 174 am luniau o'r math o ordd a ddefnyddiai towy) neu gellid ei ddeall yn ffigurol am Ieuan a ddisgynnodd yn drwm o'r to.
- 28 **gaffir** Fe'i dehonglir yn a. yn goleddfu *cleiriach* y ll. flaenorol.
- 29 **gŵn sidan** Derbynnir yma awgrym N. Scourfield yn Ieuan Gethin, &c.: Gw 146: 'Dyma ddull chwareus Ieuan Gethin o wneud hwyl am ben Ieuan Döwr, oblegid y mae'n weddol sicr na fyddai'n gwisgo dillad o sidan i doi adeilad.' Rhydd GPC 3269 d.g. *sidan*¹ yr ystyron 'llyfn, gloyw, sgleiniog' a allai fod yn berthnasol yma.
- 30 **gwregis** Profir y ffurf gan yr odl fewnol â *dewis*; cf. GG.net 78.50–1 *wregis* ... *ffris*; GLGC 23.64 *gwregis* ... *sis*. Ni restrir *gwregis* yn amr. ar *gwregys* yn GPC 1701–2, ond fel y nodir gan J. Lloyd-Jones yn G 705 profir y ffurf *gwregis* yn aml gan odlau'r beirdd.
- o'r dewis do** Cydier ef wrth *Syrthio o'r cleiriach*, ll. 27.
- 31 **braich henfon bres** Am *henfon* 'hen fuwch', gw. GPC 1851. Yn betrus deellir *pres* yn e. yma, *ib.* 2876 'dog'n o fwyd i anifail', gair a nodir 'ar lafar' ym Morgannwg, e.e. *pres o wair a pres o wellt* (ni roddir tarddiad iddo, ac ni cheir enghrau. hŷn). Disgrifio Ieuan yn disgyn o'r to a llond braich o ddeunydd addas i fwydo hen fuwch a wneir, cf. ll. 28 *dan gofl*

o'r brwyn. Ceir tystiolaeth fod pobl yn arfer defnyddio gwellt y to i fwydo'u hanifeiliaid mewn amser o gyni, gw. E. Wiliam, *op.cit.* 149.

- 31 **gwae'i galon** Llsg. *gwae galon*; cymerir bod y rh. 'i wedi ei gywsasgu.
- 32 **gweles** Cyfeirio at Gwilym yn gweld ei dad wedi disgyn o'r to a wna'r bardd yma, felly fe'i deallir yn f. 3 un.grff.myn. Ond nid amhosibl ffurf 1 un.grff.myn., ar lun [*p*]*rofes* 7.19n, a'r bardd yn cyfeirio ato'i hun yn gweld y ddamwain.
- 33 **bratiau** Cyfeirir yn llau. 33–4 at yr hyn a wisgai'r töwr am ei bengliniau a'i freichiau er mwyn eu hamddiffyn wrth weithio ar y to.
- 35 **ysgub newydd wisgaw** Sef yr ysgubau o wellt a oedd newydd eu gosod, neu eu gwisgo, ar y to. Awgryma hyn fod Ieuan yn gosod y gwellt mewn bwndeli ar y to, cf. E. Wiliam, *op.cit.* 159 (a'r llun yno) *et passim*.
- 37 **cribyn a dynn ei do** Cyfeirir at fath o grib a ddefnyddid i gribo gwellt y to wedi ei osod, 'i'w rwystro rhag mathru ac i roi golwg lyfn iddo', E. Wiliam, *op.cit.* 146.
- 38 **ystol** Ffurf amr. ar *ysgol* yn yr ystyr '*ladder*'; profir y ffurf yma gan y gnyghanedd; gw. GPC 3839 d.g. *ysgol*².
- 39 **du** Anodd gwybod at bwy y cyfeirir: ond dichon y byddai hynny'n gwbl amlwg i'r gynulleidfa.
- 40 **Dacyn** Ffurf ar *Dafydd*: fe'i ceir gan Guto'r Glyn am Ddafydd ab Edmwnd, GG.net 66.16, a cf. *ib.* llau. 3 *Deicin*, 9 *Deio*, 11 *Dai*. Fe'i ceir hefyd gan Lywelyn ap Gutun yn enw ar of a gysylltid â '[th]ueddau dwyreiniol canolbarth Powys' (GLIG 89 a 2.7n), ond efallai mai rhy fentrus fyddai awgrymu cysylltu hwnnw â'r sawl a ddug dwca Ieuan.
- twca** Byddai gan y töwr amrywiol gyllyll yn ei feddiant, ac anodd gwybod yn union pa fath o gyllell oedd y *twca*: gw. GPC 3656 (lle y cynigir yn betrus ei fod yn fenthyciad o'r S. *touk* 'cleddyf').
- 41 **terfyn** Anodd gwybod a gyfeirir at derfyn y to neu at derfyn bywyd Ieuan y töwr. Posibilrwydd arall yw ei ddeall yn yr ystyr 'tiriogaeth' (gw. GPC 3482 am ystod eang ystyron *terfyn*): bu i Ieuan gwrdd â'i ddiwedd ar ei diriogaeth ei hun, sef wrth doi.
- 46 **cant** Tybed a gyfeirir at yr arfer o dorri gwaiail (cyll ac ati, cf. ll. 23 *collwyn*) i greu bangorwaith i'w osod ar breniau'r to er mwyn cynnal y gwellt? Gw. E. Wiliam, *op.cit.* 184, a cf. GPC 418 d.g. *cant*².
- 47 **Ni thöed henwaith Owain** Defnyddir y f. *toi* yma, ac yn ll. 50, i olygu toi â gwellt yn benodol: cf. E. Wiliam, *op.cit.* 147, sydd yn nodi mai'r diffiniad o *to tuy* yng ngeiriadur William Salesbury (1547) yw '*thacke of a house*', a bod 'y term *tý to*, sef cywasgiad o *tý to gwellt*, ar lafar gwlad mewn rhannau o'r gorllewin o hyd'. Deallir yr elfen *gwaith* yn *henwaith* i olygu 'amddiffynfa, clawdd, caer', cf. GPC 1563 d.g.

*gwaith*¹. Ymddengys hwn yn gyfeiriad penodol at lys Owain Glyndŵr yn Sycharth—y mae Iolo Goch yn tystio mai *to teils* a oedd gan Sycharth (GIG X.47), nid to gwellt, ac y mae archaeolegwyr wedi darganfod rhai ohonynt ar y safle. Llosgwyd Sycharth yn ystod y gwrthryfel gan y Tywysog Harri, a dichon mai dyna pam y'i disgrifir yma fel *henwaith*. Y mae'n debygol iawn mai drwy gerdd Iolo y gwyddai Ieuan Gethin am natur y to yno.

55 **dilan** Fe'i deallir yn gyfuniad o'r neg. *di-* + *glân* (ar ystod ystyron *glân*, gw. GPC 1400).

56 **tobren** GPC 3512 'ffon fforchog a ddefnyddir wrth doi â gwellt, brwyn', &c. a cheir llun o dobrennau traddodiadol yn E. Wiliam, *op.cit.* 172–3.

6

Perthyn y cywydd hwn i gorff mawr o ganu serch sydd wedi goroesi o'r bymthegfed ganrif.¹ Fel y dywed Dafydd Johnston, 'Daliai'r canu serch i fod yn dddiddanwch ffasiynol iawn gan uchelwyr y bymthegfed ganrif, a chafwyd toreth o gerddi amrywiol sydd yn cynnwys peth o ganu mwyaf cywrain y cyfnod, a hefyd rai o'r ystrydebau mwyaf syrffedus.'² Ceir elfen o ddyfeisgarwch yn y cerddi gorau, fel yn achos y gerdd hon gan Ieuan Gethin, a'u cyfyd i dir uwch nag ymarferion mewn rhethreg farddonol.³

Tuedd y beirdd yn y cerddi serch yw peidio ag enwi'r ferch dan sylw, ac y mae'n siŵr fod yr ansicrwydd ynghylch pwy ydoedd yn elfen bwysig ym mherfformiad y bardd. Ond wrth i'r gerdd ddatblygu, y mae'n debygol y byddai'r bardd (neu ei ddatgeiniad) drwy osgo ac ystum, yn ogystal â thrwy osod ambell gliw yn y testun, yn ei gwneud hi'n gwbl eglur i'r gynulleidfa pa ferch a oedd ganddo dan sylw. Gwahanol iawn yw'r cerddi mawl i ddynion, lle yr oedd hi'n hollbwysig gwybod pwy'n union a folid, ac er mwyn sicrhau hynny, byddai'r bardd nid yn unig yn enwi'r gŵr yn llawn, ond yn cynnwys manylion am ei achau, ei deulu a'i gartref fel nad oedd unrhyw amwysedd. Go brin y byddai noddwr yn ystyried ei fod yn cael gwerth ei arian am gerdd pe na bai'r gynulleidfa yn gwbl sicr mai ei rinweddau ef a gâi eu moli!

Dysgwn fod y ferch a folir gan Ieuan Gethin o bryd golau ac iddi wallt melyn hir wedi ei blethu. Cyfeirir ati fel *gwen* (neu *Gwen*), ac y mae nifer

¹ Ceir testun o'r gerdd hon yn Glam Bards 31–4 ac fe'i golygwyd yn Ieuan Gethin, &c.: Gw cerdd 8.

² LIU 318, ac ar y canu hwn, gw. *ib.* penodau 11–12. Gw. hefyd G. Ruddock, 'Rhai agweddau ar gywyddau serch y bymthegfed ganrif', *Dafydd ap Gwilym a Chamu Serch yr Oesoedd Canol*, gol. J. Rowlands (Caerdydd, 1975), 98–102; *id.*, 'Prydferthwch merch yng nghwyddau serch y bymthegfed ganrif', *LICy xi* (1970–1), 140–75.

³ Nid oes unrhyw reswm, o ran cynnwys na phriodoliadau'r llsgrau., i ni fod yn betrus ynglŷn â dilysrwydd y cywydd hwn, ond sylwer bod ei arddull gypledol yn eithaf gwahanol i arddull y cywyddau eraill yn y casgliad hwn.

uchel y cerddi a ganwyd i 'Gwen' yn y cyfnod yn awgrymu y gallai'r enw gyfeirio at ferch hardd neu o bryd golau yn gyffredinol, er nad yw hynny o reidrwydd yn gyfystyr â dweud nad oedd gan fardd ferch go iawn mewn golwg.⁴ Y mae'r modd y mae Ieuan Gethin yn chwarae ar yr enw (cf. llau. 2n, 33n), yn awgrymu y gallai Gwen fod yn elfen yn enw ei gariad (megis *Gwenllian*). Nid oes rhaid cymryd, ychwaith, fod Ieuan Gethin mewn gwirionedd wedi syrthio mewn cariad â'r ferch hon. Confensiwn yw hynny hefyd: moli merch ifanc yn gyhoeddus drwy ddangos pa mor chwenych-adwy ydoedd. Ac mewn cymdeithas lle yr oedd sicrhau priodas dda i ferch yn hynod bwysig, a lle yr oedd hi'n bwysig osgoi cael merched dibriod, gallwn dybio y byddai uchelwyr am noddi cerddi serch fel hon er mwyn tynnu sylw at eu merched ifanc yng ngŵydd uchelwyr eraill o'r ardal.

Yn y cywydd hwn y mae Ieuan yn cyfyngu ei ddisgrifiad o'r ferch i'w phen yn unig, gan ddilyn y drefn draddodiadol o ddechrau â'r gwallt a gweithio i lawr yr wyneb nes cyrraedd y gwefusau (llau. 13–24). Fel yn achos mwyafrif mawr y cywyddau serch, effaith y ferch ar y bardd-garwr ei hun yw'r prif ddiddordeb, ac yn wir y mae gwreiddioldeb y cywydd hwn yn ymwneud â'r modd y mae'r bardd yn portreadu ei anallu i'w hennill drwy bersonoli serch. Disgrifir hwnnw fel plentyn maeth y cododd gelyniaeth rhyngddo a'i dad maeth, sef y bardd (llau. 47–54), gan adleisio cerdd Dafydd ap Gwilym i'r 'Mab maeth'.⁵ Y mae'n wrthwynebydd cryf mewn gornest ymaflyd codwm, a'r bardd, er mor gryf ydyw'n gorfforol, yn cael ei lorio ganddo (llau. 55–64). Bron nad ystyrir y ferch a serch yn gymeriadau annibynnol ar ei gilydd yma: y ferch yn ddiniwed (*ddyn lednais* (ll. 47), *wirionferch* (ll. 49), *ddyn fwyn foes* (ll. 70)), hyd yn oed yn rhoi ochenaid wrth weld y bardd yn cael ei drechu gan serch (ll. 65).

Mesur a chynghanedd

Cywydd, 76 llinell.

Cynghanedd: croes 42% (32 ll.), traws 28% (21 ll.), sain 25% (19 ll.), llusg 5% (4 ll.). Ceir cynghanedd sain bengoll yn llinell 57 a chroes o gyswllt (neu *n* wreiddgoll) yn llinell 25.

- 1 y **glaerwych ddyn** Eb. yw *dyn* yma, y gair a ddefnyddir yn y gerdd am y ferch (cf. llau. 21, 31, &c.); ond eg. yn cyfeirio at y bardd ei hun yn ll. 3.

⁴ Canodd Gutun Owain sawl cerdd i ferched a eilw'n *Gwen*, ac unwaith eto ni raid tybio mai *Gwen* oedd eu henwau go iawn; e.e. GO III.3–4 *Mav gvr Ywain ap Vrienn / Reged, am dy weled, Wenn*. Wrth gyfeirio at Wladus Hael o Lyn-nedd a Harri Gruffudd o'r Bacton, medd Guto'r Glyn *Ni châr gwen chwarae â'r gŵr*, GG.net 34.52 (GGI² LXXXVII.52 *Gwen*).

⁵ Gw. DG.net cerdd 77; a chyda llau. 49–50, *Yr wyf innau, wirionferch, / Yn dadmaeth, 'sywaeth i'th serch*, cf. DG.net 77.36 *Tadmaeth serch y ferch wyf fi*. Delweddir serch yn yr un modd gan Ddafydd yn llau. agoriadol 'Nodwyddau serch', DG.net 100.1–8, cf., e.e., *ib.* 5–8, *Ni bu ar les ei dadmaeth / O hir gydmeithas was waeth. / Moethus o was, lleas llaw, / Methedig fab maeth iddaw*.

- 2 **d'alw'n Wen** Ni raid credu mai Gwen oedd enw go iawn y ferch a folir, er ei bod yn bosibl fod *Gwen* yn elfen yn ei henw (e.e. *Gwenllïan*): gw. y nodyn cefndir uchod.
- 4 **neb** 'Unrhyw un', yn cyfateb i'r S. 'anyone' yn hytrach na 'no one', cf. GPC 2560. Y mae naws dihareb i'r ll. hon.
- 5 **a'th garodd** Y mae grym enwol i'r rh.pth. *a* yma: 'y sawl a'th garodd'.
- 6 **pa ddigwydd a ddaw** Ar yr e. *digwydd* 'digwyddiad, tro', &c., gw. *ib.* 1002; yn llythrennol, felly, 'pa ddigwyddiad a ddaw'.
- 9 **gwinwydden** Gair a ddefnyddir am 'rhiain, merch, gwraig', yn aml gydag awgrym o fonedd, gw. *ib.* 1666.
- 14 **Sy drwy blyg, gosod aur bleth** Y mae ail hanner y ll. hon yn drwsgl, tybed a yw hi'n llwgr?
- 19 **gruddie** Ar ffurfiau tafodieithol yng ngwaith Ieuan Gethin (yma'n cynnal y brifodl â *lle*, cf. llau. 51–2 *beth / fagwrieth*), gw. tt. 21–2.
- 22 **cas** Ffurf gywasgedig ar *caf* (a geir yn 3.49), 3 un.grff.myn. *cael*, a ffurf a glywir hyd heddiw yn nhafodiaith Morgannwg; cf. C.B.H. Lewis, 'Tafodiaith Hen Blwyf Llangatwg (Castell Nedd)' (M.A. Cymru [Aber-tawe], 1932), 44.
- 25 **innau'n iach, feinir** Gellid atalnodi'n wahanol, *innau*, 'n iach feinir, a chymryd mai *yn iach* yn yr ystyr 'farewell' sydd yma (a ddilyniir gan dr.ml., gw. GPC 1994). Ond yn dilyn y cyfeiriad at serch yn amddifadu'r bardd o'i iechyd yn ll. 12, gwell yw cysylltu *iach* yma â *byd da a bywyd hir* y ll. ganlynol.
- 31 **fy nyn** Llsgrau. AF *fy mvn*, sydd hefyd yn bosibl (*bun*); ond am *dyn* (am ferch), cf. llau. 1n, 21, 31, 47, 70.
- 33 **Gwenddydd** Cofiai beirdd y 15g. am Wenddydd fel cariad neu chwaer i Fyrddin, ac fel delfryd o'r ferch hardd: cf. HCLI LXIII.25–6 *A chwi fal merch i Briaf, / Neu Wenddydd, ail hirddydd haf*. Canodd Ieuan ap Llywelyn Fychan gywydd cyfan yn cyffelybu ei gariad i Wenddydd, GILIF cerdd 4, a gw. *ib.* 4.6n lle y cyfeirir at drafodaethau pellach ar ei chwedl. Go brin mai enw'r ferch a folir gan Ieuan Gethin oedd Gwenddydd: ni restrir yr un Wenddydd yng Ngwent a Morgannwg ym Mynegai WG2 i enwau merched yn y cyfnod. Er hynny, y mae'n ddigon posibl fod *Gwen* yn elfen yn ei henw, a bod y bardd yn chwarae ar hynny, gw. ll. 2n ac ymhellach y nodyn cefndir uchod.
- 35 **tramwy** Gw. ll. 43n.
- 42 Y mae'r ll. hon yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *dario* i yn ddeusill.
- 43 **mab mam** 'Dim un mab, yr un enaid byw', a gw. GPC 2294 am enghrau. pellach. Ffordd drofaus braidd sydd yn y cwpled o ddweud nad oes neb wedi caru merch yn fwy na'r bardd.

- tramwy** Gallai olygu ‘teithio (ar draws), ... crwydro, cerdded, (mynd a) dod’, neu’n fwy penodol ‘ymweld â, mynychu’, GPC 3555. Yr ail ystyr sydd orau yma, ond gallai’r naill neu’r llall fod yn berthnasol yn ll. 35.
- 45 **posibl** Braidd yn annisgwyl yw’r ardd. *i* yn dilyn *posibl* yma (*Nid posibl ... / I garu merch*). Tybed a ddylid cystrawennu llau. 43–6 ynghyd a darllen *Ni ddaw mab mam ... / O serch ... / ... / I garu merch ...?*
- 47–50 **Mi fegais ... / Dy gariad ... / Yr wyf ... / Yn dadmaeth ... i’th serch** Am y syniad a fynegir yma, gw. ymhellach y nodyn cefndir.
- 49 Cyfatebiaeth *r.. f/n = r/nf*.
- 52 **magwrieth** Ar ddefnydd ffurf dafodieithol yma i gynnal odl, gw. uchod ll. 19n.
- 62 **cwmpai** Dyma’r ffurf yn llsgrau. AEF; yn D ceir y ffurf fwy safonol, *kwymp[...]* a’r ddwy lythyren olaf yn annarllenadwy.
- 65 **’ngwen** Gellid hefyd ei ddeall yn e.prs. yma, cf. ll. 2n.
- 67 **byrroes** Gan mai eb. yn unig yw *oes* yn ôl tystiolaeth GPC 2627, disgwylid *berroes*, ond am enghrau. pellach o *byrroes*, gw. *ib.* 367; GLIGt 1.55n; GHS 4.77, 21.50.
- 68 **heb nos iach** Heb lwyddo i gysgu. Ceir *n* ac *r* wreiddgoll yn y ll. hon.
- 71 **sad** Benthyciad o’r S.C. *sad* (gw. OED Online *s.v.* *sad*), yma’n golygu ‘cadarn, sefydlog’ fel yn y Gym. heddiw, a’r bardd yn disgrifio ei hir amynedd wrth ddisgwyl am ymateb gan y ferch; ond gallai hefyd olygu ‘prudd, trist’ mewn Cym.C., gw. GPC 3155.
- 73 **bytho** Amr. ar *byddo*, ffurf 3 un.pres.dib. *bod*, gw. GMW 137. Y mae’n rhaid cywasgu *bytho i’r* yn ddeusill er mwyn hyd y ll.
- 74 Y mae’r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *mwya’ a’i* yn ddeusill, ac nid atebir yr *nd* yn *Ond*.
- 76 **doedyd ‘Amen’** Hynny yw, os bydd y ferch yn dweud ‘Amen’, sef ‘felly y bo’, bydd hynny’n arwydd o’i lwyddiant. Awgrymir yn WG 54 y gall mai orgraffyddol yn unig yw’r ffurf *doedyd*, ac mai *dwedud* fyddai’r ynganiad, ‘For *dywedud* ... we generally have *dwedud* in Early Mn. poetry (written *doedyd* in the 16th cent.’

7

Cywydd storïol yw hwn yn adrodd hanes digwyddiad anffodus a ddaeth i ran y bardd.¹ Edrydd sut y bu’n caru gyda merch ifanc brydferth a

¹ Ceir trawsysgrifiad o’r testun llsgr. yn Peniarth 57, 27–9 ac yn Glam Bards 29–30; fe’i golygwyd yn Ieuan Gethin, &c.: Gw 34–6, 144 (cerdd 9) a’i gyhoeddi gyda chyfieithiad S. yn

bonheddig ei hymddygiad a chael ei heintio gan glefyd gwenerol poenus. Cosbwyd ef yn llym ar ôl iddo gyrraedd adref gan ei wraig (os ei wraig yw'r *ferch y tŷ*, ll. 50) am iddo fod mor ffôl â chwyno wrthi am ei anffawd. Gobeithio cael cydymdeimlad a wnâi, ond wrth gwrs y mae'n gwbl amlwg i'r gynulleidfa nad cydymdeimlad yr oedd yn debygol o'i dderbyn, ac yn ôl y disgwyl ymosododd ei wraig arno â'i hoffer nyddu ([*c*]ogail, ll. 52) gan geisio crafu'r crach a oedd ar ei glwyfau poenus. O ganlyniad, bu'n rhaid i Ieuan adael ei gartref, gan nad oedd croeso iddo yno bellach a'i bidyn wedi ei *lygru* (llau. 55–6). Cloir y gerdd â'r foeswers amlwg: nid yw'n ddiogel ymddiried mewn [*c*]ont (llau. 57–62).

Nid oes amheuaeth nad cerdd ddigrif i ddiddanu oedd hon, a hynny un ai yng nghartref Ieuan ei hun neu ryw uchelwr arall. O ran ei harddull (e.e. y defnydd o'r berfenw, yn hytrach na berfau personol, wrth adrodd yr hanes, a'i defnydd o eironi dramatig), gallwn ei chymharu â'r cerddi achlysurol eraill a gyfansoddodd Ieuan, lle y mae'n adrodd hanes am ryw dro trwstan a ddaeth i'w ran. Yn yr un modd ag y magodd Dafydd ap Gwilym gymeriad y carwr ifanc dioddefus yn ei gerddi ef, y mae Ieuan Gethin yn ei bortreadu ei hun fel y [*c*]leirch *diriaid* (ll. 55) yma, yr hen ddyd y mae pethau yn tueddu i fynd o chwith iddo. Y mae'r gerdd yn llawn o or-ddweud er mwyn effaith: er enghraifft, pa mor debygol yw hi y byddai Ieuan wedi dioddef y symptomau y mae'n eu disgrifio yn syth wedi'r gyfathrach â'r ferch (ei bidyn yn chwilioeth a hylif heintus yn llifo ohono, gw. llau. 21–32)?² Y mae'r disgrifiad pellach o Ieuan yn gosod ei 'daclau' mewn gwlan a'u clymu am ei wddw â stribed o ddefnydd yn creu delwedd ddigrif iawn yn y meddwl.

Gallwn ganfod sawl islais mwy difrifol yn y gerdd hon, er mai anodd yw gwybod pa mor arwyddocaol oeddynt mewn gwirionedd o safbwynt y cyfansoddiad a'r perfformiad ar y pryd. Y mae'r feirniadaeth ar ymddygiad nwydus, direol yr unigolyn yn amlwg, ond annoeth, efallai, fyddai dehongli hynny fel beirniadaeth gymdeithasol fel y cyfryw, yn hytrach nag fel moeswers bersonol syml. Y mae'n ddigon posibl mai putain oedd y ferch hon, gan fod Ieuan yn cyfeirio at y gyfathrach a fu rhyngddynt fel *drygfarchnad* (ll. 35): os felly gellid dehongli'r gerdd fel rhybudd am beryglon ymwneud â merched o'r fath, gan y gallai hynny arwain nid yn unig at haint ond hefyd at gollu gwraig dda a gweithgar gartref. Ceir dehongliad gwrywaidd o'r gerdd gan Dafydd Johnston sydd yn awgrymu bod y gerdd yn amlygu 'ofn seicolegol dyfnach lle y mae'n sôn am berygl "ymddiried i gont"'.³ Efallai fod yma hefyd elfen o feirniadaeth ar ganu serch y beirdd: yn eu cerddi hwy, lle y molir merched am eu prydferthwch, nid oes, meddai Ieuan Gethin, yr

CMOC² 90–3; gw. hefyd LIU 342.

² Cwynodd Dafydd Llwyd o Fathafam yntau am glefyd gwenerol a ddaliodd gan ferch; ond yn ei achos ef, aeth adref drannoeth *heb ddim cwynaw*, ar ôl treulio'r noson gyda'r ferch, ac yn ddiweddarach yr ymddangosodd ei symptomau ef, CMOC² 94–7, yn arbennig td. 96, llau. 33–44.

³ *Ib.* 14.

un gair am beryglon caru merch fel hon, sydd yn ôl eu disgrifiadau hwy yn gwbl ddi-fai (llau. 29–30 *Nid oedd, meddai'r prydyddion, / ... fai ar hon*). Dwg hyn i gof feirniadaeth Gwerful Mechain hithau ar y beirdd yn 'Cywydd y gont',⁴ er bod ei phwynt hi'n dra gwahanol. Ei dadl hi oedd bod y beirdd yn tueddu i ganolbwyntio ar wallt, aelïau, bronnau a dwylo ac ati,⁵ gan adael y rhan bwysicaf heb ei chrybwyll, *Gado'r canol heb foliant / A'r plas lle'r enillir plant, / A'r cedor clyd ...*⁶

Mesur a chynghanedd

Cywydd, 62 llinell.

Cynghanedd: croes 34% (21 ll.), traws 29% (18 ll.), sain 27% (17 ll.), llusg 10% (6 ll.). Ceir sain dros gl yn llinellau 7 a 54; cynghanedd sain gadwynog yn llinell 23 a sain bengoll yn llinell 57.

- 1 **mwynedus** Derbynnir awgrym petrus GPC 2521 '?proffidiol' am yr ystyr, cf. CMOC² '*profitable fault*'. Dichon fod tinc eironig bwriadol iddo wrth ddisgrifio'r *bai* (sef y camgymeriad neu'r cam gwag o fynd gyda'r ferch).
- 2 **â'r ddrem lawen lus** Cyffredin yn y canu yw *llus* yn delweddu llygaid (*drem*) tywyll, e.e. disgrifiodd Sypyn Cyfeiliog a Huw Cae Llwyd eu cariadon fel *perchen llygaid llus*, GSCyf 3.33 a HCLI LXIII.16. Ond y mae'n bosibl hefyd mai at bryd tywyll y ferch yn fwy cyffredinol y cyfeirir, cf. GGLI 8.12 *llusweddferch* 'y ferch o bryd tywyll' a hefyd CMOC² 91 '*a cheerful pretty brunette*' am y ll. hon.
- 3 **elygoes** Dilynir GPC 1847 d.g. *helygos* a deall yr engh. hon yn amr. ar y gair hwnnw.
- 5 **deufraich** Eg. oedd *braich* yn aml mewn Cym.C., ond gthg. 8.12 [*d*]wyfraich. Dilynir arweiniad y llsgrau. yn y ddau achos, ond tybed a ddefnyddiodd Ieuan Gethin y ddwy ffurf mewn gwirionedd, neu a welir ôl dylanwad rhyw gopiïdd yma neu yn 8.12? (Cf. 1.20n ar genedl troed.)
- 7 **celennig Lundeinig** A yw Ieuan yma'n awgrymu bod rhywbeth yn ecsotig am gofleidio'r ferch, wrth iddo'i gymharu ag anrheg a brynwyd yn un o siopau Llundain? Sylwer ei fod yn cyfeirio at y gyfathrach rhyngddynt fel *drygfarchnad* isod ll. 35, sydd o bosibl yn awgrymu mai putain oedd hi. Tybed ai Saesnes ydoedd? Ond er mor groesawgar oedd y ferch hon wrth dderbyn ei gusan (ll. 8 *cael y cusan*), yr oedd hi mewn gwirionedd yn ei dwyllo (*ib. celu cas*) ac o bosibl yn gwybod yn iawn y byddai'n ei heintio.

⁴ GGM cerdd 9.

⁵ *Ib.* 9.1–16.

⁶ *Ib.* 9.21–3.

- 8 **celu cas** Gall *cas* olygu ‘chwerwder, gelyniaeth’, &c., ond efallai mai ei ystyr yma yw ‘peth cas’, yn gyfeiriad at y clefyd, gw. GPC 435.
- 9 **calon iach** Gall mai cyfeirio at ei iechyd yn gyffredinol a wna Ieuan, neu, o gofio yr ystyr y galon yn ‘eisteddle’r teimlad, y serch, ... yr enaid, yr ysbryd’ yn y cyfnod hwn (gw. GPC 394), at ei ysbryd hapus, gan fod y ferch wedi ildio iddo mor rhwydd.
- 9–10 **Clyw ’nyn ... / Cael arall ar fin cleiriach** Hynny yw, teimla (*clyw*) y ferch gusan arall ar wefus yr hen ddyd.
- 12 **cyfod** Y be. yma, amr. ar *cyfodi* (cf. 9.86 a gw. GPC 5236 d.g. *codaf*).
o’i chof Yn llythrennol, ‘oherwydd y cof amdani’, hynny yw, wrth feddwl amdani; sylwer mai i ddechrau’r 17g. y perthyn y cyfuniad *o’i chof* ‘mad, insane; angry’ yn ôl tystiolaeth GPC 536 d.g. *cof* (cyfuniad *o’ m cof*, &c.).
- 13 **ar hynt** Cf. GPC 1979 ‘at once, immediately, forthwith, directly’, &c.
- 16 **arddyrnir** Disgrifiad o’r ferch, yn hytrach na’r bardd.
erni Ffurf 3 un.b. yr ardd. *ar*; cf. DG.net 135.53 *Mae erni nadd o radd rus*.
- 18 **ymythiaw** Er na restrir y ffurf hon yn GPC 3818, ceir *gythiaf*: *gythio* yn ail gipair yn *ib.* 1743 d.g. *gwthiaf* (a *gyth-* a ddisgwyliid oherwydd gwyrriad). Yn G 723 (d.g. *gwth*) ceir *gythyaw* fel y prif ddangosair, a rhestrir yr engh. hon yno d.g. *ymythiaw*.
- 19 **gwae a brofes** Dehonglir *profes* yn ffurf 1 un.grff.myn., gan ddeall yr e. *gwae* yn wrth. y f. Fodd bynnag, gall mai’r ffurf 3 un.grff.myn. sydd yma a gellid cysylltu *gwae a brofes* â *gwaith heb allu* (ll. 20): ‘gwae’r sawl a brofodd waith heb lwyddo’, ll. ddjarhebol ei naws.
- 20 **o bell** Derbynnir yr ystyr ‘for a long time’ a roddir yn betrus i’r cyfuniad yn GPC 2724, sydd yn rhoi ystyr well yma na ‘from afar, from far away’, &c.
eb Cf. ll. 31. Dilynnir y llsg. a’i ddeall yn ffurf amr. ar *heb*. Gellid darllen *eb* yn lle *heb* yn y llau. canlynol hefyd, gan nad oes angen yr *h-* yn y gynghanedd: 2.17, 5.23, 6.65, 66, 67, 68, 8.4, 23, 9.29.
- 24 **cedor** Gair a all gyfeirio at ‘aelod dirgel’ merch (fel yn achos cywydd Gwerful Mechain i’r gont neu’r cedor, GGM cerdd 9) neu ddyd (fel yn yr achos hwn), cf. GPC 446.
- 25 **cŷn gwedy’r wrychioni** Am *gwrychioni*, amr. ar *gwreichioni* ‘codi’n wreichion, ... disgleirio’n danbaid’, &c., gw. *ib.* 1703; yr ystyr yma yw bod ei bidyn yn fflamgoch, fel petai wedi ei losgi. (Sylwer mai ‘ewynnu, berwi’ yw cynnig G 721 ar gyfer yr engh. hon.) Yr un oedd diodd-efaint Dafydd Llwyd o Fathafarn, CMOC² 96 (llau. 42–4) ... *deifio*

'nghŷn, / mae gwrid gormod i'm piden, / i ddiawl lai na phawl ei phen!
Ar gwedy'r (< gwedy + rhy), gw. 2.27n.

- 28 **peithynau** Llsg. *buthanneu*, ac *e*, o bosibl, wedi ei hychwanegu (?gan law ddiweddarach) dros hanner cyntaf yr *u*, gan roi *beithanneu* (cf. Peniarth 57, 28). Nid yw *b/puthannau* na *b/peithannau* yn hysbys. Yn CMOC² 90 derbynnir y darlleniad *beithannau* a'i gyfieithu, *ib.* 91, fel 'tresses' (am wallt), ond heb esboniad, ac ni restrir *peithan* yn GPC 2720. Tybed a ddeallwyd *peithan* yn amr. ar *peithyn*, *peithin* 'llechen, teils' (*ib.*) yn CMOC² 90–1, mewn ystyr ffigurol am y gwallt sydd yn gorchuddio'r pen. (Sylwer mai *beith[y]nneu* a roddir am yr engh. hon yn GPC 1672 d.g. *gwiw.*) Os ffurf l. *peithyn* sydd yma, *-n-* ac nid *-nn-* a geir ynddo yn ôl *ib.* 2720 (ond gthg. R 1302.4 *peithynnvein*). Nid yw'r ddelwedd yn taro deuddeg yn llawn, ond cf., o bosibl, ddisgrifiad Llywelyn ab y Moel o'i farf, GSCyf 13.53 *Gardiau o beithynau bwth*.
- 29 **meddai'r prydyddion** Awgrymir eu bod hwythau wedi bod yn ei chwmni.
- 31 **llost** Yma 'gwialen gŵr, pidyn, cal', gw. GPC 2214.
- 34–5 **Cymryd ... / Fy nghaniad** Am yr ymadrodd *cymryd caniad* 'to take leave, bid farewell', gw. *ib.* 760. Cyfaddasiad o'r idiom S. ydyw, gw. OED Online *s.v. to take one's leave* 'to obtain permission to depart, ... hence to depart with some expression of farewell; to bid farewell'. Gan hynny, cymerir mai'r bardd sy'n cymryd ei ganiad gan y ferch ac yn ffarfwelio â hi; gthg. CMOC² 91, 'my slender darling took her leave / of me'.
- 35 **drygfarchnad** A yw Ieuan yn awgrymu mai putain oedd y ferch hon wrth alw'r gyfathrach a fu rhyngddynt yn 'fargen' neu'n 'fasnach ddrwg'? Gw. ll. 7n.
- 36 **tingamu** Ni restrir y f. hon yn GPC, ond gw. yno *tingam* 'cam ei ben ôl, ei waelod', *ib.* 3501. Y mae'r bardd yn tingamu wrth fynd ar ei hynt gan fod mewn cymaint o boen.
- 38 **clwy** Llsg. *klyw*, y gellid ei ddeall yma'n ffurf 2 un.grch. y f. *chlywed* 'teimlo'). Ond go brin fod y bardd yn cyfarch y ferch gan ei fod newydd ffarfwelio â hi (a hefyd nid yw'n ei chyfarch hi na'r gynulleidfa yn unman arall yn y gerdd). Felly derbynnir y diwygiad a awgrymir yn CMOC² 92.
- 40 **hwydd** Amr. ar *chwydd*, gw. 2.44n.
- 41 **byhwm** Amr. ar *bwhwm*. Nis rhestrir fel e. yn GPC 352, ond ceir y be. *bwhwman* (heb ffurfiau prs.) 'crwydro'n ôl a blaen, ... treiglo, llofo, rhedeg', &c. Yn betrus fe'i deallir yn fôn y f. â grym e., yn cyfeirio at yr hylif heintus a lifai o frig ei bidyn.

- 42 **maen o blwm** Sef o bosibl maen gwn ('*cannon-ball*', *ib.* 2307) wedi ei wneud o blwm.
- 44 **careisiaw** 'Cario, cludo, dwyn', benthyciad o'r *S. carriage*, gw. *ib.* 426.
- 47 **llawes, lawndres** Llsgr. *llawes lawndreis*; gan mai cynganedd sain sydd yn y ll., y mae darlleniad y llsgr. yn anfoddfaol. Derbynnir y diwygiad a gynigir yn *ib.* 2114 d.g. *llawndres*, ac ymhellach ar *tres* 'trafferth, helbul; ... pryder, gofid', &c., gw. *ib.* 3587 d.g. *tres*². Gthg. CMOCC² 92 (ll. 47) *llawais, lawndrais*, ond ni restrir y ffurf *llawais* yn amr. ar *llawes* yn GPC 2105, 2109–10.
- 50 **breiched** Ffurf dafodieithol ar *breichaid* 'llond breichiau, coflaid', *ib.* 316 d.g. *breichiaid, breichaid*.
- merch y tŷ** Ai ei wraig ei hun?
- 51–2 **Achubodd ym ... / Â'r gogail ...** Ar amrywiol ystyron y f. *achub* (sydd yn tarddu o'r Llad. *occup*), gw. GPC² 23–4. Bf. anghyflawn ydyw yma, a'r gwrth. dan reolaeth yr ardd. *i*; yn y cyd-destun rhoddai 'cipio, gafaél yn' neu 'ymosod (ar), rhuthro (ar)' synnwyr addas.
- 52 **cogail** Teclyn i nyddu, 'ffon neu bren crwn praff oddeutu tair troedfedd o hyd y troellid y llin neu'r gwllân amdano i'w nyddu â llaw ac a ddelid fel arfer o dan y fraich chwith', GPC 540 a cf. OED Online *s.v. distaff*. Fe'i ceir hefyd yn derm mwy cyffredinol am 'ffon, pastwn'.
- gwraig Iago** Benthyciad o'r Llad. *Iacobus* yw'r enw *Iago* (gw. EL 40) ac felly gallai gyfeirio un ai at Iago (o bosibl yr apostol) neu at Jacob, y ceir ei hanes yn Genesis (cf. CMOCC² '*Jacob's wife*', ond nid esbonnir y cyfeiriad). Y mae'r cyd-destun yn awgrymu bod gwraig *Iago* wedi ymddwyn yn dreisgar tuag ato, fel y gwnaeth gwraig Ieuan Gethin tuag ato yntau. Yr oedd gan Jacob ddwy wraig: Rachel, ei hoff wraig a mam Joseff a Benjamin, a fu farw ar enedigaeth Benjamin; a Leah. Er nad oedd yr ail wraig hon mor hoff ganddo, nid oes unrhyw awgrym yn y Beibl ei bod hi'n dreisgar fel y cyfryw (Genesis, penodau 29–35). Cyfeiriodd Dafydd Llwyd yntau at *wraig Iago*, GDLl 80.34, gan gyfeirio at Iago eiddigus yn yr un gerdd (*ib.* ll. 60). A oedd hi'n gymeriad stoc?
- 53–4 **gosod ... / Ar geisio** Y mae'n amlwg mai 'dechrau ar, ymroi i' yw ystyr *gosod ar* yma, er na roddir yr union ystyr honno i'r cyfuniad yn GPC 1512; cf. ystyron y f. *set upon*.
- 54 **cribinio'r crach** Llsgr. *gribinyor grach*; rhaid adfer y ffurfiau cysefin yn y ddau air: fel e.ll. yn unig y diffinnir *crach* yn GPC 574 (felly ni ddisgwyliid tr.ml. ar ôl y fan.) ac ni ddisgwyliid i *cribinio* dreiglo yn dilyn y be. *ceisio*.
- 59 **rhwyf** Ymddengys ei fod yn goleddfu *ymddiried*. Ar amrywiol ystyron *rhwyf*, gw. GPC 3114; y mae'n bosibl mai *rhwyf*³ 'rhwysg, rhodres,

balchder, ... gormodedd' sydd orau yma: yn llythr. 'gormodedd [o] ymddiried'; cf. GP 17 (ll. 10) *ervyn da yn deulueid heb rwy ymbil amdanaw*.

57–8 **Ymddiriedawdd ... / ... rai i gont** Mewn Cym.C. dilynid y f. *ymddiried* yn aml gan yr ardd. *i*, yn hytrach nag *yn* neu *mewn* fel heddiw; cf. llau. 59–60 *ymddiried / I hon*, a GGGr 7.57–8 *Na chais, er dy farddlais fudd, / Ymddiried i em ddeurudd*.

60 **anghron** Ar y sillaf olaf y mae'r acen, fel y prawf y gynghanedd.

61 **na ellir** Annisgwyl yw *na* yma, onid yw'n cryfhau'r neg. yn ll. 59.

62 **beir** Ffurf amhrs.pres.arf. y f. *bod*, gw. GPC 3741 am enghrau. pellach. **genti** Ffurf 3 un.b. yr ardd. *gan*, sydd yn nodweddiadol o iaith ardal Castell-nedd, fel y gwelir yn C.B.H. Lewis, 'Tafodiaith Hen Blwyf Llangatwg (Castell Nedd)' (M.A. Cymru [Abertawe], 1932), 37. Am yr ymadrodd *bod gan* am gyfathrach rywiol, cf., e.e., DG.net 147.13 *Paid â bod gan rianedd*.

8

Cerdd farwnad gan dad i'w fab, Siôn, a fu farw o'r pla du (ll. 12 y *ddufrech*) yw hon.¹ Fel yn achos yr awdl farwnad i'w ferch (cerdd 9), y mae'n perthyn i ddosbarth bychan o farwnadau sydd wedi goroesi gan feirdd i'w plant eu hunain,² ac fel y disgwyliid, nodweddir y cerddi hyn gan fynegiant mwy dwys a phersonol nag a welir mewn marwnadau i uchelwyr a'u gwagedd sy'n tueddu i fod yn fwy confensiynol a chyhoeddus eu naws. Gwelir yr elfen bersonol hon yn eglur yma yn agwedd Ieuan Gethin tuag at y pwerau dwyfol. Topos yn y canu marwnad yw mynegi dicter tuag at Grist a Duw am ddwyn yr ymadawedig: mynegir hynny'n syfrdanol o syml yn y gerdd hon, *Gŵr digon creulon yw Crist* (ll. 44). Ond â Ieuan â'r syniad gam ymhellach drwy honni er cymaint iddo weddio ar Dduw, Iesu, Mair a'r seintiau, eu bod i gyd wedi bod yn fyddar i'w eiriau. Yn wir, nid oedd haelioni Duw tuag ato fymryn yn fwy na haelioni'r Sais: *Ar Dduw er a weddiais, / Ni chawn Siôn mwy no chan Sais* (llau. 41–2; a dyma thema gyffredinol llau. 35–58). Gallwn gydymdeimlo'n llwyr ag ymateb Ieuan, wrth gwrs, ond yng nghydestun y cyfnod a'r gymdeithas ar y pryd, y mae'n anodd credu nad ystyrid bod teimladau o'r fath, neu o leiaf y mynegiant ohonynt, yn ymylu ar gabledd. Yn wir, y mae agwedd y bardd yn y gerdd hon yn peri syndod i unrhyw un sydd yn gyfarwydd â barddoniaeth yr Oesoedd Canol yng Nghymru: barddoniaeth yw honno sydd wedi ei seilio ar feddylfryd a gwerthoedd cwbl gadarn—boed hynny o ran crefydd neu o ran lle a phwrpas dyn yn y gymdeithas—a phrin iawn yw'r lleisiau a glywir sydd yn

¹ Ceir testun o'r gerdd hon ac ychydig nodiadau yn Glam Bards 1–3, 334; fe'i golygwyd yn Ieuan Gethin, &c.: Gw cerdd 2 a GyB 70–7.

² Casglwyd y rhain gan D. Johnston yn *ib*.

cwestiynu'r gwerthoedd hynny. Nid diffyg ffydd a fynegir yma, wrth reswm, ond yn hytrach siom yng ngrym gweddi, ac o ystyried bod cyfoeth yr eglwys ar y pryd wedi ei seilio ar ffydd yng ngrym gweddi, y mae'n rhaid fod geiriau Ieuan Gethin yn y llinellau hyn wedi creu cryn argraff ar gynulleidfa'r oes.

Y pla du a gipiodd einioes Siôn (gw. ll. 12n), ac fel y nododd T. Roberts, ymwelodd y pla hwn â Chymru sawl gwaith yn ystod y bymthegfed ganrif, yn enwedig yn 1438–9, gan ddychwelyd yn 1464–5, 1471 ac 1479.³ Tybia Roberts mai yn 1438–9 y bu farw Siôn,⁴ ond os ef ar y pryd oedd unig fab ei dad (gw. ll. 4n)—a gwyddom fod Ieuan Gethin a'i wraig Elsbeth yn briod erbyn 1410—y mae'n bosibl fod y gerdd wedi ei chanu yn y 1420au.⁵ Eto i gyd, o ran patrwm ei chynganeddu (a'r ganran uwch na'r arfer o gynghanedd gytsain o'i chymharu â'r gynghanedd sain, gw. y rhagymadrodd td. 17) y mae'n debyg iawn i'r gerdd farwnad a ganodd Ieuan i Owain Tudur yn 1461. Ai cerdd bardd aeddfed yw hon felly?

Cyfeiria Ieuan Gethin yn helaeth at ddawn Siôn fel cerddor: tybed a oedd yn delynor addawol? Fe'i gelwir yn *cywirddant* (ll. 14n), ac yn un *urddol ar gywirddaint* (ll. 32) ac y mae'r disgrifiad pellach ohono fel *eos* (llau. 48, 51) yn dwyn i gof enw'r telynor Siôn Eos a farwnadwyd gan Ddafydd ab Edmwnd, yn ogystal â'r cyfeiriadau yn y farddoniaeth at *gainc eos*.⁶ Tybed a oedd Ieuan Gethin yntau'n delynor, ac mai gan ei dad felly y dysgasai Siôn ei grefft?⁷ Diddorol hefyd yw cymharu'r farwnad yn hyn o beth â marwnad Lewys Glyn Cothi i'w fab yntau, Siôn y Glyn, a oedd wedi bod yn dysgu barddoni gyda'i dad: *fy nghyw yn dysgu fy nghân*.⁸ Pump oed oedd Siôn y Glyn yn marw (*yn dysgu* crefft ei dad yr oedd); ond cawn yr argraff fod mab Ieuan Gethin ychydig yn hŷn, oherwydd nid yn unig yr oedd yn ddigon hen i'w alw'n *gŵr* (ll. 31), yr oedd hefyd yn *urddol* yn ei grefft (ll. 32).

Mesur a chynghanedd

Cywydd, 58 llinell.

Cynghanedd: croes 58% (34 ll.), traws 21% (12 ll.), sain 19% (11 ll.), llusg

³ T. Roberts, 'Marwnadau plant y beirdd', Traeth, Hydref 1942, 152. Ymhellach ar y pla du, gw. nodyn cynhwysfawr B.J. Lewis yn GMBen 175–7 ar y cywydd 'Haint y nodau' (a gambriodolir i Ieuan Gethin mewn rhai llsgrau.); trafodir yno darddiad ac effeithiau'r pla du ar Gymru fel ar weddill Ewrop yn y 14g. a'r 15g. pan laddwyd tua hanner y boblogaeth.

⁴ T. Roberts, *l.c.*

⁵ Yr oedd hi'n arfer gyffredin i enwi'r mab hynaf ar ôl y tad, gw. isod ll. 31n.

⁶ Gw. S. Harper, 'Dafydd ap Gwilym, bardd a cherddor', DG.net *passim* a GG.net 35.46n.

⁷ Yn ei farwnad i Ieuan, meddai Iorwerth Fynglwyd: *Ni chwardd dyn na cherdd dynant; / ni chair rhodd d'air na cherdd dant* (gw. At.I.51–2). Ni wyddai E. Rowlands ystyr *cerdd dynant* (gw. GIF 29.51n), ond tybed a ellir cynnig mai *tynnant* yw'r gair (bôn y f. *tynnu* + terfyniad enwol *-ant*), ac felly *cerdd dynnant* fyddai crefft 'plycio', sef yr hyn a wneir wrth seinio tannau telyn? Ond ni chafwyd tystiolaeth bellach i'r gair *tynnant*.

⁸ GLGC 237.37.

2% (1 ll.).

- 3 **Merthyri, mor wyrth arab** Yn GyB 73 cymerir bod *mor wyrth arab* yn goleddfu *merthyri* ('such a miraculously gentle martyrdom'), ond gall hefyd fod yn ddisgrifiad o'r mab, a dichon fod yr amwysedd yn fwriadol.
- 4 **un mab** Cf. disgrifiad Lewys Glyn Cothi o Siôn y Glyn, ei fab bychan a fu farw, GLGC 237.1 *Un mab oedd degan i mi*.
- 5 **oedd** Y mae grym amodol i'r f. amhff. yma, cf. GMW 110, 'in MW *oed* often occurs with the meaning "would" in principal clauses'.
- 5–6 **amwynt ... / ... pwynt** Ar *pwynt* 'iechyd, cyflwr (corfforol) da, graen, gwedd (lewyrchus)', &c., gw. GPC 2951, ac *amwynt*, gw. GPC² 249 'anhwylder, gwaeledd', &c. Defnyddiodd Guto'r Glyn yr un odl wrth drafod diffyg iechyd ei noddwr Hywel ab Ieuan o Foeliwrch ac effaith hynny arno yntau: GG.net 92.9–10 *Dy gwymp oer a'm dug o'm pwynt, / Dy gymal a'm dwg amwynt* (cf. hefyd GHC IV.11–12, 31–2).
- 7 **eirad** Ffurf amr. ar *irad*, cf. 9.15n a gw. GPC 2026 d.g. *irad*¹ (ond 16g. yw'r engh. gynharaf o *eirad* a nodir yno).
- 8 **diddanu** 'Difyrru, adlonni, ... llawenhau' (GPC 966) yw'r ystyr, a'r bardd yn dweud pe na bai Siôn wedi marw y byddai'n parhau i ddod â difyrrwch iddo. Ond gallai'r f. hefyd olygu 'cysuro' yn fwy penodol, a mwy soffistigedig yw'r dehongliad a gynigir yn GyB 73 '*comforting his father*'.
- 9 **od yw** Llsgrau. B–EGH *o duw*, I *o dyw*; camraniad (os cyfarch Duw a wnâi, disgwyliid *o Dduw*). Deellir *od* i olygu 'anarferol neu hynod, rhyfedd', &c. (gw. GPC 2616 d.g. *od*¹ lle y dyfynnir enghrau. o'r 14g. ymlaen). Posibilrwydd arall yw'r cys. *od* 'os', ond gan nad oes traethiad amlwg i'r f. (e.e. *od yw marw*), nid yw hynny mor debygol. Aneglur yw GyB 72–3 *Minnau od yw 'As for me'*.
- am nad iach** Ceir yr un ymadrodd deirgwaith yn y gerdd hon, cf. llau. 29 a 33.
- 12 **dufrech** Y frech ddu: GPC 314 '*black death, bubonic plague; black scall or scab*' a gw. ymhellach y nodyn cefndir uchod. Am ddisgrifiad manwl Llywelyn Fychan o'r frech, a'r ofn a deimlodd yntau o weld yr ysmotiau yn ymddangos ar y corff, gw. GMBen 158 (At.55–8, 63–72):

Drygddarpar galar heb gêl,
 Duon ofidion fedel,
 Hagr frech anhygar frys,
 Ai tebyg i had dubys? ...
 Cafod bys lle cyfyd bâr,
 Ceinion angau du cynnar,
 Creifion o bilion bulwg,

Cadgamlan, darogan drwg,
 Du bla, nid er da y dôn',
 Dimeiau, gemau gwymon,
 Gwerin brudd, ufydd ofeg,
 Grawn tost eu bod ar groen teg,
 Gwaith trist, pawb (myn Crist!) a'm cred,
 Galar oedd ym eu gweled.

dwyfraich Gthg. 7.5n *deufraich*.

Y mae'n rhaid rhoi pwyslais ar yr ardd. *ar* yma er mwyn y gynghanedd.

- 13 **fi, marw fy iôr** Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf oni thrinnir *marw* yn ddeusill (cf. 4.32n ar *cadw*). Adferir y sillaf yn Ieuan Gethin, &c.: Gw 2.13 drwy ddarllen *marw yw fy iôr*, ac yn GyB 72 awgrymir *fi os marw fy iôr*.
- 14 **cywirddant** Dyma'r ffurf yn yr holl lsgrau. (*kywirddant*), ac fe'i profir gan y gynghanedd; cf. GG.net 18.47 *Cerddor gyda'r cywirddant*. Yn GyB 73 darllenir *cyweirddant* a'i gyfieithu 'tuning string', a'i ddeall yn amr. ar *cyweirdant* 'y tant y cyweirir telyn wrtho; y tant a dery'r cyweirnod, cyweirnod; yn ffig. safon, maen prawf', GPC 830, lle y nodir *cywirdant* (ond nid *cyw(e)irddant*) yn amr. Fel amr. ar *cyweirdant* y'i dehonglir yn GG.net 18.47n hefyd. Fodd bynnag, y mae'r ail elfen *-ddant* (ac yn enwedig y ffurf l. [c]ywirddaint, ll. 32) yn awgrymu mai *dant* ac nid *tant* yw'r ail elfen. Tybed a all *dant* olygu 'bachyn, ebill' yma (gw. GPC 980 d.g. *dant* 1(b) 'unrhyw ysgithr neu bigyn a fo'n debyg i ddant', &c.): ebill ar gyfer cyweirio nodyn ('tuning peg')? Ar *dant* 'ebill' yng nghyswllt telynau, cf. disgrifiad Dafydd Benwyn o delyn rawn: *engyles ber rwng keraint, / a llwniaidd yw, llawn o ddaint*, D.H. Evans, 'The Life and Work of Dafydd Benwyn' (D.Phil. Oxford, 1981), CCXXVIII.70–1. (Hoffwn ddiolch i Bethan Miles am dynnu fy sylw at y cyfeiriad hwn ac am drafod y ll. hon gyda fi.) Cyfeirio'n ffigurol at ei fab a wna Ieuan Gethin, fel un a roddai gywirdeb, safon neu lawenydd i'w fywyd (yn yr un modd ag y mae teclyn tiwnio yn adfer cywirdeb nodyn).
- 15 **Am hyn fe ddarfu 'mhoeni** Dilynir llsgr. I yma, ond nid amhosibl ychwaith fyddai darlleniad Llywelyn Siôn, *fe dderyw* (felly GyB 72). Ceir bron yr union l. gan Ddafydd ap Gwilym mewn cerdd i Forfudd, DG.net 157.45 *Am hynny darfu 'mhoeni*.
- 20 Tybed a ddylid darllen *Y mae 'm boen am fy mab i* (neu *am 'y mab i*), a'r 'm yn gywasgiad o'r ardd. *ym*?
- 23 **heb nemor o'r cof** Am y gystrawen, cf. GDL1 36.58 *Mae'r wadd heb nemor o wŷr* (am Risiart III). Yn llsgr. I darllenwyd *heb ddim or cof*, sydd hefyd yn bosibl; byddai'r ll. felly'n fyr o sillaf, ond gellid ei hadfer drwy ddarllen *Y mae*, fel sydd yn ll. 21, er mai *Mae...* a geir yn llau. 22 a 24. Am *heb ddim o*, cf. yn arbennig y cwpled hwn gan Ieuan Deu-

- lwyn, ID I.47–8 *mae yr enaid mor unig / y mae r corff heb ddim or cig.*
- 25 **golygon** ‘Llygaid’ yw’r ystyr yma, gw. GPC 1453 d.g. *golwg*.
- 28 **enaid** Cf. ll. 24; ond gall mai ‘cyfaill’ yw’r ystyr y tro hwn, gw. GPC 1211–12 d.g. *enaid* (4).
- 30 **teilyngach** Tr.ml. i’r traethiad mewn brawddeg neg.
- 31 **Siôn** Ceir awgrym yn ll. 4 (*Heb awen mwy, heb un mab*) mai Siôn oedd unig fab ei rieni pan ganwyd y gerdd hon, ac efallai, felly, iddo gael ei enwi ar ôl ei dad, yn ôl arfer gyffredin yr oes o roi enw’r tad ar y mab hynaf (ceir nifer o enghrau. yn achau WG1 a WG2). Daw *Siôn* ac *Ieuan* o’r Llad. *Johannes*; cf. y modd y mae Guto’r Glyn yn cyfeirio at y Preutur Siôn fel *Siôn* (GG.net 20.26n, 56.62n) ac fel *Ieuan* (*ib.* 23.5n, 28.3n, 67.59n). Tybed a ddefnyddid *Siôn* yn ffurf anwes ar *Ieuan*?
- carodd** Sylwer ar y ffurf *caroedd* a geir yn llsgrau. BCH, gw. 3.47n.
- 32 **cywirddaint** Ffurf l. *cywirddant*; gw. ll. 14n.
- 34 **priddyn** Cf. GPC 2886 d.g. *pridd* (e) ‘llwch fel canlyniad dadfeilio corff dynol’; cf. DG.net 149.15–16 *Ystyr pan welych y dyn / Ebrwydded yr â’n briddyn* (‘Rhybudd y brawd llwyd’).
Atebir *m* gan *n* yn y ll. hon.
- 35 **rhoes** Ffurf l un.grff.myn. y f. *rhoi*, cf. 7.19 [*p*]rofes ‘profais’.
- 36 **gloyw Iesu a’r gloywsaint** Dyma ddarlleniad yr holl lsgrau., gan felly ailadrodd yr un gair o fewn y ll. (Gwrthodir hynny yn GyB 74 a diwygio *gloywsaint* yn *glewsaint*.) O gofio am ddieter y bardd tuag at Iesu a’r seintiau am na wrandawsant ar ei weddïo, y mae’n ddigon posibl fod yr ailadrodd yn fwriadol eironig.
- 40 **pwys o aur** Am yr arfer o roi cyfoeth ar fedd er lles enaid yr ymadawedig, gw. 10.23–4 *Er hwnnw y rhôl Wynedd / O aur ei bwys ar y bedd*, a gw. *ib.n.* Y mae’r bardd am i’r aur brynu bywyd ei fab yn ôl.
- 51 **myned â’m eos** Honna’r bardd iddo addo i Dduw y byddai’n mynd â’i fab i Gaer i gael iachâd (cf. 9.77–82, lle y mae’n sôn am gludo corff ei ferch farw at Gynin ac yna at allor Dewi yn Nhyddewi). Ar alw Siôn yn *eos*, a’r posiblwydd fod hynny’n awgrymu ei fod yn gyw telynor, gw. y nodyn cefndir uchod.
- 52 **Caerlleon Gawr** Sef Caer (S. *Chester*). Fel y dywedir yn GyB 71, ‘Ystyr yr ail elfen yn yr enw Caerlleon yw “llengoedd”, ond credid gynt mai enw cawr ydoedd.’ Yr oedd yno grog enwog iawn fel gwrthrych defosiwn, gw. B.J. Lewis, *Welsh Poetry and English Pilgrimage: Gruffudd ap Maredudd and the Rood of Chester* (Aberystwyth, 2005); cf. hefyd GG.net cerdd 69 lle cyfeirir yn arbennig at allu’r Grog i iachâu.
- 56 **Ni’m clyw saint, ni’m clywai Siôn** Dyma ddarlleniad yr holl lsgrau. ac eithrio un testun gan Lywelyn Siôn, H *nym klywai saint nym klyw Sion*.

Darlleniad H a geir yn GyB 74, ac er ei fod yn rhoi ystyr well ar un olwg, anodd gwrthod y darlleniad arall yn wyneb tystiolaeth unfrydol gweddill y llsgrau.

57 **diriaid** ‘Person anffodus, truan’, &c., gw. GPC 1035. Dilynir GyB 71 a chymryd mai at Ieuan, y tad, y cyfeirir, ‘Ystyr wreiddiol *diriaid* oedd un a aned dan felltith, neu un anfad, ac fe ddichon fod Ieuan yn ei feio’i hun am fethiant ei weddïau.’

58 **doed** Dyma ddarlleniad yr holl lsgrau., ac eithrio C, un o lsgrau. Llywelyn Siôn, lle y ceir *aed* (felly GyB 74). O ran y gynghanedd y mae’r ddau ddarlleniad cystal â’i gilydd, ond y mae’r cymeriad o blaid *doed* (gan gynnwys, o bosibl, gyrch-gymeriad llythrennol â dechrau’r gerdd). Mwy naturiol, efallai, fyddai i’r bardd gloi’r gerdd â dymuniad i weld ei fab yn *mynd* i’r nefoedd (sydd yn esbonio, efallai, pam y bu i Llywelyn Siôn ei newid), ond dilynir trwch y lsgrau.

9

Awdl farwnad gan Ieuan Gethin i’w ferch ei hun yw hon.¹ Yn wahanol i’r cywydd marwnad i’w fab Siôn a fu farw o’r frech ddu (cerdd 8), nid enwir y ferch² ac ni fanylir ar achos ei marwolaeth, ond y mae’n ddigon posibl mai’r un haint a fu’n gyfrifol am ei chipio hi. Y mae hon yn gerdd bwerus iawn, ac y mae’r modd y mae’r bardd yn disgrifio’n onest ei wewyr meddyliol yn ei golled yn rhoi apêl oesol iddi. Y mae’n un o gasgliad bychan o farwnadau sydd wedi goroesi gan feirdd i’w plant eu hunain o’r Oesoedd Canol, ac medd Dafydd Johnston amdani, ‘O safbwynt seicolegol hon yw’r gerdd fwyaf cymhleth a diddorol yn y casgliad.’³

Y mae’r llinell gyntaf (*Iddi hi canaf i, cwyn fydd—am hon ...*) yn agoriad braidd yn annisgwyl, ond go brin fod unrhyw beth ar goll, gan fod llinell olaf y gerdd yn cyrchu’r llinell hon drwy gyfrwng y gair *Iddi*. Y mae’n gwbl amlwg i’r gynulleidfa pwy yw’r *hi* a’r *hon*, fel nad oes angen manylu. Ai yng ngŵydd teulu a chyfeillion ym Maglan y canwyd hi? Cwbl unigryw yw’r modd y delwedda’r bardd ei wewyr meddwl drwy gyfleu sgwrs uniongyrchol rhyngddo ef a’i wraig, lle y mae hi’n ei gynghori i wneud amdano’i hun drwy foddï ym Môr Hafren yn hytrach nag anobeithio’n llwyr yn ei alar. Wffftio’r cyngor a wna Ieuan, gan nodi ei fwriad i apelio at Sant Cynin a’i weision i atgyfodi ei ferch, ac os yw hynny’n methu, fe aiff â’i chorff i Dyddewi i’w osod o flaen dau sant yr eglwys honno, Dewi ac Andreas (gw. llau. 77–82). Yna byddant hwy yn cydweithio i sicrhau bod ei

¹ Ceir testun o’r gerdd yn Glam Bards 35–9; fe’i golygwyd yn Ieuan Gethin, &c.: Gw cerdd 3 a GyB 78–89.

² Yn ôl yr achau yr oedd gan Ieuan Gethin bedair merch, sef Jane, Joan, Gwenllïan ac Efa; gw. WG1 ‘Iestyn’ 6.

³ GyB 16.

henaid yn cael ei adfer ynddi (ll. 84) a'i bod yn cael ei chodi o farw'n fyw o'r *fudr dew ddaear*, yn yr un modd ag yr adferwyd i Lasarus ei fywyd yntau gan Grist (llau. 85–6).

Fel y nodwyd, ni wyddom enw'r ferch, ac ni allwn fod yn sicr o'i hoedran ychwaith. Nid yw'r *terminus ante quem* 1447 ar gyfer y gerdd (gw. llau. 53–4n) yn gymorth i gynnig oedran iddi, ond sylwer bod Ieuan yn cyfeirio ato'i hun fel hen wŷr (gw. llau. 21 *cleiriach llwyd*, 51 *cleiriach*). Cawn yr argraff mai merch gymharol ifanc oedd hon, ond nid plentyn: fe'i disgrifir gan ei thad â delweddau'r canu serch (ll. 8 *deune geirw*, ll. 14 *unlliw eiry gawad*, ll. 41 *riain fain fanadl ddigri*, ll. 42 *ddyn melyn*, &c.), ac y mae'r cyfeiriadau ati fel *hylwydd gynheiliad—gwinllys* (ll. 13) ac fel un y mae lles y wlad yn dioddef oherwydd ei marwolaeth (llau. 15–16), yn awgrymu ei bod yn ddigon hen i weithredu fel noddwraig yn y llys.⁴ Cyfeirir at ei chartref fel Glyn Seri, ond gan na lwyddwyd i ddod o hyd i gyfeiriadau pellach at y lle, ni wyddys ai ym Maglan yr oedd neu mewn ardal wahanol (gw. ll. 58n).

Mesur a chynganedd

Awdl, 90 llinell.

Ymranna'n ddwy ran o ran ei mesur:

1. Llinellau 1–24: cyfres o englynion wedi eu clymu gan gyrcgymeriad geiriol sydd yn cysylltu diwedd pob englyn a dechrau'r englyn nesaf. Y mae llinellau 1–4, 13–24 yn englynion unodl union (a'r brifodl yn wahanol ym mhob englyn), a llinellau 5–12 yn englynion proest. Cysylltir diwedd yr englyn olaf â dechrau'r rhan nesaf â chyrchgymeriad.
2. Llinellau 25–90: penillion o wawdodyn (llau. 25–76, 83–90 yn benillion pedair llinell o wawdodyn byr a llau. 77–82 yn bennill chwe ll. o wawdodyn hir).⁵

Y mae'r synnwyr yn symud fesul pennill, ac y mae cymeriad llythrennol neu eiriol yn clymu llinellau'r rhan fwyaf o'r penillion â'i gilydd. Os yw'r frawddeg yn rhedeg dros nifer o linellau, ceir yn aml gymeriad synhwyrol (e.e. llau. 23–4, 49–52, 79–82, &c.).

Cynganedd (heb gynnwys ail linell yr englynion unodl union): croes 17% (14 ll.), traws 25% (22 ll.), sain 49% (42 ll.), llusg 8% (7 ll.), digynganedd 1% llinell (1 ll.).

Ceir cynganedd bengoll yn y llinellau canlynol: 21, 35, 41, 48, 68, 70, 87, 88, 89; ni cheir cynganedd yn llinell 64 (ond llunia gynganedd sain â'r gair cyrch yn y llinell flaenorol) a chytseinedd yn unig a geir yn llinell 76. Nid atebir *d* ar ddechrau llinell 12. Y mae nifer o linellau yn rhy hir neu fyr,

⁴ Cred D. Johnston ei bod tuag 11 oed pan fu farw, *ib.* 14.

⁵ Ymhellach ar wawdodyn, sy'n cynnwys dwy l. o gyhydedd naw ban a thoddaid hir (gwawdodyn byr) neu nifer o lau. o gyhydedd naw ban a thoddaid hir (gwawdodyn hir), gw. J. Morris Jones: CD 340–2.

a thynnir sylw at y rhain yn y nodiadau isod.

- 2 **ni wna** Llsgrau. C¹C²G *a wna*; dyna hefyd oedd darlleniad gwreiddiol K ond cywirodd William Salesbury *a* yn *ni* yno, gan sylweddoli bod angen bf.neg. Gall mai camraniad a fu'n gyfrifol am yr *a* yng nghynsail y pedwar testun, ac mai'r gn.neg. *na* a geid yn wreiddiol (*mhen na* > *mhen a*). Ond y mae angen prif frawddeg yma, ac felly derbynnir cywiriad Salesbury.
- 2–3 **ni wna cywydd / Eithr awdl ...** Fel y dywedir yn GyB 78, dengys y geiriau hyn fod yr awdl yn fwy aruchel yng ngolwg Ieuan Gethin na'r cywydd; cf. I. Daniel, 'Rhaglith i gerdd gan Sypyn Cyfeiliog: dogfen hanesyddol?', *Dwned*, 1 (1995), 63.
- 3 **awdl ar ei thrydydd** Am yr ymadrodd *ar ei drydydd* 'as one of three, with two others', gw. GPC 3639, ac am yr ystyr yma, cf. yr awgrym yn GyB 78 fod Ieuan Gethin yn cyfeirio at 'y defnydd o dri gwahanol fesur yn y gerdd, fel oedd yn arferol yn y bymthegfed ganrif, sef englynion unodl union a phroest, ac yna gwawdodyn yng nghorff y gerdd'. O dderbyn hyn, y mae'n rhaid cymryd bod Ieuan yn cyfeirio at yr englyn fel un o fesurau'r awdl; eto i gyd, y mae'n enwi'r englyn ar wahân yn ll. 4 (*ac englyn*). Y mae'r gramadegau barddol hefyd yn tueddu i drin mesurau'r awdl a'r englyn ar wahân, cf. GP 9 (llau. 26–30) *Hyt hynn y dywespwyt am yr eglwynon. Dywetter bellach am yr eil geing o brydydaeth, nyt amgen, am odleu, a'e messureu, a'i hamkaneu. Pump messur kyffredin o'r dechreu a uu ar odleu, nyt amgen, todeit, a gwaewdodin, a chyhyded hir, a chyhyded uerr, a rupynt.*
Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf oni thrinnir *eithr* neu *awdl* yn ddeusill.
- 6 **un Duwllun** Hepgorwyd *Un* yn llsgrau. C¹C², o bosibl er mwyn y cymeriad ac ychwanegwyd *im* ('ym') yno ar ôl *pe* i gyflawni'r saith sillaf.
dyellyd Ffurf 2 un.amhff.myn. *dyall* (amr. ar *deall*, GPC 907); am y terfyniad *-yd*, cf. *ellyd* yn GPhE 9.43–6 *Pe cai wen yr aur gennyd / A chaniatau dy chwant yd, / Ni ellyd, rhag trymfyd tranc, / Ddinwyfo y ddyn ifanc.* Gwelir yn GMW 121 mai *-ud* oedd y terfyniad gwreiddiol. Dehonglir *gwyddyd*, isod ll. 75, yn yr un modd.
- 7 **Dwyn ymaith, nid dan amod** Ni chaledir y ddwy gytsain feddal *-d d-* yma; cf. 2.25 *Abwyd dyn, a bod yno.*
- 8 **Deune geirw, dyn a gerid** Cf. yn arbennig DG.net 34.19 *Deune geirw, dyn a garaf.*
- 13 **gwinllys** Gthg. llsgrau. GK *winllys* a'r cywiriad yn C². Rhydd y ffurf gysefin well cynghanedd ag ail l. yr englyn, a derbyn bod y cys. *ag* yno'n ddilys.
- 13–16 Englyn cymhleth lle y ceir tair haen o ystyr: *Rhy ebrwydd ... / ... / ... cyd bwyf irad*, mynegiant o golled sydyn y bardd (gan ddeall *cyd*, yn

- betrus, i olygu ‘pe’, GPC 658 d.g. *cyd*³(b); y mae’r tristwch yn arwydd o’r gollod; *hylwydd gynheiliad—gwinllys / Ac unlliw eiry gawad*, disgrifiad o’r ferch fel noddwraig hardd; *Ni bu farw ... / Arglwyddes ar les y wlad!*, dull rhethregol o fynegi colled y gymdeithas ar ei hôl. (Gwrthodir darlleniad GyB 80 *Mor ebrwydd* gan nas ceir yn y llsgrau.)
- 15 **cyd bwyf irad** Cysefin y traethiad sy’n arferol ar ôl *cyd bwyf*, gw. Treigladau 321, felly cymerir mai ffurf gysefin yw *irad* yma; gw. GPC 2026 d.g. *irad*¹ yn hytrach nag *ib*. 1398 d.g. *girad*. Ceir y ffurf amr. *eirad* yn 8.7n. Ar ystyr a chystrawen gymhleth yr englyn, gw. y nodyn blaenorol.
- 17 **em** Y ffurf dreigledig a geir ym mhob llsgr. (gthg. GyB 80 *gem*), a chymerir bod *em ddiwygus—hael* mewn cyfosodiad â’r brif frawddeg: *Y wlad am ddygiad ... / Y sy’n hwyl alarus*.
- 21 **cleiriach llwyd** ‘Hen ddy’n’, cf. ll. 51. Nid tad ifanc sy’n marwnadu ei ferch yma, felly.
- lleuad—Fai** Cf. Ieuan Gethin, &c.: Gw 132, ‘Yn ôl traddodiad yr oedd lleuadau’r mis hwn yn enwog am eu prydferthwch megis lleuadau mis Medi.’ Canodd Gruffudd Gryg gerdd i leuad Fai, gw. GGGGr cerdd 6 (a gw. yn arbennig l. 72).
- 24 **dyn gwyn** Gthg. GyB 82 *ddyn gwyn*: dilynyr y llsgrau. a chymryd bod yma wrthsefyll treiglo ar ddechrau ll. Trinnir *dyn* yma yn eg., er mai at y ferch y cyfeirir; cf. ll. 42 *ddyn melyn* a gthg. 7.6 *dyn fain*, &c.
- hyn** Defnyddir y rh. dangosol *hyn* mewn Cym.C. gydag enwau haniaethol, gw. GMW 83, fel y gwneir mewn rhai tafodieithoedd deheuol heddiw.
- 25 **adwaeniad** Ffurf 3 un.amhff.myn. *adnabod*, gw. GMW 148 a cf. *gwyddiad*, ll. 51. Cymerir bod y rh.pth. wedi ei gywasgu yn y f. (< *a adwaeniad*).
- 26 **gem o’m urddas** Derbynnir darlleniad llsgrau. GK; nid amhosibl ychwaith C¹ *gem ym o vrddas*, C² *gem o vrddas*. Gthg. GyB 82 *gem am urddas* ‘a jewel of dignity’.
- 27 **clwyf ofal** Gan mai eg. yw *clwyf*, rhaid cymryd bod yma engh. o’r gystrawen ‘hydref ddail’ a bod grym disgrifiadol i *clwyf*.
- fyfi** Fe’i hacennir ar y goben er mwyn y gynghanedd, cf. 1.4n ar *myny*.
- 28 **gwedy’r** Gw. 2.27n.
- 30 **myned trosti** Gan mai eg. yw *cof* a *tristwch* yn y frawddeg hon, y mae’n rhaid mai cyfeirio at y ferch a wna *trosti*. Am *mynd dros* rhydd GPC 40 ‘to cross, retrace; intercede; cheat’, ac felly aralleirir yn bur llac yma. Am *dros gof* ‘into oblivion’, gw. *ib*. 3616.
- 32 **gwan ynad** Dyma ddarlleniad y llsgrau., a gellir deall *ynad* yn ffigurol

- am y bardd fel un sydd yn *gweini marwnad* (yn yr un modd ag y byddai *ynad* yn gweinyddu'r gyfraith). Eto i gyd, y mae'n ddigon posibl fod gan Ieuan Gethin ran yng nghyfraith ei fro. Gwrthodir diwygiad GyB 32 *anynad* 'morose', er cystal yr ystyr a roddai yma.
- 33 **mae** Llsgrau. C¹C²GK y *mae*. Hepgorir y gn. y er mwyn hyd y ll.; y mae'n bosibl ddarfod ei ychwanegu ef oherwydd tybio bod *troi* yn unsill, ond rhaid i'r f. honno fod yn ddeusill er mwyn y brifodl *-i*.
- 33–4 **tröi / ... i mi** Am *troi i* 'to visit', gw. GPC 3606.
- 35 **saeth ... soddi** Dichon mai cynghanedd sain bengoll sydd yma yn hytrach na bod *dd* yn ateb *th*. Ceisiodd C² drwsio'r ll. gan newid *soddi* > *a seithi*.
- 36 **amdani** Y ffurf *amdeni* a geir yn y llsgr. hynaf, K; a cf. *ohoni* (*oheni*) a geir yn narlleniadau 1.48.
- 37 **golesg y'm darfu** Aralleiriwyd yn llythrennol; ai dweud ei fod mewn cyflwr llesg iawn oherwydd ei alar y mae Ieuan Gethin?
- 39 **anheuli** Unig engh., nas rhestrir yn GPC 294. Awgrymir yn GyB 89 mai ffurf enwol yn cynnwys *an-* cryfhaol + *haul* ydyw ('sunlight', *ib.* 83). Ond yn betrus fe'i cysylltir yma â'r f. *heulo* 'tywynnu, disgleirio', &c. (GPC 1862), a'r *an-* yn neg.: cyfarch ei ferch ([*c*]einwen) a wna Ieuan, a chwyno un ai bod ei disgleirdeb hi'n pylu neu ei bod hi, drwy ei marwolaeth, yn achosi i'w fywyd ef golli ei ddisgleirdeb.
- 41 **banadl** Delwedd gyffredin gan y beirdd am wallt melyn merch. Am y tr. yma (a'r e. yn ansoddol), cf. DE XIV.39–40 *Ysgub fanadl mair fadlen / yw r imp aur i rwymo r pen* (eto am ferch eurwallt). Posibilrwydd arall yw darllen *f'anadl*.
- 42 **dyn melyn** Er bod *dyn* yn cael ei drin fel eg. yma, at y ferch y cyfeirir; gthg. 6.31 *fy nyn burwen*.
- ym i'w moli** Tybed pa fath o gerdd y byddai Ieuan Gethin wedi ei chanu i'w ferch? Ai rhy fentrus fyddai awgrymu y gallai fod wedi canu cerdd 6 iddi?
- 43 **Dewi—f'arglwydd** Gall y bardd fod yn apelio at Ddewi fel sant eglwys leol, neu ynteu fel sant ac iddo awdurdod dros y gweddill; cf. llau. 81–2.
- 44 **ym gelu** Dilynir arweiniad y llsgrau. a'u deall yn ddau air: *Och ... / ... am gael trengi yw'r prif gymal*, a deallir *ym gelu tramgwydd* yn isgymal rheswm. Ond nid amhosibl GyB 82 *ymgelu* (lle y cyfieithir *ymgelu tramgwydd* fel 'sinful escape', a'r e. *tramgwydd* felly'n ansoddol). Atebir *tr/mg* gan *tr/ng* (a rhaid ynganu *n-g* fel dwy gytsain).
- 45 Ceir darlleniad unigryw yn llsgr. C² a fyddai hefyd yn bosibl (er bod y cymeriad llafarog o blaid darlleniad y testun golygedig): *Nid oes iechyd*

ym ond dwys ochi.

- 48 **Tywi** Dyma ddarllenriad pob llsgr. ac eithrio *K teiui*. Nid yw'r naill afon na'r llall yn agos i Faglan. A oedd Glyn Seri (ll. 58n), cartref y ferch, ar lannau afon Tywi (neu afon Teifi)? O gofio mai'r ffurfiau *Abertawy* a *Tawy* a geir gan y bardd deheuol Lewys Glyn Cothi am Abertawe ac afon Tawe (gw. GLGC tt. 666, 673), tybed ai ffurf ar enw'r afon honno a geir yma? Yr oedd afon Tawe yn llawer nes at Faglan. Ceir tuedd yn y dafodiaith i droi *a > o* o flaen *w*-gytsain, felly byddai *Tawy > Towy > Tywi* yn ddatblygiad digon posibl.
- 49 **perhôn** Ar y ffurf hon ac iddi rym cys., gw. GMW 243 a GPC 2947 (5).
- 51 **gwyddiad** Ffurf 3 un.amhff.myn. y f. *gwybod* (cf. ll. 25 *adwaeniad*) o bosibl gyda grym yr amodol yma, cf. GG.net 44a.23–5 *O châi Ferddin ddiplinoed / Glyn yr wŷn a'r gwlan ar oed, / Gwyddiad atal am dalu ...*
- 53 **pe mau dda'r Brenin** Y ffurf gysefin a geir yn llsgrau. C¹C²; ond am y tr.ml. (a geir yn llsgrau. GK), cf. GDID XVI.22 *Pe mau dorth o'r ymborth hwn*. Am y syniad, cf. 10.25–6 *Diffael, a chaniadu ffin, / Oedd i'w brynu dda brenin*.
- 54 **Brenin ... Harri / Ac esgob Winsieistr** Un ai Harri V a deyrnasodd yn 1413–22, neu, yn fwy tebygol, ei fab Harri VI a deyrnasodd yn 1422–61, 1470–1. Gallwn dderbyn yn hyderus awgrym T. Roberts, 'Marwnadau plant y beirdd', *Traeth*, Hydref 1942, 149, mai Henry Beaufort, ail fab John o Gaunt trwy Kathryn Swynford, yw'r esgob y cyfeirir ato yma. Fel y dywed G.L. Harriss amdano, 'Henry Beaufort's wealth was notorious – indeed he was the wealthiest English prelate of the late middle ages. He was known as the Rich Cardinal', gw. DNB Online *s.n. Henry Beaufort*. Bu farw'r esgob yn 1447, felly gallwn ddyddio'r gerdd cyn y flwyddyn honno (a chymryd ei fod yn dal i fod yn fyw pan ganwyd hi).
- 55 **pwŷ** Dilynir yma llsgrau. C¹(C²)K; am *pwŷ*, amr. ar *po*, gw. GPC 2948 d.g. *pwŷ*². Yn GyB 84 darllenir *mwyfwy'n fy ng(h)ofal myfi—fy nghyfoeth*, gan ddilyn llsgr. G.
- 56 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *mi a'i rhown* yn ddeusill.
- 58 **o Lyn Seri** Dichon mai *Glyn* yn hytrach na *Llyn* yw'r ffurf gysefin, ac ymddengys mai dyma enw cartref y ferch. Ni welwyd yr un cyfeiriad arall at y lle hwn, a all fod yn enw tŷ neu'n enw ar ardal (gw. y nodyn cefndir). Am yr elfen *seri* 'sarn, palmant' a geir yn gyffredin mewn enwau lleoedd, gw. I. Williams, 'Nodiadau cymysg', B xi (1923–5), 148–9, ac I. Williams: ELI 82 lle y nodir i'r e. gael ei newid yn ddiweddarach '*Sherry, Seiri, Sieri, Siri*, a hyd yn oed *Cicero*' ym Môn ac Arfon. Ceir Ffynnon Seiri yn Llangynog yn sir Gaerfyrddin (SN 3317, 51.82–4.410833), ddwy filltir a hanner i'r gorllewin o afon Tywi

- (ll. 48). Cyfeiria Dafydd ap Gwilym at Nantyseri (DG.net 120.2n), ond yng Ngheredigion yr oedd hwnnw.
- 59 **cuddug** Llsgrau. C² *kvdic*, G *kvddugl*, K *cadduc* a cheir bwlch yn C¹. Er mwyn y gynghanedd, dilynir GyB 84, a'i ddeall yn amr. ar *cuddygl* 'cell', GPC 628.
- gar môr** Dilynir C²; *caer* neu *gaer môr* a geir yn y tair llsgr. arall. Yr ardd. sydd fwyaf ystyrion yma. Am *gar*, ffurf amr. ar *ger*, gw. GPC 1394.
- 60 **'nghytsor** Dilynir llsgrau. C¹C², cf. G *fynghytsor*, a gthg. K *vynghydfor*. Ni restrir *cytsor* yn GPC 824 ac yn betrus fe'i deallir yn gyfuniad o *cyd-* + *sor* 'dig, sarrug, pwdlyd', *ib* 3321; cf. GyB 85 '*companion in misery*'. *Cyfeirio* at ei wraig a wna Ieuan a gall olygu rhywbeth nes at 'chwaer'.
- 61 **yr ymdrewi** Derbynnir darlleniad llsgrau. C¹C²G, a'i ddeall yn ffurf 2 un.pres.myn. *ymdaro* 'gwrthdaro, ... ymrafael' neu 'ymorol amdano ei hun, ymdopi, ... delio, ymwneud', GPC 3765. Nid cystal yw darlleniad K *ath ymdroi* 'a'th ymdröi'.
- 63 **brath Hafren â'th ben** Deallir *brath* yn f. 2 un.grch.: 'bratha Hafren â'th geg', hynny yw, cer i'th roi dy hun yn yr afon, cf. ll. 64 *Nid rhaid yt feddig ond dy fodd*. Ar *pen* 'ceg', gw. GPC 2726 *pen*¹ 1(d). Gthg. dehongliad GyB 84–5 o'r ll., '*thrust like the Severn, and your head hurting, don't linger*'.
- 65 **mewn gardd gorddi** Ceir yr un ymadrodd gan y Nant (ond mewn cyswllt gwahanol), GyN 7.89–92 *Dwbled o felfed / Ne ddwbled o siamled / Am Ddafydd i gerdded / Mywn gardd gorddi*. A yw gwraig Ieuan yn llau. 65–6 yn cyfeirio at wewyr calon y beirdd serch, ond yn llau. 67–8 yn dweud ei bod hi'n llawer gwaeth ar Ieuan yn ei hiraeth ef ([*c*]yllaeth) oherwydd ei fod wedi colli ei anwylyd, ac felly nid oes dim iddo'i wneud ond ymadael â'r byd? (Ar y ffurf *mewn* yma, gw. 1.29n.)
- 67 **cyllaeth** GPC 751 'gofid, dolur, tristwch, hiraeth', ond gan esbonio'r ffurf fel adffurfiad geiriadurol y ceir yr engh. gynharaf ohoni yng ngeiriadur Wiliam Llŷn yn yr 16g.; cf. GPC² 459 d.g. *argyllaeth*, lle y nodir *cyllaeth* yn ffurf ddamcaniaethol.
- 70 **dwys** Fe'i deallir yn ddisgrifiad o ddrws yr eglwys, ond gellid ei ddeall yn gyfeiriad at natur yr eglwys, 'difrifol, sobr', gw. GPC 1111 a cf. GyB 87 '*the sombre church*'.
- 71 **gorwen** Ceir y darlleniad amr. *kynn barn* yn C², a rydd gynghanedd lusc. Ond ceir gwell synnwyr o dderbyn darlleniad y gweddill, sy'n rhoi ll. ddigynghanedd.
- 74 **Tripheth a weryd pob caledi** Ni cheir cynghanedd yn y ll. hon (cf. ll. 76), ac yn llsgrau. C¹C² darllenwyd *warded*, o bosibl er mwyn llunio cynghanedd lusc (a fyddai'n annerbyniol, fodd bynnag, yn ail fraich y

- pennill). *Gweryd* yw ffurf safonol 3 un.pres.myn. y f., cf. ll. 87.
- 75 **gwyddyd** Cf. ll. 6n ar *dyellyd*.
- 76 Cytseinedd yn unig a geir yn y ll. hon. Hefyd y mae'n rhaid cywasgu *offrymu i* yn deirsill er mwyn hyd y ll.
- 77–8 **Cynin ... / Gyda'i weision ef** Awgryma'r cyfeiriad yma ac yn ll. 79 fod Cynin yn sant ac iddo arwyddocâd arbennig i Ieuan Gethin, ond ni wyddys pam. Ceir eglwys yn Llangynin i'r gorllewin o Gaerfyrddin a gysegrwyd gynt i Gynin a'i Weision, gw. LBS ii, 261 a cf. GyN 12.39. Os cyfeiria Ieuan at bererindod i Dyddewi (cf. ll. 82), gellid derbyn awgrym GyB 79 y byddai Llangynin yn 'rhyw fan canol ar y pererindod o Forgannwg i Dyddewi'. Ceir hefyd drefgordd o'r enw Tregynin yn Llangathen, rhyw filltir i'r gogledd o afon Tywi, gw. WATU 211.
- 80 **hedydden** Nis rhestrir yn GPC 1184 d.g. *ehedydd, hedydd*, ond fe'i deallir yn ffurf fachigol ar y gair hwnnw, yn ffigurol am y ferch.
- 82 **allawr ddwywawr Ddewi** Cf. GyB 79 'Roedd Eglwys Gadeiriol Tyddewi wedi'i chysegru i Ddewi ac Andreas ar y cyd.'
- 84 **yndi** Ffurf amr. ar *ynddi* a geir yn nhafodieithoedd y de ers y 15g., gw. GPC 3814; fe'i defnyddir hefyd gan y Nant, a oedd hefyd yn canu ym Morgannwg, gw. GyN 11.87n.
- 85 **croesteg** Cf. llsg. K *Coys Tec*; gthg. llsgrau. C²G *kroes duw* (sydd yn ddarlleniad posibl o gymryd y gair yn gyfansawdd, 'croesDuw') ac yn C¹ *Kroes* yn unig. Y mae'r enghrau. eraill o *croesteg* a gafwyd hefyd yn cynganeddu â *Crist* neu *Cristi*, fel yma: cf. GGMD ii, 1.138 *Croesteg eurog Lyw, Crist a garain*'; GGLl 1.59 *Medd trist ni wnaeth Crist croesteg*; DG.net 2.3 *Enaid teg, croesteg Cristi*. O ran ffurf, disgwylid iddi fod yn a., ac felly fe'i deallir yn enwol am Grist, 'un hardd ei groes'.
- 85 **Cristi—am Lasar** Ceir ansicrwydd yn y llsgrau. Dilynir llsg. K yma; gthg. GyB 86 *croes deg ... Crist i—am Lasar*. Am y cyd-drawiad *croesteg / Cristi*, gw. y nodyn blaenorol. Ceir hanes *Lasar*, sef Lasarus, brawd Martha a Mair a godwyd o farw i fyw gan Grist, yn Ioan xi.1–46 a gw. ODCC³ 966.
- 87 **mae'n lym loesi** Ni ddisgwylid tr.ml. i *llym* yn dilyn *yn*, ond gw. Treigladau 243–4 lle y ceir enghrau. eraill o dreiglo mewn Cym.C.
- 88 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf a cheir ynddi *m* heb ei hateb.

10

Er mai *marwnad* y gelwir y gerdd hon ym mwyafrif y llawysgrifau sydd yn rhoi teitl iddi,¹ nid marwnad arferol mohoni gan nad oes unrhyw awgrym

¹ Golygwyd y gerdd hon yn Glam Bards 19–22, 335–6; Ieuan Gethin, &c.: Gw cerdd 11.

fod Ieuan Gethin wedi adnabod Owain Tudur (ni cheir unrhyw foliant i'w rinweddau personol neu gymdeithasol, megis dewrder, haelioni, lletygarwch ac ati), ac ni cheir ychwaith awgrym fod y farwnad hon wedi ei chanu ar aelwyd y teulu.² Yn hytrach, esbannir amgylchiadau marwolaeth Owain Tudur, mynegir siom fod un a fu'n wrthrych gobeithion y beirdd brud bellach wedi ei ladd, ac yn olaf datgenir ffydd yn y dyfodol dan arweiniad Siasbar Tudur a'i nai Harri Tudur.

Yn rhan gyntaf y gerdd (llau. 1–28), sonnir am sut y bu i Owain Tudur farw yn sgil brwydr Mortimer's Cross, un o brif frwydrau Rhyfeloedd y Rhosynnau a ymladdwyd ar 2 neu 3 Chwefror 1461, ar lannau afon Lugg ([*D*]yffryn *Llugwy*, ll. 2), heb fod ymhell o Henffordd (ll. 7).³ Yn arwain plaid Iorc yr oedd llanc ifanc deunaw oed, Edward, dug Iorc (ef yn ddiweddarach fyddai'r Brenin Edward IV), gyda chymorth arglwyddi pwerus megis Syr Walter Devereux a'i fab yng nghyfraith, Syr Wiliam Herbert o Raglan. Yn arwain plaid Lancaster yr oedd Owain Tudur, ei fab Siasbar Tudur a James, iarll Wiltshire. Byddin Iorc a orfu a dihangodd Siasbar ac iarll Wiltshire, ond cipiwyd Owain Tudur ac aethpwyd ag ef i Henffordd lle y dienyddiwyd ef ychydig ddyddiau'n ddiweddarach (llau. 17–20). Yn ôl Croniel Gregory, pan sylwedolodd Owain beth oedd ar fin digwydd iddo, ynganodd y geiriau canlynol wrth gael ei arwain at y maen dienyddio: *That hede shalle ly on the stocke that was wonte to ly on Quene Kateryns lappe*. Ar ôl y weithred, gosodwyd pen Owain i'w arddangos ar ran uchaf croes y farchnad a daeth dynes wallgof ato i olchi'r gwaed oddi ar ei wyneb.⁴ Cwyn Ieuan Gethin yn y gerdd hon yw bod Owain wedi ei ddienyddio heb i'w gefnogwyr gael y cyfle i dalu pridwerth neu dâl amdano (gw. llau. 22–4).⁵ Honnir y byddai'r brenin hefyd (sef Harri VI) wedi bod yn barod i dalu am einioes Owain, pe cawsai'r cyfle (llau. 25–6 *Di-ffael, a chaniadu ffin, / Oedd i'w brynu dda brenin*).

Yn ail ran y cywydd (llau. 29–52), mynegir siom yn y canu brud yn sgil y methiant hwn i *Goroni'r gŵr o Wynedd* (ll. 32n). Yn wir, cwynir na wireddwyd canu brud y beirdd ar hyd yr oesoedd, a chelwydd fu cerddi beirdd megis *Adda Fras* (ll. 34), *Heinin Fardd* (ll. 36), Myrddin, y [*m*]ab *lleian* (ll. 39) a [*Th*]aliesin (ll. 42). Bu proffwydo mawr am Owain, ond gyda lladd Owain Tudur, collwyd trydydd Owain y bu gan y Cymry gymaint o ffydd ynddo fel mab darogan (y ddau arall oedd Owain Lawgoch (ll. 47) ac Owain y Glyn, sef Owain Glyndŵr (ll. 48)). Ond nid oes rhaid anobeithio, ac yn rhan olaf y gerdd (llau. 53–62) y mae Ieuan Gethin yn

² Ar achau Owain Tudur, gw. nodyn cefndir cerdd 1.

³ Ar frwydr Mortimer's Cross, gw. yn enwedig WWR² pennod 6; C. Ross, *Edward IV* (London, 1974), 31, 33, 35 *et passim*; R.A. Griffiths, *The Reign of King Henry VI* (Stroud, 1981), 871 *et passim*.

⁴ Dyfynnir o *ib.* 871.

⁵ Dyma'n union hefyd a ddigwyddodd i Wiliam a Rhisiart Herbert yn dilyn brwydr Banbri yn 1469: dienyddiwyd y ddau heb roi cyfle i'w cefnogwyr dalu am eu bywydau.

gosod ei obeithion am y dyfodol yn nwylo Siasbar Tudur, mab Owain, ac yn Harri Tudur, ei wŷr.

Yn wahanol i fwyafrif cerddi Ieuan Gethin, nid yw testun y gerdd hon wedi goroesi yn yr un o lawysgrifau'r de (e.e., ni cheir copi ohoni gan Lywelyn Siôn nac yn Stowe 959), a all awgrymu nad yn y de y canwyd hi.⁶ Y mae'n ddi-ddorol fod y ddau destun cynharaf yn llawysgrifau Pen 80 a Card 5.167, sef dwy lawysgrif â chysylltiad clòs â theulu Trefor yn ardal Llangollen, teulu a oedd yn gefnogol i'r achos Lancastraid yn sgil sawl priodas a fu rhyngddynt a theuluoedd Penmynydd a Threecastell yn y gorffennol.⁷ Tybed a oes unrhyw arwyddocâd i hynny? Ond efallai mai annoeth fyddai tybio bod y gerdd yn awgrymu ymlyniad Ieuan Gethin wrth achos Lancaster, yn hytrach na'i bod yn mynegi taer ddymuniad ganddo i weld Cymro, o ba blaid bynnag, yn llwyddo.⁸

Mesur a chynghanedd

Cywydd, 62 llinell.

Cynghanedd: croes 63% (39 ll.), traws 16% (10 ll.), sain 11% (7 ll.), llusg 10% (6 ll.). Ceir cynghanedd croes o gyswllt yn llinell 7.

1 y llu mawr Ai mintai Owain Tudur?

allai mw Disgwyliid tr.ml. yma i'r gwrth. yn dilyn bf. amhff. yn diweddu'n *-ai*, ond y mae'r gynghanedd yn mynnu'r gysefin; gw. Treigladau 214, 437.

2 Dyffryn Llugwy Ymladdwyd brwydr Mortimer's Cross ar lan afon Llugwy (S. Lugg), tua thair milltir i'r gogledd-orllewin o Lanllieni; gw. WWR² 74–80, ac am fapiau lleoliad a rhagor o wybodaeth, gw. 'UK Battlefields Resource Centre' <<http://www.battlefieldstrust.com>> dan *Mortimer's Cross*.

3 a'r gwadd Dyma ddarlenniad mwyafrif y llsgrau. Eb. yw *gwadd*, y symbol traddodiadol am y gelyn mewn barddoniaeth frud, gw. GPC 1543 d.g. *gwadd*¹ lle y nodir iddo'n ddiweddarach ddod yn derm am y Brenin Rhisiart III. Y mae'r diffyg tr.ml. yma yn awgrymu bod Ieuan yn ei drin yn eg. yn y ll. hon, o bosibl gan ei fod yn meddwl yn benodol am berson gwrywaidd (arweinydd llu'r gelyn): cf. GGMD iii, 2.61 *llorf*

⁶ Cf. cerdd 5, a ganwyd yn y Canolbarth yn ôl pob tebyg.

⁷ Cf., e.e., GG.net nodyn noddwr 'Ieuan Fychan ab Ieuan o Bengwern, *fl.* c.1432–m. 1476/7'.

⁸ Cf. sylwadau C.H. Thomas, 'Yr ymdeimlad cenedlaethol yn y Canol Oesoedd', *Heddiw*, 6 (1940–1), 171, 'Ar ochr y Lancastraiad yr oedd y Tuduriaid, bid sicr, ond diddorol sylwi bod y beirdd yr un mor barod i gefnogi Cymry ar ochr York os credent y byddai'r rheini'n debyg o gyflawni dymuniad y genedl am ryddid; oblegid nid brwydr rhwng dwy blaid oedd Rhyfel y Rhosynnau yng ngolwg y Cymry, eithr parhad o hir ymdrech y Cymry i ennill eu hannibyniaeth; a bod yn deymgar i Gymru ac yn deilwng ohoni oedd y peth pwysig yn eu golwg, nid ymlynu wrth unrhyw arwr na phlaid arbennig.'

didwyll (yn ffigurol am Hywel y Fwyall, er mai eb. yw *llorf*, gw. *ib.n*). Ond, y mae'n debygol mai at y *wadd* y cyfeiria'r rhagenwau b. yn ll. 4 hefyd: am yr anwadalu o ran cenedl, cf. GDLI 25.2 *Os gwir lladd y wadd a'i wŷr*. Gwrthodir felly awgrym N. Scourfield i ddehongli *gwadd* yn ffurf gywasgedig ar yr eg. *gwahodd* (gw. Ieuan Gethin, &c.: Gw 148 a cf. GPC 1562 d.g. *gwadd*² lle y rhoddir iddo ystyron megis 'galwad (i frwydr)').

argyweddol Unig engh., nas ceir yn GPC² 460 ac a ddeallir yn gyfystyr ag *argyweddus* 'niweidiol, difrodol, aflesol', &c. (a'r terfyniad *-ol* yn cyfleu rhywun neu rywbeth sydd yn achosi *argywedd* 'niwed', cf. *niweidiol, difrodol, &c.*).

4 **a'i gwŷr ei hun** Sef gwŷr y *wadd* yn ôl pob tebyg (gw. ll. 3n).

6 **Brytaniaid** Y Brythoniaid, sef y Cymry. Y mae'n air a geir yn gyffredin mewn cyd-destun brudiol, yn apelio at hen hawl y Cymry, a ddisgynnai o Frutus ap Sylvius o Gaer Droea yn ôl Sieffre o Fynwy, ar sofraniaeth Prydain, cf. BD 3.

7 **o waith** Am y cyfuniad yn golygu 'o achos, canys, am, oherwydd', &c. gw. GPC 1564 d.g. *gwaith*³. Ond tybed a yw *gwaith* yma i'w ddeall yn yr hen ystyr 'brwydr' (a chymryd bod *Henffordd* yn gyfeiriad at yr ardal y lleolir Mortimer's Cross ynddi)? Gw. *ib.* d.g. *gwaith*² 2(b). Nid oedd yr ystyr hon yn gyffredin yn y cyfnod hwn fel y buasai ym marddoniaeth y Gogynfeirdd.

Henffordd Ymladdwyd brwydr Mortimer's Cross 18 milltir i'r gogledd-orllewin o dref Henffordd a heb fod ymhell o Wigmore, castell Edward, dug Efrog. O gyfeiriad y dref honno y daeth byddin y dug i'r frwydr (gw. WWR² 76) ac yn Henffordd, ychydig ddyddiau ar ôl y frwydr, y dienyddiwyd Owain Tudur ar ôl ei gymryd yn garcharor ar faes y frwydr.

8 **Nordd** Gogledd Lloegr, nid Cymru, fel arfer yn y cyfnod hwn, gw. GPC 2596. Ond nid o ogledd Lloegr y daeth byddin plaid Iorc, fel yr esbonnir yn R.A. Griffiths, *The Reign of King Henry VI* (Stroud, 1981), 871, lle y disgrifir y fyddin fel 'a mixed force of Welshmen from the southern counties of the principality and Pembrokeshire, reinforced by some Irish, Bretons, and French'. Yn GDGor 7.76n awgrymwyd y gall *Nordd* olygu Lloegr yn gyffredinol, ac os felly tybed a ystyriai Ieuan lu'r Iorciaid yn y frwydr fel y llu Seisnig?

10 **awn dros hyn** Ai dweud y mae Ieuan Gethin iddo roi heibio ei ddieter tuag at ei elynion a throi (yn llau. 11–12) i gwyno am farwolaeth ei arglwydd Owain?

13 **bai rai** Treiglo'r goddr. sydd yn arferol mewn Cym.C. ar ôl *bai* (gw. Treigladau 199), a dyna sydd orau yma o ran y gynghanedd.

- 13–14 **darffai ... / ... am fab Maredudd** Am *darfod am 'to perish'*, gw. GPC 892 a cf. GGMD i, 3.164 *Darfu am ddraig llu llwyr orthrymder*. Cael ei ddiennyddio mewn amgylchiadau anarwrol a wnaeth Owain Tudur yn sgil ei gipio'n garcharor ar faes y frwydr, gw. y nodyn cefndir uchod. Byddai'n drist, meddai Ieuan Gethin yn llau. 13–16, petai Owain wedi marw yn y frwydr, ond byddai ei gŵyn ef yn llai (*Llai fasai fy llef isod*, ll. 16).
- 16 **fasai** Felly llsgrau. LO *fassai*; y ffurf safonol, heb ei chywastgu, *fuasai*, a geir yng ngweddill y llsgrau., sydd yn peri bod y ll. yn rhy hir. Cf. 3.27n ar *bysai*.
- 18 **iach** Ffurf amr. ar *ach* 'llinach', gw. GPC² 17 d.g. *ach*⁵.
- 20 **poen** Gallai olygu 'cosb' yn fwy penodol yma, gw. GPC 2839.
- 21 **annerth** Diffyg nerth, yn yr ystyr o anallu'r Cymry i weithredu (gan fod y Sais wedi penderfynu peidio â gofyn am bridwerth am einioes Owain).
- 22 **pe'i rhoddid ar werth** Y mae grym amodol i'r f.: petai'r gelyn wedi gofyn am dâl am einioes Owain, wedi codi pridwerth amdano, yna gellid bod wedi cael ei werth yn rhydd.
- 23–4 **rhôl Wynedd / O aur ei bwys ar y bedd** Cf. 8.39–40 *Addewais ar weddion / Ei bwys o aur er byw Siôn*. Am yr arfer o roddi'r hyn a gyfatebai i bwysau'r ymadawedig mewn aur ar ei fedd, cf. y disgrifiad canlynol gan Hywel Dafï o ferched yn offrymu i'r Grog bwysau Siôn Fychan mewn arian ar ei feddfaen, er lles ei enaid, Peniarth 67 XXIV.29–36 (diweddarwyd yr orgraff a'r atalnodi):
- Merched am fab y marchog
Yn offrwm ar grwm i'r Grog;
Ni fynnai'r Grog gael gogan
Werthu'r gŵr a nerthai'r gwan.
Er bod arian rhianedd
Fwy no'i bwys ar faen y bedd,
Ar ei fedd ni ryfeddwn
I Dduw a'i saint ddewis hwn!
- Awgrymir gan Ieuan fod gan wŷr Gwynedd feddwl mor uchel o Owain fel y byddent yn fodlon buddsoddi'n helaeth yn lles ei enaid drwy offrymu ei bwysau mewn aur ar ei fedd. Ond ei gŵyn yw'r ffaith na chawsant gyfle i wneud hynny. Ar *Gwynedd* 'trigolion Gwynedd, gwŷr Gwynedd', gw. GPC 1773.
- 26 **da brenin** Cf. 9.53n.
- 27 **peth amau** Yn llythrennol 'peth amheus', gan ddeall *amau* yn a. 'amheus, ansicr', &c., gw. GPC² 194 d.g. *amau*¹; cf. DG.net 62.8 *Amau o beth* 'peth petrus'. Y mae'n amheus a fyddai Sais wedi cymryd bywyd

Owain petai'r brenin (a oedd yn hanner brawd i blant Owain) wedi cael y cyfle i dalu pridwerth drosto.

nis maddeuwn Hynny yw, ni faddeuai Ieuan i Sais am ladd Owain. Posibilrwydd arall, o gymryd *maddau* yn yr ystyr 'gollwng, hepgor', &c., GPC 2303, yw deall na fyddai Ieuan wedi hepgor Owain petai wedi cael y cyfle i arbed ei fywyd.

30 **berw** Am ei ddefnydd am fwrlwm barddonol yn benodol, gw. GPC² 631 d.g. *berw*¹ (b).

31 **cad** Ffurf amhrs.grff.myn. y f. *cael*, cf. 3.38n.

32 **gŵr o Wynedd** Fe'i defnyddid yn gyffredin am y mab darogan yn y canu brud ac fe hanai Owain Tudur, wrth gwrs, o linach Penmynydd ym Môn. Cf. yn arbennig y llau. canlynol o gywydd moliant Lewys Glyn Cothi i Syr Rhys ap Tomas, GLGC 15.29–36:

O dir Gwynedd y darogenid
i dyrau Idwal y dôi rhydid;
dywod Hinynd Fardd doe tynnid—Sacson,
wedy un estron y'u dinistrid.

A geiriau o Fôn a 'sgrifennid,
y gŵr o Wynedd a goronid,
ac o ryw'r emprwyr ac o Ririd—Flaidd
o wraidd brenhinaidd Brân y'i henwid.

33–4 **rhoi galanas / Ydd wyf o frud Adda Fras** Ar *galanas*, gw. GPC 1373; ei ystyr arferol mewn cyd-destun cyfreithiol yw 'iawndal am lofruddiad', ond yn y farddoniaeth gall olygu 'gelyniaeth yn codi rhwng dau dylwyth pan leddir aelod o'r naill gan aelod o'r llall ...; lladdfa, cyflafan ... cythrwfl', &c. Ymddengys mai bygwth creu cythrwfl oherwydd methiant y math o frud a gysylltir ag Adda Fras a'i debyg a wna Ieuan.

34 **Adda Fras** Un o'r enwocaf o'r beirdd brud, a ganai yn y 13g. yn ôl pob tebyg, ac a gladdwyd yn ôl traddodiad yn abatya Maenan yn Nyffryn Conwy. Priodolwyd iddo ddaroganau o bob cyfnod ac fe'i henwir yn aml yn yr un gwynt â Myrddin (heb awgrymu, o reidrwydd, fod cyswllt rhyngddynt): cf. GG.net 42.51–2 *Awen Ferddin a'i farddawd*, / *Adda Fras oedd ef ar wawd*, 121.1–2 *Adda fras wylwas a elwyn*—*yn fardd*, / *Neu Ferddin Amhorfryn*. Ymhellach arno, gw. *ib.* 110.63n.

36 **Heinin Fardd** O bosibl yr un â Hinin Fardd, bardd brud a gysylltir yn aml â Myrddin a Thaliesin: ByCy Ar-lein *s.n. Hinin Fardd* '(1360?–1420?), awdur daroganau ... blodeuai tua diwedd y 14eg g.', a cf. GLGC 15.31–2 (a ddyfynnir uchod, ll. 32n). Priodolir nifer o gerddi brud iddo, nifer ohonynt yn LIGC 6209E (gw. MCF dan yr enw *Hinin*),

ond anodd penderfynu ar ei union gyfnod oherwydd natur amhendant llawer o'r brud. Gw. hefyd GLIBH 96–8 ar y bardd brud Heilyn Fardd, y bu cymysgu rhyngddo a Hinin/Heinin.

- 37 **yr hudawl** Sef y 'dewin, swynwr', disgrifiad o Fyrddin, y bardd brud y cyplysir ei enw yn aml â Thalesin (ll. 42). Fel yn achos Taliesin, ymddengys fod y cof am fardd hanesyddol a chymeriad chwedlonol ('Myrddin Wylt') wedi cymysgu yn y traddodiad; gw., e.e., E.I. Rowlands, 'Myrddin Wylt', LICy iv (1956–7), 118; TYP³ 458–62; R. Bromwich, 'Y Cynfeirdd a'r traddodiad Cymraeg', B xxii (1966–8), 30–7; A.O.H. Jarman, 'A oedd Myrddin yn fardd hanesyddol?', SC x/xi (1975–6), 182–97; N. Tolstoy, *The Quest for Merlin* (London, 1985). Gw. ymhellach lau. 38n a 39n.
- 38 **fu ar y pawl** Cyfeiria E.I. Rowlands, *art.cit.* 118–19, at ddihareb dywyll braidd ei hystyr a restrir gan John Davies, D (Diar) *Siarad cymmaint a Merddin ar bawl*; cf. GLM XII.19 *Merddin ar bigyn y bu*. Tyn Rowlands, *l.c.*, sylw hefyd at hanes Lailoken (cymeriad a gysylltir yn aml â'r Myrddin Wylt chwedlonol) yn cael ei daflu i afon Tweed a'i drywanu gan bawl cored, er nad yw hynny fel petai'n taflu goleuni ar ei huodledd. Gw. hefyd T. Jones, 'Myrddin ar bawl', LICy iv (1956–7), 179–80.
- 39 **mab lleian** Enw arall ar Fyrddin, hefyd *anap y lleian* (cf. *an y lleian* rhai o'r llsgrau. yma); esbonnir am rieni Myrddin yn y Brut, BD 101 (llau. 17–20), *Ac vynteu* [sef gwŷr llys Caerfyrddin] *a dywedassant na wydynt pa dat yr ganassei ef.* 'Y uam ynteu,' heb vwynt, 'yssyd uerch y urenhin Dyuet, ac yn y dref yma,' heb vynt, 'y mae yn uynaches ym plith mynachesseu ereill yn eglvys Bedyr.' Y mae'n ddigon posibl fod Ieuan Gethin yn credu bod y *mab lleian* a Myrddin (sef *yr hudawl* / ... *fu ar y pawl*, llau. 37–8) yn ddau fardd gwahanol.
- 42 **Taliesin** Fel bardd cerddi proffwydol ffyniannus yr ystyria Ieuan Gethin Daliesin yma. Am y cerddi yn Llyfr Taliesin a briodolir i'r bardd chwedlonol hwn, gw. M. Haycock, *Legendary Poems from the Book of Taliesin* (Aberystwyth, 2007), ac am y cerddi brud diweddarach a gysylltir â'i enw, gw. G.F. Gruffydd, 'Cerddi Taliesin: Ben Beirdd y Gorllewin' (Ph.D. Cymru [Bangor], 1995).
- 43 **darogan Owain** Sef proffwydo dyfodiad rhywun o'r enw Owain. Bu'r beirdd yn proffwydo dychweliad Owain ar hyd y blynyddoedd: boed yn Owain ab Urien, Owain Gwynedd, Owain Cyfeiliog, neu, fel a enwir gan Ieuan Gethin yma, Owain Lawgoch, Owain Glyndŵr neu Owain Tudur (llau. 47–9). Gw. EVW pennod IV *passim* a 155: 'Most of these poems ... seem to reflect the belief in the return of a traditional Owain, but in later times they were undoubtedly applied to various historical

personages.’

- 46 **calon y gwŷr** Ar *calon* ‘calonddid, gwroldeb, dewrder, hyder’, gw. GPC 394; fe’i defnyddir yma am y mab darogan, yr un sy’n rhoi gobraith a hyder i’r Cymry. Posibilrwydd arall yw deall *galon* yn ffurf l. *gâl* ‘gelyn’, a *galon y gwŷr* felly’n ddisgrifiad o’r Saeson; cf. At.I.37 *ymladd galon*.
- 47 **Owain dywysawg Lawgoch** Sef Owain ap Tomas ap Rhodri, gorwyr Llywelyn ap Gruffudd, y Llyw Olaf, a’r olaf yn llinach tywysogion Gwynedd. Ef, erbyn canol y 14g., oedd prif wrthrych gobethion y beirdd am waredigaeth rhag gorthrwm y Sais, a bu Gruffudd ap Maredudd, y Gogynfardd o Fôn, ac eraill yn edrych ymlaen at ei weld yn goresgyn Lloegr ac yn ymsefydlu’n *Cymru Frenin* ac yn *eurdrafn Prydain*, GGMD iii, 1.32, 82. Am drafodaeth gynhwysfawr ar yrfa Owain Lawgoch a’r traddodiadau diweddarach amdano, gw. A.D. Carr, *Owen of Wales: The End of the House of Gwynedd* (Cardiff, 1991).
- 48 **Owain y Glyn** Dyma ffurf arferol y beirdd ar enw Owain Glyndŵr a ddisgrifir yn aml ganddynt yn cludo gwaywffon neu gleddyf, cf. GLGC 17.39 *Owain y Glyn hen â’i gledd*, 187.21, 199.53; a chyda’r ll. hon, cf. yn arbennig GHC XXIII.22 *Owain y Glyn, onwayw glas*. Daeth Owain yn wrthrych gobraith yn y canu proffwydol yn fuan wedi ei farwolaeth c.1415, fel y gwelir o’r cyfeiriad canlynol ato ym marwnad Guto’r Glyn i Robert Trefor, 1452, a oedd yn berthynas i Owain Glyndŵr, GG.net 105.23–4 *Ceraint gwych ... / I’r gŵr a ddaw â’r gwared*. Gw. J.S.R. Phillips, ‘When did Owain Glyn Dŵr die?’, B xxiv (1970–2), 59–76, ac ymhellach ar Owain yn y farddoniaeth, gw. G.A. Williams, *Owain y Beirdd* (Aberystwyth, 1998); *id.*, ‘More than “skimble-skamble stuff”’: the medieval Welsh poetry associated with Owain Glyndŵr’, PBA 181 (2012), 1–33.

onwayw gloch Awgryma’r cyd-destun fod *cloch* i’w ddeall yn ffigurol am Owain Glyndŵr neu ei waywffon (*onwayw*). O estyn ychydig ar yr ystyr ffigurol ‘un sydd yn canmol neu gyhoeddi ar led’ a roddir yn GPC 502, gallwn ei ddeall am un sydd yn arwain ei bobl drwy eu galw (fel *cloch*) ynghyd. Posibilrwydd arall yw’r ystyr ‘gwobr, camp’ (yn enwol am Owain y pen-campwr), cf. OED Online *s.v. bell, n.*¹ ‘to bear the bell: to take the first place, to have foremost rank or position, to be the best’ *hefyd* ‘to bear or carry away the bell: to carry off the prize’ (cf. GPC 1130 d.g. *d[wyn] y gloch* (17g.), a gw. A. Breeze yn *Notes and Queries*, ccxxxvii (1992), 441–2).

- 50 **henw** Ffurf amr. ar *enw*, gydag *h-* anorganig, gw. Treigladau 464. Owain Tudur yw’r trydydd un ac iddo’r enw Owain.
- 51 **rheiny** Yma’n odli yn y gynghanedd sain â *felly*; gthg. *rheini* (yn odli â *ci*) yn 3.37n (ond bod y darlleniad yno’n betrus).
- rhwyd** Dichon mai at farwolaeth y cyfeirir; cf. GG.net 24.1–2 *Dawns o*

Bowls! Doe'n ysbeiliwyd, / Dwyn yr holl dynion i'r rhwyd.

- 52 **treiwyd** Amhrs.grff.myn. y f. *treio* 'cilio', &c. (o'r e. *trai*), a geir fel bf. gyflawn ac anghyflawn, gw. GPC 3578 d.g. *treiaf*¹.
- 55 **â dur** Torrwyd pen Owain yn Henffordd a'i roi ar groes y farchnad i'w arddangos, gw. nodyn R.A. Griffiths yn DNB Online *s.n. Tudor, Owen*. Dichon mai at fwyall ddur y cyfeirir yma felly.
- 56 **newid hoedl** Am yr ystyr '*to (cause to) die*', gw. GPC 2577 d.g. *newidiaf*.
- 57–8 **Siasbar a Harri, / Ei wŷr a'i fab** Disgwylid *Ei fab a'i wŷr*, gan mai Siasbar oedd mab Owain a Harri Tudur (fab Edmwnd) oedd ei wŷr: gw. yr achres uchod. Ond y mae'r bardd yn gaeth i ofynion y mydr!
- 59 **rhof a Mynwy** Llw: cf. GLGC 25.51–2 *Minnau fŷm, rhof a Mynwy, / ddewin hyd hyn uddunt hwy*.

Mynegai

- a¹ rh.pth.** 1.43, 53, 56, 2.1, 8, 11, 20, 32, &c. **a'm** 7.9, 8.16, 9.40; **a'th** 4.16, 6.5; **a'i** (g.) 1.22, 23, 2.39, 3.68, &c.; **a'i** (b.) 6.22, 74; **a'n** 1.3, 58
- a² cys.** 1.1, 51, 2.16, 25, 31, &c. **ac** 1.23, 2.40, 46, 3.13, &c.; **a'r** 1.9, 2.37, 38, 3.12, 14, &c.; **a'm** 2.63, 3.17, 7.38, 8.14(2), 17, 9.77 **a'th** 4.35, 36; **a'i** (g.) 2.21, 22, 3.15(2), 5.29, 30, 34(2), 35, 37, &c.; **a'i** (b.) 3.44, 6.24, 10.4
- â¹ ardd.** 2.8, 42, 5.48, 6.56, 58(2), 7.2, 9.88 **ag** 6.13; **â'r** 2.12, 38, 4.20, 5.39, 7.2, 52, 10.50; **â'm** 1.21, 23, 8.51; **â'th** 9.62, 63, 73; **â'i** (b.) 1.42, 3.40; **â'i** (g.) 1.60, 5.40
- â² gw. myned**
- abl** 1.34
- abwyd** 2.25n
- achlân** 1.63
- achos** 6.34
- achub** 3 *un.grff.myn.* **achubodd** 7.51
- achwyn** 7.49
- adain ll. adanedd** 3.26
- adar y to** 5.54
- adeilad amhrs.pres.dib. adeilier** 5.2
- adgas cmhr. adgasach** 7.53
- adlo** 4.4n
- adnabod** 3 *un.amhff.myn.* **adwaeniad** 9.25n
- ado** 7.55, 9.68
- adolwyn** 3.64
- adref** 7.48
- adwaeniad gw. adnabod**
- adwy** 2.51n
- addef** 8.45
- addo** 1 *un.grff.myn.* **addewais** 8.39; 1 *un.grb.myn.* **addawswn** 8.49
- addwyn** 1.40
- aed i ddiawl gw. diawl**
- ael** 2.46, 3.29, 6.16, 7.30
- afles** 7.19
- afllwydd** 9.47
- afrwydd** 9.47
- agos** 5.3n
- anghel** 8.30
- anghron** 7.60
- anghywir** 1.8
- angof** 3.55n
- ai** 7.27 **ai ... ai** 6.7–8, 70
- ail** 1.24n
- alaeth** 5.57
- allan** 1.64, 2.12
- allawr** 9.82n
- allt** 3.52n
- am** 1.22, 29, 31, 36, 2.5, 62, 3.33, 63, 5.19, 33, 6.69, 72, &c.; 1 *un. amdanaf* 7.6; 3 *un.g. amdanaw* 5.17 **amdano** 5.29; 3 *un.b. amdani* 9.36n, 88
- amau** 10.27n
- amen** 6.76n
- amod** 2.5n, 4.39, 9.7
- amryboeth** 7.38
- amwynt** 8.5
- anafus** 9.19
- anaml** 5.5n
- anffawd** 10.7
- anhalar** 9.39
- anheulo** 2 *un.pres.myn.* **anheuli** 9.39n
- anllywodraeth** 1.30
- annerth** 10.21
- anniwygadus** 7.24

- annod** 4.41n
annoeth 10.44
annos 3.38
anrhaith 8.50
anwadal *cmhr.* **anwadalach**
 10.17
anwahardd 10.9
anwar 9.5
anwych 3.57
anwylyd 2.63, 9.67
ap gw. **Gwyn ap Rhys**
ar 1.16, 20, 37, 39, 3.4(2), 16, 34,
 46, &c.; 3 *un.g.* **arnaw** 1.10 **arno**
 4.1; 3 *un.b.* **arni** 9.71 **erni** 7.16n
 (a gw. **ar ei thrydydd**, **ar ganol**,
ar hynt, **ar les**, **ar naid**, **ar ôl**, **ar**
werth, **baw ar ei chawl**, **i ar**)
arab 8.3, 27, 37
arall 1.52n, 7.10n
arddyrynir 7.16n
ar ei thrydydd 9.3n
aren 2.61
ar ganol 9.82
arglwydd 6.6, 9.43n
arglwyddes 9.16
argyweddol 10.3n
ar hyd: 'r **hyd** 5.24
ar hynt 7.13n
ar les 9.16, 65
ar naid 10.8
ar ôl 3.13
aros 4.8n, 8.7
ar werth 10.22n
arwydd 8.5; *ll.* **arwyddion**
 1.65n
at 1.62, 9.77; 3 *un.b.* **ati** 9.70
atal 1.28
athrist 8.43
athrod 1.35n
aur 6.13, 14, 8.40n, 10.24n
awch 1.63, 7.12
awdl 9.3n
awen 8.4
awenydd 9.31
awgrim 2.29n
awr 5.32; *ll.* **oriau** 4.32
ba gw. **pa**
bach 2.21, 28, 9.52; *cmhr.* **llai**
 3.27, 10.16, 39
bai¹ *e.* 7.1n, 30
bai² gw. **bod**
balch 1.61, 9.22, 80
banadl 9.41n
baner 3.16
banw 3.54
bardd 3.1, 7.15, 37, 9.65 (a gw.
Heinin Fardd); *ll.* **beirdd** 5.50
bargod 1.11n
bariaeth 6.54
barwn *ll.* **barwniaid** 1.50n
basai gw. **bod**
bath 7.28
baw 3.53
baw ar ei chawl 2.18n
bawiach 7.41
be gw. **pe**
bedw 7.4
bedd 6.8, 41, 9.23, 10.24n
bei gw. **pe**
beir gw. **bod**
bei rhôn gw. **perhôn**
bellach 6.51
berw 10.30n, 38
berwi 9.40
beth 5.20, 10.17 (a gw. **peth**)
bewn gw. **bod**
biliedu *amhrs.grff.myn.* **biliedwyd**
 1.25n
blaen 9.62 (a gw. **o flaen**, **ym**
mlaen)
blaidd 9.10
blew 7.42
blif 3.12n
blin 3.1n, 7.37, 9.62
blingoch 2.56
blodeuyn 1.6
blwng 9.10
bod 1.11, 2.5, 25, 53, 4.39, 7.18,

9.68, 10.15; *1 un.pres.myn.* **wyf**
 3.2n, 58, 4.5, 6.49, 63, 8.1, 16,
 10.10, 34, 58 **wy'** 6.29, 35, 64,
 8.34 **ydwyf** 10.9; *2 un.pres.myn.*
ydwyd 4.14; *3 un.pres.myn.* **mae**
 1.32, 47, 55, 4.5, 15, 5.1, 6.32, 51,
 69, 8.19, 20, 21, 22, 23, 24, 9.23,
 33n, 71, 87, 10.36, 53 **oes** 9.45,
 69 **sydd** 2.41, 6.71 **sy** 1.7, 6.14n,
 67, 9.18n, 29 **ydiw** 1.59 **ydyw**
